# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 26/01/2016

Cynnwys Contents

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

Cwestiwn Brys: Diogelu Plant yn Sir Benfro
Urgent Question: Safeguarding Children in Pembrokeshire

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2016
3. The Town and Country Planning (Fees for Applications, Deemed Applications and Site Visits) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

4. & 5. Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 a Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffïoedd) (Cymru) 2016
4. & 5. The Developments of National Significance (Specified Criteria and Prescribed Secondary Consents) (Wales) Regulations 2016 and the Developments of National Significance (Fees) (Wales) Regulations 2016

6. Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Esemptiadau, Apeliadau ac Arolygiadau) (Cymru) 2016
6. The Reservoirs Act 1975 (Exemptions, Appeals and Inspections) (Wales) Regulations 2016

7. & 8. Gorchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016 a Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016
7. & 8. The Regulation of Child Minding and Day Care (Wales) Order 2016 and the Child Minding and Day Care Exceptions (Wales) (Amendment) Order 2016

9. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Undebau Llafur y DU
9. Legislative Consent Motion on the UK Trade Union Bill

10. Trefn Ystyried y Gwelliannau ar gyfer Cyfnod 3 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
10. Order of Consideration of Amendments for Stage 3 of the Historic Environment (Wales) Bill

11. Cyfnod Pleidleisio
11. Voting Time

12. Dadl Cyfnod 3 ar Fil yr Amgylchedd (Cymru)
12. Stage 3 Debate on the Environment (Wales) Bill

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:31 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:31 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn Da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first item this afternoon is questions to the First Minister, and question 1 is Sandy Mewies.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf y prynhawn yma, a daw cwestiwn 1 gan Sandy Mewies.

### Cyflyrau Llygaid

### Eye Conditions

13:31 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i wella gwasanaethau triniaeth yn y gymuned ar gyfer pobl sy'n dioddef o gyflyrau llygaid, gan gynnwys dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig ag oedran? OAQ(4)2681(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on what support the Welsh Government is giving to improve community-based treatment services for people suffering from eye conditions, including wet age-related macular degeneration? OAQ(4)2681(FM)*

13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The new £400,000 investment establishes four wet AMD pathfinders in out-of-hospital settings, making it more convenient for people to access the right care, in the right place, at the right time. This will lead, over time, to a significant transfer of services away from hospitals into local communities.

Mae'r buddsoddiad newydd o £400,000 yn sefydlu pedwar cynllun braenaru ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig ag oedran mewn lleoliadau y tu allan i'r ysbyty, gan ei gwneud yn fwy cyfleus i bobl gael mynediad at y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn. Bydd hyn yn arwain, dros amser, at drosglwyddiad sylweddol o wasanaethau oddi wrth ysbytai i mewn i gymunedau lleol.

13:32 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. As the Chair of the cross-party group on vision loss, I'm sure we will all be welcoming this recent announcement; I certainly do. Moving services out of hospitals and into people's homes will help them enormously, especially as some of them are already suffering from significant sight loss. But, can I ask you, First Minister, after the results of the currently planned pilot schemes are published, does the Welsh Government intend to extend these schemes and support services, for example, for my constituents in Delyn, and across the rest of Wales?

Diolch. Fel Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar golli golwg, rwy'n siŵr y byddwn ni i gyd yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar hwn; rwyf i'n bendant yn ei groesawu. Bydd symud gwasanaethau allan o ysbytai ac i mewn i gartrefi pobl yn eu helpu'n enfawr, yn enwedig gan fod rhai ohonynt eisoes yn dioddef o golli golwg sylweddol. Ond, a gaf i ofyn i chi, Brif Weinidog, ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r cynlluniau arbrofol sydd yn yr arfaeth ar hyn o bryd, a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnig y cynlluniau a'r gwasanaethau cymorth hyn, er enghraifft, i'm hetholwyr i yn Nelyn, ac ar draws gweddill Cymru?

13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The overall aim of all four of the pathfinder pilot proposals is to establish a model, or models of care, that can potentially be replicated across other health board areas. Depending, of course, on what the evaluation tells us, the intention is very much that they are extended to other parts of Wales. There are currently over 40,000 people accessing wet AMD services in secondary care across Wales, and we anticipate moving a considerable number of these people into primary care for treatment via one or more of the pathfinder models.

Ydy. Nod cyffredinol pob un o'r pedwar cynnig braenaru arbrofol yw sefydlu model, neu fodelau o ofal, y gellir o bosibl eu hefelychu ar draws ardaloedd byrddau iechyd eraill. Gan ddibynnu, wrth gwrs, ar yr hyn y bydd y gwerthusiad yn ei ddweud wrthym, y bwriad yn sicr yw eu cynnig mewn rhannau eraill o Gymru. Mae dros 40,000 o bobl yn defnyddio gwasanaethau dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig ag oedran mewn gofal eilaidd ledled Cymru ar hyn o bryd, ac rydym ni'n rhagweld symud nifer sylweddol o'r bobl hyn i ofal sylfaenol ar gyfer triniaeth trwy un neu fwy o'r modelau braenaru.

13:33 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, 29 per cent of people within the Betsi Cadwaladr University Local Health Board do not have regular two-yearly eye tests, with one of the primary reasons given for this that they hadn't even thought about it, or didn't see the importance of it. Given the other serious eye conditions that can be detected during a routine eye test, how will you work, and your Government, to ensure that we have a better, improved uptake of regular eye tests?

Brif Weinidog, nid yw 29 y cant o bobl ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael profion llygaid rheolaidd bob dwy flynedd, ac un o'r prif resymau a roddwyd am hyn oedd nad oeddent wedi hyd yn oed meddwl am y peth, nad oeddent yn gweld ei bwysigrwydd. O ystyried y cyflyrau llygaid difrifol eraill y gellir eu canfod yn ystod prawf llygaid arferol, sut y gwnewch chi, a'ch Llywodraeth, weithio i sicrhau gwella fel bod mwy yn manteisio ar brofion llygaid rheolaidd?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

These things are important, as the Member has said. We are the first country in the world to have an eye care plan, and we encourage people to take regular eye tests, not just to test their eyesight, but, as the Member rightly points out, a number of conditions that are not only eye-related can actually be diagnosed via such an eye test. The eye care plan itself, of course, explains how we offer a holistic approach to people's eye health.

Mae'r pethau hyn yn bwysig, fel y mae'r Aelod wedi'i ddweud. Ni yw'r wlad gyntaf yn y byd i gael cynllun gofal llygaid, ac rydym ni'n annog pobl i gael profion llygaid rheolaidd, nid yn unig i brofi eu golwg, ond, fel y mae'r Aelod yn ei nodi'n gywir, gellir gwneud diagnosis o nifer o gyflyrau nad ydynt yn gysylltiedig â'r llygaid yn unig drwy brawf llygaid o'r fath. Mae'r cynllun gofal llygaid ei hun, wrth gwrs, yn esbonio sut yr ydym ni'n cynnig dull cyfannol o ymdrin ag iechyd llygaid pobl.

### Hemoffilia

### Haemophilia

13:34 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth iechyd i bobl sydd â hemoffilia yng Nghymru? OAQ(4)2685(FM)[R]*

*2. Will the First Minister make a statement on the health provision for people with haemophilia in Wales? OAQ(4)2685(FM)[R]*

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We continue to support services within the NHS and in the third sector to improve the lives of people with haemophilia. The Welsh Health Specialised Services Committee is working with health boards in undertaking service planning in various areas relating to the future provision of services.

Rydym ni'n parhau i gefnogi gwasanaethau yn y GIG ac yn y trydydd sector i wella bywydau pobl â hemoffilia. Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd i wneud gwaith cynllunio gwasanaethau mewn gwahanol feysydd yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

13:34 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the First Minister for that reply, and a lot of progress has been made in Wales with access to the new life-transforming drugs for people who've contracted hepatitis C, and the appointment of a hepatologist at the Heath. But there's still an ongoing problem with financial support for people with haemophilia, and the haemophilia community in Wales are deeply disappointed by the statement made by the Westminster Government, towards the end of last week, about changes to the support that is given to people with haemophilia—too little, too late, and not enough attention to dependants. So, will the First Minister personally approach the Westminster Government and speak up for the haemophilia community in Wales to try to get a better settlement, after such another blow to such a beleaguered community?

Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ateb yna, ac mae llawer o gynnydd wedi'i wneud yng Nghymru gyda mynediad at y cyffuriau newydd sy'n gweddnewid bywydau i bobl sydd wedi eu heintio gyda hepatitis C, a phenodi hepatolegydd yn y Mynydd Bychan. Ond ceir problem barhaus gyda chymorth ariannol i bobl â hemoffilia, ac mae'r gymuned hemoffilia yng Nghymru wedi'u siomi'n enfawr gan y datganiad a wnaed gan Lywodraeth San Steffan, tuag at ddiwedd yr wythnos diwethaf, ar newidiadau i'r cymorth a roddir i bobl â hemoffilia—rhy ychydig, yn rhy hwyr, a dim digon o sylw i ddibynyddion. Felly, a wnaiff y Prif Weinidog gysylltu â Llywodraeth San Steffan yn bersonol a siarad ar ran y gymuned hemoffilia yng Nghymru i geisio cael gwell setliad, ar ôl y fath ergyd arall i gymuned sydd mewn sefyllfa mor anodd?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I will, and I thank the Member for raising the issue with me. We know that a huge amount of progress has been made in terms of the treatment—or the management, rather—of haemophilia. She'll be aware, of course, of the additional money that was made available to treat hepatitis C for those who had contracted it. That was announced on 22 September. But she has asked me to raise an issue with the UK Government, and I'll be pleased to do so.

Gwnaf, mi wnaf, a diolchaf i'r Aelod am godi'r mater gyda mi. Rydym ni'n gwybod bod llawer iawn o gynnydd wedi'i wneud o ran y driniaeth—neu'r rheolaeth, yn hytrach—o hemoffilia. Bydd hi'n ymwybodol, wrth gwrs, o'r arian ychwanegol a roddwyd ar gael i drin hepatitis C i'r rhai a oedd wedi cael eu heintio ag ef. Cyhoeddwyd hwnnw ar 22 Medi. Ond mae hi wedi gofyn i mi godi mater gyda Llywodraeth y DU, a byddaf yn falch o wneud hynny.

### Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

### Questions Without Notice from the Party Leaders

13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders, and, first this afternoon, we have the leader of the opposition, Andrew R. T. Davies.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:36 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, tomorrow, the Welsh Conservatives have tabled a debate on the local government settlement, and, in particular, the inability to support rural councils, such as Powys, for example, against the 4 per cent cut that they're facing. In questions that the Minister for Public Services took a fortnight ago, he was unable to confirm whether the local government settlement was part of the overall budget agreement that you had agreed with the Liberal Democrats. Are you able to confirm whether you did have agreement that the local government settlement should have been supported along with the main budget?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, yfory, mae Ceidwadwyr Cymru wedi cyflwyno dadl ar y setliad llywodraeth leol, ac, yn benodol, yr analluu i gefnogi cynghorau gwledig, fel Powys, er enghraifft, yn erbyn y toriad o 4 y cant y mae'n ei wynebu. Yn ystod cwestiynau a dderbyniwyd gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus bythefnos yn ôl, nid oedd yn gallu cadarnhau a oedd y setliad llywodraeth leol yn rhan o'r cytundeb cyllideb cyffredinol yr oeddech chi wedi ei gytuno gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol. A allwch chi gadarnhau pa un a oedd gennych chi gytundeb y dylai'r setliad llywodraeth leol fod wedi cael ei gefnogi ynghyd â'r brif gyllideb?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, it's a matter, of course, between ourselves and the Liberal Democrats in terms of the budget agreement that's been struck. But we're confident that the local government settlement that will be announced as part of the draft budget in due course will be one that will be acceptable. I have to say, of course, to the leader of the opposition that his party's policy is to further cut local government spending, as, indeed, has happened in England.

Wel, mae'n fater, wrth gwrs, rhyngom ni a'r Democratiaid Rhyddfrydol o ran y cytundeb cyllideb sydd wedi ei daro. Ond rydym ni'n hyderus y bydd y setliad llywodraeth leol a fydd yn cael ei gyhoeddi yn rhan o'r gyllideb ddrafft maes o law yn un a fydd yn dderbyniol. Mae'n rhaid i mi ddweud, wrth gwrs, wrth arweinydd yr wrthblaid, mai polisi ei blaid ef yw torri gwariant llywodraeth leol ymhellach, fel, yn wir, sydd wedi digwydd yn Lloegr.

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, your answer was about as clear as mud. I think it's quite a legitimate question to ask—whether you or your Government was able to confirm whether it was part of the overall budget deal. Your public services Minister was unable to confirm that. That really does show the chaos and confusion at the heart of the Government when it comes to the budget.

Brif Weinidog, roedd eich ateb mor glir â mwd. Rwy'n credu ei fod yn gwestiwn digon dilys i'w ofyn—a oeddech chi neu eich Llywodraeth yn gallu cadarnhau pa un a oedd yn rhan o'r cytundeb cyllideb cyffredinol. Nid oedd eich Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus yn gallu cadarnhau hynny. Mae hynny wir yn dangos yr anhrefn a'r dryswch wrth galon y Llywodraeth pan ddaw i'r gyllideb.

When we look at education, for example, and, in particular, the Estyn report that's out today, it does show that, under 17 years of the leadership of the Labour Government here on education, there is still a marked contrast between the quality of teaching and learning. There is still a huge gap between the schools that are doing well and those that are not doing so good; the gap is still considerable. And there is a polarisation in the inspection outcomes for secondary schools. After 17 years of Labour running education here in Wales, do you not think this report is a damning indictment of your failure to improve outcomes in education?

Pan edrychwn ni ar addysg, er enghraifft, ac, yn arbennig, adroddiad Estyn a gyhoeddir heddiw, mae'n dangos, o dan 17 flynedd o arweinyddiaeth y Llywodraeth Lafur yma ar addysg, bod gwrthgyferbyniad amlwg o hyd rhwng ansawdd addysgu a dysgu. Ceir bwlch enfawr o hyd rhwng yr ysgolion sy'n gwneud yn dda a'r rhai nad ydynt yn gwneud cystal; mae'r bwlch yn dal i fod yn sylweddol. Ac mae polareiddiad yn y canlyniadau arolwg i ysgolion uwchradd. Ar ôl 17 flynedd o Lafur yn rhedeg addysg yma yng Nghymru, onid ydych chi'n credu bod yr adroddiad hwn yn feirniadaeth ddamniol o'ch methiant i wella canlyniadau ym maes addysg?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I have to say to the leader of the opposition that what is agreed between ourselves and the Liberal Democrats is a matter for us. If he'd wanted to approach us with some kind of proposal, then that's a matter for him. He can't complain in those circumstances.

Mae'n rhaid i mi ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid bod yr hyn a gytunwyd rhyngom ni a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn fater i ni. Pe byddai wedi bod eisiau cysylltu â ni gyda rhyw fath o gynnig, yna mae hwnnw'n fater iddo ef. Ni all achwyn o dan yr amgylchiadau hynny.

I bet he hasn't read the Estyn report, because let me remind him what's actually in it. The levels of excellence in primary schools have risen from 8 per cent to 18 per cent over the last five years. The levels of schools displaying some excellence in secondary have risen from 23 per cent to 38 per cent over five years. The levels of basic literacy and numeracy are improving. The gap between deprived pupils and their peers showed the biggest closing of the gap in recent years this year, allied to a renewed focus through the pupil deprivation grant. Improvements have been seen this year across the foundation stage and key stages 2 and 3. The best GCSE results ever, level 2 inclusive, up 2.5 per cent to 57.9 per cent, and 69.7 per cent achieved A* to C—[Interruption.]. You shouldn't have asked the question if you didn't want the answer. Some 69.7 per cent achieved A* to C in English or Welsh, up 2.5 per cent; 64.4 per cent achieved A* to C in maths, up 2.7 per cent. In addition, we are building and improving schools—over 150 schools across Wales—through the twenty-first century schools programme, and we are proud of what we're doing.

Rwy'n siŵr nad yw wedi darllen adroddiad Estyn, oherwydd gadewch i mi ei atgoffa o'r hyn sydd ynddo mewn gwirionedd. Mae lefelau rhagoriaeth mewn ysgolion cynradd wedi codi o 8 y cant i 18 y cant dros y pum mlynedd diwethaf. Mae lefelau'r ysgolion sy'n dangos rhywfaint o ragoriaeth yn y cyfnod uwchradd wedi codi o 23 y cant i 38 y cant dros bum mlynedd. Mae lefelau llythrennedd a rhifedd sylfaenol yn gwella. Caewyd mwy ar y bwlch rhwng disgyblion difreintiedig a'u cyfoedion eleni nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â phwyslais o'r newydd drwy'r grant amddifadedd disgyblion. Gwelwyd gwelliannau eleni ar draws y cyfnod sylfaen a chyfnodau allweddol 2 a 3. Y canlyniadau TGAU gorau erioed, hyd at ac yn cynnwys lefel 2, i fyny 2.5 y cant i 57.9 y cant, a chyflawnodd 69.7 y cant raddau A* i C—[Torri ar draws.]. Ni ddylech chi fod wedi gofyn y cwestiwn os nad oeddech chi eisiau'r ateb. Cyflawnodd tua 69.7 y cant raddau A* i C yn y Saesneg neu'r Gymraeg, i fyny 2.5 y cant; cyflawnodd 64.4 y cant raddau A* i C mewn mathemateg, i fyny 2.7 y cant. Hefyd, rydym ni'n adeiladu ac yn gwella ysgolion—dros 150 o ysgolion ledled Cymru—trwy raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, ac rydym ni'n falch o'r hyn yr ydym ni'n ei wneud.

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The fact is, when you internationally benchmark education here in Wales, when you look at the gap between other parts of the United Kingdom, where there have been huge improvements, of pupils being taught in schools with far greater achievements than the direction your Government has set for schools here in Wales, we are still lagging behind other parts of the United Kingdom and other parts of Europe, and this report clearly shows this.

Y ffaith yw, pan fyddwch chi'n meincnodi addysg yma yng Nghymru yn rhyngwladol, pan edrychwch chi ar y bwlch rhwng rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, lle bu gwelliannau enfawr, o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgolion â chyflawniadau llawer mwy na'r cyfeiriad y mae eich Llywodraeth chi wedi ei bennu ar gyfer ysgolion yma yng Nghymru, rydym ni'n dal i fod ymhell y tu ôl i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig a rhannau eraill o Ewrop, ac mae'r adroddiad hwn yn dangos hyn yn eglur.

But, also, another report that is out today is the Public Accounts Committee report into the regeneration investment fund for Wales and the sell-off of land that the Welsh Government held on behalf of the Welsh people. And when you look at the sums involved, the sums are actually astronomical. When you look at the land in Rhoose, for example, sold for £1.8 million and then selling to developers for £10 million to build houses on. When you look at the Lisvane land: selling for £2 million and now having a value of £37 million. And you also look at the land in Abergele, which was sold for £100,000: again, several millions pounds that piece of land was sold for as well. This is all land that has been lost, money that has been lost, to the Welsh purse to invest in regeneration and public services the length and breadth of Wales. Do you not think that that is a damning indictment of the way that your Government and your Ministers account to the Welsh people for looking after their assets and disposing of them in such a cavalier fashion?

Ond, hefyd, adroddiad arall a gyhoeddir heddiw yw adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio a'r gwerthu tir a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar ran pobl Cymru. A phan edrychwch chi ar y symiau dan sylw, mae'r symiau wir yn aruthrol. Pan edrychwch ar y tir yn y Rhŵs, er enghraifft, a werthwyd am £1.8 miliwn, ac yna'n cael ei werthu i ddatblygwyr am £10 miliwn i adeiladu tai arno. Pan edrychwch ar y tir yn Llys-faen: yn gwerthu am £2 filiwn ac â gwerth o £37 miliwn erbyn hyn. Ac rydych chi hefyd yn edrych ar y tir yn Abergele, a werthwyd am £100,000: unwaith eto, gwerthwyd y darn hwnnw o dir am filiynau lawer o bunnoedd hefyd. Mae hwn i gyd yn dir sydd wedi ei golli, arian sydd wedi ei golli, i bwrs Cymru i fuddsoddi mewn adfywio a gwasanaethau cyhoeddus ar hyd a lled Cymru. Onid ydych chi'n credu bod hynny'n feirniadaeth ddamniol o'r ffordd y mae eich Llywodraeth a'ch Gweinidogion yn atebol i bobl Cymru am ofalu am eu hasedau a chael gwared arnynt mewn modd mor drahaus?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I'm not surprised the leader of the opposition moved on very quickly from education after his utter failure to convince the people of Wales of what he sees as failings in the Welsh education system. The Estyn report says quite the opposite, if he read it. The situation in England is an unaccountable mess, where nobody seems to be accountable for school progress. We in Wales are seeing progress improving in our schools. That is not the case in England. We are building schools. You dropped the schools building programme in England. You're not building schools in England. You dropped it. And I've no doubt that if ever you came anywhere near the reins of power in Wales you would stop building schools in Wales and improving schools in Wales, because you have no real stake in the Welsh education system.

Nid wyf yn synnu bod arweinydd yr wrthblaid wedi symud ymlaen yn gyflym iawn o addysg ar ôl ei fethiant llwyr i argyhoeddi pobl Cymru am yr hyn y mae'n ei ystyried fel methiannau yn y system addysg yng Nghymru. Mae adroddiad Estyn yn dweud yn gwbl i'r gwrthwyneb, pe byddai'n ei ddarllen. Mae'r sefyllfa yn Lloegr yn llanast anatebol, lle mae'n ymddangos nad oes neb yn atebol am gynnydd ysgolion. Rydym ni yng Nghymru yn gweld cynnydd yn gwella yn ein hysgolion. Nid yw hynny'n wir yn Lloegr. Rydym ni'n adeiladu ysgolion. Diddymwyd y rhaglen adeiladu ysgolion gennych chi yn Lloegr. Nid ydych chi'n adeiladu ysgolion yn Lloegr. Fe'i diddymwyd gennych. Ac nid oes gen i unrhyw amheuaeth, pe byddech chi fyth yn dod yn agos at awenau grym yng Nghymru, y byddech chi'n rhoi'r gorau i adeiladu ysgolion yng Nghymru a gwella ysgolion yng Nghymru, gan nad oes gennych chi unrhyw gyfran wirioneddol yn system addysg Cymru.

Let me turn to the issue that you raise with regard to RIFW. It is correct to say that the way that RIFW was managed fell well below the standards we would expect as a Government, and for that we are sorry. It is true to say that the concept was good, but the delivery was flawed. And, of course, as Members deserve, the Government will give a full response to the report itself, which does raise serious issues, we acknowledge, in the proper course of time.

Gadewch i mi droi at y mater yr ydych chi'n ei godi o ran CBCA. Mae'n gywir dweud bod y ffordd y rheolwyd CBCA yn llawer is na'r safonau y byddem yn eu disgwyl fel Llywodraeth, ac mae'n ddrwg gennym ni am hynny. Mae'n wir i ddweud bod y cysyniad yn dda, ond roedd y ddarpariaeth yn ddiffygiol. Ac, wrth gwrs, fel y mae'r Aelodau'n haeddu, bydd y Llywodraeth yn rhoi ymateb llawn i'r adroddiad ei hun, sydd yn codi materion difrifol, rydym ni'n cydnabod, ar ôl cyfnod priodol o amser.

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. First Minister, universities and higher education institutions are the backbone not only of our economy, but of our entire country. In your draft budget, you are proposing what is, in effect, a £41 million cut to Welsh university funding. Last week, we had the devastating news about job losses at Tata Steel. Now, there is every possibility that the job losses facing higher education could be greater in number than those announced by Tata last week, and they will impact on almost every community throughout the country. Have you made any assessment as to the number of job losses as a result of that cut?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, prifysgolion a sefydliadau addysg uwch yw asgwrn cefn, nid yn unig ein heconomi, ond ein gwlad gyfan. Yn eich cyllideb ddrafft, rydych chi'n cynnig yr hyn sydd, i bob pwrpas, yn doriad o £41 miliwn i gyllid prifysgolion Cymru. Yr wythnos diwethaf, cawsom y newyddion trychinebus am golli swyddi yn Tata Steel. Nawr, mae'n gwbl bosibl y gallai'r colledion swyddi sy'n wynebu addysg uwch yn fwy mewn nifer na'r rhai a gyhoeddwyd gan Tata yr wythnos diwethaf, a byddant yn effeithio ar bron bob cymuned ledled y wlad. A ydych chi wedi gwneud unrhyw asesiad o ran nifer y swyddi a gaiff eu colli o ganlyniad i'r toriad hwnnw?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I don't accept that there need to be any job losses. The total income of HE in Wales in one year is £1.3 billion, and so £40 million, although a substantial amount of money, is a small percentage of the total income of HE in Wales. Secondly, we know that many HE institutions have substantial reserves—up to £100 million, and maybe beyond in the case of some of them. We know that further education colleges had difficulties last year, and we understood that and we listened and we made sure this year the situation was easier for them. It's important that people understand, of course, that we've had a cut in our budget. The leader of Plaid Cymru will have heard me say that on many occasions. But HE institutions are far more robust in terms of their reserves, in terms of the income that they can attract. Yes, we will listen to them, of course, but, nevertheless, I think it has to be put in the context of what their overall income is.

Nid wyf yn derbyn y bydd angen colli unrhyw swyddi. £1.3 biliwn yw cyfanswm incwm AU yng Nghymru mewn blwyddyn, ac felly canran fach, er ei dod yn swm sylweddol o arian, yw £40 miliwn o gyfanswm incwm AU yng Nghymru. Yn ail, rydym ni'n gwybod bod gan lawer o sefydliadau AU gronfeydd sylweddol wrth gefn—hyd at £100 miliwn, ac efallai y tu hwnt yn achos rhai ohonynt. Rydym ni'n gwybod bod colegau addysg bellach wedi cael anawsterau y llynedd, ac roeddem ni'n deall hynny a gwrandawyd arnynt gan wneud yn siŵr eleni bod y sefyllfa'n haws iddynt. Mae'n bwysig bod pobl yn deall, wrth gwrs, ein bod wedi cael toriad i'n cyllideb. Bydd arweinydd Plaid Cymru wedi fy nghlywed i'n dweud hynny ar sawl achlysur. Ond mae sefydliadau AU yn llawer mwy cadarn o ran eu cronfeydd wrth gefn, o ran yr incwm y gallant ei ddenu. Byddwn, mi fyddwn yn gwrando arnyn nhw, wrth gwrs, ond, serch hynny, rwy'n credu bod yn rhaid ei roi yng nghyd-destun beth yw eu hincwm cyffredinol.

13:43 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm staggered that you've made no assessment as to the potential job losses as a result of this cut. And there will be a cut: there is a reduction in the Higher Education Funding Council for Wales's budget, according to your own figures, from £129 million this year to £88 million next year. That cut could translate to a 40 per cent cut to research funding, and that is according to HEFCW. That will not only result in job losses, but it will also put Welsh universities at a competitive disadvantage when it comes to research. Now, First Minister, this cut means that you will be spending more money on universities outside of Wales than you will be spending on the entire HEFCW budget. Are you prepared to confirm that that is the case?

Rwyf wedi fy syfrdanu nad ydych chi wedi gwneud unrhyw asesiad ynghylch y posibilrwydd o golli swyddi o ganlyniad i'r toriad hwn. Ac mi fydd toriad: mae gostyngiad i gyllideb Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yn ôl eich ffigurau chi eich hun, o £129 miliwn eleni i £88 miliwn y flwyddyn nesaf. Gallai hynny gyfateb i doriad o 40 y cant i arian ymchwil, ac mae hynny yn ôl CCAUC. Bydd hynny nid yn unig yn arwain at golli swyddi, ond bydd hefyd yn rhoi prifysgolion Cymru o dan anfantais gystadleuol pan ddaw i waith ymchwil. Nawr, Brif Weinidog, mae'r toriad hwn yn golygu y byddwch yn gwario mwy o arian ar brifysgolion y tu allan i Gymru nag y byddwch yn ei wario ar gyllideb gyfan CCAUC. A ydych chi'n barod i gadarnhau bod hynny'n wir?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I do not accept that there need to be any job losses—any job losses—as a result of what has been proposed. Universities have substantial reserves. Other organisations are expected to draw on those reserves and I fail to see why universities should be treated differently. That said, we will listen to any case that they will make, but they have to accept that many sectors have found it difficult. They cannot be immune to the cuts that we are seeing from the UK Government. And bear in mind that their total income is far, far higher, for example, than the income that exists for FE colleges.

Nid wyf yn derbyn y bydd angen colli unrhyw swyddi—unrhyw swyddi—o ganlyniad i'r hyn a gynigiwyd. Mae gan brifysgolion gronfeydd wrth gefn sylweddol. Disgwylir i sefydliadau eraill ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn hynny ac ni allaf weld pam y dylai prifysgolion gael eu trin yn wahanol. Wedi dweud hynny, byddwn yn gwrando ar unrhyw achos y byddant yn ei wneud, ond mae'n rhaid iddyn nhw dderbyn bod llawer o sectorau wedi ei chael hi'n anodd. Ni allant hwy fod yn ddiogel rhag y toriadau yr ydym ni'n eu gweld gan Lywodraeth y DU. A chofiwch fod cyfanswm eu hincwm yn llawer, llawer uwch, er enghraifft, na'r incwm sy'n bodoli ar gyfer colegau addysg bellach.

Now, turning to the point the leader of Plaid Cymru makes, which is that she wants to stop paying the tuition fees of those students from Wales who choose to study in England—which is her party's policy—I do not support that in principle. I think it's important that money follows Welsh students. I think HE institutions in Wales must compete for Welsh students, rather than having them delivered on a plate. I think it's important that Welsh students have a choice. For example, if they have the opportunity to go to Oxford or Cambridge, they should have the chance to have that opportunity. If they want to study courses that aren't available in Wales, then why should they be penalised financially for the fact that they would then have to pay three times as much as they do now? So, no, I would not support a situation where we should look at crudely cutting back on the tuition fee support that is available to students from Wales who choose to study outside Wales.

Nawr, gan droi at y pwynt y mae arweinydd Plaid Cymru yn ei wneud, sef ei bod hi eisiau rhoi'r gorau i dalu ffioedd dysgu'r myfyrwyr hynny o Gymru sy'n dewis astudio yn Lloegr—sef polisi ei phlaid—nid wyf yn cefnogi hynny mewn egwyddor. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig bod arian yn dilyn myfyrwyr o Gymru. Rwy'n credu bod yn rhaid i sefydliadau AU yng Nghymru gystadlu am fyfyrwyr o Gymru, yn hytrach na'u cael nhw ar blât. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod gan fyfyrwyr o Gymru ddewis. Er enghraifft, os oes cyfle iddyn nhw fynd i Rydychen neu i Gaergrawnt, dylen nhw gael y cyfle i fanteisio ar y cyfle hwnnw. Os ydyn nhw eisiau astudio cyrsiau nad ydynt ar gael yng Nghymru, yna pam ddylen nhw gael eu cosbi'n ariannol am y ffaith y byddai'n rhaid wedyn iddyn nhw dalu tair gwaith cymaint ag y maen nhw'n ei wneud nawr? Felly, na fyddwn, ni fyddwn yn cefnogi sefyllfa lle byddem ni'n ystyried torri'n ôl yn ddifeddwl ar y cymorth ffioedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr o Gymru sy'n dewis astudio y tu allan i Gymru.

13:46

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, you are sounding very complacent, and this questioning session is not about Plaid Cymru's policy—we will have plenty of opportunity to discuss Plaid Cymru's policy. This is my opportunity to question you about your policy. First Minister, it is without dispute that you will spend over £90 million on funding universities outside of Wales. For the first time ever—for the first time ever—that will be more than the entire HEFCW budget. First Minister, what is clear is that you have no policy beyond the Diamond review. You haven't confirmed what you will do for student support. The only thing that you have confirmed is that you want to make this £41 million cut, which is a cut of 32 per cent to Welsh universities. Do you have any intention of being open and transparent with people about your intentions for higher education before the election next May, and will you start that process by reversing this cut to HEFCW?

Brif Weinidog, rydych chi'n swnio'n hunanfodlon iawn, ac nid yw'r sesiwn holi hon yn ymwneud â pholisi Plaid Cymru —byddwn yn cael digon o gyfle i drafod polisi Plaid Cymru. Fy nghyfle i i'ch holi am eich polisi chi yw hwn. Brif Weinidog, nid oes unrhyw ddadl am y ffaith y byddwch chi'n gwario dros £90 miliwn ar ariannu prifysgolion y tu allan i Gymru. Am y tro cyntaf erioed—am y tro cyntaf erioed—bydd hynny'n fwy na chyllideb gyfan CCAUC. Brif Weinidog, yr hyn sy'n eglur yw nad oes gennych unrhyw bolisi y tu hwnt i adolygiad Diamond. Nid ydych chi wedi cadarnhau'r hyn y byddwch chi'n ei wneud ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Yr unig beth yr ydych chi wedi ei gadarnhau yw eich bod chi eisiau gwneud y toriad hwn o £41 miliwn, sy'n doriad o 32 y cant i brifysgolion Cymru. A oes gennych chi unrhyw fwriad o fod yn agored a thryloyw gyda phobl am eich bwriadau ar gyfer addysg uwch cyn yr etholiad fis Mai nesaf, ac a wnewch chi gychwyn y broses honno trwy wrthdroi'r toriad hwn i CCAUC?

13:47

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, can I say, the leader of Plaid Cymru suggests that, somehow, I am not answering her questions? I am; she just doesn't like the answers. The reality is that she dresses up her argument that we are funding universities in England to the tune of £90 million. We are funding Welsh students —we are funding Welsh students. What she objects to— and it's a matter for her party—is that we should fund Welsh students outside Wales. That is what she objects to. Now, I do not agree with that position. I don't think that it's right for students in Wales to have to pay £9,000 a year in tuition fees, just like in England. I do not accept that. Secondly, I do not accept that students in Wales should be penalised because they study outside Wales or study courses that aren't available in Wales. So, she tries to suggest that this is money we're somehow giving to universities in England. We are giving money to Welsh students to study and escape the level of debt that their colleagues, unfortunately, in England face when they leave college. [Interruption.]

Wel, a gaf i ddweud, mae arweinydd Plaid Cymru yn awgrymu, rywsut, nad wyf yn ateb ei chwestiynau? Mi ydwyf; ond mae'n amlwg nad yw hi'n hoffi'r atebion. Y gwir amdani yw ei bod hi'n cyflwyno ei dadl ein bod yn ariannu prifysgolion yn Lloegr am gost o £90 miliwn. Rydym ni'n ariannu myfyrwyr o Gymru—rydym ni'n ariannu myfyrwyr o Gymru. Yr hyn y mae'n ei wrthwynebu—ac mae'n fater i'w phlaid—yw ein bod yn ariannu myfyrwyr o Gymru y tu allan i Gymru. Dyna'r hyn y mae'n ei wrthwynebu. Nawr, nid wyf yn cytuno â'r safbwynt hwnnw. Nid wyf yn credu ei bod yn iawn i fyfyrwyr yng Nghymru orfod talu £9,000 y flwyddyn mewn ffioedd dysgu, yn union fel yn Lloegr. Nid wyf yn derbyn hynny. Yn ail, nid wyf yn derbyn y dylai myfyrwyr yng Nghymru gael eu cosbi oherwydd eu bod yn astudio y tu allan i Gymru neu'n astudio cyrsiau nad ydynt ar gael yng Nghymru. Felly, mae hi'n ceisio awgrymu bod hwn rywsut yn arian yr ydym ni'n ei roi i brifysgolion yn Lloegr. Rydym ni'n rhoi arian i fyfyrwyr o Gymru i astudio a dianc rhag lefel y ddyled y mae eu cyd-fyfyrwyr yn Lloegr, yn anffodus, yn ei wynebu pan fyddant yn gadael y coleg. [Torri ar draws.]

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Diolch. Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, today's Estyn report does demonstrate that schools displaying some elements of excellence are improving, which is good news indeed. But the number of schools that are viewed as 'unsatisfactory' has also increased. The report challenges you and local authorities to identify and support schools that are struggling sooner and earlier. Could you outline how you will address that point?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, mae adroddiad Estyn heddiw yn dangos bod ysgolion sy'n arddangos rhai elfennau o ragoriaeth yn gwella, sy'n newyddion da yn wir. Ond mae nifer yr ysgolion sy'n cael eu hystyried yn 'anfoddhaol' hefyd wedi cynyddu. Mae'r adroddiad yn eich herio chi ac awdurdodau lleol i nodi a chynorthwyo ysgolion sy'n cael trafferth ynghynt ac yn gynharach. A allwch chi amlinellu sut y byddwch yn rhoi sylw i'r pwynt hwnnw?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Schools Challenge Cymru, of course, is the way that we have dealt with that. We're seeing some very good improvements across the sector in those that are part of the scheme. Tonyrefail community—Tonypandy, I beg your pardon; I look at the Member for Rhondda and know that Tonyrefail is not in the Rhondda. Tonypandy community school, for example, has seen an incredible improvement in performance in just one year. So, from our point of view, we have put money into those schools that we believe are not up to the standard we would expect and we are seeing results in terms of their performance. There is a challenge for local authorities. They deliver education on the ground. I am glad to see that there are fewer local authorities that are the subject of special measures, and that will help to strengthen consistency across Wales.

Gallaf. Her Ysgolion Cymru, wrth gwrs, yw'r ffordd yr ydym ni wedi ymdrin â hynny. Rydym ni'n gweld rhai gwelliannau da iawn ar draws y sector yn y rhai sy'n rhan o'r cynllun. Cymuned Tonyrefail—Tonypandy, mae'n ddrwg gen i; rwy'n edrych ar yr Aelod dros y Rhondda ac yn gwybod nad yw Tonyrefail yn y Rhondda. Mae ysgol gymuned Tonypandy, er enghraifft, wedi gweld gwelliant anhygoel i berfformiad mewn blwyddyn yn unig. Felly, o'n safbwynt ni, rydym ni wedi rhoi arian i mewn i'r ysgolion hynny y credwn nad ydynt yn cyrraedd y safon y byddem yn ei ddisgwyl ac rydym ni'n gweld canlyniadau o ran eu perfformiad. Mae her i awdurdodau lleol. Maen nhw'n darparu addysg ar lawr gwlad. Rwy'n falch o weld bod llai o awdurdodau lleol sy'n destun mesurau arbennig, a bydd hynny'n helpu i gryfhau cysondeb ledled Cymru.

13:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

But Schools Challenge Cymru only assists a limited number of schools, and there are schools that have been put into special measures since Schools Challenge Cymru was invented and implemented that don't get any additional support at all, and those are schools that have been identified by Estyn as struggling. So, the question is: why do those schools not receive support under Schools Challenge Cymru and schools that are not in special measures potentially do? The report also says that initiatives—and there's been a lot of those—are only as good as the people who implement them. What are you doing as a Government to foster strong leadership, excellent teaching and high aspirations at all our schools? Would you agree with me it's time to establish a Welsh academy of leadership to promote high-quality school leadership and help the best leaders to work in the most challenging schools?

Ond dim ond nifer gyfyngedig o ysgolion y mae Her Ysgolion Cymru yn eu cynorthwyo, a cheir ysgolion a wnaed yn destun mesurau arbennig ers creu a gweithredu Her Ysgolion Cymru nad ydynt yn cael unrhyw gymorth ychwanegol o gwbl, ac mae'r rheini'n ysgolion y nodwyd gan Estyn eu bod mewn trafferthion. Felly, y cwestiwn yw: pam nad yw'r ysgolion hynny yn cael cymorth o dan Her Ysgolion Cymru ac mae ysgolion nad ydynt yn destun mesurau arbennig o bosibl yn ei dderbyn? Mae'r adroddiad hefyd yn dweud nad yw mentrau—a bu llawer o'r rheini—ond cystal â'r bobl sy'n eu rhoi ar waith. Beth ydych chi'n ei wneud fel Llywodraeth i feithrin arweinyddiaeth gref, addysgu rhagorol a dyheadau uchel yn ein holl ysgolion? A fyddech chi'n cytuno â mi ei bod yn amser sefydlu academi arweinyddiaeth yng Nghymru i hyrwyddo arweinyddiaeth ysgolion o ansawdd uchel a helpu'r arweinwyr gorau i weithio yn yr ysgolion mwyaf heriol?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We're seeing examples of that across Wales as it is. Schools Challenge Cymru is an example of where that does happen —where leadership changes in schools in order for schools to improve. The local education authorities have the initial responsibility for helping schools. They need to identify schools quickly and make sure that help is made available to those schools in a timely manner. It's for them, of course, to provide that help. Yes, it is for us, of course, to provide help through schemes such as Schools Challenge Cymru, and we have done that. I have to say that it would be more useful for us as a Government, in terms of providing training and in terms of providing a good package for teachers, if we had control over teachers' pay and conditions. There's no question about that. We can't control the employment of supply teachers, we can't control teachers' pay and conditions and we can't control, for example, things like in-service training days. So, from our point of view, being able to deliver a proper package in terms of pay, conditions, leadership—I think we could deliver a more comprehensive package, even on top of what we deliver at the moment through schemes such as Schools Challenge Cymru.

Rydym ni'n gweld enghreifftiau o hynny ledled Cymru fel y mae hi. Mae Her Ysgolion Cymru yn enghraifft o lle mae hynny yn digwydd—lle ceir newidiadau i arweinyddiaeth mewn ysgolion er mwyn i ysgolion wella. Yr awdurdodau addysg lleol sydd â'r cyfrifoldeb cychwynnol am helpu ysgolion. Mae angen iddyn nhw nodi ysgolion yn gyflym a gwneud yn siŵr bod cymorth ar gael i'r ysgolion hynny yn brydlon. Eu cyfrifoldeb nhw, wrth gwrs, yw darparu'r cymorth hwnnw. Ie, ein cyfrifoldeb ni, wrth gwrs, yw darparu cymorth trwy gynlluniau fel Her Ysgolion Cymru, ac rydym ni wedi gwneud hynny. Mae'n rhaid i mi ddweud y byddai'n fwy defnyddiol i ni fel Llywodraeth, o ran darparu hyfforddiant ac o ran darparu pecyn da i athrawon, pe byddai gennym reolaeth dros gyflogau ac amodau athrawon. Nid oes amheuaeth am hynny. Ni allwn reoli cyflogaeth athrawon cyflenwi, ni allwn reoli cyflogau ac amodau athrawon ac ni allwn reoli, er enghraifft, pethau fel diwrnodau hyfforddiant mewn swydd. Felly, o'n safbwynt ni, mae gallu darparu pecyn priodol o ran cyflog, amodau, arweinyddiaeth—rwy'n meddwl y gallem ni ddarparu pecyn mwy cynhwysfawr, hyd yn oed ar ben yr hyn yr ydym ni'n ei ddarparu ar hyn o bryd trwy gynlluniau fel Her Ysgolion Cymru.

13:51 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

With all due respect, First Minister, you may have had the opportunity to have those powers if Owen Smith hadn't sat in a meeting with me, you and other people in this room and objected wholeheartedly to teachers' pay and conditions being devolved. The one startlingly good piece of news in this report, which you referred to earlier in your answer to Andrew R.T. Davies, is the closing of the gap between those pupils from our most deprived backgrounds who qualify for free school meals and those who don't. Would you agree with me, First Minister, that the outstanding success policy in education over the last couple of years has indeed been the introduction of the pupil deprivation grant, one that the Liberal Democrats had to persuade you to introduce?

Gyda phob dyledus barch, Brif Weinidog, efallai y byddech chi wedi cael y cyfle i gael y pwerau hynny pe na byddai Owen Smith wedi eistedd mewn cyfarfod gyda mi, chi a phobl eraill yn yr ystafell hon a gwrthwynebu datganoli cyflogau ac amodau athrawon yn frwd. Yr un darn trawiadol o newyddion da yn yr adroddiad hwn, y cyfeiriasoch ato yn gynharach yn eich ateb i Andrew R.T. Davies, yw cau'r bwlch rhwng y disgyblion hynny o'n cefndiroedd mwyaf difreintiedig sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt. A fyddech chi'n cytuno â mi, Brif Weinidog, mai'r polisi llwyddiant rhagorol ym maes addysg dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn wir, fu cyflwyno'r grant amddifadedd disgyblion, un y bu'n rhaid i'r Democratiaid Rhyddfrydol eich perswadio i'w gyflwyno?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I'll give her that one, in terms of the pupil deprivation grant. We see the results and it's something, of course, which I've been fairly open about in terms of the fact that it was a suggestion of the Liberal Democrats. It's one element, though. Let's not pretend it's because of the pupil deprivation grant that things are improving in Welsh education. It's responsible for improvements in some areas. When we look at the highest GCSE results ever, that is because of what we have done as a Government. If we look at literacy and numeracy improving, it's because of the literacy and numeracy framework. And we are seeing schools in Wales improve year by year. That's a tribute to those who work in those schools, it's a tribute, certainly, to some local authorities—many local authorities—who have put in the work to improve schools in their area, and also, of course, it is testament to the fact that we have put in—or are putting in—over £1 billion-worth of investment so that our children can be taught in the schools that they expect to be taught in, unlike the situation in England, where schools are crumbling.

Mi roddaf honna iddi, o ran y grant amddifadedd disgyblion. Rydym ni'n gweld y canlyniadau ac mae'n rhywbeth, wrth gwrs, yr wyf wedi bod yn weddol agored amdano o ran y ffaith mai awgrym gan y Democratiaid Rhyddfrydol ydoedd. Un elfen yw hon, serch hynny. Gadewch i ni beidio ag esgus bod pethau'n gwella ym maes addysg yng Nghymru oherwydd y grant amddifadedd disgyblion. Mae'n gyfrifol am welliannau mewn rhai meysydd. Pan edrychwn ni ar y canlyniadau TGAU gorau erioed, mae hynny oherwydd yr hyn yr ydym ni wedi ei wneud fel Llywodraeth. Os edrychwn ni ar lythrennedd a rhifedd yn gwella, mae hynny oherwydd y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Ac rydym ni'n gweld ysgolion yng Nghymru yn gwella o flwyddyn i flwyddyn. Mae hynny'n deyrnged i'r rhai sy'n gweithio yn yr ysgolion hynny, mae'n deyrnged, yn sicr, i rai awdurdodau lleol—llawer o awdurdodau lleol— sydd wedi gwneud y gwaith i wella ysgolion yn eu hardal, a hefyd, wrth gwrs, mae'n brawf o'r ffaith ein bod wedi rhoi—neu wrthi'n rhoi—gwerth dros £1 biliwn o fuddsoddiad fel y gall ein plant gael eu haddysgu yn yr ysgolion y maen nhw'n disgwyl cael eu haddysgu ynddynt, yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr, lle mae ysgolion yn dadfeilio.

Senedd.tv
Fideo Video

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move back to questions on the paper. Question 3 is Paul Davies.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr. Daw Cwestiwn 3 gan Paul Davies.

Senedd.tv
Fideo Video

### Economi Sir Benfro

### The Economy of Pembrokeshire

13:53 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*3. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella economi sir Benfro? OAQ(4)2670(FM)*

*3. What is the Welsh Government doing to improve the economy of Pembrokeshire? OAQ(4)2670(FM)*

Senedd.tv
Fideo Video

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r economi yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac rydym ni'n gweithredu camau eang sy'n cefnogi swyddi, twf ac sy'n gwella'r amgylchedd busnes ar gyfer sir Benfro a Chymru gyfan.

The economy is a priority for Welsh Government and we are taking forward wide-ranging actions that are supporting jobs, growth and improving the business environment for Pembrokeshire and the whole of Wales.

Senedd.tv
Fideo Video

13:53 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, un ffordd o wella economi sir Benfro yw sicrhau bod y diwydiant amaethyddol yn cael y cymorth y mae'n ei haeddu. Y bore yma, roeddwn i'n falch iawn o noddi brecwast blynyddol Undeb Amaethwyr Cymru i ddathlu cynnyrch o Gymru ac i gydnabod y cyfraniad sylweddol y mae amaethyddiaeth a ffermio yn ei wneud i economi Cymru. O ystyried pwysigrwydd y diwydiant amaethyddol i sir Benfro, ac, wrth gwrs, i economi Cymru, mae mynd i'r afael â TB mewn gwartheg yn hanfodol. Felly, o gofio bod eich rhaglen frechu nawr wedi methu, pa gamau mae Llywodraeth Cymru bellach yn eu cymryd i ddileu'r clefyd hwn?

First Minister, one way of improving the Pembrokeshire economy is to ensure that the agriculture industry receives the support it deserves. This morning I was very proud to sponsor the annual Farmers' Union of Wales breakfast to celebrate Welsh produce and to recognise the significant contribution that agriculture and farming makes to the Welsh economy. Given the importance of the agricultural industry to Pembrokeshire, and, of course, to the Welsh economy, tackling bovine TB is crucially important, and, therefore, given that your vaccination programme has now failed, what steps is the Welsh Government now taking to eradicate this disease?

Senedd.tv
Fideo Video

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hwn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Beth rydym yn ei wybod yw nad yw difa moch daear yn cael effaith. Fe welsom ni hyn yn ystod treialon Krebs, lle roedd difa, wrth gwrs, wedi gwneud pethau'n waeth, achos y ffordd y cafodd y difa ei wneud. Felly, mae'r rhaglen frechu wedi cymryd lle, ac rwy'n gwybod bod y Gweinidog yn ystyried ar hyn o bryd ym mha ffordd y gallwn ni symud ymlaen i ddelio â TB. Rwy'n derbyn bod TB, wrth gwrs, yn rhywbeth sy'n ddifrifol i'r diwydiant amaeth, ond mae'n bwysig dros ben bod gyda ni system sy'n effeithiol i ddelio gydag e.

This is under consideration at present. What we know is that the culling of badgers has no impact. We saw this during the Krebs trials, where culling, of course, actually exacerbated the problem because of the method that was used. So, the vaccination programme has taken place, and I know that the Minister's now considering how to proceed to deal with TB. I accept that TB, of course, is a serious matter for the agricultural industry, but it's extremely important that we have an effective system to deal with it.

13:54 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Byddwch chi'n gwybod o'ch ymweliad chi â Doc Penfro yr wythnos diwethaf fod pobl sir Benfro yn rhoi croeso twymgalon iawn I ymwelwyr, ac mae'r diwydiant twristiaeth yn hollbwysig, ochr yn ochr â'r diwydiant amaeth, yn y sir honno. Mae Plaid Cymru wedi cyhoeddi y byddem ni'n dyblu'r gyllideb ar gyfer twristiaeth yng Nghymru ac y byddem ni'n rhoi pwyslais arbennig ar dwristiaeth fel un o gynheiliaid ein heconomi, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig. Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud fel Prif Weinidog I hybu'r diwydiant twristiaeth yn sir Benfro dros y flwyddyn nesaf?

You will know from your visit to Pembroke Dock last week that the people of Pembrokeshire give a very warm welcome to visitors, and the tourism industry is crucially important, along with the agricultural industry, in that county. Plaid Cymru has announced that we will double the budget for tourism in Wales, and that we will give a particular emphasis to tourism as one of the mainstays of our economy, particularly in rural areas. So, what do you intend to do as First Minister to promote the tourism industry in Pembrokeshire over the next year?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, roeddwn yn meddwl nad dadl ar bolisïau Plaid Cymru oedd hyn, ond dyna fe. Fe atebaf y cwestiwn, wrth gwrs. Mae twristiaeth yn bwysig dros ben i ni yng Nghymru; rydym ni'n gwybod hynny. Er enghraifft, roedd 2014 yn flwyddyn a oedd yn record yng Nghymru: 10 miliwn o ymwelwyr am y tro cyntaf erioed—7 y cant lan o ran ymweliadau rhyngwladol. Fe welsom ni'r ymgyrch farchnata y llynedd, a gwnaeth hynny, wrth gwrs, greu gwerth £240 miliwn o hala yng Nghymru, a oedd 36 y cant lan o'r flwyddyn cyn hynny. Mae yna waith yn cael ei symud ymlaen ar hyn o bryd er mwyn datblygu strategaeth brand I Gymru, er mwyn sicrhau bod pobl yn deall beth sydd gan Gymru i'w roi, ac, wrth gwrs, y flwyddyn hon mae gennym ni'r flwyddyn fenter I hybu'r sector y tu allan—pobl sydd eisiau beicio, pobl sydd eisiau dod I Gymru I gerdded ac yn y blaen, ac I ddweud wrth bobl, 'Dewch I Gymru achos mae Cymru yn le lle y gallwch chi gael menter a sbri.' Felly, dyna beth rydym ni wedi'I wneud fel Llywodraeth, a dyna beth rydym ni'n ei wneud y flwyddyn hon, o gofio'r ffaith bod twristiaeth yn bwysig dros ben i'n heconomi ni.

Well, I thought that this wasn't a questioning session on the policies of Plaid Cymru, but there we are. I'll answer the question, of course. We know that tourism is extremely important to us in Wales. For example, 2014 was a record year in Wales: 10 million visitors for the first time ever—a 7 per cent increase in terms of international visits. We saw the marketing campaign last year, and that, of course, generated £240 million of spend in Wales, and that was 36 per cent up from the previous year. Steps are being taken to develop a brand strategy for Wales to ensure that people know what Wales has to offer, and, of course, this year we have the Year of Adventure to promote the outdoors sector—people who want to cycle, who want to come to Wales for walking and so on, and to tell people, 'Come to Wales because Wales is a place where you can have both adventure and fun'. So, that's what we've done as a Government. That's what we're doing this year, bearing in mind the fact that tourism is extremely important to our economy.

## Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau

## Wales and Borders Rail Franchise

13:56 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ail-fapio masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau? OAQ(4)2675(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the remapping of the Wales and Borders rail franchise? OAQ(4)2675(FM)*

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Discussions with the UK Government about the scope of services to be included in a future franchise awarded by the Welsh Ministers are ongoing, but no decision has been taken to remap any services.

Mae trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cwmpas y gwasanaethau i'w cynnwys mewn masnachfraint yn y dyfodol a ddyfernir gan Weinidogion Cymru yn parhau, ond ni wnaed unrhyw benderfyniad i ail-fapio unrhyw wasanaethau.

13:56 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. I'm aware that a joint Welsh and UK Government working group has been discussing remapping services to be operated by the replacement Wales and borders franchise post October 2018 and that consideration was given to splitting the current Aberystwyth to Birmingham International service, with trains on the Cambrian line terminating in Shrewsbury rather than Birmingham International, as they do now. I'm sure you'll agree this would be extremely detrimental and an inconvenience to passengers and would also have a negative impact on the mid Wales economy. Will you provide instructions to officials to prioritise in their negotiations, or give precedence to, the passengers, but also provide a commitment that direct services from Aberystwyth to Birmingham will continue?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Rwy'n ymwybodol bod cyd-weithgor Llywodraethau Cymru a'r DU wedi bod yn trafod ail-fapio gwasanaethau i gael eu gweithredu gan fasnachfraint newydd Cymru a'r gororau ar ôl mis Hydref 2018 ac y rhoddwyd ystyriaeth i rannu'r gwasanaethau presennol o Aberystwyth i Birmingham International, gyda threnau ar linell y Cambrian yn terfynu yn Amwythig yn hytrach na Birmingham International, fel y maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd. Rwy'n siŵr y byddwch chi'n cytuno y byddai hyn yn hynod niweidiol ac yn anhwylustod i deithwyr ac y byddai hefyd yn cael effaith negyddol ar economi'r canolbarth. A wnewch chi roi cyfarwyddiadau i swyddogion flaenoriaethu'r teithwyr yn eu trafodaethau, yn ogystal â rhoi ymrwymiad y bydd gwasanaethau uniongyrchol o Aberystwyth i Birmingham yn parhau?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I can assure the Member that it's our intention to continue at least with the existing service. There is a threat to the Cardiff-Manchester service, on the basis, it appears, that in the Department for Transport they want to see no service that begins in Wales and terminates in England operated by the Wales and borders franchise. In other words, the only services that would be run by that franchise would be services that begin and end in Wales. Cardiff-Holyhead, of course, goes through England but that ends in Wales. Why? I have absolutely no idea, because Scotland doesn't have that restriction. ScotRail runs, for example, the sleeper trains out of Euston towards Scotland, but at the moment it's the suggestion of the Department of Transport that they do not want to see rail services exist between a departure point in Wales and a terminus point in England and vice versa. We're more than happy to make that case to the UK Government but it's important to understand that that is the attitude that's been taken so far by the Department of Transport.

Wel, gallaf sicrhau'r Aelod mai ein bwriad yw parhau â'r gwasanaeth presennol o leiaf. Ceir bygythiad i wasanaeth Caerdydd-Manceinion, ar y sail, mae'n ymddangos, nad ydyn nhw, yn yr Adran Drafnidiaeth, eisiau gweld unrhyw wasanaeth sy'n cychwyn yng Nghymru ac yn terfynu yn Lloegr yn cael ei weithredu gan fasnachfraint Cymru a'r gororau. Mewn geiriau eraill, yr unig wasanaethau a fyddai'n cael eu rhedeg gan y fasnachfraint fyddai gwasanaethau sy'n dechrau ac yn gorffen yng Nghymru. Mae Caerdydd-Caergybi, wrth gwrs, yn mynd trwy Loegr ond yn terfynu yng Nghymru. Pam? Nid oes gen i ddim syniad o gwbl, gan nad oes gan yr Alban y cyfyngiad hwnnw. Mae ScotRail, er enghraifft, yn rhedeg y trenau dros nos allan o Euston tuag at yr Alban, ond awgrym yr Adran Drafnidiaeth ar hyn o bryd yw nad yw eisiau gweld gwasanaethau rheilffyrdd yn bodoli rhwng man ymadael yng Nghymru a man terfynu yng Nghymru ac i'r gwrthwyneb. Rydym ni'n fwy na pharod i ddadlau'r achos hwnnw â Llywodraeth y DU, ond mae'n bwysig deall mai dyna'r agwedd a gymerwyd gan yr Adran Drafnidiaeth hyd yn hyn.

13:58 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Pa waith paratoi y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud gyda golwg ar gael corff dim-am-elw ar batrwm Glas Cymru i fod yn gyfrifol am y fasnachfraint reilffordd newydd i Gymru?

What preparatory work has the Welsh Government undertaken with a view to having a not-for-profit model on the Glas Cymru pattern to be responsible for the new rail franchise for Wales?

13:58

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, mae hwn yn rhywbeth rydym ni'n ei ystyried ar hyn o bryd, wrth gwrs. Un o'r pethau rydym ni wedi'i ystyried yw a oes ffordd i sicrhau bod yna gwmnïau yn y pen draw sydd yn gwmnïau dielw ac i weld a fyddai'r model yna'n gallu gweithio. Rydym ni yn ystyried hwn yn fanwl ar hyn o bryd, ac rwy'n credu y byddai pobl Cymru yn moyn gweld unrhyw gwmni sy'n rhedeg y rheilffyrdd yng Nghymru yn buddsoddi'r arian maen nhw'n ei wneud yn ôl i mewn i'r gwasanaeth ei hunan. Felly, mae hwn yn rhywbeth rydym ni'n ei ystyried ar hyn o bryd.

Well, this under consideration at present, of course. One of the issues that we're considering is whether there's any way of ensuring that there is a not-for-profit company to take it on and whether that is a feasible model. We are considering this in detail at present, and I believe that the people of Wales would wish to see any company running the railroads in Wales reinvesting the profit that they make back into the service. So, that is something that we are considering at present.

13:59

## Aled Roberts [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, rwyf hefyd yn poeni am y gwasanaeth rhwng Caergybi a Manceinion, a hefyd rhwng Wrecsam a Bidston a Llandudno a Manceinion, yn ogystal â'r sefyllfa i Birmingham. A gaf i ofyn, felly, a yw eich swyddogion chi'n cynnal trafodaethau o gwbl â'r Swyddfa Gymreig yn ogystal â'r swyddfa drafnidiaeth? Achos mae Alun Cairns, Gweinidog yn y swyddfa Gymreig, ar 11 Ionawr, wedi ymateb i gwestiwn ysgrifenedig lle mae o'n dweud, ac rwy'n dyfynnu:

'To ensure proper accountability for passengers in England, it is expected that services primarily serving English markets will be remapped into other Department for Transport franchises and we will consult on specific proposals in due course.'

Felly, hwyrach y gwnaiff yr Aelod dros Faldwyn gael gair distaw efo'i gyd-Aelod o'r Blaid Geidwadol i sicrhau bod Swyddfa Cymru hefyd yn brwydro dros Gymru.

First Minister, I'm also concerned about the service between Holyhead and Manchester and also between Wrexham and Bidston and Llandudno and Manchester, as well as the situation to Birmingham. Can I ask you, therefore, if your officials are holding any discussions with the Wales Office, as well as the Department for Transport? Because Alun Cairns, a Minister in the Wales Office, on 11 January, responded to a written question, where he states, and I quote:

Er mwyn sicrhau atebolrwydd priodol i deithwyr yn Lloegr, disgwylir y bydd gwasanaethau sy'n gwasanaethu marchnadoedd yn Lloegr yn bennaf yn cael ei hail-fapio i mewn i fasnachfreintiau Adran Drafnidiaeth eraill a byddwn yn ymgynghori ar gynigion penodol maes o law.

Therefore, perhaps the Member for Montgomeryshire could have a quiet word with his fellow member of the Conservative Party to ensure that the Wales Office is also fighting Wales's corner.

14:00

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yn fy marn i, jobyn Swyddfa Cymru yw brwydro dros Gymru ac nid esbonio i bobl Cymru beth sydd yn dda iddyn nhw a beth sydd ddim yn dda iddyn nhw. Os taw dyna'n ffrindiau ni, wel bach iawn o help y byddwn ni'n ei gael yn Whitehall o achos hynny. Y broblem hefyd yw, wrth gwrs, mae yna sawl gwasanaeth sydd yn rhedeg ar draws y ffin. Mae'r gwasanaethau hynny yn wasanaethau sydd yn creu arian—mae Caerdydd i Fanceinion yn enghraifft o hynny, a'r gwasanaethau yn y gogledd i Fanceinion hefyd. Os ydych chi'n tynnu'r gwasanaethau hynny mas o'r 'franchise', bydd llai o arian ar gael. Nid wyf yn gweld unrhyw broblem—. Does dim problem gyda'r Albanwyr yn rhedeg gwasanaethau mewn i Loegr, ond am ryw reswm mae syniad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a hefyd Swyddfa Cymru—o glywed beth y mae'r Aelod wedi'i ddweud—taw dim ond gwasanaethau sydd yn dechrau ac yn gorffen yng Nghymru a ddylai ddod o dan y 'franchise'. Mae hynny'n hollol annheg ac yn anghyfrifol, ac nid yw'n rhywbeth sydd yn wir ynglŷn â'r Alban.

In my view, the Wales Office's job is to fight for Wales and not explain to the people of Wales what's good for them and what's not good for them. If they're our friends, we're going to receive very little support and assistance from Whitehall because of that. The other problem is, of course, that there are many cross-border services and those services do generate profit—for example, Cardiff to Manchester and services from north Wales to Manchester. If you take those services out of the franchise, then there's less money available. I don't see any problem—. There's no problem with the Scots running services into England, but, for some reason, the United Kingdom Government and the Wales Office— after hearing what the Member has said—have the idea that it's only services that start and finish in Wales that should come under the franchise. This is totally unfair and irresponsible, and it's not something that is true for Scotland.

### Recriwtio a Chadw Meddygon

### The Recruitment and Retention of Doctors

14:01 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

*5. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella'r broses o recriwtio a chadw meddygon yng Nghymru? OAQ(4)2673(FM)*

*5. Will the First Minister outline the actions the Welsh Government is taking to improve the recruitment and retention of doctors in Wales? OAQ(4)2673(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The recruitment and retention of doctors is the responsibility of heath boards and trusts. We support that work in a number of ways, and a 10-year workforce strategy is being developed that will determine the shape of our medical workforce.

Cyfrifoldeb byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yw recriwtio a chadw meddygon. Rydym ni'n cefnogi'r gwaith hwnnw mewn nifer o ffyrdd, ac mae strategaeth gweithlu 10 mlynedd yn cael ei datblygu a fydd yn penderfynu ar ffurf ein gweithlu meddygol.

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister, for that answer. First Minister, one of the major barriers to the recruitment of doctors is the state of our education system. Many newly qualified doctors in England refuse to come to Wales because they don't want their children educated here. In addition—[Interruption.] That is a fact. [Interruption.] You should read the newspapers and see.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am yr ateb yna. Brif Weinidog, un o'r rhwystrau mawr i recriwtio meddygon yw cyflwr ein system addysg. Mae llawer o feddygon sydd newydd gymhwyso yn Lloegr yn gwrthod dod i Gymru gan nad ydyn nhw eisiau i'w plant gael eu haddysgu yma. Hefyd—[Torri ar draws.] Mae hynny'n ffaith. [Torri ar draws.] Dylech chi ddarllen y papurau newydd a gweld.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. Please, order. Let the Member finish.

Trefn. Trefn, os gwelwch yn dda. Gadewch i'r Aelod orffen.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Many newly qualified doctors in England refuse to come to Wales because they don't want their children educated here. In addition, we have seen massacres in the higher education sector, particularly in high-cost subjects such as medicine, which will have a huge impact on the number of doctors we train. When will you get your eyes back on the ball and deliver an education system that is fit for purpose and not a barrier to the recruitment of doctors?

Mae llawer o feddygon sydd newydd gymhwyso yn Lloegr yn gwrthod dod i Gymru gan nad ydyn nhw eisiau i'w plant gael eu haddysgu yma. Hefyd, rydym ni wedi gweld cyflafanau yn y sector addysg uwch, yn enwedig mewn pynciau uchel eu cost fel meddygaeth, a fydd yn cael effaith enfawr ar nifer y meddygon yr ydym ni'n eu hyfforddi. Pryd wnewch chi gael eich llygaid yn ôl ar y bêl a darparu system addysg sy'n addas i'w diben ac nad yw'n rhwystr i recriwtio meddygon?

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I utterly reject the idea that the Member has put forward and that the Conservative Party's view should be that the message they give to doctors is, 'Don't come to Wales because of the education system'. Where is their Welshness? Where is their loyalty to Wales? I have to say that I find that absolutely extraordinary. I have to say to the party opposite that the greatest barrier to recruitment in England under their party is the fact that junior doctors go on strike. There is no greater disincentive to doctors to go to England than the fact that they are treated with such distain by Jeremy Hunt and the UK Government. I can say to the Member that we have no difficulty in recruiting doctors in Wales: GP numbers have increased by 10.5 per cent between 2004 and 2014. [Interruption.]

Rwy'n gwrthod yn llwyr y syniad y mae'r Aelod wedi ei gyflwyno ac mai safbwynt y Blaid Geidwadol ddylai fod mai'r neges y mae'n ei rhoi i feddygon yw, 'Peidiwch â dod i Gymru oherwydd y system addysg'. Ble mae eu Cymreictod? Ble mae eu teyrngarwch i Gymru? Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n credu bod hynny'n gwbl ryfeddol. Mae'n rhaid i mi ddweud wrth y blaid gyferbyn mai'r rhwystr mwyaf i recriwtio yn Lloegr o dan eu plaid nhw yw'r ffaith bod meddygon iau yn mynd ar streic. Nid oes anghymhelliad mwy i feddygon fynd i Loegr na'r ffaith eu bod yn cael eu trin â diystyrwch o'r fath gan Jeremy Hunt a Llywodraeth y DU. Gallaf ddweud wrth yr Aelod nad ydym yn cael unrhyw anhawster yn recriwtio meddygon yng Nghymru: mae nifer y meddygon teulu wedi cynyddu 10.5 y cant rhwng 2004 a 2014. [Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. Andrew R.T. Davies, quiet. First Minister.

Trefn. Andrew R.T. Davies, byddwch yn ddistaw. Brif Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

14:03

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There are now over 2,000 GPs serving communities right across Wales. There are more doctors, nurses, midwives, paramedics and dental staff working in the NHS today than there were 10 years ago. The number of hospital consultants working in the Welsh NHS increased by nearly 50 per cent between 2004 and 2014—up by 721 to 2,270. That is a sign that Wales is a place to work, that doctors see it as a place where they want to come and study and work in the future, and I reject utterly any idea that the Conservatives want to spread around that somehow there's something wrong with the Welsh education system, when they've been responsible for the mess that we see in education and health in England.

Mae dros 2,000 o feddygon teulu yn gwasanaethu cymunedau ledled Cymru erbyn hyn. Mae mwy o feddygon, nyrsys, bydwragedd, parafeddygon a staff deintyddol yn gweithio yn y GIG heddiw nag yr oedd 10 mlynedd yn ôl. Cynyddodd nifer y meddygon ymgynghorol mewn ysbytai sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru gan bron i 50 y cant rhwng 2004 a 2014—cynnydd o 721 i 2,270. Mae hynny'n arwydd bod Cymru yn lle i weithio, bod meddygon yn ei weld fel lle y maen nhw eisiau dod i astudio a gweithio ynddo yn y dyfodol, ac rwy'n gwrthod yn llwyr unrhyw syniad y mae'r Ceidwadwyr eisiau ei ledaenu bod rhywbeth o'i le rywsut gyda'r system addysg yng Nghymru, pan eu bod nhw wedi bod yn gyfrifol am y llanast a welwn ym meysydd addysg ac iechyd yn Lloegr.

Senedd.tv
Fideo Video

14:04

## Elin Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Brif Weinidog, mae tua £15 miliwn o arian HEFCW yn cael ei wario ar gyrsiau drud sy'n cynnwys addysg feddygol. Gan eich bod chi'n bwriadu torri'r gyllideb yma 32 y cant, pa asesiad ydych chi wedi'i wneud ar faint llai o ddoctoriaid a fydd yn cael eu dysgu a'u hyfforddi yng Nghymru o ganlyniad i'r toriad yma? Neu a ydych chi'n disgwyl i'r prifysgolion ddefnyddio eu harian wrth gefn—eu 'reserves'—i ariannu addysg feddygol?

First Minister, around £15 million of HEFCW funding is spent on expensive courses, which include medical studies. As you intend to cut this budget by 32 per cent, what assessment have you carried out on how many fewer doctors will be trained and taught in Wales as a result of this cut? Or do you expect the universities to use their reserves in order to fund medical education?

Senedd.tv
Fideo Video

14:05

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwy'n erfyn i brifysgolion ddefnyddio'r arian sydd gyda nhw. Fel y dywedais i, mae yna incwm sylweddol gyda nhw. Mae yna arian i gadw gyda nhw hefyd, a byddem ni'n erfyn iddyn nhw sicrhau bod nifer y doctoriaid yn parhau yn y pen draw.

I expect universities to use the funding available to them. As I said, they have substantial incomes. They also have reserves, and we would expect them to ensure that the number of doctors is ultimately maintained.

Senedd.tv
Fideo Video

14:05

## Kirsty Williams [Bywgraffiad] [Biography]

First Minister, whilst it is the case that the number of GPs in Wales has increased, that is scant compensation for a number of areas that have seen primary care services lost or threatened because of an inability to recruit full-time GPs, or difficulties in accessing locum cover—for instance, in Machynlleth, and in Coelbren in my own constituency. What steps is the Government taking to address one of the concerns that has previously been raised by the profession around a single practitioners list that would cut down on the bureaucracy and thus allow GPs to work more easily on both sides of the border?

Brif Weinidog, er ei bod yn wir fod nifer y meddygon teulu yng Nghymru wedi cynyddu, prin y mae hyn yn gwneud iawn am nifer o feysydd sydd wedi gweld gwasanaethau gofal sylfaenol yn cael eu colli neu dan fygythiad oherwydd anallu i recriwtio meddygon teulu llawn amser, neu anawsterau o ran cael mynediad at gymorth locwm—er enghraifft, ym Machynlleth, ac yn y Coelbren yn fy etholaeth i. Pa gamau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i fynd i'r afael ag un o'r pryderon a godwyd yn y gorffennol gan y proffesiwn ynghylch rhestr ymarferwyr unigol a fyddai'n lleihau biwrocratiaeth ac felly'n caniatáu i feddygon teulu weithio'n haws ar y ddwy ochr i'r ffin?

Senedd.tv
Fideo Video

14:06

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Clearly, we want to make sure that it is easy to work on both sides of the border. If you look at the examples of where GPs' practices have decided to cease operating, the health board takes them over and salaried GPs are placed there instead. That is the trend in medicine anyway. There are fewer and fewer students now who want to buy into a practice; they'd rather be salaried, because it gives them the flexibility that they need. They don't want to put the money up front to actually buy into practice under the contractor model, although, for some, that's what they would want. It's true to say—she's raised issues with me in the Chamber before—there are some parts of Wales where there have been difficulties with GP practices. That's the decision of GP practices, not the health service, of course, in terms of the service that they provide. But, what I do know is that where practices have decided not to operate, the health board does take them over and salaried GPs are then put in place.

Yn amlwg, rydym ni eisiau sicrhau ei bod yn hawdd gweithio ar y ddwy ochr i'r ffin. Os edrychwch chi ar yr enghreifftiau o ble y mae meddygfeydd teulu wedi penderfynu rhoi'r gorau i weithredu, mae'r bwrdd iechyd yn eu cymryd drosodd ac, yn hytrach, caiff meddygon teulu cyflogedig eu lleoli yno. Dyna'r duedd ym maes meddygaeth beth bynnag. Mae llai a llai o fyfyrwyr nawr sydd eisiau prynu i mewn i feddygfa; byddai'n well ganddyn nhw fod yn gyflogedig, gan ei fod yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen arnynt iddyn nhw. Nid ydyn nhw eisiau talu'r arian ymlaen llaw i brynu i mewn i feddygfa o dan y model contractwr, er, i rai, dyna'r hyn y bydden nhw ei eisiau. Mae'n wir i ddweud—mae hi wedi codi materion gyda mi yn y Siambr o'r blaen—bod rhai rhannau o Gymru lle bu anawsterau gyda meddygfeydd teulu. Penderfyniad meddygfeydd teulu yw hynny, nid y gwasanaeth iechyd, wrth gwrs, o ran y gwasanaeth y maen nhw'n ei ddarparu. Ond, yr hyn yr wyf i yn ei wybod yw lle mae meddygfeydd wedi penderfynu peidio â gweithredu, mae'r bwrdd iechyd yn eu cymryd drosodd ac yn cyflwyno meddygon teulu cyflogedig.

Senedd.tv Fideo Video

### Economi Rhanbarth Bae Abertawe

### The Economy of the Swansea Bay Region

14:06

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am economi rhanbarth bae Abertawe? OAQ(4)2669(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on the economy of the Swansea bay region? OAQ(4)2669(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:07

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The economy of the Swansea bay region, as indeed the economy of Wales, is a priority for the Welsh Government, and we are taking forward wide-ranging actions that are supporting jobs and growth and improving the business environment.

Mae economi ardal bae Abertawe, fel economi Cymru yn wir, yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac rydym ni'n bwrw ymlaen â chamau gweithredu amrywiol sy'n cefnogi swyddi a thwf ac yn gwella'r amgylchedd busnes.

Senedd.tv Fideo Video

14:07

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Can I thank the First Minister for that response? The development by Swansea University on Fabian Way, and the University of Wales Trinity St David, alongside the mixed developments of SA1, Swansea Vale and Llandarcy are very important to the Swansea region. What work is being done with universities to grow the local economy in high-skill and high-wage sectors, such as life sciences, ICT and professional services?

A gaf i ddiolch i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna? Mae datblygiad gan Brifysgol Abertawe ar Ffordd Fabian, a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ynghyd â datblygiadau cymysg SA1, Bro Abertawe a Llandarsi yn bwysig iawn i ranbarth Abertawe. Pa waith sy'n cael ei wneud gyda phrifysgolion i dyfu'r economi leol mewn sectorau sgiliau uchel a chyflog uchel, fel gwyddorau bywyd, TGCh a gwasanaethau proffesiynol?

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, only yesterday, I launched the Advanced Materials Engineering Research Institute in Port Talbot, working closely with higher education, offering opportunities for students to study up to PhD level, and a magnet for manufacturing investment in the future. We're working with officers at Swansea council to bring forward development, under the Swansea Vale joint venture, of the Llandarcy and Fabian Way corridor in order to see how creative sector projects can be taken forward there. I attended Bay Studios as well yesterday—on Fabian Way, but not in Swansea, I know; in the Aberavon constituency. A fantastic venture, and huge potential opportunities for the area as well. I can say as well that the Minister for Economy, Science and Transport has signed a memorandum of understanding with Trinity Saint David university, committing to work with the university on developing its business collaboration as it develops its new campus at SA1.

Wel, ddoe ddiwethaf, lansiais y Sefydliad Ymchwil Peirianneg Deunyddiau Uwch ym Mhort Talbot, gan weithio'n agos ag addysg uwch, gan gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr astudio hyd at lefel PhD, ac mae'n fagnet ar gyfer buddsoddiad gweithgynhyrchu yn y dyfodol. Rydym ni’n gweithio gyda swyddogion yng nghyngor Abertawe i gyflwyno datblygiad, o dan fenter ar y cyd Bro Abertawe, coridor Llandarsi a Ffordd Fabian er mwyn gweld sut y gellir bwrw ymlaen â phrosiectau sector creadigol yno. Ymwelais â Bay Studios hefyd ddoe—ar Ffordd Fabian, ond nid yn Abertawe, rwy’n gwybod; yn etholaeth Aberafan. Menter wych, a chyfleoedd enfawr posibl ar gyfer yr ardal hefyd. Gallaf ddweud hefyd bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi llofnodi memorandwm o ddealltwriaeth gyda phrifysgol y Drindod Dewi Sant, gan ymrwymo i weithio gyda'r brifysgol ar ddatblygu ei chydweithrediad busnes wrth iddi ddatblygu ei champws newydd yn SA1.

14:08 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The economy Minister, of course, has announced her intention to consider the potential for an enterprise zone around Port Talbot, and, as you saw yourself, the area’s got great appeal for other developing engineering companies. Now, retaining that engineering expertise in the wider area would be very valuable for the future of the Swansea bay tidal lagoon, for example, but we have seen, haven't we, that there is a risk in depending on one particular type of industry for an area's economic success. The bay region is going to need a mixed economy with a range of skills, including bilingual skills. So, is any consideration being given to any enterprise zone being outside the sectoral approach that this Government’s stuck to in the last five years?

Mae Gweinidog yr economi, wrth gwrs, wedi cyhoeddi ei bwriad i ystyried y potensial ar gyfer ardal fenter o amgylch Port Talbot, ac, fel y gwelsoch eich hun, mae gan yr ardal apêl fawr i gwmnïau peirianneg eraill sy'n datblygu. Nawr, byddai cadw'r arbenigedd peirianyddol hwnnw yn yr ardal ehangach yn werthfawr iawn ar gyfer dyfodol morlyn llanw bae Abertawe, er enghraifft, ond rydym ni wedi gweld, onid ydym, bod risg o ddibynnu ar un math penodol o ddiwydiant ar gyfer llwyddiant economaidd ardal. Mae rhanbarth y bae yn mynd i fod angen economi gymysg ag amrywiaeth o sgiliau, gan gynnwys sgiliau dwyieithog. Felly, a oes unrhyw ystyriaeth yn cael ei rhoi i unrhyw ardal fenter y tu allan i'r dull sectoraidd y mae’r Llywodraeth hon wedi glynu ato yn ystod y pum mlynedd diwethaf?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The reason why the enterprise zones are sectoral is to attract clusters, to benefit from external economies of scale, so that we see companies in a similar sector clustering in one area, as we’ve seen around the M4. We see it particularly around Heathrow Airport as well. We have written, as the Member knows, to the Chancellor with our intention to create an enterprise zone around Port Talbot and asking for enhanced capital allowances to be made available. We've not yet had a response; I hope we see a response, certainly, in the next few days. She is right to say, of course, that it's never healthy to rely on one industry alone. The Secretary of State himself, when on the ‘Jason Mohammad’ programme last week, said that there are many parts of Wales that are still suffering as a result of colliery closures. It was very honest of him to acknowledge that, given that it was his party that imposed them in the first place. But what we are looking to do is to broaden the Welsh economy. If you look at Swansea bay, we do have Port Talbot as a major employer, we do have the power station at Baglan, we do have the university’s bay campus and of course we have creative industries in the form of Bay Studios.

Y rheswm pam mae’r ardaloedd menter yn sectoraidd yw er mwyn denu clystyrau, i elwa ar arbedion maint allanol, fel ein bod yn gweld cwmnïau mewn sector tebyg yn clystyru mewn un ardal, fel yr ydym ni wedi ei weld o gwmpas yr M4. Rydym ni’n ei weld yn arbennig o amgylch Maes Awyr Heathrow hefyd. Rydym ni wedi ysgrifennu, fel y gŵyr yr Aelod, at y Canghellor gyda'n bwriad o greu ardal fenter o amgylch Port Talbot ac yn gofyn i lwfansau cyfalaf uwch fod ar gael. Nid ydym ni wedi cael ymateb eto; rwy'n gobeithio y gwelwn ymateb, yn sicr, yn y diwrnodau nesaf. Mae hi'n iawn i ddweud, wrth gwrs, nad yw fyth yn iach i ddibynnu ar un diwydiant yn unig. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei hun, pan oedd ar raglen 'Jason Mohammad' yr wythnos diwethaf, bod llawer o rannau o Gymru sydd yn dal i ddioddef o ganlyniad cau pyllau glo. Roedd yn onest iawn i gydnabod hynny, o ystyried mai ei blaid ef wnaeth eu cau yn y lle cyntaf. Ond yr hyn yr ydym ni’n bwriadu ei wneud yw ehangu economi Cymru. Os edrychwch chi ar fae Abertawe, mae gennym ni Port Talbot fel cyflogwr mawr, mae gennym ni’r orsaf bŵer ym Maglan, mae gennym ni gampws bae y brifysgol ac wrth gwrs mae gennym ni ddiwydiannau creadigol ar ffurf Bay Studios.

14:10 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fe ddywedodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig yn ddiweddar bod ei frwdfrydedd e ynglŷn â'r cynllun morlyn ar gyfer bae Abertawe yn pylu. A ydy eich brwdfrydedd chi yn parhau ar gyfer y cynllun hwnnw, Brif Weinidog, ac ar gyfer y cynlluniau ar gyfer morlynnoedd eraill ar gyfer arfordir Cymru?

The UK Prime Minister said recently that his enthusiasm for the tidal lagoon in Swansea bay was ebbing away. Is your confidence still in place for that scheme, First Minister, and for the plans for other lagoons around the Welsh coast?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ydy, 100 y cant. Rŷm ni fel Llywodraeth yn gefnogol iawn o'r cynlluniau ym mae Abertawe. Rŷm ni'n gwybod bod yna gyfleoedd ynglŷn â chyflogaeth, ynglŷn â datblygu'r economi, ynglŷn â datblygiadau Port Talbot, ac wrth gwrs twristiaeth. Rwy'n flin i weld—ac rwy'n meddwl 'blin' yn ystyr y de—fod Prif Weinidog y Deyrnas Unedig nawr yn dweud ei fod yn dechrau blino ar y prosiect ei hunan, ac nad yw mor gryf y tu ôl iddo ag oedd e. Ond gallaf i ddweud wrth yr Aelod ein bod ni fel Llywodraeth 100 y cant tu ôl y prosiect ei hunan.

Yes, 100 per cent. We as a Government are extremely supportive of the plans for Swansea bay. We know there are opportunities for employment, for economic development, and for the development of the Port Talbot area, and of course for tourism. I'm very sorry—and I mean 'sorry', as in the south Wales version of 'blin'—to see that the Prime Minister is becoming tired of the project, and is not as strongly and robustly behind it as he used to be. But I can say that we as a Government are 100 per cent behind the project.

14:11 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, on the issue of the tidal lagoon, while we wait for the UK Government to make their decision—it does seem an inordinately long time—can I also raise the issue of the NRW consent for that lagoon, which is also taking a long time to come forward? Do you have any indication as to when Natural Resources Wales are likely to issue a licence for that lagoon to go ahead?

Brif Weinidog, ar fater y morlyn llanw, tra ein bod yn aros i Lywodraeth y DU wneud ei phenderfyniad—mae'n ymddangos yn amser arbennig o hir—a gaf i hefyd godi mater cydsyniad Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y morlyn hwnnw, sydd hefyd yn cymryd amser hir i ddod ymlaen? A oes gennych chi unrhyw syniad ynghylch pryd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn debygol o roi trwydded i'r morlyn llanw hwnnw fynd yn ei flaen?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, that's a matter for NRW, of course. But this is not a major issue compared to the strike price. What will determine whether the lagoon goes ahead or not is the strike price that's made available to the developers. We are seeing a UK Government now that's moving away from renewables. We've seen the hatchet job that's been done on wind. The same thing happened to solar. We've seen the money that's going into Hinkley Point, and we've seen fracking in England—something that many Members in this Chamber, including me, don't want to see in Wales. What is the energy policy for the future? We have a tremendous resource in the Bristol channel, with the second-highest tidal reach in the world, sitting there ready to be used for the creation of energy. The leader of the opposition is babbling away there, as he does, because he's got no answers. But he fails to explain why his own Prime Minister cannot explain why he won't go ahead with the Swansea bay tidal lagoon, why he will not support job creation around Port Talbot, why he will not support renewable energy, why he will not support a project that will benefit the demand for steel in Port Talbot. I know that energy is created in many ways, but the hot air he creates, well, that gives us no energy at all, does it?

Wel, mater i Gyfoeth Naturiol Cymru yw hwnnw, wrth gwrs. Ond nid yw hwn yn fater pwysig o'i gymharu â'r pris streic. Yr hyn a fydd yn penderfynu pa un a yw'r morlyn mynd yn ei flaen ai peidio yw'r pris streic a roir ar gael i'r datblygwyr. Rydym ni'n gweld Llywodraeth y DU nawr sy'n symud oddi wrth ffynonellau adnewyddadwy. Rydym ni wedi gweld y chwalfa o ran ynni'r gwynt. Digwyddodd yr un peth i ynni'r haul. Rydym ni wedi gweld yr arian sy'n mynd i mewn i Hinkley Point, ac rydym ni wedi gweld ffracio yn Lloegr—rhywbeth nad yw llawer o Aelodau yn y Siambr hon, gan fy nghynnwys i, eisiau ei weld yng Nghymru. Beth yw'r polisi ynni ar gyfer y dyfodol? Mae gennym ni adnodd gwych ym Môr Hafren, â'r ail gyrhaeddiad llanw mwyaf yn y byd, yn eistedd yno'n barod i gael ei ddefnyddio i greu ynni. Mae arweinydd yr wrthblaid yn parablu yn y fan yna, fel y mae'n ei wneud, gan nad oes ganddo unrhyw atebion. Ond mae'n methu ag esbonio pam na all ei Brif Weinidog ei hun esbonio pam na wnaiff fynd yn ei flaen â morlyn llanw bae Abertawe, pam na wnaiff gefnogi creu swyddi o amgylch Port Talbot, pam na wnaiff gefnogi ynni adnewyddadwy, pam na wnaiff gefnogi prosiect a fydd o fudd i'r galw am ddur ym Mhort Talbot. Gwn fod ynni'n cael ei greu mewn sawl ffordd, ond mae'r aer poeth y mae ef yn ei greu, wel, nid yw hwnnw'n rhoi unrhyw ynni o gwbl i ni, nac ydyw?

14:13 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's clear from your responses, First Minister, that you agree with me that, in developing the economy of the Swansea bay region, it is vital to ensure that the benefits are felt in all its constituent parts. Key to this will be developing the skill base across the wider region. I think the recently announced Growing Workforces through Learning and Development project is a very exciting development in this area. Under the lovely acronym GWLAD, this EU-funded scheme will deliver accredited work-based training programmes to 100 participating enterprises in South Wales West. I would very much like to see companies in my constituency amongst that 100. How will you be raising awareness of this excellent opportunity amongst the business community in Neath?

Mae'n amlwg o'ch ymatebion, Brif Weinidog, eich bod yn cytuno â mi ei bod yn hanfodol, wrth ddatblygu economi rhanbarth bae Abertawe, sicrhau bod y manteision yn cael eu teimlo yn ei holl rannau cyfansoddol. Bydd datblygu'r sail sgiliau ar draws y rhanbarth ehangach yn allweddol i hyn. Rwy'n meddwl bod y prosiect Tyfu Gweithluoedd drwy Ddysgu a Datblygu a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn ddatblygiad cyffrous iawn yn yr ardal hon. O dan yr acronym hyfryd GWLAD, bydd y cynllun hwn, a ariennir gan yr UE, yn darparu rhaglenni hyfforddiant yn y gwaith achredig i 100 o fentrau sy'n cymryd rhan yng Ngorllewin De Cymru. Hoffwn yn fawr weld cwmnïau yn fy etholaeth i ymhlith y 100. Sut byddwch chi'n codi ymwybyddiaeth am y cyfle gwych hwn ymhlith y gymuned fusnes yng Nghastell-nedd?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thank the Member for the question. I am delighted that, through £2.4 million of EU funds, we will be supporting UWTSD to help deliver work-based learning qualifications with employers in the south-west of Wales, including, of course, Neath Port Talbot. It's all the more vital, of course, given the recent blow that we saw last week to the economy in Port Talbot and the wider county itself.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rwyf wrth fy modd y byddwn yn cefnogi PCYDDS, trwy £2.4 miliwn o gyllid yr UE, i helpu i ddarparu cymwysterau dysgu yn y gwaith gyda chyflogwyr yn y de-orllewin, gan gynnwys, wrth gwrs, Castell-nedd Port Talbot. Mae hyn yn fwy hanfodol fyth, wrth gwrs, o ystyried yr ergyd ddiweddar a welsom yr wythnos diwethaf i'r economi ym Mhort Talbot a'r sir ehangach ei hun.

The announcement was covered widely, and I understand that Trinity Saint David itself will be raising further awareness of the opportunities through the local and regional press, through websites, social media, taster sessions and other marketing campaigns.

Cafodd y cyhoeddiad sylw eang, ac rwy'n deall y bydd y Drindod Dewi Sant ei hun yn codi ymwybyddiaeth bellach o'r cyfleoedd drwy'r wasg leol a rhanbarthol, trwy wefannau, cyfryngau cymdeithasol, sesiynau blasu ac ymgyrchoedd marchnata eraill.

### Hyrwyddo Twristiaeth

### Promoting Tourism

14:14 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)2674(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on Welsh Government action to promote tourism in Wales? OAQ(4)2674(FM)*

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our tourism strategy sets out our priorities to support the tourism industry, including capital and development funding along with marketing and promotional opportunities.

Mae ein strategaeth dwristiaeth yn nodi ein blaenoriaethau i gefnogi'r diwydiant twristiaeth, gan gynnwys cyllid cyfalaf a datblygu ynghyd â chyfleoedd marchnata a hyrwyddo.

14:14 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, do you agree with me that one problem that many tourists often cite as a reason for not going back to an area is litter on the streets? Are you therefore concerned about Conwy County Borough Council's plans, which they are considering, which is to go from fortnightly to four-weekly intervals for the collection of their general refuse? Many residents have raised this concern with me. They believe that it's unacceptable for general refuse to be collected on a four-weekly cycle basis, particularly for young families with children in nappies, dog mess, sanitary products, et cetera, that might be going into the general refuse bins. What action will your Government take to ensure that there's appropriate guidance to local authorities regarding these matters?

Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi mai un broblem y mae llawer o dwristiaid yn aml yn ei nodi fel rheswm am beidio â dychwelyd i ardal yw sbwriel ar y strydoedd? A ydych chi'n pryderu felly am gynlluniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, y maen nhw'n eu hystyried, sef newid o gasglu eu sbwriel cyffredinol o bob pythefnos i bob pedair wythnos? Mae llawer o drigolion wedi codi'r pryder hwn gyda mi. Maen nhw'n credu ei bod yn annerbyniol i sbwriel cyffredinol gael ei gasglu ar sail cylch pedair wythnos, yn enwedig i deuluoedd ifanc â phlant mewn cewynnau, baw ci, cynnyrch misglwyf, ac yn y blaen, a allai fod yn mynd i mewn i'r biniau sbwriel cyffredinol. Pa gamau wnaiff eich Llywodraeth eu cymryd i sicrhau bod canllawiau priodol ar gael i awdurdodau lleol ynghylch y materion hyn?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Local authorities must make the decision based on the recycling targets that they're asked to meet and also, of course, the risk of fly-tipping; they must weigh these arguments carefully. What we do know is we can't return to the days when everything was chucked into a black bag and put into a hole in the ground—they don't exist anymore; they're gone. The reality is that unless we see more recycling, there will be more of a demand for energy-from-waste plants, which themselves, as the Member will know, are controversial in many parts of Wales. So, we do want to encourage recycling. What I've always said is it's important that recycling is made as easy as possible for people, to make sure that they fully understand which containers certain items should go in and that those containers are big enough as well, which I know is an issue in some parts of Wales. I think, then, people do get used to the idea that when it comes to the black bag collection, most things have already been recycled through other ways and in other containers. But it is important that people fully understand the reasoning behind any changes and, of course, how they can contribute to recycling as well.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud y penderfyniad yn seiliedig ar y targedau ailgylchu y gofynnir iddynt eu bodloni a hefyd, wrth gwrs, y perygl o dipio anghyfreithlon; mae'n rhaid iddyn nhw bwyso a mesur y dadleuon hyn yn ofalus. Yr hyn yr ydym ni'n ei wybod yw na allwn ddychwelyd i'r dyddiau pan roedd popeth yn cael ei daflu i mewn i fag du a'i roi mewn twll yn y ddaear—nid ydynt yn bodoli mwyach; maen nhw wedi mynd. Y gwir yw oni bai ein bod ni'n gweld mwy o ailgylchu, bydd mwy o alw am weithfeydd ynni o wastraff, sydd eu hunain, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, yn ddadleuol mewn sawl rhan o Gymru. Felly, rydym ni'n awyddus i annog ailgylchu. Yr hyn yr wyf i wedi ei ddweud erioed yw ei bod yn bwysig bod ailgylchu'n cael ei wneud mor hawdd â phosibl i bobl, i wneud yn siŵr eu bod yn deall yn llawn pa gynwysyddion y dylai eitemau penodol fynd i mewn iddynt a bod y cynwysyddion hynny'n ddigon mawr hefyd, y gwn sy'n broblem mewn rhai rhannau o Gymru. Rwy'n meddwl, felly, bod pobl yn dod i arfer â'r syniad, pan ddaw i gasglu bagiau duon, bod y rhan fwyaf o bethau eisoes wedi eu hailgylchu drwy ffyrdd eraill ac mewn cynwysyddion eraill. Ond mae'n bwysig bod pobl yn deall yn llawn y rhesymeg sy'n sail i unrhyw newidiadau ac, wrth gwrs, sut y gallant gyfrannu at ailgylchu hefyd.

14:16 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, there's been an enormous growth in tourism in Wales over the past year. One of the attractions for Wales is its growing culinary reputation. One of the attractions within Wales is, of course, our traditional fish and chip shops. I wonder, First Minister, if you would recognise and congratulate The Crispy Cod Fish Bar in Tonyrefail, where Ryan Hughes has been voted the UK's best young fryer in the whole of the United Kingdom. I wonder if you will not only write to Ryan and congratulate him on this achievement, but, in supporting the Welsh tourist industry and our culinary expertise, accept an invitation from me to join me one night for a fish and chip supper in The Crispy Cod in Tonyrefail.

Brif Weinidog, bu twf aruthrol i dwristiaeth yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Un o'r atyniadau i Gymru yw ei henw da cynyddol am goginio. Un o'r atyniadau yng Nghymru, wrth gwrs, yw ein siopau pysgod a sglodion traddodiadol. Tybed, Brif Weinidog, a wnewch chi gydnabod a llongyfarch The Crispy Cod Fish Bar yn Nhonyrefail, lle mae Ryan Hughes wedi cael ei bleidleisio'n ffrïwr ifanc gorau'r DU yn y Deyrnas Unedig gyfan. Tybed a wnewch chi ysgrifennu at Ryan i'w longyfarch ar y llwyddiant hwn, ond hefyd, i gefnogi diwydiant twristiaeth Cymru a'n harbenigedd ym maes coginio, derbyn gwahoddiad gennyf i ymuno â mi un noson am swper pysgod a sglodion yn The Crispy Cod yn Nhonyrefail.

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Can I, first of all, congratulate the Member on the craft that he displayed in being able to raise The Crispy Cod as an issue here in the Chamber? Could I add my congratulations, of course, to Ryan himself and to The Crispy Cod? They provide a wonderful service to the people of Tonyrefail and beyond. It is not often I get an invitation for a bite to eat while answering First Minister's questions, and so, on this occasion, I'd be delighted to accept. [Laughter.]

A gaf i, yn gyntaf oll, longyfarch yr Aelod ar y grefft iddo ei dangos o ran gallu codi The Crispy Cod fel mater yma yn y Siambr? A gaf i ychwanegu fy llongyfarchiadau, wrth gwrs, i Ryan ei hun ac i The Crispy Cod? Maen nhw'n cynnig gwasanaeth gwych i bobl Tonyrefail a thu hwnt. Nid yn aml y byddaf yn cael gwahoddiad am damaid i'w fwyta wrth ateb cwestiynau i'r Prif Weinidog, ac felly, ar yr achlysur hwn, byddwn yn falch iawn o dderbyn. [Chwerthin.]

14:17 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n hanes glofaol ni, wrth gwrs, yn enwog drwy'r byd, ond mae Mynydd Parys yn Amlwch, a Phorth Amlwch, a, rŵan, amgueddfa Canolfan y Deyrnas Gopr, yn ffenest ar gyfer hanes rhyfeddol arall, neu ar gyfnod rhyfeddol arall yn ein hanes diwydiannol ni, pan oedd y dre honno yn Ynys Môn yn ganolbwynt i'r diwydiant copr drwy'r byd i gyd. Mi fyddai'n dda gallu rhannu'r stori â mwy o bobl. Felly, yn ogystal â rhoi gwahoddiad, wrth gwrs, i'r Prif Weinidog ddod i Amlwch i weld yr atyniadau dros ei hun, a gaf i ofyn pa gymorth gall y Llywodraeth ei roi er mwyn datblygu'r atyniadau yma er mwyn gallu rhannu'r stori a dathlu ein treftadaeth ni yn y diwydiant copr?

Our coal mining history, of course, is well known on a global level, but Parys Mountain in Amlwch, and Amlwch Port, and, now, the Copper Kingdom Centre's museum, provide a window on another incredible aspect of our history, or another incredible period in our industrial history, when that town on Anglesey was the heart of the copper industry on a global level. It would be good to share that story with more people. So, as well as inviting the First Minister, of course, to visit Amlwch to see those attractions for himself, may I ask what support the Government can provide in order to develop those attractions and in order to share the story and celebrate our heritage in the copper industry?

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n gweld fy mod i'n boblogaidd iawn y prynhawn yma o ran y gwahoddiadau sy'n dod. Wrth gwrs, mae'r Aelod yn iawn: mae Mynydd Parys yn bwysig dros ben o ran ein hetifeddiaeth gopr a'r diwydiant yng Nghymru. Rwyf wedi bod ar y mynydd fy hun—sawl blwyddyn yn ôl yn awr, ond rwyf wedi bod yno. Mae'n bwysig dros ben fod pobl yn deall nid dim ond yr etifeddiaeth ond daearyddiaeth yr ardal. Mae Mynydd Parys yn unigryw o ran beth sydd yn yr ardal ac o ran daearyddiaeth y mynydd ei hunan. Mae'n rhywbeth, wrth gwrs, i Visit Wales ei ystyried, o ran ym mha ffordd y gallwn ni hybu Mynydd Parys fel rhywle sydd yn tynnu ymwelwyr i mewn i ogledd Ynys Môn.

I see that I'm extremely popular this afternoon as regards the number of invitations I'm receiving. Of course, the Member is correct: Parys Mountain is extremely important in terms of our copper heritage and the industry in Wales. I've been on the mountain myself—many years ago by now, but I have been there. It's extremely important that people understand not only the heritage but also the geography of the area. Parys Mountain is unique as regards what is in the area and in terms of the geography of the mountain itself. Of course, it's something that Visit Wales could consider, in terms of the way we can promote Parys Mountain as something that attracts visitors into northern Anglesey.

14:19 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, the centenary of Roald Dahl's birth here in Cardiff is a fantastic opportunity for us to bring tourists here to the capital and to other parts of Wales, too, and I look forward to the programme of events that is planned. But would you agree with me that this is the perfect opportunity, the perfect launch pad, for the creation of a permanent Roald Dahl centre here in Cardiff to bring tourists to us, but also, actually, to inspire the next generation of Welsh writers with a love of literature?

Brif Weinidog, mae canmlwyddiant geni Roald Dahl yma yng Nghaerdydd yn gyfle gwych i ni ddod â thwristiaid yma i'r brifddinas ac i rannau eraill o Gymru, hefyd, ac edrychaf ymlaen at y rhaglen o ddigwyddiadau sydd wedi'i chynllunio. Ond a fyddech chi'n cytuno â mi mai hwn yw'r cyfle perffaith, y pad lansio perffaith, ar gyfer creu canolfan Roald Dahl barhaol yma yng Nghaerdydd i ddod â thwristiaid atom ni, ond hefyd, a dweud y gwir, i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o awduron o Gymru â chariad at lenyddiaeth?

14:19

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It's an interesting idea, of course. It's the finance that's the question. It would need, no doubt, private finance, certainly at least to begin with, and it would need to be self-supporting. But, certainly, we would very much like to work with any organisation that would wish to put in place a Roald Dahl centre and celebrate the fact that Cardiff is the birthplace of one of the world's most renowned children's writers.

Mae'n syniad diddorol, wrth gwrs. Y cyllid yw'r cwestiwn. Byddai angen, heb amheuaeth, cyllid preifat, yn sicr i gychwyn o leiaf, a byddai angen iddi fod yn hunangynhaliol. Ond, yn sicr, byddem yn awyddus iawn i weithio gydag unrhyw sefydliad a fyddai'n dymuno sefydlu canolfan Roald Dahl a dathlu'r ffaith mai Caerdydd yw man geni un o awduron plant mwyaf adnabyddus y byd.

Senedd.tv
Fideo Video

14:20

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

First Minister, Cynon Valley Museum is very popular amongst tourists and has a lot to offer in terms of promoting the heritage of the south Wales Valleys. I'm not sure if it does fish and chips, but it does offer other things, I know. [Laughter.] As a community asset transfer, responsibility for running it was taken over from Rhondda Cynon Taf County Borough Council by local volunteers. As councils are increasingly resorting to these transfers due to the effect of spending pressures, what advice or support can the Welsh Government make available to such assets so that they can best pitch themselves to continue to attract tourists?

Brif Weinidog, mae Amgueddfa Cwm Cynon yn boblogaidd iawn ymhlith twristiaid ac mae ganddi lawer i'w gynnig o ran hyrwyddo treftadaeth Cymoedd y De. Nid wyf yn siŵr a yw'n gwneud pysgod a sglodion, ond mae'n cynnig pethau eraill, rwy'n gwybod. [Chwerthin.] Fel trosglwyddiad o ased cymunedol, cymerwyd drosodd y cyfrifoldeb am ei rhedeg oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gan wirfoddolwyr lleol. Gan fod cynghorau yn troi fwyfwy at y trosglwyddiadau hyn oherwydd effaith pwysau gwario, pa gyngor neu gymorth all Llywodraeth Cymru ei roi ar gael i asedau o'r fath fel y gallant hyrwyddo eu hunain orau i barhau i ddenu twristiaid?

Senedd.tv
Fideo Video

14:20

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think one of the areas that they can look at is to engage with volunteers as much as possible. There are many, many people who want to give their time to museums and who will give that time freely. So, if it is a question, for example, of councils finding it difficult in terms of increasing staffing in museums, I'm sure there are volunteers who would love to do it. Times are difficult financially—we know that. Museums are not expected to make money—they are assets for the community—but I'm sure that there are volunteers in the Cynon Valley who would be more than willing—they may be already; I don't know the structure there—but I'm sure there are even more volunteers who would love to give their time.

Rwy'n credu mai un o'r meysydd y gallant ei ystyried yw ymgysylltu â gwirfoddolwyr gymaint â phosibl. Ceir llawer iawn o bobl sydd eisiau rhoi o'u hamser i amgueddfeydd ac a fydd yn rhoi'r amser hwnnw'n am ddim. Felly, os yw'n gwestiwn, er enghraifft, o gynghorau'n ei chael hi'n anodd o ran cynyddu staffio mewn amgueddfeydd, rwy'n siŵr bod gwirfoddolwyr a fyddai wrth eu boddau'n gwneud hynny. Mae'n gyfnod anodd yn ariannol—rydym ni'n gwybod hynny. Nid oes disgwyl i amgueddfeydd wneud arian—asedau i'r gymuned ydyn nhw—ond rwy'n siŵr bod gwirfoddolwyr yng Nghwm Cynon a fyddai'n fwy na pharod—efallai eu bod eisoes; nid wyf yn ymwybodol o'r strwythur yno—ond rwy'n siŵr bod mwy o wirfoddolwyr fyth a fyddai wrth eu boddau'n rhoi o'u hamser.

Senedd.tv
Fideo Video

14:21

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv
Fideo Video

14:21

# Cwestiwn Brys: Diogelu Plant yn Sir Benfro

# Urgent Question: Safeguarding Children in Pembrokeshire

Senedd.tv
Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to the next item on the agenda. I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Simon Thomas to ask the question.

Symudwn at yr eitem nesaf ar yr agenda nawr. Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Simon Thomas i ofyn y cwestiwn.

14:21

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

*A wnaiff y Gweinidog datganiad ynglŷn â diogelu plant yn Sir Benfro yn dilyn achos Dylan Seabridge? EAQ(4)0690(HSS)[W]*

*Will the Minister make a statement on safeguarding children in Pembrokeshire following the Dylan Seabridge case? EAQ(4)0690(HSS)[W]*

Senedd.tv
Fideo Video

14:21 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Senedd.tv Fideo Video

The very sad death of Dylan Seabridge took place in December 2011. In the years that have followed, this National Assembly has placed the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 on the statute book, which both reforms and strengthens safeguarding services, including those provided to children in Pembrokeshire.

Digwyddodd marwolaeth drist iawn Dylan Seabridge ym mis Rhagfyr 2011. Yn y blynyddoedd sydd wedi dilyn, mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn wedi gosod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar y llyfr statud, sy'n diwygio ac yn cryfhau gwasanaethau diogelu, gan gynnwys y rhai a ddarperir i blant yn Sir Benfro.

14:22 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his reply, and he's right to point out that some improvements have been made in legislation, but what has emerged since the inquest a year ago into Dylan's death is that several opportunities were in fact missed by professionals who, perhaps, should have been more alert to the situation that he was in. It cannot be acceptable, no matter what we think of parental choice in this country, that a child of eight can die of scurvy in twenty-first century Wales. There were refusals to allow health professionals access to Dylan. A lot of talk has been about home schooling, but it seems to me that there is a health, as much as a schooling, aspect to this. I'm disturbed that we haven't had a published report from Pembrokeshire County Council on lessons learned from this case. Have you, Minister, or your colleagues received such a report, and are you in a position to publish any such information? And what further lessons have you learned as a Government about safeguarding children in this regard?

Diolchaf i'r Gweinidog am ei ateb, ac mae'n gywir i nodi bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud i ddeddfwriaeth, ond yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg ers y cwest flwyddyn yn ôl i farwolaeth Dylan yw y collwyd sawl cyfle gan weithwyr proffesiynol a ddylai, efallai, fod wedi bod yn fwy effro i'r sefyllfa yr oedd ef ynddi. Ni all fod yn dderbyniol, ni waeth beth yr ydym ni'n ei feddwl o ddewis rhieni yn y wlad hon, y gall plentyn wyth oed farw o'r llwg yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain. Bu gwrthodiadau i ganiatáu mynediad at Dylan i weithwyr iechyd proffesiynol. Bu llawer o sôn am addysg gartref, ond mae'n ymddangos i mi fod agwedd iechyd, cymaint ag addysg, i hyn. Mae'n fy mhryderu nad ydym wedi cael adroddiad wedi ei gyhoeddi gan Gyngor Sir Penfro ar y gwersi a ddysgwyd o'r achos hwn. A ydych chi, Weinidog, neu eich cydweithwyr wedi derbyn adroddiad o'r fath, ac a ydych chi mewn sefyllfa i gyhoeddi unrhyw wybodaeth o'r fath? A pha wersi eraill ydych chi wedi'u dysgu fel Llywodraeth am ddiogelu plant yn hyn o beth?

14:23 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, a child practice review, which is being carried out by the safeguarding board in Pembrokeshire, is not yet complete, nor is it published, nor should we attempt here to bring any influence to bear on the board in the work that it does. I entirely share what the Member said about the terrible thought that a child would die in Wales in the circumstances that have been reported here. Members will be aware that the involvement of the police, the possibility of prosecution and so on has an impact upon the timetable that safeguarding boards can carry out some of their work, and that's been the case in this instance. What we have to do is to allow the board, with the independence that is absolutely properly afforded to it, to carry out its work, to complete it, to publish the report and then, quite certainly, we will look to Pembrokeshire council to provide us with a plan that shows how it will respond to any of the conclusions that the board will have reached.

Lywydd, nid yw adolygiad ymarfer plant, sy'n cael ei gynnal gan y bwrdd diogelu yn Sir Benfro, wedi'i gyflawni eto, ac nid yw wedi'i gyhoeddi ychwaith, ac ni ddylem geisio dylanwadu o gwbl ar y bwrdd yn y gwaith y mae'n ei wneud. Rwy'n rhannu'n llwyr yr hyn a ddywedodd yr Aelod am y syniad ofnadwy y byddai plentyn yn marw yng Nghymru o dan yr amgylchiadau sydd wedi cael eu hadrodd yma. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y ffaith fod yr heddlu yn ymchwilio i'r mater, y posibilrwydd o erlyniad ac yn y blaen yn cael effaith ar yr amserlen y gall byrddau diogelu gyflawni rhywfaint o'u gwaith, a dyna ddigwyddodd yn yr achos hwn. Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud yw caniatáu i'r bwrdd, gyda'r annibyniaeth a roddir iddo yn gwbl briodol, wneud ei waith, ei gwblhau, cyhoeddi'r adroddiad, ac yna, yn eithaf sicr, byddwn yn disgwyl i gyngor Sir Benfro ddarparu cynllun i ni sy'n dangos sut y bydd yn ymateb i unrhyw un o'r casgliadau y bydd y bwrdd wedi dod iddynt.

14:24 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

An eight-year old boy has died of scurvy, and Dylan Seabridge should be alive and he should be well today, and we shouldn't actually be here discussing his death at all. So, Minister, can you please confirm that the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 strengthens the whole safeguarding regime in Wales? Can you also confirm that plans are on track for its introduction in April this year, and that Pembrokeshire will be covered by those new arrangements? Minister, it is time that authorities recognise that the first duty that they have is to protect the child, not to hide behind artificial county boundaries, as seems to have happened, according to press reports, in this case. So, can you assure me that the Act will put the child first—not allow artificial land boundaries to get in the way?

Mae bachgen wyth mlwydd oed wedi marw o'r llwg, a dylai Dylan Seabridge fod yn fyw a dylai fod yn iach heddiw, ac ni ddylem fod yma yn trafod ei farwolaeth o gwbl mewn gwirionedd. Felly, Weinidog, a allwch chi gadarnhau os gwelwch yn dda bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cryfhau'r drefn ddiogelu gyfan yng Nghymru? A allwch chi hefyd gadarnhau bod cynlluniau ar y trywydd iawn ar gyfer ei chyflwyno ym mis Ebrill eleni, ac y bydd Sir Benfro yn cael eu cynnwys o dan y trefniadau newydd hynny? Weinidog, mae'n amser i awdurdodau gydnabod mai'r ddyletswydd gyntaf sydd ganddynt yw amddiffyn y plentyn, nid cuddio y tu ôl i ffiniau sirol artiffisial, fel y mae'n ymddangos sydd wedi digwydd, yn ôl adroddiadau yn y wasg, yn yr achos hwn. Felly, a allwch chi fy sicrhau y bydd y Ddeddf yn rhoi'r plentyn yn gyntaf—nid caniatáu i ffiniau tir artiffisial greu rhwystr?

14:25 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, one of the key ways in which the 2014 Act strengthened safeguarding is in placing safeguarding boards on the six regional footprints, which means that in future no one local authority will be responsible for the oversight of its own services. That will certainly be the case in the case of Pembrokeshire County Council. The Act also places a new legal obligation on all those workers who are involved in potential safeguarding cases to make a report of any concerns that come to their attention to the local social services department. With both of those, together with the new independent national safeguarding board and a series of other changes brought about by the 2014 Act, I feel confident that they will strengthen our safeguarding arrangements, and quite certainly they put the focus very unambiguously on the needs of the child herself or himself.

Lywydd, un o'r ffyrdd allweddol yr oedd Deddf 2014 yn cryfhau diogelu yw trwy osod byrddau diogelu ar y chwe ôl troed rhanbarthol, sy'n golygu na fydd unrhyw un awdurdod lleol yn gyfrifol am oruchwylio ei wasanaethau ei hun yn y dyfodol. Bydd hynny'n sicr yn wir yn achos Cyngor Sir Penfro. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno rhwymedigaeth gyfreithiol newydd ar yr holl weithwyr hynny sy'n ymwneud ag achosion diogelu posibl i wneud adroddiad ar unrhyw bryderon sy'n dod at eu sylw i'r adran gwasanaethau cymdeithasol leol. Gyda'r ddau o'r rheini, ynghyd â'r bwrdd diogelu cenedlaethol annibynnol newydd a chyfres o newidiadau eraill a ddaeth yn sgil Deddf 2014, rwy'n teimlo'n hyderus y byddant yn cryfhau ein trefniadau diogelu, ac yn eithaf sicr maen nhw'n rhoi'r pwyslais yn ddiamwys iawn ar anghenion y plentyn ei hun.

14:26 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, this is a desperately sad case before us, and I'm afraid I don't share your confidence that the safeguarding board will be able to produce a comprehensive report in good order for two reasons. Firstly, because it is not just the county council who have questions to answer here, but it is also the health services, because that young lad should have been in receipt of health visitor care, for example. I know in the first five years of the lives of both my children the health visitor was a crucial element, so we want to know where the health services were in all of this. My second reason for raising my concern over this is that we're talking about a county council that has regrettably had an unfortunately bad reputation in dealing with child safeguarding issues over the time that this young lad died, and I would like to see an independent review being taken of both education, health services and exactly what went on there. I don't say this lightly, and I'm not trying to stir up trouble for them, but I can see it in casework that I have before me that there are difficulties sometimes for young people to access the help that they need even when you raise it at a high level. I appreciate that some of this is under, or was under, criminal investigation, but, nonetheless, for four years that little boy's name and his situation has not been in the eye of those who can make a difference, so I would urge you, Minister, to consider whether or not we need to have an independent review into this, because it's more than just about Pembrokeshire County Council, if we really want to make a difference. And, as I say, I don't have absolute faith that those who are going to be doing this review will be able to do it to their best ability.

Weinidog, mae hwn yn achos trist ofnadwy sydd ger ein bron, ac rwy'n ofni nad wyf yn rhannu eich hyder y bydd y bwrdd diogelu yn gallu llunio adroddiad cynhwysfawr yn brydlon am ddau reswm. Yn gyntaf, oherwydd nid y cyngor sir yn unig sydd â chwestiynau i'w hateb yma, ond hefyd y gwasanaethau iechyd, oherwydd dylai'r bachgen ifanc hwnnw fod wedi bod yn derbyn gofal ymwelydd iechyd, er enghraifft. Gwn yn ystod pum mlynedd gyntaf bywydau y ddau o'm plant i bod yr ymwelydd iechyd yn elfen hanfodol, felly rydym ni eisiau gwybod ble'r oedd y gwasanaethau iechyd yn hyn i gyd. Fy ail reswm am godi fy mhryder am hyn yw ein bod yn sôn am gyngor sir a oedd, yn anffodus, ag enw drwg o ran ymdrin â materion diogelu plant yn ystod y cyfnod y bu'r bachgen ifanc hwn farw, a hoffwn weld adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal o wasanaethau addysg a beth yn union ddigwyddodd yno. Nid wyf yn dweud hyn ar chwarae bach, ac nid wyf yn ceisio creu trafferth iddyn nhw, ond gallaf ei weld mewn gwaith achos sydd gennyf o fy mlaen bod anawsterau weithiau i bobl ifanc gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt hyd yn oed pan fyddwch chi'n ei godi ar lefel uchel. Rwy'n gwerthfawrogi bod rhywfaint o hyn yn destun, neu a fu'n destun, ymchwiliad troseddol, ond, serch hynny, am bedair blynedd nid yw enw'r bachgen bach yna a'i sefyllfa wedi bod yng ngolwg y rhai sy'n gallu gwneud gwahaniaeth, felly byddwn yn eich annog, Weinidog, i ystyried a oes angen i ni gael adolygiad annibynnol ar hyn, gan ei fod yn ymwneud â mwy na dim ond Cyngor Sir Penfro, os ydym ni wir eisiau gwneud gwahaniaeth. Ac, fel y dywedais, nid oes gennyf ffydd lawn y bydd y rhai sy'n mynd i fod yn cynnal yr adolygiad hwn yn gallu gwneud hynny hyd eithaf eu gallu.

14:28 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Llywydd, I think it's important just to put a few dates on the record here. As I said to Members in my original answer, the very sad death of Dylan took place in December 2011. In August of the year, concerns were raised by both the Care and Social Services Inspectorate Wales and by Estyn about aspects of education and social services within the Pembrokeshire local authority area. In November of 2011, the Pembrokeshire ministerial board was set up: it included experts in the field of education and social services, it had independent members including Helen Mary Jones, a former Member of this National Assembly, and it worked very hard in a very challenging way to make sure that the problems that were there around the time that this desperately sad incident took place were rectified. And it was only when that board provided assurances to Ministers that matters in Pembrokeshire were now in good order that the board was stood down in 2013. In October 2014, CSSIW, in a fresh inspection, reported that

'working arrangements…are much improved…. Arrangements for clear oversight of all allegations…have been developed…. The scrutiny committees are strongly led by councillors who are not afraid to challenge officers about safeguarding'.

Lywydd, rwy'n credu ei bod yn bwysig rhoi ychydig o ddyddiadau ar y cofnod yn y fan yma. Fel y dywedais wrth yr Aelodau yn fy ateb gwreiddiol, digwyddodd marwolaeth drist iawn Dylan ym mis Rhagfyr 2011. Ym mis Awst y flwyddyn honno, mynegwyd pryderon gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn am agweddau ar addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn ardal awdurdod lleol Sir Benfro. Ym mis Tachwedd 2011, sefydlwyd bwrdd gweinidogol Sir Benfro: roedd yn cynnwys arbenigwyr ym maes addysg a gwasanaethau cymdeithasol, roedd yn cynnwys aelodau annibynnol gan gynnwys Helen Mary Jones, cyn-Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol hwn, a gweithiodd yn galed iawn mewn ffordd heriol iawn i sicrhau bod y problemau a oedd yno tua adeg y digwyddiad trist ofnadwy hwn yn cael eu datrys. A dim ond pan roddodd y bwrdd hwnnw sicrwydd i Weinidogion fod materion yn Sir Benfro mewn trefn erbyn hyn y diddymwyd y bwrdd yn 2013. Ym mis Hydref 2014, adroddodd AGGCC, mewn arolygiad ffres, bod

'trefniadau gwaith ...lawer yn well...... Datblygwyd trefniadau er mwyn cael trosolwg eglur o'r holl honiadau.... Caiff y pwyllgorau craffu eu harwain mewn ffordd gadarn gan gynghorwyr nad ydynt yn ofni herio swyddogion ynghylch diogelu'.

So, there have been a whole series of independent voices who have been present there in Pembrokeshire, and who have reported on the progress that that local authority has been able to make in the time since this death took place. I'm sorry that the Member doesn't have confidence in the safeguarding board; it seems premature to reach that conclusion before any one of us has even had an opportunity to read the report that they will produce. Safeguarding boards are independent by their nature and they are not simply focused on social services. They include health, they include the police and they include third sector members around that table as well, and they are able to range far more widely than social services where they feel that there are other aspects of a child's care that need to be investigated and reported upon.

Felly, bu cyfres hirfaith o leisiau annibynnol sydd wedi bod yn bresennol yno yn Sir Benfro, ac sydd wedi adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol hwnnw wedi gallu ei wneud yn yr amser ers ei farwolaeth. Mae'n ddrwg gen i nad oes gan yr Aelod hyder yn y bwrdd diogelu; mae'n ymddangos yn rhy gynnar i ddod i'r casgliad hwnnw cyn bod unrhyw un ohonom ni hyd yn oed wedi cael cyfle i ddarllen yr adroddiad y bydd yn ei lunio. Mae byrddau diogelu yn annibynnol yn ôl eu natur ac nid ydynt yn canolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol yn unig. Maen nhw'n cynnwys iechyd, maen nhw'n cynnwys yr heddlu ac maen nhw'n cynnwys aelodau trydydd sector o amgylch y bwrdd hefyd, ac maen nhw'n gallu amrywio'n llawer ehangach na gwasanaethau cymdeithasol lle maen nhw'n teimlo bod agweddau eraill ar ofal plentyn y mae angen ymchwilio iddynt ac adrodd arnynt.

14:30

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I accept the need for independence with regard to the safeguarding regime, and also acknowledge the fact that there were legal proceedings. But, the inquest actually brought those proceedings to an end in January 2015. I understand that the serious case review was, in the words of the press briefings, 90 per cent complete in 2013, and I would respectfully suggest that the guidance for child practice reviews suggest that those reviews should be completed in a period between 12 weeks and six months. In the circumstances, given that the inquest concluded in January 2015, can I ask, whilst respecting the independence of the safeguarding board, that you give some assurance, in order that we can actually read all the evidence and form some conclusions, that that child practice review will be completed as soon as possible and will be published by the local safeguarding board in good time?

Weinidog, rwy'n derbyn yr angen am annibyniaeth o ran y drefn ddiogelu, ac rwyf hefyd yn cydnabod y ffaith y bu achos cyfreithiol. Ond, mewn gwirionedd, daeth y cwest â'r achos hwnnw i ben ym mis Ionawr 2015. Rwy'n deall bod yr adolygiad achos difrifol, yng ngeiriau briffiau i'r wasg, 90 y cant yn gyflawn yn 2013, a byddwn yn awgrymu'n barchus bod y canllawiau ar gyfer adolygiadau ymarfer plant yn awgrymu y dylai'r adolygiadau hynny gael eu cwblhau mewn cyfnod o rhwng 12 wythnos a chwe mis. O dan yr amgylchiadau, o gofio bod y cwest wedi dod i ben ym mis Ionawr 2015, a gaf i ofyn, gan barchu annibyniaeth y bwrdd diogelu, eich bod yn rhoi rhywfaint o sicrwydd, fel y gallwn ddarllen yr holl dystiolaeth a dod i rywfaint o gasgliadau, y bydd yr adolygiad ymarfer plant yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl ac y bydd yn cael ei gyhoeddi gan y bwrdd diogelu lleol mewn da bryd?

14:31

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I can certainly give an assurance that the report will be published once it is available. I, like all Members here, would want to see any such report completed in a timely fashion. I don't think it would be right for me to say anything here that would bring undue pressure upon the people who are responsible for carrying out this independent work, to complete it in a time frame other than the one that they think is necessary to complete their work. As soon as it is available, the better that will be, but they must be allowed the time that they think they need to complete it and then it will be published.

Yn bendant, gallaf roi sicrwydd y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi unwaith y bydd ar gael. Byddwn i, fel pob Aelod yma, eisiau gweld unrhyw adroddiad o'r fath yn cael ei gwblhau yn brydlon. Nid wyf yn credu y byddai'n iawn i mi ddweud unrhyw beth yma a fyddai'n dod â phwysau gormodol ar y bobl sy'n gyfrifol am wneud y gwaith annibynnol hwn, i'w gwblhau yn unol ag amserlen wahanol i'r un y maen nhw'n ei gredu sy'n angenrheidiol i gwblhau eu gwaith. Cyn gynted ag y bydd ar gael, gorau oll fydd hynny, ond mae'n rhaid caniatáu'r amser y maen nhw'n ei gredu sydd ei angen arnynt i'w gwblhau ac yna bydd yn cael ei gyhoeddi.

14:32

# 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

# 2. Business Statement and Announcement

Y

Senedd.tv
Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to the next item, which is the business statement, and I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Symudwn at yr eitem nesaf nawr, sef y datganiad busnes, a galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:32

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Llywydd, there have been no changes to the business statement for this week's business, and business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Lywydd, ni fu unrhyw newidiadau i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon, ac mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

14:32

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, you will have heard in First Minister's questions the point that I put to the First Minister in relation to the RIFW report that was published today, and I think it was refreshing to hear the First Minister put an apology on the record for the way the matter was handled. We have only six weeks left of sitting time this term, before dissolution and going out to the electorate. Can you confirm that it is the Government's intention to table its response for Members to ask the relevant Ministers the necessary questions that they might wish to ask on the report before the Assembly breaks for Easter recess? I do think it is very important that this report is offered the full scrutiny of the whole Assembly, given the spread of these parcels of land in many, many constituencies and regions across Wales, and that the loss to the public purse will be felt by communities across the whole of the Wales. If you take the Vale of Glamorgan, for example, one plot of land there was sold for £2.8 million to the developer, and then forward-sold for over £10 million. That's a huge loss to the public purse, and I do hope that the Government will bring forward an opportunity to scrutinise its response before the Assembly breaks for the Easter recess and the election.

Arweinydd y tŷ, byddwch wedi clywed yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog y pwynt a wnaethpwyd gennyf i'r Prif Weinidog o ran yr adroddiad CBCA a gyhoeddwyd heddiw, ac rwy'n meddwl ei bod yn braf clywed y Prif Weinidog yn gwneud ymddiheuriad ar y cofnod am y ffordd yr ymdriniwyd â'r mater. Dim ond chwe wythnos o amser eistedd sydd gennym yn weddill y tymor hwn, cyn diddymu a mynd allan i'r etholwyr. A allwch chi gadarnhau mai bwriad y Llywodraeth yw cyflwyno ei hymateb i'r Aelodau ofyn y cwestiynau gofynnol i'r Gweinidogion perthnasol efallai y byddant yn dymuno eu gofyn am yr adroddiad cyn i'r Cynulliad dorri ar gyfer toriad y Pasg? Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn bod yr adroddiad hwn yn cael cynnig craffu llawn y Cynulliad cyfan, o ystyried gwasgariad y parseli tir hyn mewn llawer iawn o etholaethau a rhanbarthau ledled Cymru, ac y bydd y golled i'r pwrs cyhoeddus yn cael ei theimlo gan gymunedau ar draws Cymru gyfan. Os cymerwch chi Fro Morgannwg, er enghraifft, gwerthwyd un llain o dir yno am £2.8 miliwn i'r datblygwr, ac yna fe'i gwerthwyd ymlaen am fwy na £10 miliwn. Mae honno'n golled enfawr i'r pwrs cyhoeddus, ac rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn cynnig cyfle i graffu ar ei hymateb cyn i'r Cynulliad dorri ar gyfer toriad y Pasg a'r etholiad.

14:34

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I assure Andrew R.T. Davies, as the First Minister said, that the Welsh Government will study today's report in detail and respond in full before the end of this Assembly term? I would also hope that you would welcome the fact that Ministers have confirmed £16.5 million to be released for regeneration projects across Wales in the coming year.

A gaf i sicrhau Andrew R.T. Davies, fel y dywedodd y Prif Weinidog, y bydd Llywodraeth Cymru yn astudio adroddiad heddiw yn fanwl ac yn ymateb yn llawn cyn diwedd y tymor Cynulliad hwn? Rwyf hefyd yn gobeithio eich bod chi'n croesawu'r ffaith bod Gweinidogion wedi cadarnhau £16.5 miliwn i gael ei ryddhau ar gyfer prosiectau adfywio ledled Cymru yn y flwyddyn sydd i ddod.

14:34

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wanted to raise two issues. Last week, I met Rob Music, the director of Jo's Cervical Cancer Trust, who raised with me the concern of the charity about the dropping rates of the uptake of cervical cancer screening throughout the whole of the UK, but obviously including Wales. This is particularly happening amongst 25 to 34-year-olds and older women. Could she ask the health Minister to make a statement about efforts that could be made to improve the situation, especially as this week is Cervical Cancer Awareness Week?

Weinidog, roeddwn i eisiau codi dau fater. Yr wythnos diwethaf, cyfarfûm â Rob Music, cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Canser Ceg y Groth Jo, a gododd gyda mi bryder yr elusen am y cyfraddau gostyngol o ran y nifer sy'n manteisio ar gael eu sgrinio ar gyfer canser ceg y groth drwy'r DU gyfan, ond gan gynnwys Cymru yn amlwg. Mae hyn yn digwydd yn arbennig ymhlith pobl 25 i 34 mlwydd oed a menywod hŷn. A allai hi ofyn i'r Gweinidog iechyd wneud datganiad ar ymdrechion y gellid eu gwneud i wella'r sefyllfa, yn enwedig gan mai'r wythnos hon yw Wythnos Ymwybyddiaeth Canser Ceg y Groth?

That was the first one. And then, secondly, tomorrow we will be marking Holocaust Memorial Day, and numerous events will be held. There will be an event on the steps of the Senedd to draw attention to all victims of the Holocaust, but in particular drawing attention to members of the Gypsy community, who were also victims, but are not always recognised as being so. Will it be possible for the Welsh Government, in some way, to give an assessment on how children in Wales now view the Holocaust, and the impact that it does have on the various communities who have descendants here in Wales?

Dyna oedd yr un cyntaf. Ac yna, yn ail, yfory byddwn yn nodi Diwrnod Cofio'r Holocost, a bydd nifer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal. Bydd digwyddiad ar risiau'r Senedd i dynnu sylw at holl ddioddefwyr yr Holocost, ond yn tynnu sylw'n arbennig at aelodau'r gymuned Sipsiwn, a oedd hefyd yn ddioddefwyr, ond na chydnabyddir eu bod bob amser. A fydd modd i Lywodraeth Cymru, mewn rhyw ffordd, roi asesiad o safbwynt plant yng Nghymru o'r Holocost erbyn hyn, a'r effaith y mae'n ei gael ar y gwahanol gymunedau sydd â disgynyddion yma yng Nghymru?

14:35

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for Cardiff North for both those questions. I think the points you make about your meeting last week with Rob Music, director of Jo's Cervical Cancer Trust, are very important because of the concerns that they've raised. Now, we have an opportunity, as you say, with Cervical Cancer Awareness Week, and you're drawing this to our attention very helpfully, I think, today, and also the work of Jo's Cervical Cancer Trust in raising awareness. In fact, Welsh Government officials met with that cancer trust and the Public Health Wales screening division on 11 January, to discuss cervical outcomes and screening uptake. We have got a comprehensive set of approaches to reducing the risks of developing cancer, including, of course, the HPV vaccination. Just for the record, over 83 per cent of Welsh girls who had turned 14 prior to 31 August last year had received all three doses of the human papilloma virus vaccine. But, I will ask the Minister for Health and Social Services to update on this matter if any additional information is required.

Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am y ddau gwestiwn yna. Rwy'n meddwl bod y pwyntiau yr ydych chi'n eu gwneud am eich cyfarfod gyda Rob Music, cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Canser Ceg y Groth Jo, yr wythnos diwethaf, yn bwysig iawn oherwydd y pryderon y maen nhw wedi eu codi. Nawr, mae gennym ni gyfle, fel y dywedwch, gydag Wythnos Ymwybyddiaeth Canser Ceg y Groth, ac rydych chi'n tynnu ein sylw at hyn yn ddefnyddiol iawn, rwy'n meddwl, heddiw, a hefyd gwaith Ymddiriedolaeth Canser Ceg y Groth Jo o ran codi ymwybyddiaeth. A dweud y gwir, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â'r ymddiriedolaeth canser honno ac isadran sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 11 Ionawr, i drafod canlyniadau ceg y groth a'r nifer sy'n cael eu sgrinio. Mae gennym gyfres gynhwysfawr o ddulliau i leihau'r risg o ddatblygu canser, gan gynnwys, wrth gwrs, y brechiad HPV. Er mwyn i bawb cael gwybod, roedd dros 83 y cant o ferched yng Nghymru a oedd wedi troi 14 cyn 31 Awst y llynedd wedi derbyn pob un o'r tri dos o'r brechlyn feirws papiloma dynol. Ond, byddaf yn gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn os oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol.

On your second question, in terms of marking Holocaust Memorial Day and the events that will take place tomorrow—and I certainly will be joining you on the steps of the Senedd, as well as attending events in Barry tomorrow evening—I think what's very important is the role of the Holocaust Memorial Day Trust. They've produced resources for use in school settings, and the Welsh Government has supported and promoted these through 'Dysg', our newsletter to schools. And these, of course, are available to download on the website, and we do hope that many schools across Wales are making use of them.

Ynglŷn â'ch ail gwestiwn, o ran nodi Diwrnod Cofio'r Holocost a'r digwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal yfory—a byddaf yn sicr yn ymuno â chi ar risiau'r Senedd, yn ogystal â mynd i ddigwyddiadau yn y Barri nos yfory—credaf mai'r hyn sy'n bwysig iawn yw swyddogaeth Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost. Maen nhw wedi cynhyrchu adnoddau i'w defnyddio mewn ysgolion, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi a hyrwyddo'r rhain trwy 'Dysg', ein cylchlythyr i ysgolion. Ac mae'r rhain, wrth gwrs, ar gael i'w lawrlwytho ar y wefan, ac rydym ni'n gobeithio bod llawer o ysgolion ledled Cymru yn gwneud defnydd ohonynt.

But I think, also, you have focused particularly on members of the Gypsy community, who were also victims, but not always recognised. And I think that's where we look to the Welsh Government's 'Travelling together' curriculum, which the Minister for Communities and Tackling Poverty would want to draw to our attention. That resource has been available since March 2014, and of course it does contain curriculum resources to support learning on the Holocaust, and, particularly, the terrible impact on the Gypsy and Traveller community.

Ond rwy'n credu, hefyd, eich bod wedi canolbwyntio'n benodol ar aelodau o'r gymuned Sipsiwn, a oedd hefyd yn ddioddefwyr, ond nad ydynt yn cael eu cydnabod bob amser. Ac rwy'n meddwl mai dyna lle'r ydym ni'n edrych i gwricwlwm 'Teithio gyda'n gilydd' Llywodraeth Cymru, y byddai'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi eisiau tynnu ein sylw ato. Mae'r adnodd hwnnw wedi bod ar gael ers mis Mawrth 2014, ac wrth gwrs mae'n cynnwys adnoddau cwricwlwm i gefnogi dysgu am yr Holocost, ac, yn arbennig, yr effaith ofnadwy ar y gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

14:38

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf i ofyn am ddatganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar ddyfodol y gwasanaeth awyr rhwng de a gogledd Cymru? Tra rwy'n deall yn iawn pam bod y Llywodraeth wedi teimlo bod angen gwneud trefniadau newydd ar gyfer y gwasanaeth, oherwydd ansicrwydd yn dilyn colled y drwydded ddiogelwch gan ddeiliad blaenorol y cytundeb, mae angen sicrwydd rŵan ar gyfer y dyfodol. Roedd cytundeb LinksAir yn gytundeb pedair blynedd, ac mae yna awgrym y gallai'r cytundeb newydd, sydd, fel rydym yn deall, yn dod i rym ddechrau mis Chwefror, fod yn llawer byrrach. Mi rydym ni angen datganiad pellach, rwy'n meddwl, ynglŷn â'r trefniadau newydd. Mae o'n wasanaeth pwysig, ond mae o angen sefydlogrwydd er mwyn rhoi hyder i deithwyr.

Can I ask for a statement from the Minister for Economy, Science and Transport on the future of the air service between north and south Wales? Whilst I fully understand why the Government felt it necessary to make new arrangements for the service because of uncertainties following the loss of the safety licence by the previous contract holder, we now need an assurance for the future. The LinksAir contract was for four years and there's a suggestion that the new contract that, as we understand it, will come into force at the beginning of February, could be much shorter. We do need a further statement, I think, about these new arrangements. It is an important service, but it does need stability in order to give travellers confidence.

14:39

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, of course, Rhun ap Iorwerth will be aware of, and draws attention to, the letter that the Minister for Economy, Science and Transport has written and issued to all Assembly Members, to provide a full update on this matter. A replacement air service has been put in place, and passengers with pre-booked flights can also use their tickets on Arriva Trains Wales trains, at no cost, for travel between Cardiff and Holyhead, if they so choose. Officials have also instructed LinksAir to contact all pre-booked passengers to provide them with a full refund if they no longer intend to travel.

Wel, wrth gwrs, bydd Rhun ap Iorwerth yn ymwybodol o'r llythyr y mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi ei ysgrifennu a'i roi i holl Aelodau'r Cynulliad, er mwyn cynnig diweddariad llawn ar y mater hwn, ac mae'n tynnu sylw ato. Mae gwasanaeth awyr wrth gefn wedi ei gyflwyno, a gall teithwyr sydd wedi archebu tocynnau awyren ymlaen llaw hefyd ddefnyddio eu tocynnau ar Drenau Arriva Cymru, heb unrhyw gost, i deithio rhwng Caerdydd a Chaergybi, os byddant yn dewis gwneud hynny. Mae swyddogion hefyd wedi cyfarwyddo LinksAir i gysylltu â phob teithiwr sydd wedi archebu ymlaen llaw i roi ad-daliad llawn iddyn nhw os nad ydynt yn bwriadu teithio mwyach.

14:39

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I wonder whether I might request a statement from the Minister for Economy, Science and Transport on the situation with the traffic on the A48 around the Heath hospital. The Heath hospital site itself is often completely gridlocked and up to half of the traffic using the hospital site is actually not attending the hospital at all, but passing through to try and avoid traffic problems on other roads in the area. I'd be very grateful for a statement outlining what the changes have been recently that have exacerbated this problem and how we might approach it.

Tybed a gaf i ofyn am ddatganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y sefyllfa gyda'r traffig ar yr A48 o gwmpas ysbyty'r Mynydd Bychan. Mae safle ysbyty'r Mynydd Bychan ei hun yn aml yn llawn dop ac nid yw hyd at hanner y traffig sy'n defnyddio safle'r ysbyty yn mynd i'r ysbyty o gwbl mewn gwirionedd, ond yn teithio trwodd i geisio osgoi problemau traffig ar ffyrdd eraill yn yr ardal. Byddwn yn ddiolchgar iawn am ddatganiad yn amlinellu beth fu'r newidiadau yn ddiweddar sydd wedi gwaethygu'r broblem hon a sut y gallwn fynd i'r afael â hi.

Secondly, I wonder whether I might request a statement from the Minister for Communities and Tackling Poverty regarding the story we've seen over the last few days in the newspapers regarding refugees in Cardiff being obliged to wear wristbands in order to access food from what I believe are UK Government contractors dealing with refugees. Clearly, this shames us here in Cardiff that this has happened, and I'm glad that that is no longer the case. However, I would be interested to know whether this issue has ever been raised at any of the refugee summits that the Welsh Government has hosted and what action can be taken in future to make sure that refugees coming here to our nation are dealt with in a sensitive manner.

Yn ail, tybed a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar y stori yr ydym ni wedi ei gweld dros yr ychydig ddiwrnodau diwethaf yn y papurau newydd am orfodi ffoaduriaid yng Nghaerdydd i wisgo bandiau arddwrn er mwyn cael bwyd gan rai yr wyf yn credu sy'n gontractwyr Llywodraeth y DU sy'n ymdrin â ffoaduriaid. Yn amlwg, mae hyn yn codi cywilydd arnom ni yma yng Nghaerdydd bod hyn wedi digwydd, ac rwy'n falch nad yw'n digwydd mwyach. Fodd bynnag, byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod a yw'r mater hwn erioed wedi cael ei godi yn unrhyw un o'r uwchgynadleddau ffoaduriaid y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cynnal a pha gamau y gellir eu cymryd yn y dyfodol i wneud yn siŵr bod ffoaduriaid sy'n dod yma i'n gwlad yn cael eu trin mewn modd sensitif.

14:41 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Eluned Parrott for those questions. I will ask the Minister for Economy, Science and Transport if there is any clarification or understanding of why pressures on the A48 around the entrance to the University Hospital of Wales have become more difficult in recent times, as you identified.

Diolchaf i Eluned Parrott am y cwestiynau yna. Byddaf yn gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a oes unrhyw eglurhad neu ddealltwriaeth o pam y mae pwysau ar yr A48 o amgylch y fynedfa i Ysbyty Athrofaol Cymru wedi dod yn fwy anodd yn ddiweddar, fel y nodwyd gennych.

Of course, on your second question, the First Minister very clearly—as indeed did the Minister for Communities and Tackling Poverty, Lesley Griffiths, and I'm sure all of us—strongly condemned the use of wristbands to identify asylum seekers. It's not only dehumanising, but it can lead to discrimination and hate crime, and we've seen the examples of that that have been given. The First Minister has written to the Minister for immigration to express his concerns and to ask for confirmation that the use of wristbands has indeed ended.

Wrth gwrs, ar eich ail gwestiwn, condemniodd y Prif Weinidog yn eglur iawn—fel y gwnaeth y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths yn wir, a phob un ohonom ni rwy'n siŵr—yn gryf y defnydd o fandiau arddwrn i adnabod ceiswyr lloches. Nid yn unig y mae'n dad-ddyneiddio, ond gall arwain at wahaniaethu a throseddau casineb, ac rydym ni wedi gweld yr enghreifftiau o hynny sydd wedi cael eu rhoi. Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at y Gweinidog mewnfudo i fynegi ei bryderon ac i ofyn am gadarnhad bod y defnydd o fandiau arddwrn wedi dod i ben.

14:42 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wonder if I might ask for a statement from the Minister for Natural Resources concerning the number of incidents of overflows from sewage systems in areas where Welsh Water have not raised objections to new developments. The Minister very kindly facilitated through his officials a meeting between me and Welsh Water at the end of last year, which was extremely helpful, but, subsequently, there remain these discharges of sewage in parts of Cwmbran—this week, for example, between Ton Road and Two Locks Road and, yesterday, between Blenheim Road and Henllys Way. This clearly causes great distress to residents and there are also issues of public health. Could I ask, through you, the Minister to ask his officials to take some further action?

Tybed a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar nifer y digwyddiadau o orlifo o systemau carthffosiaeth mewn ardaloedd lle nad yw Dŵr Cymru wedi codi gwrthwynebiadau i ddatblygiadau newydd. Bu'r Gweinidog yn ddigon caredig i hwyluso drwy ei swyddogion cyfarfod rhyngof i a Dŵr Cymru ddiwedd y flwyddyn diwethaf, a oedd o gymorth mawr, ond, ers hynny, mae'r gollyngiadau hyn o garthion yn parhau mewn rhannau o Gwmbrân—yr wythnos hon, er enghraifft, rhwng Ton Road a Two Locks Road a, ddoe, rhwng Blenheim Road a Henllys Way. Mae hyn yn amlwg yn achosi gofid mawr i drigolion a cheir materion yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd hefyd. A gaf i ofyn, drwoch chi, i'r Gweinidog ofyn i'w swyddogion gymryd camau pellach?

14:42 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure the Minister has heard the point that you raise this afternoon, and the fact that he did facilitate the meeting with Welsh Water last year to get that evidence from you on behalf of your constituents, I think, indicates the fact that he would be very willing, of course, to follow up the points that you raise today, drawing attention to new incidents of that kind.

Rwy'n siŵr bod y Gweinidog wedi clywed y pwynt yr ydych chi'n ei godi y prynhawn yma, ac mae'r ffaith ei fod wedi hwyluso'r cyfarfod gyda Dŵr Cymru y llynedd i gael y dystiolaeth honno gennych chi ar ran eich etholwyr, rwy'n meddwl, yn dangos y ffaith y byddai'n barod iawn, wrth gwrs, i fynd ar drywydd y pwyntiau a godwch heddiw, gan dynnu sylw at achosion newydd o'r math hwnnw.

14:43 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, I'd like to request a statement from the Deputy Minister for Farming and Food on the Welsh Government plans to consult on nitrate vulnerable zones within Pembrokeshire. It is my understanding that there may well be proposals to conduct a consultation between now and the forthcoming National Assembly election. I think it is a matter of considerable concern, if that were to be the case, given the restrictions of purdah that would impinge both upon farmers and other interested stakeholders in maintaining an appropriate consultation.

Arweinydd y tŷ, hoffwn ofyn am ddatganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar gynlluniau Lywodraeth Cymru i ymgynghori ar barthau perygl nitradau yn Sir Benfro. Rwyf ar ddeall y gallai fod cynigion i gynnal ymgynghoriad rhwng nawr ac etholiad nesaf y Cynulliad Cenedlaethol. Rwy'n credu ei fod yn fater o bryder sylweddol, pe byddai hynny'n wir, o ystyried y cyfyngiadau neilltuaeth a fyddai'n effeithio ar ffermwyr a rhanddeiliaid eraill â buddiant o ran cynnal ymgynghoriad priodol.

14:43 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that question. It is in fact the responsibility of the Minister for Natural Resources, and he certainly will take on board your points in terms of consultation on nitrate vulnerable zones in Pembrokeshire.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn yna. Cyfrifoldeb y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yw hyn mewn gwirionedd, a bydd yn sicr yn ystyried eich pwyntiau o ran ymgynghori ar barthau perygl nitradau yn Sir Benfro.

14:44 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I call for two statements? Firstly, I call for a progress update on the actions detailed in the 'Autistic Spectrum Disorder Interim Delivery Plan 2015-16', published in May last year. Many deadlines in the interim plan have failed to be met, including an update on how each local authority is supporting the ASD infrastructure now that funding is channelled through their revenue support grant. This was due in September 2015. Similarly, the publication of an independent evaluation of the ASD strategic action plan was also due in the summer of 2015. We therefore need a statement providing details on how these specific points will be achieved and when, and an explanation of why so few of the targets in the interim delivery plan have yet to be realised.

A gaf i alw am ddau ddatganiad? Yn gyntaf, galwaf am adroddiad ar gynnydd ar y camau gweithredu a nodir yn 'Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig - Cynllun Cyflawni Interim 2015-16', a gyhoeddwyd ym mis Mai y llynedd. Mae llawer o derfynau amser yn y cynllun interim wedi methu â chael eu bodloni, gan gynnwys diweddariad ar sut y mae pob awdurdod lleol yn cefnogi'r seilwaith Anhwylder Sbectrwm Awtistig nawr bod cyllid yn cael ei sianelu drwy eu grantiau cynnal refeniw. Disgwyliwyd hyn ym mis Medi 2015. Yn yr un modd, disgwyliwyd i werthusiad annibynnol o'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer Anhwylder Sbectrwm Awtistig gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2015 hefyd. Felly, mae angen datganiad arnom yn rhoi manylion am sut y bydd y pwyntiau penodol hyn yn cael eu cyflawni a phryd, ac esboniad o pam mae cyn lleied o'r targedau yn y cynllun cyflawni interim wedi'u gwireddu hyd yma.

Secondly and finally, could I call for a Welsh Government statement on funeral poverty? As Chair of the cross-party group on funerals and bereavement and on the cross-party group on hospices and palliative care, I welcome the findings of research on funeral poverty from Marie Curie and the University of York, which underlines the general need for greater readiness in society to think and talk about death and dying, including the economic implications. This research has identified key people, such as hospice and bereavement staff, who can be trained to recognise circumstances where discussions could be had to avoid some of the financial problems that come through a lack of information and rushed decision making at the end of life or after death. So, a statement detailing what steps the Welsh Government proposes to better train healthcare workers in this difficult but necessary task and to encourage responsible planning for funerals in order to reduce the financial burden placed upon loved ones would be very timely.

Yn ail ac yn olaf, a gaf i alw am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ar dlodi angladdau? Fel Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar angladdau a phrofedigaeth ac aelod o'r grŵp trawsbleidiol ar hosbisau a gofal lliniarol, croesawaf ganfyddiadau gwaith ymchwil ar dlodi angladdau gan Marie Curie a Phrifysgol Caerefrog, sy'n tanlinellu'r angen cyffredinol am fwy o barodrwydd mewn cymdeithas i feddwl a siarad am farwolaeth a marw, gan gynnwys y goblygiadau economaidd. Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi nodi pobl allweddol, fel staff hosbisau a phrofedigaeth, y gellir eu hyfforddi i adnabod amgylchiadau lle gellid cael trafodaethau i osgoi rhai o'r problemau ariannol sy'n dod trwy ddiffyg gwybodaeth a rhuthro i wneud penderfyniadau ar ddiwedd oes neu ar ôl marwolaeth. Felly, byddai datganiad yn rhoi manylion am ba gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnig i hyfforddi gweithwyr gofal iechyd yn well yn y dasg anodd ond angenrheidiol hon ac i annog cynllunio cyfrifol ar gyfer angladdau er mwyn lleihau'r baich ariannol a roddir ar anwyliaid yn amserol iawn.

14:46 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Mark Isherwood, for your questions. On the first point, of course, Ministers have clear expectations of delivery of the autism spectrum disorder interim action plan. Of course, the strategy that has been supported and implemented by the Welsh Government depends on delivery by partners, and, of course, that is what Ministers would expect in terms of monitoring reporting on progress.

Diolch i chi, Mark Isherwood, am eich cwestiynau. O ran y pwynt cyntaf, wrth gwrs, mae gan Weinidogion ddisgwyliadau eglur o ddarparu'r cynllun gweithredu interim ar anhwylder sbectrwm awtistig. Wrth gwrs, mae'r strategaeth a gefnogwyd ac a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru yn dibynnu ar ddarpariaeth gan bartneriaid, ac, wrth gwrs, dyna fyddai Gweinidogion yn ei ddisgwyl o ran monitro adroddiadau ar gynnydd.

On your second question, of course, you do draw attention to an important piece of research from Marie Curie, which I know Ministers will want to look at in terms of relevant responsibilities and response.

O ran eich ail gwestiwn, wrth gwrs, rydych chi'n tynnu sylw at ddarn pwysig o waith ymchwil gan Marie Curie, a gwn y bydd Gweinidogion eisiau edrych arno o ran cyfrifoldebau ac ymateb perthnasol.

14:46

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I would be grateful if you could ask the Minister for Economy, Science and Transport whether she'd be willing to bring forward a comprehensive oral statement updating the Chamber on the success of the creative industries strategy. She was kind enough to indicate in questions last week that she'd be prepared to provide that update, but I think it's important for this Chamber to have the opportunity to scrutinise that orally, particularly as I would like the update to include specific details of performance against key performance indicators.

Weinidog, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a fyddai'n fodlon cyflwyno datganiad llafar cynhwysfawr yn diweddaru'r Siambr ar lwyddiant y strategaeth diwydiannau creadigol. Roedd hi'n ddigon caredig i nodi yn ystod cwestiynau yr wythnos diwethaf y byddai'n fodlon rhoi'r diweddariad hwnnw, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig i'r Siambr hon gael y cyfle i graffu ar hynny ar lafar, yn enwedig gan yr hoffwn i'r diweddariad gynnwys manylion penodol perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol.

14:47

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, the Minister has responded positively, because we have such a positive story to tell in terms of our creative industries, and I know she will want to, as she promised, update Members on developments.

Wrth gwrs, mae'r Gweinidog wedi ymateb yn gadarnhaol, gan fod gennym stori mor gadarnhaol i'w hadrodd o ran ein diwydiannau creadigol, ac rwy'n gwybod y bydd hi eisiau, fel yr addawodd, diweddaru'r Aelodau ar y datblygiadau.

14:47

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can I reiterate the requests of Andrew R.T. Davies and other Members in this Chamber today for clarification from the Welsh Government on how you intend to learn the lessons of the RIFW shambles and ensure that similar mistakes are not repeated in future? There has been great concern in my constituency about the sale of the Wonastow Road fields in Monmouth at well below market value—a site that was subsequently granted planning permission to fulfil the Welsh Government's requirements for additional housing in Monmouthshire. How will you reassure the public that the mistakes of the past will not be repeated in future?

Weinidog, a gaf i ailadrodd ceisiadau Andrew R.T. Davies ac Aelodau eraill yn y Siambr hon heddiw am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar sut yr ydych chi'n bwriadu dysgu'r gwersi o draed moch y CBCA a sicrhau nad yw camgymeriadau tebyg yn cael eu hailadrodd yn y dyfodol? Bu pryder mawr yn fy etholaeth i am werthu caeau Ffordd Wonastow yn Nhrefynwy am lawer llai na gwerth y farchnad—safle lle rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer wedi hynny i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer tai ychwanegol yn Sir Fynwy. Sut gwnewch chi dawelu meddyliau'r cyhoedd na fydd camgymeriadau'r gorffennol yn cael eu hailadrodd yn y dyfodol?

14:48

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think the First Minister made it very clear what his response is to concerns about the report from the Public Accounts Committee. As I said, clearly, there will be time, as we respond to this report in detail, and, of course, we will respond in full before the end of this Assembly term.

Rwy'n meddwl bod y Prif Weinidog wedi ei gwneud yn eglur iawn beth yw ei ymateb i bryderon am yr adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Fel y dywedais, yn eglur, bydd amser, wrth i ni ymateb i'r adroddiad hwn yn fanwl, ac, wrth gwrs, byddwn yn ymateb yn llawn cyn diwedd y tymor Cynulliad hwn.

14:48

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:48

# 3. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2016

# 3. The Town and Country Planning Y (Fees for Applications, Deemed Applications and Site Visits) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

Senedd.tv Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is the Town and Country Planning (Fees for Applications, Deemed Applications and Site Visits) (Wales) (Amendment) Regulations 2016, and I call on the Minister for Natural Resources to move the motion—Carl Sargeant.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau â Safleoedd) (Cymru) (Diwygio) 2016, a galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig y cynnig—Carl Sargeant.

Cynnig NDM5926 Jane Hutt

Motion NDM5926 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2015.

Approves that the draft The Town and Country Planning (Fees for Applications, Deemed Applications and Site Visits) (Wales) (Amendment) Regulations 2016 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 3 December 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

14:48

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Presiding Officer. The proposed amendments support the positive planning agenda and bring forward secondary legislation resulting from the Planning (Wales) Act 2015. I formally move.

Diolch, Lywydd. Mae'r gwelliannau arfaethedig yn cefnogi'r agenda cynllunio cadarnhaol ac yn cyflwyno deddfwriaeth eilaidd sy'n deillio o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Rwy'n cynnig yn ffurfiol.

14:48

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I have no speakers. So, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore, it is agreed in accordance with the Standing Orders.

Diolch. Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, mae wedi'i dderbyn yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

14:49

# 4. & 5. Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 a Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffïoedd) (Cymru) 2016

# 4. & 5. The Developments of National Significance (Specified Criteria and Prescribed Secondary Consents) (Wales) Regulations 2016 and the Developments of National Significance (Fees) (Wales) Regulations 2016

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 4, which is the development of—[Interruption.] Sorry, we are having a technical hitch here. Well, I'm moving to item 4, anyway. Item 4 is the Developments of National Significance (Specified Criteria and Prescribed Secondary Consents) (Wales) Regulations 2016 and the Developments of National Significance (Fees) (Wales) Regulations 2016. In accordance with the Standing Orders, I do propose that the following two motions, under items 4 and 5, are grouped for debate. Does any Member object? No objections. Therefore, I call on the Minister for Natural Resources to move the motions. Minister.

Symudwn yn awr at eitem 4, sef datblygu— [Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf, rydym yn cael tipyn o broblem dechnegol yma. Wel, rwy'n symud at eitem 4, beth bynnag. Eitem 4 yw Rheoliadau Datblygiadau o Bwys Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chaniatadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 a Rheoliadau Datblygiadau o Bwys Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, rwy'n cynnig bod y ddau gynnig canlynol, o dan eitemau 4 a 5, yn cael eu grwpio ar gyfer dadl. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig y cynigion. Weinidog.

Cynnig NDM5927 Jane Hutt

Motion NDM5927 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2015.

Approves that the draft The Developments of National Significance (Specified Criteria and Prescribed Secondary Consents) (Wales) Regulations 2016 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 3 December 2015.

Cynnig NDM5928 Jane Hutt

Motion NDM5928 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2015.

Approves that the draft The Developments of National Significance (Fees) (Wales) Regulations 2016 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 3 December 2015.

*Cynigiwyd y cynigion.*

*Motions moved.*

14:50

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Presiding Officer. I'm pleased to present these regulations to the Assembly for approval today. These regulations are the first of two suites of statutory instruments that bring into force the process of determination of applicants for developments of national significance. I formally move.

Diolch, Lywydd. Rwy'n falch o gyflwyno'r rheoliadau hyn i'r Cynulliad i'w cymeradwyo heddiw. Y rheoliadau hyn yw'r cyntaf o ddwy gyfres o offerynnau statudol sy'n rhoi grym i'r broses o ddewis ymgeiswyr ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Rwy'n cynnig yn ffurfiol.

14:50

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I said when the planning Act was on its legislative journey through this Assembly that one of the main problems I have with the Welsh Government's use of subordinate legislation is that it seeks to push through significant legislative changes through this mechanism rather than fleshing out the detail on the face of the Bill. This mechanism denies the legislature the opportunity to scrutinise much of the Government's underlying thinking on how the legislation will be fully implemented.

Dywedais pan oedd y Ddeddf cynllunio ar ei thaith ddeddfwriaethol drwy'r Cynulliad hwn mai un o'r prif broblemau sydd gennyf â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio is-ddeddfwriaeth yw ei bod yn ceisio gorfodi newidiadau deddfwriaethol sylweddol drwy'r mecanwaith hwn yn hytrach nag ymhelaethu ar y manylion ar wyneb y Bil. Mae'r mecanwaith hwn yn atal y ddeddfwrfa rhag cael cyfle i graffu ar lawer o feddyliau sylfaenol y Llywodraeth ynglŷn â sut y caiff y ddeddfwriaeth ei rhoi ar waith yn llawn.

The Welsh Government originally proposed including energy generation stations of between 25 MW and 50 MW as developments of national significance but has now revised that definition to include all energy generation stations of between 10 MW and 50 MW. This means that any energy generation station of between 10 MW and 50 MW in Wales will be, in future, automatically considered by Welsh Ministers.

Yn wreiddiol, cynigiodd Llywodraeth Cymru gynnwys gorsafoedd cynhyrchu ynni rhwng 25 MW a 50 MW fel datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ond erbyn hyn maent wedi diwygio'r diffiniad hwnnw i gynnwys pob gorsaf cynhyrchu ynni rhwng 10 MW a 50 MW. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw orsaf cynhyrchu ynni rhwng 10 MW a 50 MW yng Nghymru, yn y dyfodol, yn cael ei hystyried yn awtomatig gan Weinidogion Cymru.

Now, this represents a significant departure from the parameters of the Welsh Government's original proposal, and I don't believe that this approach, which seeks to steamroll subordinate legislation through this Assembly, is an acceptable way to proceed, especially in the light of concerns that the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee rehearsed last week on the balance between the detail provided on the face of Bills in the fourth Assembly and the use of subordinate legislation.

Nawr, mae hyn yn wyriad sylweddol oddi wrth baramedrau cynnig gwreiddiol Llywodraeth Cymru, ac nid wyf yn credu bod y dull hwn, sy'n ceisio hyrddio is-ddeddfwriaeth drwy'r Cynulliad hwn, yn ffordd dderbyniol o fwrw ymlaen, yn enwedig yng ngoleuni'r pryderon a nododd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yr wythnos diwethaf ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng y manylion a ddarperir ar wyneb Biliau yn y pedwerydd Cynulliad a defnyddio is-ddeddfwriaeth.

During my comments at Stage 1 of the planning Bill, I referred to the temptation for Ministers to employ mission creep in relation to developments of national significance when it comes to determining what applications the Government will have the final say on. This prediction now seems to have come to pass. The Minister says that the change to extend the Welsh Government's remit is in response to comments from the energy generation industry, in order to, and I quote

'address the shortcomings identified in the current consenting regime for projects of all output levels and to reflect the relative scale of projects in Wales'.

But I would say: what about the views of Welsh civic society? A number of organisations have expressed concerns about the top-down nature of the planning system and the considerable additional powers that Welsh Ministers are acquiring for themselves. Indeed, the WLGA, the Institution of Civil Engineers and the Law Society were all concerned about the way in which Welsh Government's proposals to directly approve applications on developments of national significance serve to undermine local democracy. Some respondents also believe that the changes will make it even more difficult to achieve community engagement in the planning system. It makes no sense at all that a cluster of around five wind turbines, for example, can be considered as nationally important.

If this provision is adopted, along with additional provisions in the Wales Bill regarding major energy schemes, it will effectively mean that the Welsh Government will be responsible not only for setting policy on major onshore energy generation, but also the decision makers on the vast majority of schemes. How can that be democratically right from any perspective—to take away the power-making process from local authorities? In reality, local opinion will become irrelevant because, by definition, any proposal lodged with and determined by the Welsh Government will automatically be of so-called national significance and therefore assume a status of importance that it will be argued is in the national interest and therefore overrides any local considerations.

This new provision also means that the Welsh Government would be responsible for the determination of schemes within, and immediately in proximity to national parks, areas of outstanding natural beauty and also areas of national conservation and of a heritage interest. For me, you don't improve consistency and capacity by simply taking the decision-making process out of the hands of elected planning authorities; all you are doing is eroding local democracy. I strongly urge Members to reject this appalling piece of regulation.

Yn ystod fy sylwadau yng Nghyfnod 1 y Bil cynllunio, cyfeiriais at y demtasiwn i Weinidogion sleifio eu cenhadaeth i mewn i ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol pan ddaw'n amser dewis pa geisiadau y caiff y Llywodraeth y gair olaf ynglŷn â hwy. Nawr, mae'n ymddangos bod y rhagfynegiad hwn wedi dod yn wir. Mae'r Gweinidog yn dweud bod y newid i ymestyn cylch gwaith Llywodraeth Cymru yn ymateb i sylwadau gan y diwydiant cynhyrchu ynni, er mwyn, a dyfynnaf

'ymdrin â'r diffygion a nodwyd yn y gyfundrefn ganiatâd gyfredol ar gyfer prosiectau o bob lefel allbwn ac i adlewyrchu maint cymharol prosiectau yng Nghymru'.

Ond byddwn i'n dweud: beth am farn cymdeithas ddinesig Cymru? Mae nifer o sefydliadau wedi mynegi pryderon am natur o'r brig i lawr y system gynllunio a'r pwerau ychwanegol sylweddol y mae Gweinidogion Cymru yn eu rhoi iddynt eu hunain. Yn wir, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Sefydliad y Peirianwyr Sifil a Chymdeithas y Gyfraith i gyd yn pryderu am y ffordd y mae cynigion Llywodraeth Cymru i gymeradwyo ceisiadau yn uniongyrchol ar ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn tanseilio democratiaeth leol. Mae rhai o'r ymatebwyr hefyd yn credu y bydd y newidiadau'n ei gwneud yn anoddach fyth cyflawni ymgysylltiad cymunedol yn y system gynllunio. Nid yw'n gwneud dim synnwyr o gwbl i ystyried bod clwstwr o tua phum tyrbin gwynt, er enghraifft, o bwys cenedlaethol.

Os caiff y ddarpariaeth hon ei mabwysiadu, ynghyd â darpariaethau ychwanegol ym Mil Cymru ynghylch cynlluniau ynni mawr, bydd yn golygu i bob diben y bydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol nid yn unig am osod polisi ar gynhyrchu ynni mawr ar y tir, ond hefyd am y bobl sy'n gwneud penderfyniadau am y mwyafrif helaeth o gynlluniau. Sut y gall hynny fod yn iawn yn ddemocrataidd o unrhyw safbwynt—cymryd y broses o wneud pŵer oddi ar awdurdodau lleol? Y gwirionedd yw y bydd barn leol yn dod yn amherthnasol oherwydd, drwy ddiffiniad, bydd unrhyw gynnig a gyflwynir i Lywodraeth Cymru i wneud penderfyniad amdano yn cael ei ystyried yn awtomatig fel un o arwyddocâd cenedlaethol ac felly'n cael statws pwysigrwydd y bydd pobl yn dadlau ei fod er budd cenedlaethol ac felly yn bwysicach nag unrhyw ystyriaethau lleol.

Mae'r ddarpariaeth newydd hon hefyd yn golygu y byddai Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am benderfynu ar gynlluniau o fewn, ac yn union wrth ymyl parciau cenedlaethol, ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a hefyd ardaloedd cadwraeth cenedlaethol ac ardaloedd o ddiddordeb treftadaeth. I mi, nid ydych yn gwella cysondeb a chynhwysedd drwy gymryd y broses o wneud penderfyniadau allan o ddwylo awdurdodau cynllunio etholedig; y cyfan yr ydych yn ei wneud yw erydu democratiaeth leol. Rwy'n annog yr Aelodau'n gryf i wrthod y rheoliad echrydus hwn.

14:54 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I don’t agree with the previous speaker. I’ll be supporting these proposals, but I do have a question, Minister, because—[Interruption.] I do have a question, because the DNS legislation will, of course, only apply to applications submitted after its enactment. I’d like to know how the Minister proposes to assist those projects that are already in the planning system and are currently struggling to obtain a decision, which, I presume, is one of the reasons why this has been brought forward. Will you, for example, be calling in some of those applications? I’d be interested in hearing your approach to applications in that position as you respond to the debate.

Nid wyf yn cytuno â'r siaradwr blaenorol. Byddaf yn cefnogi'r cynigion hyn, ond mae gen i gwestiwn, Weinidog, oherwydd—[Torri ar draws.] Mae gen i gwestiwn, oherwydd ni fydd y ddeddfwriaeth Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, wrth gwrs, ond yn berthnasol i geisiadau a gyflwynwyd ar ôl ei deddfu. Hoffwn wybod sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu cynorthwyo’r prosiectau hynny sydd eisoes yn y system gynllunio ac sydd ar hyn o bryd yn brwydro i gael penderfyniad, sef, rwy’n tybio, un o'r rhesymau pam mae hyn wedi cael ei ddwyn ymlaen. A fyddwch chi, er enghraifft, yn galw rhai o'r ceisiadau hynny i mewn? Byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed eich ymagwedd at geisiadau sydd yn y sefyllfa honno wrth i chi ymateb i'r ddadl.

14:55 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I’d like to speak briefly in favour of the regulations being brought forward today, specifically on the lower threshold of 10 MW for proposed energy projects. There are a number of factors that contribute to the position that my group is taking on this today. Unfortunately, the legacy of local authorities in Wales making decisions that take the best long-term interests of energy security is not exactly a rosy one. That, combined with the UK Government’s recent sustained attack on the renewable energy sector, combined with its commitment to look to a future that embraces both opencast and fracking, means that very few projects are now being proposed. There’s a strong argument for giving any proposals that do come forward the very best possible chance of getting through the planning system and of doing so swiftly.

Hoffwn siarad yn fyr o blaid y rheoliadau sy'n cael eu cyflwyno heddiw, yn benodol ar y trothwy isaf o 10 MW ar gyfer prosiectau ynni arfaethedig. Mae nifer o ffactorau yn cyfrannu at safbwynt fy ngrŵp heddiw. Yn anffodus, nid yw etifeddiaeth awdurdodau lleol yng Nghymru o wneud penderfyniadau er budd hirdymor gorau sicrwydd ynni yn arbennig o wych. Mae hynny, ynghyd ag ymosodiad parhaus diweddar Llywodraeth y DU ar y sector ynni adnewyddadwy, ynghyd â’i hymrwymiad i edrych at ddyfodol sy'n croesawu glo brig a ffracio, yn golygu mai ychydig iawn o brosiectau sy’n cael eu cynnig erbyn hyn. Mae dadl gref dros roi’r cyfle gorau posibl i unrhyw gynigion sy’n dod ymlaen i fynd drwy'r system gynllunio ac i wneud hynny’n gyflym.

On this point, the proposed legislation does not resolve, as Llyr Gruffydd has rightly raised, the impasse that is currently experienced by developers whose applications are already in the system. I think it’s very important to note that many of those have already exceeded the six-month time limit, which opens them to be eligible for appeal on the basis of non-determination. They still cannot get a decision from the respective planning authorities. Does the Minister recognise that applicants in this situation are still experiencing such an impasse, and how will he help them to gain a decision?

Ar y pwynt hwn, nid yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn datrys, fel y nododd Llyr Gruffydd yn ddigon teg, y cyfyngder sydd ar hyn o bryd yn wynebu datblygwyr y mae eu ceisiadau eisoes yn y system. Rwy’n credu ei bod yn bwysig iawn nodi bod llawer o'r rheini eisoes wedi mynd heibio i’r terfyn amser o chwe mis, sy'n golygu eu bod yn gymwys i apelio ar sail diffyg penderfyniad. Maent yn dal i fethu cael penderfyniad gan yr awdurdodau cynllunio perthnasol. A yw'r Gweinidog yn cydnabod bod ymgeiswyr yn y sefyllfa hon yn dal i brofi cyfyngder o'r fath, a sut y gwnaiff eu helpu i gael penderfyniad?

I also think it’s important to note that the new system under the planning Act still stipulates that local communities, councils and stakeholders are able to express their views, and to do so right at the start of the process. I’d also like the Minister to confirm that that local input is still very much part of the wider process.

Rwyf hefyd yn credu ei bod yn bwysig nodi bod y system newydd o dan y Ddeddf cynllunio yn dal i bennu bod cymunedau, cynghorau a rhanddeiliaid lleol yn cael mynegi eu barn, a gwneud hynny ar ddechrau’r broses. Hoffwn hefyd i'r Gweinidog gadarnhau bod y mewnbwn lleol hwnnw yn dal i fod yn rhan bwysig o'r broses ehangach.

14:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

14:57 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Can I address the points of Llyr and Bill Powell first of all? I recognise the issue about historic applications currently in the system. It would be inappropriate just to lift them out of the system and introduce them into the new NDS process, but what can happen is that the applicant can re-apply to this particular part of the regulation, which would kick off the whole process again. Even if we adopted the application that is currently within a system, we'd have to start from the start again. So, I'd rather have a clear break and make sure that my team works effectively to deliver on the services and that applications are dealt with fairly as they come into the system. So, we are able to address that, but they'd have to re-apply.

Diolch, Lywydd. A gaf i ymdrin â phwyntiau Llyr a Bill Powell yn gyntaf oll? Rwy'n cydnabod y mater ynglŷn â cheisiadau hanesyddol sydd yn y system ar hyn o bryd. Byddai'n amhriodol eu codi'n syth allan o'r system a'u cyflwyno i mewn i'r broses NDS newydd, ond yr hyn a all ddigwydd yw y gall yr ymgeisydd ail-wneud cais i'r rhan benodol hon o'r rheoliadau, a fyddai'n cychwyn yr holl broses eto. Hyd yn oed pe byddem yn mabwysiadu'r cais sydd o fewn system ar hyn o bryd, byddai'n rhaid inni ddechrau o'r dechrau eto. Felly, byddai'n well gen i gael toriad clir a gwneud yn siŵr bod fy nhîm i yn gweithio'n effeithiol i ddarparu'r gwasanaethau a bod ceisiadau'n cael eu trin yn deg wrth iddynt ddod i mewn i'r system. Felly, gallwn roi sylw i hynny, ond byddai'n rhaid iddynt ailymgeisio.

In regard to Russell George's contribution, let's put the facts on the table here: the reality, as Bill Powell says, is that there is no democratic deficit. The application process is exactly the same when it's dealt with by a local authority as it is by national Government. Indeed, the irony is that the Member and many others from his party often write to me asking me to call in applications, taking them away from local authorities, which would suggest that his anti-democratic argument is one that is shot.

O ran cyfraniad Russell George, gadewch inni roi'r ffeithiau ar y bwrdd yma: y gwirionedd, fel y dywed Bill Powell, yw nad oes diffyg democrataidd. Mae'r broses ymgeisio yn union yr un fath pan gaiff ei thrin gan awdurdod lleol â phan gaiff ei thrin gan y Llywodraeth genedlaethol. Yn wir, yr eironi yw bod yr Aelod a llawer o rai eraill o'i blaid yn aml yn ysgrifennu ataf yn gofyn imi alw ceisiadau i mewn, a'u cymryd oddi ar awdurdodau lleol, a fyddai'n awgrymu bod ei ddadl wrth-ddemocrataidd wedi methu.

The second point: the Member says to us that, here in Wales, it's wholly inappropriate for us, at Government level, to have developments of national significance, but what about the NSIP programme in England? Is that inappropriate too, because they're in exactly the same position of having areas of national significance, delivery and decisions made by national Government? We are absolutely sure that the DNS programme in terms of the generating capacity, and decision making, between 10 MW and 50 MW is supported by the industry. The facts of the matter also are true: that the Members opposite here are pro fracking but anti renewable energy. That is the real truth of this matter. Conservatives: for fracking; everybody else, it seems: for renewable energy.

Yr ail bwynt: mae'r Aelod yn dweud wrthym ei bod, yma yng Nghymru, yn gwbl amhriodol i ni, ar lefel y Llywodraeth, gael datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, ond beth am y rhaglen NSIP yn Lloegr? A yw honno'n amhriodol hefyd, oherwydd maent yn yr un sefyllfa'n union o ran bod ardaloedd o arwyddocâd cenedlaethol, cyflawni a phenderfyniadau'n cael eu gwneud gan y Llywodraeth genedlaethol? Rydym yn hollol sicr bod y rhaglen Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol o ran y gallu cynhyrchu, a gwneud penderfyniadau, rhwng 10 MW a 50 MW wedi'i chefnogi gan y diwydiant. Mae ffeithiau'r mater hefyd yn wir: mae'r Aelodau gyferbyn yma o blaid ffracio ond yn erbyn ynni adnewyddadwy. Dyna'r gwir amdani am y mater hwn. Y Ceidwadwyr: o blaid ffracio; pawb arall, mae'n ymddangos: o blaid ynni adnewyddadwy.

14:59 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

14:59 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, I formally move.

Lywydd, rwy'n cynnig yn ffurfiol.

14:59 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

14:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion under item 4. Does anyone object? [Objection.] Fine. We'll discuss that. We'll vote in voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig o dan eitem 4. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Iawn. Byddwn yn trafod hynny. Byddwn yn pleidleisio yn y cyfnod pleidleisio.

The proposal is to agree the motion under item 5. Does anyone object? [Objection.] We'll defer that until voting time as well.

Y cynnig yw derbyn y cynnig o dan eitem 5. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriwn hynny tan y cyfnod pleidleisio hefyd.

*Gohiriywyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

14:59

## 6. Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Esemptiadau, Apeliadau ac Arolygiadau) (Cymru) 2016

## 6. The Reservoirs Act 1975 (Exemptions, Appeals and Inspections) (Wales) Regulations 2016

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 6, which is the Reservoirs Act 1975 (Exemptions, Appeals and Inspections) (Wales) Regulations 2016. I call on the Minister to move the motion—Carl Sargeant.

Symudwn yn awr at eitem 6, sef Rheoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Eithriadau, Apeliadau ac Arolygiadau) (Cymru) 2016. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y cynnig—Carl Sargeant.

Cynnig NDM5929 Jane Hutt

Motion NDM5929 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 (Esemptiadau, Apeliadau ac Arolygiadau) (Cymru) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Rhagfyr 2015.

Approves that the draft The Reservoirs Act 1975 (Exemptions, Appeals and Inspections) (Wales) Regulations 2016 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 8 December 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

14:59

### Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Presiding Officer. I'm here today to present the regulations in relation to reservoir safety. These regulations are pursuant to the amendment to the Reservoirs Act 1975 made by the Flood and Waste Management Act 2010. I formally move.

Diolch, Lywydd. Rwyf yma heddiw i gyflwyno'r rheoliadau sy'n ymwneud â diogelwch cronfeydd dŵr. Mae'r rheoliadau hyn yn unol â'r diwygiad i Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 a wnaethpwyd gan Ddeddf Llifogydd a Rheoli Gwastraff 2010. Rwy'n cynnig yn ffurfiol.

15:00

### Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you very much for today's statement. We broadly welcome its contents and its aim to increase public safety. However, I have three areas where I would like further clarification. The first is: could the Minister explain why embanked water courses are being exempted from inspection, given that these can be part of local flood defences? The second is mine lagoons—now, we know many of these date back to industrial revolution times, but why are they also being exempted from inspection, according to this statement? These bodies of water do carry a risk of pollution. Also, their construction is often a mystery: the plans have been lost as to how the dams for these lagoons were constructed. So, why are they being exempted from regular monitoring?

Weinidog, diolch yn fawr am y datganiad heddiw. Rydym yn croesawu ei gynnwys ar y cyfan, a'i nod o wella diogelwch y cyhoedd. Fodd bynnag, mae gennyf dri maes lle yr hoffwn gael eglurhad pellach. Y cyntaf yw: a allai'r Gweinidog esbonio pam mae cyrsiau dŵr rhwng argloddiau'n cael eu heithrio o'r arolygiad, o gofio y gall y rhain fod yn rhan o amddiffynfeydd llifogydd lleol? Yr ail yw lagynau cloddio—nawr, rydym yn gwybod bod llawer o'r rhain yn dyddio'n ôl i gyfnod y chwyldro diwydiannol, ond pam maent hwythau'n cael eu heithrio o'r arolygiad, yn ôl y datganiad hwn? Mae risg o lygredd yn y cyrff dŵr hyn. Hefyd, mae eu hadeiladwaith yn aml yn ddirgelwch: mae'r cynlluniau wedi cael eu colli o ran sut y cafodd argaeau'r lagynau hyn eu hadeiladu. Felly, pam maent yn cael eu heithrio o fonitro rheolaidd?

Finally, you will be aware of the skills shortages in engineering, and this includes water engineers. In fact, I was told by one very senior water engineer recently that they thought that the UK was short of about 300 of these specialists, and this statement indicates how important they are. I am interested to know whether you have contingency plans to sustain the number of water engineers, and what we need to do now and in the future to ensure that we have these skills in place.

Yn olaf, byddwch yn ymwybodol o'r prinder sgiliau ym maes peirianneg, ac mae hyn yn cynnwys peirianwyr dŵr. Yn wir, dywedodd un peiriannydd dŵr mewn swydd uchel iawn wrthyf yn ddiweddar ei fod yn meddwl bod y DU yn brin o tua 300 o'r arbenigwyr hyn, ac mae'r datganiad hwn yn dangos pa mor bwysig ydynt. Mae gennyf ddiddordeb mewn gwybod a oes gennych gynlluniau wrth gefn i gynnal y nifer o beirianwyr dŵr, a'r hyn y mae angen inni ei wneud yn awr ac yn y dyfodol i sicrhau bod y sgiliau hyn gennym.

15:01 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Some five years ago, we saw the destruction of Llanishen reservoir by Western Power Distribution, who deliberately drained it in order to try and get housing built on that site. I'm very grateful to the Minister for the role that he played in enabling that reservoir to be bought by Dŵr Cymru and therefore be made available again to the people of Cardiff to provide drinking water. Water is the new gold. How do you think these regulations will prevent any such vandalism happening again and protect the reservoirs that we have, to ensure that they continue to be there for our children's future?

Tua phum mlynedd yn ôl, gwelsom ddinistrio cronfa ddŵr Llanisien gan Western Power Distribution, a ddraeniodd y gronfa'n fwriadol er mwyn ceisio adeiladu tai ar y safle hwnnw. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am y rhan a chwaraeodd i alluogi Dŵr Cymru i brynu'r gronfa honno fel ei bod ar gael eto i bobl Caerdydd i ddarparu dŵr yfed. Dŵr yw'r aur newydd. Sut ydych chi'n meddwl y bydd y rheoliadau hyn yn atal unrhyw fandaliaeth o'r fath rhag digwydd eto ac yn amddiffyn y cronfeydd sydd gennym, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yno ar gyfer dyfodol ein plant?

15:02 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I also wanted to raise the issue of Llanishen reservoir and to echo our thanks for your involvement in, we hope, resolving this issue. I understand that Llanishen reservoir, although currently listed as an abandoned reservoir, is one of the 224 large raised reservoirs that are registered with Natural Resources Wales, as it has a capacity of more than 1.4 million cubic metres. However, at the moment, it has been drained, and there is still some water in it that has accumulated, and I wondered if there were any particular implications from these regulations for Llanishen reservoir, or whether he could perhaps look into what are the particular implications for that particular reservoir.

Weinidog, roeddwn innau yn awyddus i godi mater cronfa ddŵr Llanisien ac i adleisio ein diolch am eich cyfranogiad, rydym yn gobeithio, at ddatrys y mater hwn. Rwyf ar ddeall bod cronfa ddŵr Llanisien, er ei bod wedi'i rhestru ar hyn o bryd fel cronfa ddŵr adawedig, yn un o'r 224 o gyforgronfeydd mawr sydd wedi'u cofrestru gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, gan fod ei chynhwysedd yn fwy nag 1.4 miliwn o fetrau ciwbig. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae wedi cael ei draenio, ac mae ychydig o ddŵr yn dal i fod ynddi sydd wedi cronni, ac roeddwn yn meddwl tybed a oedd y rheoliadau hyn yn peri unrhyw oblygiadau penodol i gronfa ddŵr Llanisien, neu a allai ef o bosibl edrych i weld beth yw'r goblygiadau penodol i'r gronfa benodol honno.

15:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

15:03 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Presiding Officer, and I thank the Members for their contributions. I'll address the Member first regarding mine lagoons. Of course, the reservoirs Act is an Act that deals with raised water courses, and, obviously, most mining lagoons are, by definition, holes in the ground full of water, as opposed to the reservoirs that are constructed at a raised level. We do have qualified civil engineers in regard to water management and engineering. I'm not aware of a shortage of skills in that sector, but I will ask the Deputy Minister for Skills to look to see whether we need to look at that particularly in Wales, but I'm confident that the regulating authorities have the capacity to deal with that.

Diolch, Lywydd, a hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Atebaf yr Aelod yn gyntaf ynghylch lagynau cloddio. Wrth gwrs, mae'r Ddeddf cronfeydd dŵr yn Ddeddf sy'n ymdrin â chyrsiau dŵr a godwyd, ac, yn amlwg, mae'r rhan fwyaf o lagynau cloddio, drwy ddiffiniad, yn dyllau yn y ddaear sy'n llawn o ddŵr, yn wahanol i'r cronfeydd sydd wedi'u hadeiladu ar lefel uwch. Mae gennym beirianwyr sifil cymwysedig ar gyfer rheoli a pheirianneg dŵr. Nid wyf yn ymwybodol o brinder sgiliau yn y sector hwnnw, ond gofynnaf i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau edrych i weld a oes angen inni edrych ar hynny yn benodol yng Nghymru, ond rwy'n hyderus bod gan yr awdurdodau rheoleiddio y gallu i ymdrin â hynny.

Both Jenny and Julie, in regard to the Llanishen reservoir, it was certainly a pleasure to join you both at the reservoir, and members of the organising group that have saved the reservoir there. You've both done a lot of work, working with local people.

Jenny a Julie, o ran cronfa ddŵr Llanisien, roedd yn sicr yn bleser i ymuno â'r ddwy ohonoch yn y gronfa ddŵr, ac aelodau'r grŵp trefnu sydd wedi achub y gronfa ddŵr yno. Mae'r ddwy ohonoch wedi gwneud llawer o waith, gan weithio gyda phobl leol.

In regard to that particular area, Dŵr Cymru are now the registered owners. I will be working with them to see what more needs to be done. I'm not aware of any risk profile for that particular reservoir as is, but there will have to be some drainage and then the refill of that. But it is a little bit early in those stages to tell you in detail how the matters will be dealt with. I will, of course, write to the Members in regard to the detail, once I've had that from Welsh Water.

O ran yr ardal benodol honno, Dŵr Cymru yw'r perchnogion cofrestredig erbyn hyn. Byddaf yn gweithio gyda hwy i weld beth arall y mae angen ei wneud. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw broffil risg ar gyfer y gronfa benodol honno fel ag y mae, ond bydd rhaid gwneud rhywfaint o ddraenio ac yna ei hail-lenwi. Ond mae ychydig yn gynnar yn y camau hynny i ddweud wrthych yn fanwl sut y caiff y materion eu trin. Byddaf, wrth gwrs, yn ysgrifennu at yr Aelodau ynglŷn â'r manylion, pan fyddaf wedi eu cael gan Dŵr Cymru.

15:04

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:05

# 7. & 8. Gorchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016 a Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016

# 7. & 8. The Regulation of Child Minding and Day Care (Wales) Order 2016 and the Child Minding and Day Care Exceptions (Wales) (Amendment) Order 2016

Y Senedd.tv Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 7, which is the Regulation of Child Minding and Day Care (Wales) Order 2016. I propose that we debate it along with item 8, which is the Child Minding and Day Care Exceptions (Wales) (Amendment) Order 2016. I now call on the Minister to propose the motions. Minister.

Symudwn yn awr at eitem 7, sef Gorchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016. Rwy'n cynnig ein bod yn cael dadl am hyn ar y cyd ag eitem 8, sef Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016. Galwaf yn awr ar y Gweinidog i gynnig y cynigion. Weinidog.

Cynnig NDM5930 Jane Hutt

Motion NDM5930 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Rhagfyr 2015.

Approves that the draft The Regulation of Child Minding and Day Care (Wales) Order 2016 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 4 December 2015.

Cynnig NDM5931 Jane Hutt

Motion NDM5931 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Rhagfyr 2015.

Approves that the draft The Child Minding and Day Care Exceptions (Wales) (Amendment) Order 2016 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 4 December 2015.

*Cynigiwyd y cynigion.*

*Motions moved.*

15:05 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I welcome today's debate on the Regulation of Child Minding and Day Care (Wales) Order 2016 and the Child Minding and Day Care Exceptions (Wales) (Amendment) Order 2016. These Orders, made under the Children and Families (Wales) Measure 2010, put in place arrangements from 1 April 2016 to extend the upper age limit for the compulsory registration of childcare in Wales from eight to 12 years.

Diolch, Lywydd. Rwy'n croesawu'r ddadl heddiw am Orchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016 a Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016. Mae'r Gorchmynion, a wnaed dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, yn rhoi trefniadau ar waith o 1 Ebrill 2016 ymlaen i ymestyn y terfyn oedran uchaf ar gyfer cofrestru gorfodol gofal plant yng Nghymru o wyth i 12 mlwydd oed.

Childcare plays an increasingly crucial role in the lives of Welsh families, and is a key tool in tackling poverty. However, parents need assurance their children are cared for in a safe, secure and appropriate environment. Regulation, registration and inspection of child minders and day care settings helps ensure this happens.

Mae gofal plant yn chwarae rhan gynyddol bwysig ym mywydau teuluoedd Cymru, ac mae'n arf allweddol ar gyfer trechu tlodi. Fodd bynnag, mae ar rieni angen sicrwydd bod eu plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, saff ac addas. Mae rheoleiddio, cofrestru ac arolygu gwarchodwyr plant a lleoliadau gofal dydd yn helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd.

I am proposing to extend these protections to children up to the age of 12 through the Regulation of Child Minding and Day Care (Wales) Order 2016. These changes will mean there is a consistent means of regulating the quality and suitability of childcare provision for children up to the age of 12. It will bring the system of registration in Wales into line with other parts of the UK and enable more working parents in Wales to benefit from the new UK-wide tax-free childcare scheme in 2017. The new arrangements reflect the views of the vast majority of responses to our consultation. The Order also includes transitional arrangements to minimise burdens on providers in notifying the Care and Social Services Inspectorate Wales of their registration status from April.

Rwy'n cynnig ymestyn yr amddiffyniadau hyn i blant hyd at 12 oed drwy'r Gorchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016. Bydd y newidiadau hyn yn golygu bod modd cyson ar gael i reoleiddio ansawdd ac addasrwydd darpariaeth gofal plant ar gyfer plant hyd at 12 oed. Bydd yn golygu bod y system gofrestru yng Nghymru yr un fath â rhannau eraill o'r DU ac yn galluogi mwy o rieni sy'n gweithio yng Nghymru i elwa ar y cynllun gofal plant di-dreth newydd i'r DU gyfan yn 2017. Mae'r trefniadau newydd yn adlewyrchu barn y mwyafrif helaeth o'r ymatebion i'n hymgynghoriad. Mae'r Gorchymyn hefyd yn cynnwys trefniadau pontio i leihau'r baich ar ddarparwyr i hysbysu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am eu statws cofrestru o fis Ebrill ymlaen.

The Child Minding and Day Care Exceptions (Wales) (Amendment) Order 2016 extends the existing exceptions to reflect the changes and to exclude youth services, which may otherwise have been affected by the new arrangements. I believe these arrangements will benefit the children of Wales, their parents, and all providers in the childcare sector, and I'm pleased to commend this motion to the Chamber.

Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016 yn ymestyn yr eithriadau presennol i adlewyrchu'r newidiadau ac i eithrio gwasanaethau ieuenctid, y gallai'r trefniadau newydd fod wedi effeithio arnynt fel arall. Credaf y bydd y trefniadau hyn o fudd i blant Cymru, eu rhieni, a'r holl ddarparwyr yn y sector gofal plant, ac rwy'n falch o gymeradwyo'r cynnig hwn i'r Siambr.

15:07 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As the Minister's already said, child minders do provide a very important service for working families, and I absolutely support the extension of that protection of registering child minders to children up to the age of 12. As it's only a little over two months away from when the regulation is due to come into place, could the Minister just explain how child minders will be informed—those who might be affected by the change in the regulations?

Fel y mae'r Gweinidog wedi ei ddweud eisoes, mae gwarchodwyr plant yn darparu gwasanaeth pwysig iawn i deuluoedd sy'n gweithio, ac rwy'n llwyr gefnogi ymestyn y warchodaeth honno i gofrestru gwarchodwyr plant i blant hyd at 12 oed. Gan mai dim ond ychydig dros ddau fis sydd tan yr adeg y mae'r rheoliad hwn i fod i gael ei roi ar waith, a all y Gweinidog esbonio sut yn union y bydd gwarchodwyr plant yn cael gwybod—y rhai y gallai'r newid i'r rheoliadau effeithio arnynt?

15:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

15:07

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, yes. In answer to Jenny Rathbone's questions, CSSIW will be sending out a letter, I think probably next week, around this, and there will be a period of time, once the childcare provider has responded to that letter—I think it's up until the end of August—they will be viewed as having complied. So, I'm very glad you've welcomed this, because I do think it really represents a very clear step forward in guaranteeing both quality and sustainable childcare here in Wales, and I'd ask Members to give their support.

Diolch, ie. I ateb cwestiynau Jenny Rathbone, bydd AGGCC yn anfon llythyr, yn ôl pob tebyg rwy'n meddwl yr wythnos nesaf, ynglŷn â hyn, a bydd cyfnod, ar ôl i'r darparwr gofal plant ymateb i'r llythyr hwnnw—credaf mai hyd at ddiwedd Awst—pryd yr ystyrir eu bod wedi cydymffurfio. Felly, rwy'n falch iawn eich bod wedi croesawu hyn, gan fy mod wir yn meddwl ei fod yn gam clir iawn ymlaen o ran gwarantu gofal plant safonol a chynaliadwy yma yng Nghymru, a byddwn yn gofyn i'r Aelodau roi eu cefnogaeth.

15:08

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion under item 7. Does any Member object? No objections. Therefore item 7 is agreed.

Y cynnig yw derbyn y cynnig o dan eitem 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae eitem 7 wedi'i derbyn.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:08

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal now is to agree the motion under item 8. Does any Member object? No. The motion is therefore agreed under item 8.

Y cynnig yn awr yw derbyn y cynnig o dan eitem 8. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Na. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn o dan eitem 8.

*Derbyniwyd cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:08

# 9. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Undebau Llafur y DU

# 9. Legislative Consent Motion on the UK Trade Union Bill

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 9, which is the legislative consent motion on the UK Trade Union Bill. I call on the Minister for Public Services to move the motion—Leighton Andrews.

Symudwn yn awr at eitem 9, sef y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar Fil Undebau Llafur y DU. Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig—Leighton Andrews.

Cynnig NDM5932 Leighton Andrews

Motion NDM5932 Leighton Andrews

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Undebau Llafur sy'n ymwneud â gofyniad trothwy pleidleisio ychwanegol ar gyfer gweithredu diwydiannol mewn gwasanaethau cyhoeddus pwysig, amser o'r gwaith â thâl i gynrychiolwyr undebau llafur a threfniadau didynnu tâl aelodaeth undeb o gyflogau, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Trade Union Bill, relating to an additional ballot threshold requirement for industrial action in 'important public services', trade union facility time and 'check-off' arrangements in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:08 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, I'm in the unusual position today of tabling a legislative consent motion in order to ask the Assembly to vote against it. I would like to thank the Enterprise and Business Committee for its consideration of the legislative consent motion. The committee concluded that a legislative consent motion is required in relation to various provisions of the Bill, and that it is for the Assembly to decide whether or not to give that consent. The UK Government's position is that the Trade Union Bill relates to employment and industrial relations, which are not devolved.

Lywydd, rwyf yn y sefyllfa anarferol heddiw o gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol er mwyn gofyn i'r Cynulliad bleidleisio yn ei erbyn. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Menter a Busnes am ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Daeth y pwyllgor i'r casgliad bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol ynglŷn â darpariaethau amrywiol y Bil, ac mai mater i'r Cynulliad yw penderfynu a ddylid rhoi'r caniatâd hwnnw ai peidio. Safbwynt Llywodraeth y DU yw bod y Bil Undebau Llafur yn ymwneud â chyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol, nad ydynt wedi'u datganoli.

The First Minister and I have repeatedly set out the clear arguments why this is not the case. The explanatory notes to the Bill claim that the Bill is seeking to protect essential public services against strikes. The categories of important public services subject to the additional 40 per cent overall membership support threshold for industrial action include health services, education of those aged under 17, and fire services, all of which are plainly devolved. Policy on how to support or protect the delivery of devolved public services is for the Welsh Government and the National Assembly for Wales. This includes the way public sector bodies work with trade unions to ensure effective delivery of services to the public.

Mae'r Prif Weinidog a minnau wedi nodi dro ar ôl tro y dadleuon clir pam nad yw hyn yn wir. Mae nodiadau esboniadol y Bil yn honni bod y Bil yn ceisio amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus hanfodol rhag streiciau. Mae categorïau'r gwasanaethau cyhoeddus pwysig sy'n ddarostyngedig i'r trothwy cefnogaeth aelodaeth cyffredinol 40 y cant ychwanegol ar gyfer gweithredu diwydiannol yn cynnwys gwasanaethau iechyd, addysg i rai o dan 17 oed, a gwasanaethau tân, ac yn amlwg mae pob un o'r rhain wedi'i ddatganoli. Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n llunio polisïau ar sut i gefnogi neu ddiogelu darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y mae cyrff sector cyhoeddus yn gweithio gydag undebau llafur i sicrhau y darperir gwasanaethau i'r cyhoedd yn effeithiol.

Similarly, it cannot be right for the UK Government, blind to devolved service-delivery reforms in Wales, to specify how much union facility time is required or to ban the administration of check-off arrangements in public services. Despite repeated attempts to engage with the Prime Minister and the Minister of State, Nick Boles MP, our devolved interests have not been recognised. At our workforce partnership council—

Yn yr un modd, ni all fod yn iawn i Lywodraeth y DU, yn ddall i ddiwygiadau ar gyfer darparu gwasanaethau datganoledig yng Nghymru, nodi faint o amser cyfleuster yr undeb sydd ei angen, na gwahardd trefniadau didynnu tâl aelodaeth undeb o gyflogau gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus. Er gwaethaf sawl ymgais i ymgysylltu â'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Gwladol, Nick Boles AS, nid yw ein buddiannau datganoledig wedi eu cydnabod. Yn ein cyngor partneriaeth gweithlu—

15:10 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Minister give way on that point?

A wnaiff y Gweinidog ildio ar y pwynt hwnnw?

15:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:10 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course.

Wrth gwrs.

15:10 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can he, therefore, confirm that the terms set out in devolution guidance note 9, paragraph 11, have not been adhered to by the UK Government in this case—that there has not been proper consultation, either through the Wales Office or directly with Welsh Government?

A all ef, felly, gadarnhau nad yw Llywodraeth y DU yn yr achos hwn wedi glynu at y telerau a nodir yn nodyn cyfarwyddyd datganoli 9, paragraff 11—na fu ymgynghori priodol, naill ai drwy Swyddfa Cymru nac yn uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru?

15:11 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, certainly not in our view. Indeed, some of the proposals that have come forward for the Trade Union Bill were not discussed at all with us in advance, and I think the Member is right to raise that issue.

Wel, yn sicr nid yn ein barn ni. Yn wir, ni chafodd rhai o'r cynigion sydd wedi'u cyflwyno ar gyfer y Bil Undebau Llafur eu trafod o gwbl gyda ni ymlaen llaw, ac rwy'n meddwl bod yr Aelod yn iawn i godi'r mater hwnnw.

At our workforce partnership council, both public service employers and trade unions have been unanimous in their opposition to the Bill, expressing grave concern about its impact on our model of social partnership in Wales. In Wales, we have a good record of resolving disputes. There was no junior doctors' strike in Wales; there was in England. Firefighters took industrial action in England over pensions; they were not doing so in Wales.

Yn ein cyngor partneriaeth gweithlu, mae cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus ac undebau llafur wedi bod yn unfryd yn eu gwrthwynebiad i'r Bil, gan fynegi pryder difrifol am ei effaith ar ein model o bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Yng Nghymru, mae gennym hanes da o ddatrys anghydfodau. Ni fu streic meddygon iau yng Nghymru; bu un yn Lloegr. Bu diffoddwyr tân ar streic yn Lloegr dros bensiynau; ni wnaethant hynny yng Nghymru.

In contrast, we believe this Bill—the Trade Union Bill—will lead to a confrontational relationship between employers and the workforce. Union leaders have labelled it as the most draconian legislation in the western world, and called the provisions 'vindictive, unfair and unnecessary'. Even some Conservative MPs have criticised the draconian nature of the Bill. The Chartered Institute of Personnel and Development said the Bill seemed to be targeting 'yesterday's problem'. The independent regulatory policy committee, set up by the UK Government, said the proposals were 'not fit for purpose'.

Ar y llaw arall, rydym yn credu y gwnaiff y Bil hwn—y Bil Undebau Llafur—arwain at berthynas wrthdrawiadol rhwng cyflogwyr a'r gweithlu. Mae arweinwyr undeb wedi ei labelu fel y ddeddfwriaeth fwyaf didostur yn y byd gorllewinol, ac wedi galw'r darpariaethau'n 'ddialgar, annheg a diangen'. Mae hyd yn oed rhai Aelodau Seneddol Ceidwadol wedi beirniadu natur ddidostur y Bil. Dywedodd y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad ei bod yn ymddangos bod y Bil yn targedu 'problem ddoe'. Dywedodd y pwyllgor polisi rheoleiddio annibynnol, a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU, bod y cynigion yn 'anaddas i'w diben'.

The Bill is damaging, divisive and risks undermining public services and the economy. The Welsh Government believes it will lead to a confrontational relationship between employers and workforce. It contrasts sharply with the constructive social partnership approach in Wales, valuing our workforce, supporting public services and encouraging public service workers in bringing forward solutions.

Mae'r Bil yn niweidiol, yn ymrannol ac yn peri risg o danseilio gwasanaethau cyhoeddus a'r economi. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd yn arwain at berthynas wrthdrawiadol rhwng cyflogwyr a'r gweithlu. Mae'n hollol wahanol i'r dull partneriaeth gymdeithasol adeiladol yng Nghymru, sy'n gwerthfawrogi ein gweithlu, yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus ac yn annog gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyflwyno atebion.

Overall, we believe the Bill is flawed and should not be pursued. Significant parts of the Bill relate specifically to public services that are clearly devolved, and it is not acceptable for the UK Government to try to impose it on Wales. We will oppose this Bill. We want the UK Government to amend it to exclude Wales and Welsh public services from its provisions, and we will seek to reverse it, if passed, in the next Assembly if they fail to amend it. I urge Members to oppose the motion today.

Ar y cyfan, rydym yn credu bod y Bil yn ddiffygiol ac na ddylid ei ddilyn. Mae rhannau sylweddol o'r Bil yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau cyhoeddus sydd yn amlwg wedi'u datganoli, ac nid yw'n dderbyniol i Lywodraeth y DU geisio ei orfodi ar Gymru. Byddwn yn gwrthwynebu'r Bil hwn. Rydym eisiau i Lywodraeth y DU ei ddiwygio i eithrio Cymru a gwasanaethau cyhoeddus Cymru rhag ei ddarpariaethau, a byddwn yn ceisio ei wyrdroi, os caiff ei basio, yn y Cynulliad nesaf os ydynt yn methu â'i ddiwygio. Rwy'n annog yr Aelodau i wrthwynebu'r cynnig heddiw.

15:13 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will be supporting the LCM this afternoon. We do believe it is perfectly legitimate for the UK Government to legislate in this particular area. It was part of the Conservative manifesto that was put before the people, and the intention that the Bill was seeking to achieve—those aspects were clearly laid out in the manifesto, as well.

Byddwn yn cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol y prynhawn yma. Rydym yn credu ei bod yn hollol gyfreithlon i Lywodraeth y DU ddeddfu yn y maes penodol hwn. Roedd yn rhan o'r maniffesto Ceidwadol a roddwyd gerbron y bobl, ac roedd y bwriad yr oedd y Bil yn ceisio ei gyflawni—roedd yr agweddau hynny wedi'u nodi'n glir yn y maniffesto, hefyd.

Unions have a very important role to play in the workplace, representing workers where grievances are put forward and, in particular, advocating to improve conditions and terms and conditions where that is appropriate. Where there is a discrepancy, I would suggest, is where general secretaries of unions choose to live their political dreams on the back of their members' subs, and that, clearly, is not—[Assembly Members: 'Oh.'] That clearly is not acceptable. I will stand and advocate and support the role of trade unions in making sure that they do stand up for their members in the workplace, do get better terms and conditions, and, ultimately, seek a better deal where that deal can improve the working environment for members up and down Wales and, indeed, across the United Kingdom.

Mae gan undebau ran bwysig iawn i'w chwarae yn y gweithle, gan gynrychioli gweithwyr lle caiff cwynion eu cyflwyno ac, yn arbennig, eirioli i wella telerau ac amodau pan fo hynny'n briodol. Pryd y ceir anghysondeb, byddwn yn awgrymu, yw pan fo ysgrifenyddion cyffredinol undebau yn dewis byw eu breuddwydion gwleidyddol ar gefn tanysgrifiadau eu haelodau, ac yn amlwg, nid yw hynny—[Aelodau'r Cynulliad: 'O.'] Yn amlwg, nid yw hynny'n dderbyniol. Byddaf yn sefyll ac yn eirioli ac yn cefnogi gwaith undebau llafur o wneud yn siŵr eu bod yn sefyll dros eu haelodau yn y gweithle, yn cael gwell telerau ac amodau, ac, yn y pen draw, yn ceisio gwell bargen lle y gall y fargen honno wella'r amgylchedd gwaith i'w haelodau ar hyd a lled Cymru ac, yn wir, ledled y Deyrnas Unedig.

What I will not stand up and support is for Len McCluskey and his mob to use you lot to live their ambitions. Ultimately, that is why we—[Interruption.] That is why we will be supporting the LCM to allow the UK Parliament to debate, discuss and vote on this particular legislation. And it is in that Parliament—as employment law is the responsibility of the UK Government and the Westminster Parliament—where this debate, this discussion and that decision should be taken. And that is why we will be voting to support this LCM this afternoon.

Yr hyn na wnaf sefyll a'i gefnogi yw Len McCluskey a'i giwed yn defnyddio chi lot i fyw eu huchelgeisiau. Yn y pen draw, dyna pam y—[Torri ar draws.] Dyna pam y byddwn yn cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol i ganiatáu i Senedd y DU ddadlau, trafod a phleidleisio ar y ddeddfwriaeth benodol hon. Ac yn y Senedd honno—gan mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU a Senedd San Steffan yw cyfraith cyflogaeth—y dylid cael y ddadl hon, y drafodaeth hon a'r penderfyniad hwnnw. A dyna pam y byddwn yn pleidleisio i gefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn y prynhawn yma.

15:15

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the opposition, I'm not sure whether 'this lot' is parliamentary language. [Interruption.] 'Mob'? Oh, well, definitely not.

Arweinydd yr wrthblaid, nid wyf yn siŵr a yw 'chi lot' yn iaith seneddol. [Torri ar draws.] 'Ciwed'? O, wel, nac ydy wir.

15:15

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

'Lot', I said.

'Lot', ddywedais i.

15:15

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You did say 'lot'. I thought you said 'lot'. But, I would appreciate it—. [Interruption.] Excuse me. Andrew R.T. Davies. 'Lot' was what I heard, and I don't think that was appropriate either. So, please in future do not use that word 'lot'.

Fe wnaethoch ddweud 'lot'. Roeddwn yn meddwl eich bod wedi dweud 'lot'. Ond, byddwn yn gwerthfawrogi—. [Torri ar draws.] Esgusodwch fi. Andrew R.T. Davies. 'Lot' oedd yr hyn a glywais, ac nid wyf yn meddwl bod hynny'n briodol ychwaith. Felly, os gwelwch yn dda, yn y dyfodol peidiwch â defnyddio'r gair hwnnw 'lot'.

15:15

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

These are very important matters, of course—important to public services in Wales—vital public services such as health and education—[Interruption.]

Mae'r rhain yn faterion pwysig iawn, wrth gwrs—yn bwysig i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru—gwasanaethau cyhoeddus hanfodol fel iechyd ac addysg—[Torri ar draws.]

15:16

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. This is a very serious discussion, so, please, if you want to laugh, go outside the Chamber.

Trefn. Mae hon yn drafodaeth ddifrifol iawn, felly, os gwelwch yn dda, os ydych am chwerthin, ewch allan o'r Siambr.

15:16 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I said, these are very important matters, obviously; health and education are amongst the very most important responsibilities of Welsh Government and, indeed, the Welsh Assembly—vital duties to discharge in the interests of the people of Wales and all of our communities. I think it's rightly been said, Llywydd, that this Trade Union Bill is an ideologically driven attack on trade unionism, the right of trade unions to represent their members—to represent and, indeed, protect the interests of employees—and to redress that balance between employer and employee, which many would see as having become completely out of kilter in terms of the traditions within the UK and Britain. Because as things currently stand, the rights of employees through representation by their trade unions have been attacked and diminished over a period of time, and this is another step—this proposed Trade Union Bill—in that process.

Fel y dywedais, mae'r rhain yn faterion pwysig iawn, yn amlwg; mae iechyd ac addysg ymhlith cyfrifoldebau pwysicaf oll Llywodraeth Cymru ac, yn wir, Cynulliad Cymru—dyletswyddau hollbwysig i'w cyflawni er lles pobl Cymru a'n cymunedau i gyd. Rwy'n meddwl bod yr hyn sydd wedi ei ddweud yn wir, Lywydd, bod y Bil Undebau Llafur hwn yn ymosodiad ideolegol ar undebaeth lafur, hawl undebau llafur i gynrychioli eu haelodau—i gynrychioli gweithwyr ac, yn wir, i ddiogelu eu buddiannau—ac unioni'r cydbwysedd rhwng y cyflogwr a'r gweithiwr, rhywbeth y byddai llawer o'r farn ei fod yn gwbl groes i draddodiadau o fewn y DU a Phrydain. Oherwydd fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae hawliau gweithwyr drwy gynrychiolaeth gan eu hundebau llafur wedi dioddef ymosodiad a lleihad dros gyfnod o amser, ac mae hwn yn gam arall—y Bil Undebau Llafur a gynigir—yn y broses honno.

So, it's easy to understand that progressive Governments, Llywydd, that wish to have a very different set of relationships between employers and employees, would want to chart a different course. And I'm very pleased that our Minister, Leighton Andrews, and Welsh Government collectively have made it crystal clear in terms of this Trade Union Bill that they do not wish to see this ideology imported into Wales, and if it was, then it would undermine the relationships between our public sector bodies, their employees and the trade unions that represent those employees. And that would very much be to the detriment of public services—as I said, vital public services such as health and education here in Wales. As the Minister has outlined, there are specific parts of this Bill which relate specifically to those devolved public services—health, education and, indeed, fire services.

Felly, mae'n hawdd deall y byddai Llywodraethau blaengar, Lywydd, sy'n dymuno cael math gwahanol iawn o berthynas rhwng cyflogwyr a gweithwyr, yn awyddus i ddilyn llwybr gwahanol. Ac rwy'n falch iawn bod ein Gweinidog, Leighton Andrews, a Llywodraeth Cymru ar y cyd wedi ei gwneud yn hollol glir o ran y Bil Undebau Llafur hwn nad ydynt yn dymuno gweld yr ideoleg hon wedi'i mewnforio i Gymru, a phe byddai hynny'n digwydd, y byddai'n tanseilio'r berthynas rhwng ein cyrff sector cyhoeddus, eu gweithwyr a'r undebau llafur sy'n cynrychioli'r gweithwyr hynny. A byddai hynny'n sicr ar draul gwasanaethau cyhoeddus—fel y dywedais, gwasanaethau cyhoeddus hanfodol fel iechyd ac addysg yma yng Nghymru. Fel y mae'r Gweinidog wedi'i amlinellu, mae rhannau penodol o'r Bil hwn yn ymwneud yn benodol â'r gwasanaethau iechyd cyhoeddus datganoledig hynny—iechyd, addysg ac, yn wir, gwasanaethau tân.

So, I think the case is crystal clear, Llywydd, why Welsh Government is opposed to this legislative consent motion, and I very much support that opposition. And when we talk about ideology, Llywydd, and the ideology of the UK Government, I must say what we've heard from Andrew R.T. Davies as the Leader of the Opposition here today does show the mask slipping. I do believe that the mask has slipped in terms of the Welsh Conservatives here in Wales, who have tried to portray themselves—

Felly, rwyf o'r farn bod yr achos yn gwbl glir, Lywydd, pam mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, ac rwy'n cefnogi'r gwrthwynebiad hwnnw'n gryf. A phan fyddwn yn sôn am ideoleg, Lywydd, ac ideoleg Llywodraeth y DU, mae'n rhaid imi ddweud bod yr hyn yr ydym wedi'i glywed gan Andrew R.T. Davies fel Arweinydd yr Wrthblaid yma heddiw yn dangos y mwgwd yn llithro. Rwy'n credu bod y mwgwd wedi llithro o ran Ceidwadwyr Cymru yma yng Nghymru, sydd wedi ceisio eu portreadu eu hunain—

15:18 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:18 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In a moment—as having a very different approach when it comes to devolved matters here in Wales than that of their UK colleagues. And I think what we heard today in terms of 'that lot' and 'mob' and the signing up to this ideological agenda of the UK Government in terms of this anti-trade-union legislation does indeed show that mask slipping. I'm sure that the people of Wales will be paying close attention to this debate when considering the election coming up here in Wales in May. I give way to the leader of the opposition, Llywydd.

Mewn eiliad—fel bod ag ymagwedd wahanol iawn tuag at faterion datganoledig yma yng Nghymru i'w cymheiriaid yn y DU. Ac rwy'n meddwl bod yr hyn a glywsom heddiw yn nhermau 'lot' a'r 'giwed' a chymeradwyo'r agenda ideolegol hon gan Lywodraeth y DU o ran y ddeddfwriaeth gwrth-undebau llafur hon yn wir yn dangos y mwgwd yn llithro. Rwy'n siŵr y bydd pobl Cymru'n talu sylw agos i'r ddadl hon wrth ystyried yr etholiad a fydd yn digwydd yma yng Nghymru ym mis Mai. Ildiaf i arweinydd yr wrthblaid, Lywydd.

15:19 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to him for taking the intervention. I made the point in my remarks that this was in the UK manifesto for the Conservative party. Employment law is the responsibility of Westminster, but not only was it in the manifesto, but also the clear goals that we were seeking to achieve by the legislation were there for everyone to see. And the public voted, and they returned a clear Conservative majority Government. It is their right to legislate in this field.

Rwy’n ddiolchgar iddo am dderbyn yr ymyriad. Gwnes y pwynt yn fy sylwadau bod hyn yn rhan o faniffesto’r blaid Geidwadol ar gyfer y DU. Cyfrifoldeb San Steffan yw cyfraith cyflogaeth, ond nid yn unig yr oedd yn y maniffesto, roedd y nodau clir yr oeddem yn ceisio eu cyflawni â’r ddeddfwriaeth yno i bawb eu gweld. A phleidleisiodd y cyhoedd, gan roi mwyafrif clir i Lywodraeth Geidwadol. Mae ganddynt hawl i ddeddfu yn y maes hwn.

15:19 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, the leader of the opposition is entitled to his constitutional view. I take a different approach, as I’ve briefly set out. And, indeed, the Minister and the Welsh Government have set out, I believe, a convincing rationale for that different view and opposing this legislative consent motion today. What I was talking about was the language that the leader of the opposition used: that language of ‘mob’, of ‘that lot’ and signing up to that ideological agenda against trade unionism and proper representation and protection of the interests of workers in our vital public services. I do believe that the people of Wales will take careful note of those statements made in this Chamber today and react accordingly.

Lywydd, mae gan arweinydd yr wrthblaid hawl i’w farn gyfansoddiadol. Mae gen i ymagwedd wahanol, fel yr wyf wedi’i amlinellu’n fyr. Ac, yn wir, mae’r Gweinidog a Llywodraeth Cymru wedi nodi, yn fy marn i, sail resymegol argyhoeddiadol i’r farn wahanol honno ac i wrthwynebu’r cynnig cydsyniad deddfwriaethol heddiw. Yr hyn yr oeddwn yn sôn amdano oedd yr iaith a ddefnyddiodd arweinydd yr wrthblaid: iaith y 'giwed', a'r 'lot' a chymeradwyo’r agenda ideolegol honno yn erbyn undebaeth lafur a chynrychiolaeth briodol ac amddiffyn buddiannau gweithwyr yn ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Rwy’n credu y bydd pobl Cymru yn cymryd sylw gofalus o’r datganiadau hynny a wnaethpwyd yn y Siambr hon heddiw, ac yn ymateb yn briodol.

15:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will check the Record as to what language was used and just confirm, and we’ll go on from there. [Interruption.] Please—I made a statement last week and you’ve all had my letter asking you to respect when other people are speaking, so please try and do that this afternoon. Leanne Wood.

Rwyf yn mynd i edrych ar y Cofnod o ran pa iaith a gafodd ei defnyddio dim ond i gadarnhau, ac awn ymlaen o'r fan honno. [Torri ar draws.] Os gwelwch yn dda—gwnes ddatganiad yr wythnos diwethaf ac rydych i gyd wedi cael fy llythyr yn gofyn ichi ddangos parch pan fo pobl eraill yn siarad, felly ceisiwch wneud hynny y prynhawn yma os gwelwch yn dda. Leanne Wood.

15:20 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. I think that the Conservatives have outlined their ideological position on this question this afternoon. The leader of the Conservatives has sought to attack workers in Wales through attacks on trade union leaders and Plaid Cymru distance ourselves from those remarks. We stand by Welsh workers. I’m pretty sure that people out there will fully understand how the Tories view their contribution to society after that contribution from the leader of the Conservatives this afternoon.

Diolch, Lywydd. Rwy’n credu bod y Ceidwadwyr wedi amlinellu eu safbwynt ideolegol ar y cwestiwn hwn y prynhawn yma. Mae arweinydd y Ceidwadwyr wedi ceisio ymosod ar weithwyr yng Nghymru drwy ymosodiadau ar arweinwyr undebau llafur a hoffai Plaid Cymru ymbellhau oddi wrth y sylwadau hynny. Rydym yn sefyll wrth ochr gweithwyr Cymru. Rwy'n eithaf siŵr y bydd pobl allan yna yn deall yn llwyr sut y mae'r Toriaid yn gweld eu cyfraniad i gymdeithas ar ôl y cyfraniad yna gan arweinydd y Ceidwadwyr y prynhawn yma.

I’d like to begin my contribution by reiterating Plaid Cymru’s opposition to this Bill on a number of grounds, and in doing so we align ourselves with the Liberal Democrat and Labour groups. On this issue, we stand together and we carry the majority of the Assembly with us.

Hoffwn ddechrau fy nghyfraniad i drwy ailadrodd gwrthwynebiad Plaid Cymru i’r Bil hwn ar nifer o seiliau, ac wrth wneud hynny rydym yn cyd-weld â’r grwpiau Democratiaid Rhyddfrydol a Llafur. Ar y mater hwn, rydym yn sefyll gyda'n gilydd ac mae gennym fwyafrif o'r Cynulliad.

The Party of Wales, of course, believes in and supports the role of trade unions in society, along with the majority of other Assembly Members in this Chamber. Only by partnership between workers, industry and government can we do our best for our economy and for our country, and it is through respecting the workforce that we minimise disputes, reduce the need for industrial action and ensure that decisions that are taken here are influenced by the trade union movement and the people that that movement represents.

Mae Plaid Cymru, wrth gwrs, yn credu yng ngwaith undebau llafur yn y gymdeithas ac yn eu cefnogi, ynghyd â'r rhan fwyaf o Aelodau Cynulliad eraill yn y Siambr hon. Dim ond drwy bartneriaeth rhwng gweithwyr, diwydiant a'r llywodraeth y gallwn wneud ein gorau dros ein heconomi a thros ein gwlad, a thrwy barchu'r gweithlu gallwn leihau anghydfod, lleihau'r angen am weithredu diwydiannol a sicrhau bod y mudiad undebau llafur a'r bobl y mae'r mudiad hwnnw'n eu cynrychioli yn dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir yma.

The proceedings in Westminster over this Bill were interesting; they were also deeply concerning. Plaid Cymru MPs spoke clearly against this Bill, but it is being carried through by the Conservative majority. The Bill makes no sense and it is regressive. Whatever our party political differences in this Assembly, and accepting the fact that Plaid Cymru regularly brings challenge to the current Labour Government over its handling of public services, Wales is not a country frequently disrupted by strike action. Trade unions are less likely to take industrial action here, and I would argue that is because they are involved in social partnership. I know that the situation is similar in Scotland too. This was made obvious recently with the junior doctors' strike, which only took place in England—it didn't happen in either Wales or Scotland.

Roedd y trafodion yn San Steffan dros y Bil hwn yn ddiddorol; roeddent hefyd yn destun pryder difrifol. Siaradodd ASau Plaid Cymru yn glir yn erbyn y Bil hwn, ond mae'n cael ei gario drwodd gan y mwyafrif Ceidwadol. Nid yw'r Bil yn gwneud dim synnwyr ac mae'n atchweliadol. Beth bynnag fo'r gwahaniaethau rhyngom fel pleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad hwn, a gan dderbyn y ffaith bod Plaid Cymru yn herio'r Llywodraeth Lafur bresennol yn rheolaidd ynglŷn â'i ffordd o drin gwasanaethau cyhoeddus, nid yw Cymru yn wlad sy'n dioddef effeithiau gweithredu diwydiannol yn aml. Mae undebau llafur yn llai tebygol o weithredu'n ddiwydiannol yma, a byddwn yn dadlau bod hynny oherwydd eu bod mewn partneriaeth gymdeithasol. Gwn fod y sefyllfa'n debyg yn yr Alban hefyd. Daeth hyn yn amlwg yn ddiweddar gyda streic y meddygon iau, a ddigwyddodd yn Lloegr yn unig—ni ddigwyddodd yng Nghymru nac yn yr Alban.

So, there are already differences of approach and the Welsh national dimension allows a new layer of opposition to this Bill. The Party of Wales agrees with the position of the Wales TUC when they argue that this Bill should not apply to Wales. We've heard from the legal opinion commissioned by the Wales TUC that clauses 3, 12, 13 and 14 have clear implications for devolution. In terms of clause 3, there is a direct description of policy areas that are devolved to the National Assembly; areas including health services, education, fire services and transport services are listed as important public services under the Bill. But policy for those areas is devolved under the Government of Wales Act 2006. There is no exception in that Act for industrial relations within those policy areas.

Felly, ceir dulliau gwahanol eisoes, ac mae dimensiwn cenedlaethol Cymru yn caniatáu haen newydd o wrthwynebiad i'r Bil hwn. Mae Plaid Cymru yn cytuno â safbwynt TUC Cymru pan eu bod yn dadlau na ddylai'r Bil hwn fod yn berthnasol i Gymru. Rydym wedi clywed gan y farn gyfreithiol a gomisiynwyd gan TUC Cymru bod cymalau 3, 12, 13 a 14 yn peri goblygiadau clir i ddatganoli. O ran cymal 3, ceir disgrifiad uniongyrchol o feysydd polisi sydd wedi'u datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol; mae meysydd sy'n cynnwys gwasanaethau iechyd, addysg, gwasanaethau tân a gwasanaethau trafnidiaeth wedi'u rhestru fel gwasanaethau cyhoeddus pwysig o dan y Bil. Ond mae polisi yn y meysydd hynny wedi'i ddatganoli o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Nid oes eithriad yn y Ddeddf honno ar gyfer cysylltiadau diwydiannol o fewn y meysydd polisi hynny.

The legal opinion by Hefin Rees argues that the Welsh Government could effectively counter-legislate in the future to disapply the Trade Union Bill. He argues that, on the basis of the Supreme Court judgment over the Agricultural Wages Board, we might lose that loophole if we get the reserved-powers model, which reserves employment law and industrial law. We know that there has been traditional opposition to those fields being decided in Wales. Given that all of the parties in this Assembly and the Welsh Government support a reserved-powers model, this is something that now requires much further discussion. But the next step in the campaign against this Bill is to oppose this LCM today and to force the UK Government to think again. So, let us all stand as a united Wales on this issue and promote the positive role that trade unions can and should play in Welsh society.

Mae'r farn gyfreithiol gan Hefin Rees yn dadlau y gallai Llywodraeth Cymru wrth-ddeddfu'n effeithiol yn y dyfodol i ddatgymhwyso'r Bil Undebau Llafur. Mae'n dadlau, ar sail dyfarniad y Goruchaf Lys dros y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, y gallem golli'r ddihangfa honno os cawn y model cadw pwerau, sy'n cadw cyfraith cyflogaeth a chyfraith ddiwydiannol. Rydym yn gwybod y bu gwrthwynebiad traddodiadol i wneud penderfyniadau yn y meysydd hynny yng Nghymru. O ystyried bod pob un o'r pleidiau yn y Cynulliad hwn a Llywodraeth Cymru o blaid model cadw pwerau, mae hyn yn rhywbeth sydd ag angen llawer o drafod pellach nawr. Ond y cam nesaf yn yr ymgyrch yn erbyn y Bil hwn yw gwrthwynebu'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw a gorfodi Llywodraeth y DU i ailfeddwl. Felly, gadewch inni i gyd sefyll fel Cymru unedig ar y mater hwn a hyrwyddo'r rhan gadarnhaol y gall, ac y dylai, undebau llafur ei chwarae yng nghymdeithas Cymru.

15:25 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

On behalf of the Welsh Liberal Democrats, I'm pleased to say that we will also be opposing this LCM today. This Trade Union Bill is illiberal and it is dangerous, and I believe it's going to seriously impinge on industrial relations in this country and also, of course, impact upon Welsh devolved responsibilities, as has been so lucidly set out by previous speakers.

Ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, rwy'n falch o ddweud y byddwn ninnau'n gwrthwynebu'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw. Mae'r Bil Undebau Llafur hwn yn anrhyddfrydol ac mae'n beryglus, ac rwy'n credu y bydd yn effeithio'n ddifrifol ar gysylltiadau diwydiannol yn y wlad hon, a hefyd, wrth gwrs, yn effeithio ar gyfrifoldebau datganoledig Cymru, fel y mae'r siaradwyr blaenorol wedi ei nodi mor argyhoeddiadol.

As this LCM details, the Bill does intrude on our Welsh jurisdiction, and I believe it also effectively imposes on us issues based on English service structures as opposed to the reality of what's happening here in Wales. It is this Welsh Assembly and the Welsh Government who are best placed to determine how trade union relations should be set out and legislated for in this country, and I think that that should be recognised by the UK Government.

Fel y mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn ei fanylu, mae'r Bil yn tresmasu ar ein hawdurdodaeth Gymreig, ac rwy'n credu ei fod hefyd i bob diben yn gorfodi materion arnom sy'n seiliedig ar strwythurau gwasanaeth Lloegr yn hytrach na realiti yr hyn sy'n digwydd yma yng Nghymru. Cynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut y dylid nodi cysylltiadau undeb llafur a deddfu ar eu cyfer yn y wlad hon, ac rwy'n meddwl y dylai Llywodraeth y DU gydnabod hynny.

The Welsh Liberal Democrats have always believed that trade unions play a vital role in representing their members at work in both the public and private sectors. We believe getting around the negotiating table is better than striking, and unions have a role to play in that process. As Leanne Wood has pointed out, the industrial relations record in Wales is much better in the public services than it is in England. But for the unions to continue to play a positive role in public life, we must have trust in the way they are funded and be confident that industrial action will not cause disproportionate disruption to people. This Bill is not a way of doing that. The only way we can do that is through partnership working with trade unions and with workers.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi credu erioed bod undebau llafur yn chwarae rhan hanfodol o ran cynrychioli eu haelodau wrth eu gwaith yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Rydym yn credu bod cyfarfod o gwmpas bwrdd trafod yn well na streicio, ac mae gan undebau ran i'w chwarae yn y broses honno. Fel y nododd Leanne Wood, mae hanes cysylltiadau diwydiannol yng Nghymru yn llawer gwell yn y gwasanaethau cyhoeddus nag y mae yn Lloegr. Ond er mwyn i'r undebau barhau i chwarae rhan gadarnhaol mewn bywyd cyhoeddus, mae'n rhaid inni ymddiried yn y ffordd y cânt eu hariannu a bod yn hyderus na fydd gweithredu diwydiannol yn achosi tarfu anghymesur ar bobl. Nid yw'r Bil hwn yn ffordd o wneud hynny. Yr unig ffordd y gallwn ni wneud hynny yw drwy weithio mewn partneriaeth ag undebau llafur ac â gweithwyr.

I'm also pleased, of course, that the Liberal Democrat peers worked with their Labour colleagues last week to defeat the Conservative Government in terms of the funding provisions in this Trade Union Bill. Amendments were drafted by Lord Tyler to ensure that political funding will now be separated out from the Bill and examined by a cross-party committee of peers. And that is one step forward to fairer party funding, as the select committee will be able to look at broader political funding, including making political donations subject to tax relief. It isn't right that only one aspect of party funding should be addressed by this Bill. It isn't right that this should single out one particular aspect; we should look at the whole funding issue in the round.

Rwyf hefyd yn falch, wrth gwrs, bod arglwyddi'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi gweithio gyda'u cydweithwyr Llafur yr wythnos diwethaf i drechu'r Llywodraeth Geidwadol o ran y darpariaethau cyllido yn y Bil Undebau Llafur hwn. Cafodd gwelliannau eu drafftio gan yr Arglwydd Tyler i sicrhau y bydd cyllid gwleidyddol nawr wedi'i wahanu oddi wrth y Bil ac yn cael ei archwilio gan bwyllgor trawsbleidiol o arglwyddi. Ac mae hwnnw'n un cam ymlaen at gyllid tecach i'r pleidiau, oherwydd bydd y pwyllgor dethol yn gallu edrych ar gyllid gwleidyddol ehangach, gan gynnwys caniatáu rhyddhad treth wrth wneud rhoddion gwleidyddol. Nid yw'n iawn mai dim ond un agwedd ar gyllid pleidiau sy'n cael sylw gan y Bil hwn. Nid yw'n iawn y dylai hyn dynnu sylw at un agwedd benodol; dylem edrych ar holl fater ariannu yn ei gyfanrwydd.

Moving on to the specific clauses, we do not support Conservative plans to look at minimum turnout, as it would have major implications for other democratic turnouts and elections, including general and Welsh elections. Oh, for a minimum 40 per cent turnout or more in a general election or the sort of provisions that MPs had to meet—. Of course, under the single transferrable vote system that would be possible, but I think we need to look at that.

I symud ymlaen at y cymalau penodol, nid ydym yn cefnogi cynlluniau'r Ceidwadwyr i edrych ar nifer ofynnol i bleidleisio, gan y byddai hynny'n creu goblygiadau sylweddol i'r nifer sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau democrataidd ac etholiadau eraill, gan gynnwys etholiadau cyffredinol ac etholiadau Cymru. O, am gael o leiaf 40 y cant neu fwy yn pleidleisio mewn etholiad cyffredinol neu'r math o ddarpariaethau yr oedd yn rhaid i Aelodau Seneddol eu bodloni—. Wrth gwrs, o dan y system pleidlais sengl drosglwyddadwy byddai hynny'n bosibl, ond rwy'n meddwl bod angen inni edrych ar hynny.

We want strikes to be called only when they reflect the views of the membership, so we need to encourage wider participation in trade union ballots through things like electronic voting. You cannot legislate for this; it has to be done and people have to take part, but they have to be motivated to take part, and, if they don't take part, clearly they have voted with their feet and they have to accept the consequences of that. If I dare quote 'The West Wing', 'decisions are taken by people who take part', and I think that is very important. You can't try to legislate to attack their right to do that.

Nid ydym yn dymuno i streiciau gael eu galw oni bai eu bod yn adlewyrchu barn yr aelodaeth, felly mae angen inni annog cyfranogiad ehangach mewn pleidleisiau undebau llafur drwy bethau fel pleidleisio electronig. Ni allwch ddeddfu ar gyfer hyn; mae'n rhaid iddo gael ei wneud ac mae'n rhaid i bobl gymryd rhan, ond mae'n rhaid iddynt deimlo cymhelliant i gymryd rhan, ac, os nad ydynt yn cymryd rhan, yn amlwg maent wedi pleidleisio â'u traed ac mae'n rhaid iddynt dderbyn canlyniadau hynny. Os meiddiaf ddyfynnu 'The West Wing', 'mae penderfyniadau'n cael eu gwneud gan bobl sy'n cymryd rhan', ac rwy'n meddwl bod hynny'n bwysig iawn. Ni allwch geisio deddfu i ymosod ar eu hawl i wneud hynny.

Workers do not strike for political reasons but to protect their pay and jobs. Union members have to make a conscious choice to opt in to pay into their union's political fund and then decide which party, if any, they want their money to be donated to. Any change in trade union funding should be part of wider electoral reform, and it should certainly not be a Tory stitch-up to further increase the financial stranglehold they have over the political system.

Nid yw gweithwyr yn streicio am resymau gwleidyddol, ond i ddiogelu eu cyflogau a'u swyddi. Mae'n rhaid i aelodau undeb wneud dewis ymwybodol i ddewis talu i mewn i gronfa wleidyddol eu hundeb ac yna penderfynu i ba blaid, os o gwbl, yr hoffent roi eu harian. Dylai unrhyw newid i gyllid undebau llafur fod yn rhan o ddiwygio etholiadol ehangach, ac yn sicr ni ddylai fod yn ddichell Dorïaidd i gynyddu eto fyth y gafael haearnaidd ariannol sydd ganddynt ar y system wleidyddol.

Removing employees' rights to use the check-off system in public authorities without consultation is unfair and will be detrimental to employees' management of their finances. It is contrary to so many Government schemes, including around childcare and travel.

Mae dileu hawliau gweithwyr i ddefnyddio'r system didynnu tâl aelodaeth undeb o gyflogau mewn awdurdodau cyhoeddus heb ymgynghori yn annheg ac yn niweidiol i reolaeth gweithwyr ar eu cyllid. Mae'n groes i gynifer o gynlluniau'r Llywodraeth, gan gynnwys rhai yn ymwneud â gofal plant a theithio.

In conclusion, Presiding Officer, this Bill is essentially undemocratic. It is an assault on the rights to organise, to hold collective action and on free assembly. We are opposed to it and the implications it has for civil liberties and human rights. That is why we'll be voting against this LCM. But also we'll be voting against this LCM because we believe that it is a matter for the Welsh Assembly to legislate on this. If the Welsh Government, after the next Assembly elections, bring back a Bill to effectively nullify this Bill, then I think the Welsh Liberal Democrats will be supporting that as well.

I gloi, Lywydd, mae'r Bil hwn yn ei hanfod yn annemocrataidd. Mae'n ymosod ar hawliau i drefnu, i weithredu ar y cyd ac i ymgynnull yn rhydd. Rydym yn ei wrthwynebu a'r goblygiadau y mae'n eu peri i hawliau sifil a hawliau dynol. Dyna pam y byddwn yn pleidleisio yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Ond hefyd byddwn yn pleidleisio yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn oherwydd ein bod yn credu mai mater i'r Cynulliad yw deddfu ar hyn. Os bydd Llywodraeth Cymru, ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad, yn ailgyflwyno Bil â'r diben o ddiddymu'r Bil hwn, rwy'n credu y bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi hynny hefyd.

15:30

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm very pleased that the Government will be voting against this legislative consent motion today. I think it is a very crucial debate, and I think it is a very crucial point in the process of devolution. We do have a good record of resolving disputes here in Wales. We do not have confrontational relationships with the trade unions. We work with the trade unions, we have a good partnership and we want constructive public relationships, and that's why I very much regret the tone adopted by the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies today. It seems to be a very retrograde step to be talking in those terms in this Assembly, because of the good history we've got of working with the trade unions.

Rwy'n falch iawn y bydd y Llywodraeth yn pleidleisio yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw. Rwy'n meddwl ei bod yn ddadl hanfodol iawn, ac rwy'n meddwl ei fod yn bwynt hollbwysig ym mhroses datganoli. Mae gennym hanes da o ddatrys anghydfodau yma yng Nghymru. Nid oes gennym berthynas wrthdrawiadol â'r undebau llafur. Rydym yn gweithio gyda'r undebau llafur, mae gennym bartneriaeth dda a'n dymuniad yw cael perthnasoedd cyhoeddus adeiladol, a dyna pam yr wyf yn gresynu'n fawr at y dôn a fabwysiadwyd gan arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies heddiw. Mae siarad yn y termau hynny yn ymddangos i fod yn gam mawr yn ôl yn y Cynulliad hwn, oherwydd yr hanes da sydd gennym o weithio gyda'r undebau llafur.

I wanted to make a few particular points. I particularly wanted to mention the Sewel convention, and the fact that that provides that the UK parliament may not legislate for devolved matters without the consent of the devolved body—without the consent of this body. That is quite clearly laid out in statute; it's in devolution guidance, note 9, that it must have the consent of the devolved body. So, what the UK Government is doing is clearly against that convention.

Roeddwn i eisiau gwneud rhai pwyntiau penodol. Roeddwn yn arbennig o awyddus i sôn am gonfensiwn Sewel, a'r ffaith bod hwnnw'n darparu na chaiff senedd y DU ddeddfu ar faterion datganoledig heb ganiatâd y corff datganoledig —heb ganiatâd y corff hwn. Mae hynny wedi'i nodi'n ddigon clir mewn statud; mae yn y canllawiau datganoli, nodyn 9, bod yn rhaid iddynt gael cydsyniad y corff datganoledig. Felly, mae'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud yn amlwg yn erbyn y confensiwn hwnnw.

The other point I wanted to make is about industrial relations and employment. It's been clearly stated by many of the speakers today the areas that are clearly devolved to the Assembly—clearly devolved areas of public services—and those have been reiterated already. And the issue of industrial relations and employment, I think, is crucial because industrial relations employment matters are not devolved, but they're not exemptions to devolved subjects either. So, we are in a particularly unique situation in relation to industrial relations and employment here in Wales, and in a different position than Scotland, which means there is a different approach being taken in Scotland because of the different status of industrial relations and employment in Scotland. So, I just wanted to make those two points to the Minister, and, once again, I think that this is a subject that we ought to all be able to unite over in Wales, and, again, I regret the tone that the Tories have brought to this debate.

Mae'r pwynt arall yr oeddwn yn dymuno ei wneud yn ymwneud â chysylltiadau diwydiannol a chyflogaeth. Mae llawer o'r siaradwyr heddiw wedi datgan yn glir pa feysydd sydd wedi'u datganoli'n glir i'r Cynulliad—meysydd gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli'n glir—ac mae'r rheini wedi eu hailadrodd eisoes. Ac mae mater cysylltiadau diwydiannol a chyflogaeth, rwy'n meddwl, yn hanfodol oherwydd nid yw materion cyflogaeth cysylltiadau diwydiannol wedi'u datganoli, ond nid ydynt yn eithriadau i bynciau datganoledig ychwaith. Felly, rydym mewn sefyllfa arbennig o unigryw o ran cysylltiadau diwydiannol a chyflogaeth yma yng Nghymru, ac mewn sefyllfa wahanol i'r Alban, sy'n golygu bod dull gwahanol yn cael ei ddefnyddio yn yr Alban oherwydd statws gwahanol cysylltiadau diwydiannol a chyflogaeth yn yr Alban. Felly, roeddwn eisiau gwneud y ddau bwynt hynny i'r Gweinidog, ac, unwaith eto, rwy'n meddwl bod hwn yn bwnc y dylem i gyd allu uno drosto yng Nghymru, ac, unwaith eto, rwy'n gresynu at y dôn y mae'r Torïaid wedi'i mabwysiadu yn y ddadl hon.

15:32

## Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I just want to set the record straight, and I want to take issue straight away with the leader of the opposition, who called the working class of this country a 'mob' and 'those people'. Those people, I might remind you, are the very people who vote at election time. It is those people, according to you, who shouldn't have any rights, and yet you are afforded—

Hoffwn unioni pethau, a hoffwn anghytuno yn syth ag arweinydd yr wrthblaid, a alwodd dosbarth gweithio y wlad hon yn 'giwed' ac 'y bobl hynny'. Y bobl hynny, efallai y caf eich atgoffa, yw'r union bobl sy'n pleidleisio ar adeg etholiad. Ni ddylai'r bobl hynny, yn ôl yr hyn a ddywedwch, gael unrhyw hawliau, ac eto rydych chi'n cael—

15:33

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Are you taking an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:33

## Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

In a minute. You are afforded the right to sit here in this Chamber and talk about 'those people' because you have their vote. And you have their vote because people like trade unions fought for their right for that vote. So, when you're talking about people, at least recognise the contributions that they have made to this society, so that you then, in turn, can sit where you sit.

Mewn munud. Rydych chi'n cael yr hawl i eistedd yma yn y Siambr hon a siarad am 'y bobl hynny' oherwydd eich bod wedi cael eu pleidlais. Ac rydych chi wedi cael eu pleidlais oherwydd bod pobl fel undebau llafur wedi brwydro dros eu hawl i gael y bleidlais honno. Felly, pan fyddwch yn siarad am bobl, dylech o leiaf gydnabod y cyfraniadau y maent wedi'i wneud at y gymdeithas hon, er mwyn i chi, wedyn, yn eich tro, gael eistedd lle'r ydych chi'n eistedd.

15:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Are you finished or are you taking an intervention?

A ydych chi wedi gorffen ynteu a ydych yn derbyn ymyriad?

*Andrew R.T. Davies a gododd—*

*Andrew R. T. Davies rose—*

15:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'm sorry; I'm asking Joyce Watson.

Mae'n ddrwg gen i; gofyn i Joyce Watson ydw i.

15:34 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I sat down for the intervention.

Eisteddais i lawr ar gyfer yr ymyriad.

15:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, thank you. You sat down, yes.

Wel, diolch. Gwnaethoch eistedd i lawr, do.

15:34 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to you for taking the intervention. I was referring to Members on my right who had formed the Labour group here; I was not referring to the electorate. [Interruption.] And I do find it very interesting that not one Labour Member who's spoken today has declared that they've taken union money to support their campaigns for election. Not one. [Interruption.] Have you taken it?

Rwy'n ddiolchgar ichi am dderbyn yr ymyriad. Roeddwn yn cyfeirio at Aelodau ar fy ochr dde a oedd wedi ffurfio'r grŵp Llafur yma; nid oeddwn yn cyfeirio at yr etholwyr. [Torri ar draws.] Ac rwy'n ei chael yn ddiddorol iawn nad oes yr un Aelod Llafur sydd wedi siarad heddiw wedi datgan ei fod wedi cymryd arian undeb i gefnogi ei ymgyrchoedd ar gyfer etholiad. Dim un. [Torri ar draws.] A ydych wedi ei gymryd?

15:34 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will carry on with—[Interruption.]

Rwyf am barhau â—[Torri ar draws.]

15:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

15:34 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will carry on with my debate—[Interruption.]

Rwyf am barhau â fy nadl—[Torri ar draws.]

14:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

14:34 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It does seem fairly obvious that there is an ideological divide going on here—that we stand up, as you have pointed out, for the rights of workers, that we stand up and support, quite clearly, the right for their voices to be heard. And this Bill, as presented—absolutely the intention of it is to take and diminish those rights. I would like to ask some in this Chamber, who think that this is a Bill worth supporting, whether they feel that they ought to have 40 per cent of the vote before they can take their seat here. Because I can assure you that there won't be many people who would be sitting here if that was a criterion, and yet it's good enough to impose that on the trade unions and their membership. I find that somewhat interesting.

Mae'n ymddangos yn weddol amlwg bod yma raniad ideolegol—ein bod ni yn sefyll, fel yr ydych wedi'i nodi, dros hawliau gweithwyr, ein bod yn sefyll ac yn cefnogi, yn eithaf amlwg, yr hawl i'w lleisiau gael eu clywed. Ac mae'r Bil hwn, fel y mae wedi'i gyflwyno—yn bendant, ei fwriad yw cymryd yr hawliau hynny a'u lleihau. Hoffwn ofyn i rai pobl yn y Siambr hon, sy'n meddwl bod hwn yn Fil gwerth ei gefnogi, a ydynt yn teimlo y dylent gael 40 y cant o'r bleidlais cyn cael cymryd eu sedd yma. Oherwydd gallaf eich sicrhau na fyddai llawer o bobl yn eistedd yma pe byddai hynny'n faen prawf, ac eto mae'n ddigon da i osod hynny ar yr undebau llafur a'u haelodaeth. Rwy'n gweld hynny'n eithaf diddorol.

But, for me, the most crucial point here is that the UK Government is acting unconstitutionally, because, according to the constitution, they do not have the right to impose this Trade Union Bill within the public sector that they are trying to impose it upon. According to the Sewel convention, and it has been mentioned by Julie Morgan, they should clearly at least have some conversation with our Minister, our First Minister, here.

Ond, i mi, y pwynt mwyaf hanfodol yn y fan yma yw bod Llywodraeth y DU yn gweithredu'n groes i'r cyfansoddiad, oherwydd, yn ôl y cyfansoddiad, nid oes ganddi yr hawl i orfodi'r Bil Undebau Llafur hwn o fewn y sector cyhoeddus y mae'n ceisio ei orfodi arno. Yn ôl confensiwn Sewel, ac mae Julie Morgan wedi nodi hyn, mae'n glir y dylent o leiaf gael rhywfaint o sgwrs â'n Gweinidog ni, ein Prif Weinidog ni, yma.

And it also seems very obvious to me, Minister, that there is a clear failure by the Westminster Government that recognises the difference between two devolution settlements, and that is one for Scotland and one for Wales. And I wonder, Minister, whether you would like to say something about that. I ask the UK Government—and this is what this is about: it is for them to withdraw what is an unfair and an unconstitutional Bill that they are trying to impose on the people here elected in this Chamber, by less than 40 per cent that is, and also for the rights of the workers, which, clearly, the Tories, according to their leader, think shouldn't be afforded.

Ac mae hefyd yn ymddangos yn amlwg iawn i mi, Weinidog, bod yma fethiant amlwg gan Lywodraeth San Steffan sy'n cydnabod y gwahaniaeth rhwng dau setliad datganoli, sef un i'r Alban ac un i Gymru. A tybed, Weinidog, a hoffech chi ddweud rhywbeth am hynny? Rwy'n gofyn i Lywodraeth y DU—a dyma y mae hyn yn ymwneud ag ef: dylent dynnu'n ôl y Bil annheg ac anghyfansoddiadol hwn y maent yn ceisio ei orfodi ar y bobl sydd wedi'u hethol yma yn y Siambr hon, gan lai na 40 y cant hynny yw, ac mae hefyd yn ymwneud â hawliau'r gweithwyr, sydd, yn amlwg, yn rhywbeth y mae'r Torïaid, yn ôl eu harweinydd, yn meddwl na ddylent eu cael.

15:37 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As Leanne Wood said, Plaid Cymru will be voting against this motion, and we do vehemently disagree with the UK Government's deliberate ignorance and desire to ride roughshod over the devolution agreement. I would also be calling that the four sections within the Bill, or more than just the four sections within the Bill would be disapplied in this regard, because I think it has resonance across the whole of the Trade Union Bill, and not only in those areas that have been discussed in the briefing this morning.

Fel y dywedodd Leanne Wood, bydd Plaid Cymru yn pleidleisio yn erbyn y cynnig hwn, ac rydym yn anghytuno'n ffyrnig ag anwybodaeth fwriadol ac awydd Llywodraeth y DU i sathru ar y cytundeb datganoli. Byddwn hefyd yn galw am ddatgymhwyso'r pedair adran yn y Bil, neu fwy na dim ond y pedair adran yn y Bil, yn y cyswllt hwn, oherwydd rwy'n meddwl ei fod wedi taro tant ar draws y Bil Undebau Llafur cyfan, ac nid dim ond yn y meysydd hynny sydd wedi cael eu trafod yn y briffio y bore yma.

It would be great if we could take this vindictive and unnecessary piece of legislation and throw it out of these Assembly windows, as it deserves. The Bill undermines the trade union—[Interruption.] Well, we don't have windows here, but we have windows outside. This Bill undermines the trade union sector, and I don't buy the argument that the leader of the Conservatives has given today that this will stop his disagreement with the Len McCluskeys of this world. It will be stopping facility time; it will be putting monitoring on those who are seeking to take further industrial action. It's about those people who are, day in, day out, working within the trade union sector, and if you had read the Bill, then you might understand better the reality of the implications that are set before us, as opposed to using headlines that will scaremonger people into potentially supporting your skewed analysis of this Bill.

Byddai'n wych pe gallem gymryd y darn dialgar a diangen hwn o ddeddfwriaeth a'i daflu allan drwy ffenestri'r Cynulliad hwn, fel y mae'n ei haeddu. Mae'r Bil yn tanseilio'r undeb llafur—[Torri ar draws.] Wel, nid oes gennym ffenestri yma, ond mae gennym ffenestri y tu allan. Mae'r Bil hwn yn tanseilio'r sector undebau llafur, ac nid wyf yn cytuno â'r ddadl y mae arweinydd y Ceidwadwyr wedi'i rhoi heddiw y bydd hyn yn atal ei anghytundeb â Len McCluskeys y byd hwn. Bydd yn stopio amser cyfleuster; bydd yn monitro'r bobl hynny sy'n dymuno cymryd camau diwydiannol pellach. Mae'n ymwneud â'r bobl hynny sydd, ddydd ar ôl dydd, yn gweithio o fewn y sector undebau llafur, a phe byddech wedi darllen y Bil, efallai y byddai gennych well dealltwriaeth o realiti'r goblygiadau sy'n cael eu gosod ger ein bron, yn hytrach na defnyddio penawdau a fydd efallai'n dychryn pobl i gefnogi eich dadansoddiad gwyrdroëdig o'r Bil hwn.

I've worked with campaigners in the former Visteon plant who have been barred from working because of their trade union activity. Rob Williams, for example, is one. I've worked with National Museum Wales staff, who are currently in dispute with the Welsh Government, on their plight for weekend work. And I think that it's vital that they have the potential to carry on those discussions. And, you know, fair play to the Welsh Government, it's them that's the target in this regard, but you want to see those discussions take place, you want to see a solution to these discussions, and you want those rights to remain.

Rwyf wedi gweithio gydag ymgyrchwyr yn hen ffatri Visteon sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio oherwydd eu gweithgarwch ag undeb llafur. Mae Rob Williams, er enghraifft, yn un. Rwyf wedi gweithio gyda staff Amgueddfa Genedlaethol Cymru, sydd ar hyn o bryd mewn anghydfod â Llywodraeth Cymru, ar eu helynt ynglŷn â gwaith ar y penwythnos. Ac rwy'n meddwl ei bod yn hanfodol bod ganddynt y potensial i barhau â'r trafodaethau hynny. A, wyddoch chi, chwarae teg i Lywodraeth Cymru, hwy yw'r targed yn hyn o beth, ond rydych eisiau gweld y trafodaethau hynny'n digwydd, rydych eisiau gweld ateb i'r trafodaethau hyn, ac rydych eisiau i'r hawliau hynny aros.

We are told that the Bill is required to curb the unions, but it's really a mandate for bad bosses. Take clause 8, 'Expiry of mandate for industrial action four months after date of ballot'—what possible incentive would this give an employer, public sector or otherwise, to enter negotiations? Can you imagine Jeremy Hunt having this tool at his disposal as he continues to fight his unpopular battle with junior doctors? He would only need to let that time expire, and he would not need, then, therefore, to have constructive—or potentially constructive—discussions with junior doctors.

Rydym yn clywed bod angen y Bil i ffrwyno'r undebau, ond a dweud y gwir, mandad ar gyfer penaethiaid gwael ydyw. Cymerwch gymal 8, 'Mandad ar gyfer gweithredu diwydiannol yn dod i ben bedwar mis ar ôl dyddiad y bleidlais'—pa gymhelliant posibl fyddai hyn yn ei roi i gyflogwr, yn y sector cyhoeddus neu fel arall, i ddechrau trafodaethau? A allwch chi ddychmygu Jeremy Hunt yn gallu defnyddio'r offeryn hwn wrth iddo barhau i ymladd ei frwydr amhoblogaidd â meddygon iau? Ni fyddai ond angen iddo adael i'r amser hwnnw ddod i ben, ac ni fyddai angen iddo, wedyn, felly, gael trafodaethau adeiladol—neu drafodaethau a allai fod yn adeiladol—â meddygon iau.

Ultimately, as a party, we want a Wales where responsible employers exist and they work with unions hand in hand for mutual benefits. It can be done and it is done in bigger countries and better economies than our own. Where I've seen it work, we've seen that it can create a happier workforce if we do have employers and employees working together for mutual benefit, as opposed to creating a system whereby there will be increased animosity between employers and employees. If this Bill goes ahead, it won't assist the economy, it won't help Britain and it certainly won't help Wales. So, I urge people to vote against this motion today.

Yn y pen draw, fel plaid, hoffem weld Cymru lle mae cyflogwyr cyfrifol yn bodoli a'u bod yn gweithio law yn llaw gydag undebau i roi manteision i'r ddwy ochr. Gellir cyflawni hyn ac mae'n cael ei gyflawni mewn gwledydd mwy ac mewn gwell economïau na'n un ni. Lle'r wyf wedi ei weld yn gweithio, rydym wedi gweld y gall greu gweithlu hapusach os oes gennym gyflogwyr a gweithwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd er lles pawb, yn hytrach na chreu system lle bydd mwy o elyniaeth rhwng cyflogwyr a gweithwyr. Os aiff y Bil hwn yn ei flaen, ni fydd yn cynorthwyo'r economi, ni fydd yn helpu Prydain ac yn sicr ni fydd yn helpu Cymru. Felly, rwy'n annog pobl i bleidleisio yn erbyn y cynnig hwn heddiw.

15:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Jeff Cuthbert.

Jeff Cuthbert.

15:40

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd. I thank you for the opportunity to speak on this important matter this afternoon. As a lifelong and committed trade unionist, it will come as no surprise that I vehemently oppose the Tory Government's Trade Union Bill and wholeheartedly support the Welsh Government's position with regard to this insidious and politically motivated piece of legislation.

Diolch, Lywydd. Rwy'n diolch ichi am y cyfle i siarad am y mater pwysig hwn y prynhawn yma. Fel undebwr llafur ymroddedig ar hyd fy oes, ni fydd yn syndod i neb fy mod yn gwrthwynebu Bil Undebau Llafur y Llywodraeth Dorïaidd yn chwyrn, ac yn llwyr gefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r darn llechwraidd hwn o ddeddfwriaeth sy'n llawn cymhelliant gwleidyddol.

Llywydd, the overriding reason that the Tory Government wants to push through this piece of legislation is to attack the Labour movement and its supporters—the ordinary working people who work hard to provide the vital public services on which many of our most vulnerable constituents depend. It is a cynical attempt to neuter the trade union movement as a forum to represent the interests of ordinary working people, as well as a nakedly political attack on the sources of funding for the Labour party.

Lywydd, y rheswm pennaf pam mae'r Llywodraeth Dorïaidd yn awyddus i wthio'r darn hwn o ddeddfwriaeth drwodd yw i ymosod ar y mudiad Llafur a'i gefnogwyr—y gweithwyr cyffredin sy'n gweithio'n galed i ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus hanfodol y mae llawer o'n hetholwyr mwyaf agored i niwed yn dibynnu arnynt. Mae'n ymgais sinigaidd i ysbaddu'r mudiad undebau llafur fel fforwm i gynrychioli buddiannau gweithwyr cyffredin, yn ogystal â bod yn ymosodiad gwleidyddol amlwg ar ffynonellau cyllid y blaid Lafur.

When viewed with the planned changes to parliamentary constituency boundaries and the changes to individual voter registration that have already been introduced, it is clear to me that they are part of a concerted effort to stack up the British electoral system in favour of the Conservatives.

Pan edrychir ar hyn gyda'r newidiadau a gynlluniwyd i ffiniau etholaethau seneddol a'r newidiadau i gofrestru etholwyr unigol sydd eisoes wedi eu cyflwyno, mae'n amlwg i mi eu bod yn rhan o ymdrech gydlynol i sicrhau bod system etholiadol Prydain yn gweithredu o blaid y Ceidwadwyr.

Llywydd, since the time of the Taff Vale case, all the way back to 1901, the Labour Party has been inextricably linked to the trade union movement, and that is something of which I am very proud. It has been a force for good throughout the course of Welsh and British history. This Bill is intended to attack the democratic right of Welsh and British working people to withdraw their Labour as a last resort in the event of an industrial dispute, as well as attack the freedoms and the protections that trade unions have fought hard to get introduced over the decades. It is for these reasons that I support the Welsh Government's position on this Bill and I believe that the Minister is right to oppose its introduction in Wales, on the grounds that it intrudes on the delivery of devolved public services in Wales and goes against our very values.

Lywydd, ers adeg achos Glyn Taf, yr holl amser yn ôl yn 1901, bu cysylltiad annatod rhwng y Blaid Lafur a'r mudiad undebau llafur, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn falch iawn ohono. Mae wedi bod yn rym er daioni drwy gydol hanes Cymru a Phrydain. Bwriad y Bil hwn yw ymosod ar hawl ddemocrataidd gweithwyr Cymru a Phrydain i wrthod rhoi eu llafur fel y dewis olaf mewn achos o anghydfod diwydiannol, yn ogystal ag ymosod ar y rhyddid a'r amddiffyniad y mae undebau llafur wedi ymladd yn galed i'w cyflwyno dros y degawdau. Am y rhesymau hyn, rwy'n cefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil hwn, ac rwy'n credu bod y Gweinidog yn iawn i wrthwynebu ei gyflwyno yng Nghymru, ar y sail ei fod yn ymwthio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ac yn mynd yn erbyn ein gwerthoedd sylfaenol.

15:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Public Services to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ymateb i'r ddadl.

15:43

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Diolch, Lywydd. It's clear from the debate today that three parties here will vote against the legislative consent motion, and I'm grateful for that cross-party opposition, which we see paralleled also in the House of Lords, as there is collaboration between a number of parties on the opposition benches and, indeed, cross benchers in driving forward amendments to this Bill. I hope that those amendments will go further if the UK Government doesn't bring forward the amendments that we are seeking.

Diolch, Lywydd. Mae'n amlwg o'r ddadl heddiw y bydd tair plaid yma yn pleidleisio yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, ac rwy'n ddiolchgar am y gwrthwynebiad trawsbleidiol hwnnw, yr ydym yn ei weld hefyd yn Nhŷ'r Arglwyddi, gan fod cydweithio rhwng nifer o bleidiau ar feinciau'r gwrthbleidiau ac, yn wir, o'r meinciau croes yn sbarduno gwelliannau i'r Bil hwn. Rwy'n gobeithio y bydd y gwelliannau hynny'n mynd ymhellach os na fydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno'r gwelliannau yr ydym yn gofyn amdanynt.

A number of contributions—from the leader of Plaid Cymru and from the Liberal Democrats spokesperson—have set out the arguments that we share against this Bill. A number of people have referred, for example, to the Wales TUC and the campaign it has been running and the legal advice that it has received—

Mae nifer o gyfraniadau—gan arweinydd Plaid Cymru a chan lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol—wedi nodi'r dadleuon yr ydym yn eu rhannu yn erbyn y Bil hwn. Mae nifer o bobl wedi cyfeirio, er enghraifft, at TUC Cymru a'r ymgyrch y mae wedi bod yn ei gynnal a'r cyngor cyfreithiol y mae wedi'i gael—

15:43

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would you take an intervention, Minister?

A wnewch chi dderbyn ymyriad, Weinidog?

15:43

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

15:43

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful to the Minister for taking an intervention at this stage. I've heard many arguments put forward today—many in passionate support of the trade union movement—and I respect, absolutely, every Members' right to make those arguments. But would you share with me that perhaps those arguments are undermined by a failure to declare an interest on the part of some Members here? I think it's been a shame that, because those interests were not declared upfront, it might be perceived, slightly unfairly, that perhaps they're not making their arguments in support of this LCM in the most open and transparent way?

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am dderbyn ymyriad ar yr adeg hon. Rwyf wedi clywed llawer o ddadleuon yn cael eu cyflwyno heddiw—llawer ohonynt yn cefnogi'r mudiad undebau llafur yn angerddol—ac rwy'n parchu, yn llwyr, hawl pob Aelod i wneud y dadleuon hynny. Ond a fyddech yn rhannu â mi, efallai, bod y dadleuon hynny'n cael eu tanseilio gan fethiant i ddatgan buddiant ar ran rhai Aelodau yma? Rwy'n meddwl ei bod yn drueni, oherwydd na chafodd y buddiannau hynny eu datgan ymlaen llaw, y gellid ystyried, braidd yn annheg, efallai nad ydynt yn gwneud eu dadleuon o blaid y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn y modd mwyaf agored a thryloyw?

15:44 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I was going to come on to the issue of trade union membership in a moment, and I will say a bit more about it. But when it comes to declarations of interest, I've never heard Conservative farmers in this Chamber declaring interests on things, for example, like the agricultural wages Bill. My colleagues declare the support they get from trade unions in the register, which is where they should declare it. And I am pleased—[Interruption.]

Wel, roeddwn yn mynd i droi at fater aelodaeth o undeb llafur yn y man, a byddaf yn dweud ychydig mwy am y peth. Ond o ran datganiadau o fuddiant, nid wyf erioed wedi clywed ffermwyr Ceidwadol yn y Siambr hon yn datgan buddiant ar bethau, fel y Bil cyflogau amaethyddol er enghraifft. Mae fy nghydweithwyr yn datgan y gefnogaeth y maent yn ei chael gan undebau llafur yn y gofrestr, a dyna lle y dylent ddatgan hynny. Ac rwy'n falch —[Torri ar draws.]

*Andrew R.T. Davies a gododd—*

*Andrew R.T. Davies rose—*

15:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Not on a point of order—. Are you taking an intervention?

Nid ar bwynt o drefn—. A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:44 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—that here today the contributions that we've had from my colleagues—from Julie Morgan, from Joyce Watson, from Jeff Cuthbert, from John Griffiths—[Interruption.]

[Yn parhau.]— bod y cyfraniadau yma heddiw a gawsom gan fy nghydweithwyr—gan Julie Morgan, gan Joyce Watson, gan Jeff Cuthbert, gan John Griffiths—[Torri ar draws.]

15:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can we have some order, please? Carry on, Minister.

A gawn ni rywfaint o drefn, os gwelwch yn dda? Ewch yn eich blaen, Weinidog.

15:45 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, the leader of the opposition has just accused me of misleading the Chamber. I object to that.

Lywydd, mae arweinydd yr wrthblaid newydd fy nghyhuddo o gamarwain y Siambr. Rwy'n gwrthwynebu hynny.

15:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I did not hear that.

Ni chlywais hynny.

15:45 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay. Well, you're lucky. Can I move on to say that the opposition that's been outlined by my colleagues and by Bethan Jenkins is also welcome in this Chamber today?

Iawn. Wel, rydych chi'n lwcus. A gaf i symud ymlaen i ddweud bod y gwrthwynebiad sydd wedi'i amlinellu gan fy nghydweithwyr a gan Bethan Jenkins hefyd i'w groesawu yn y Siambr hon heddiw?

Reference was made by Julie Morgan to the position in Scotland, which is different from ours. They've not been able to table their equivalent of a legislative consent motion, but I can tell the Chamber today that the Scottish Parliament is today debating a report on the operation of the Trade Union Bill that accommodates many of the arguments that we ourselves have brought forward. I've had a number of conversations latterly—the most recent being last Thursday—with the Scottish Government Minister who leads on this issue.

Cyfeiriodd Julie Morgan at y sefyllfa yn yr Alban, sy'n wahanol i'n sefyllfa ni. Nid ydynt wedi gallu cyflwyno eu cynnig cyfatebol i gynnig cydsyniad deddfwriaethol, ond gallaf ddweud wrth y Siambr heddiw bod Senedd yr Alban yn trafod adroddiad heddiw am weithrediad y Bil Undebau Llafur sy'n cynnwys llawer o'r dadleuon yr ydym ni ein hunain wedi'u cyflwyno. Rwyf wedi cael nifer o sgyrsiau yn ddiweddar—yn fwyaf diweddar ddydd Iau diwethaf—â'r Gweinidog yn Llywodraeth yr Alban sy'n arwain ar y mater hwn.

We are seeking to see clauses 3, 12, 13 and 14 removed from the Bill, or their application being disapplied to Wales and, indeed, to other devolved administrations that are affected. Certainly, we will move very swiftly after the May election to introduce what I will, for today's purposes, call the trade union disapplication (Wales) Bill to remove those clauses, as the First Minister has made clear previously.

Rydym yn gofyn i gymalau 3, 12, 13 a 14 gael eu tynnu oddi ar y Bil, neu eu datgymhwyso i Gymru ac, yn wir, i'r gweinyddiaethau datganoledig eraill y mae'n effeithio arnynt. Yn sicr, byddwn yn symud yn gyflym iawn ar ôl yr etholiad ym mis Mai i gyflwyno'r hyn yr wyf am ei alw, at ddibenion heddiw, yn Fil datgymhwyso undebau llafur (Cymru) i gael gwared ar y cymalau hynny, fel y mae'r Prif Weinidog wedi'i ddatgan yn glir o'r blaen.

I'm going to move to the remarks of the leader of the opposition, who made clear today his support for the Bill, saying it was in the Conservative manifesto at the last election. Well, I didn't see the taking away of nurses' bursaries in the Conservative manifesto at the last election, but they've been able to u-turn on that.

Rwy'n mynd i droi at sylwadau arweinydd yr wrthblaid, a'i gwnaeth yn glir heddiw ei fod yn cefnogi'r Bil, gan ddweud ei fod ym maniffesto'r Ceidwadwyr yn yr etholiad diwethaf. Wel, ni welais ddileu bwrsariaethau nyrsys ym maniffesto'r Ceidwadwyr yn yr etholiad diwethaf, ond maent wedi gallu gwneud tro pedol ar hynny.

I didn't hear the leader of the opposition refer once to public services in Wales being a devolved responsibility in his contribution. He didn't refer to the clauses that relate to public services, because he knows that those clauses in this Bill are wrong in principle and are a breach of the devolution settlement.

Ni chlywais arweinydd yr wrthblaid yn cyfeirio unwaith at y ffaith bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gyfrifoldeb datganoledig yn ei gyfraniad. Ni wnaeth gyfeirio at y cymalau sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus, oherwydd mae'n gwybod bod y cymalau hynny yn y Bil hwn yn anghywir mewn egwyddor ac yn groes i'r setliad datganoli.

He referred to Len McCluskey. I will declare I am a member of Unite; I'm also a member of the National Union of Journalists. I took great pleasure last year in showing Len McCluskey around the E-Cycle factory in Williamstown, where this Welsh Labour Government had saved Remploy jobs when the Conservatives and Liberal Democrats were closing those factories. I will give the leader of the opposition some advice: he should take the advice of the Conservative MP David Davis—that's not David T.C. Davies of Monmouth; it's David Davis without the 'e' in his name, who referred in the debate on the Trade Union Bill to its Franco-style provisions. He is a better defender of civil liberties than I think the leader of the opposition is here. David Davis went on to say on the Trade Union Bill,

Cyfeiriodd at Len McCluskey. Gwnaf ddatgan fy mod yn aelod o Unite; rwyf hefyd yn aelod o Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr. Cefais bleser mawr y llynedd o dywys Len McCluskey o amgylch y ffatri E-Cycle yn Williamstown, lle'r oedd y Llywodraeth Lafur Cymru hon wedi arbed swyddi Remploy pan oedd y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cau'r ffatrïoedd hynny. Rhoddaf rywfaint o gyngor i arweinydd yr wrthblaid: dylai gymryd cyngor yr AS Ceidwadol David Davis—nid David T.C. Davies o Drefynwy; David Davis heb yr 'e' yn ei enw, a gyfeiriodd yn y ddadl am y Bil Undebau Llafur at ei ddarpariaethau Franco-aidd. Rwy'n meddwl ei fod ef yn well am amddiffyn hawliau sifil nag y mae arweinydd yr wrthblaid yma. Aeth David Davis yn ei flaen i ddweud am y Bil Undebau Llafur,

'This isn't Franco's Britain, this is Queen Elizabeth II's Britain.'

'Nid Prydain Franco yw hon; Prydain y Frenhines Elizabeth II ydyw.'

I think that the leader of the opposition perhaps could learn something from his colleagues.

Credaf y gallai arweinydd yr wrthblaid efallai ddysgu rhywbeth gan ei gydweithwyr.

We will vote against this legislative consent motion today, because we regard this Bill as punitive, as vindictive and as breaching the devolution settlement. I urge all colleagues in this Chamber to vote against this legislative consent motion to send a very strong message to the UK Government and a strong message to the House of Lords, which is currently debating the Trade Union Bill, that we want those clauses taken out; we want them disapplied to Wales. We value the relationship we have with our trade union colleagues. We value the social partnership work we have here in Wales and we oppose this Bill.

Byddwn yn pleidleisio yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw, oherwydd ein bod o'r farn bod y Bil hwn yn gosbol, yn ddialgar ac yn groes i'r setliad datganoli. Rwy'n annog pob cydweithiwr yn y Siambr hon i bleidleisio yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn i anfon neges gref iawn i Lywodraeth y DU a neges gref i Dŷ'r Arglwyddi, sydd ar hyn o bryd yn trafod y Bil Undebau Llafur, yr hoffem i'r cymalau hynny gael eu tynnu allan; hoffem eu datgymhwyso ar gyfer Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi'r berthynas sydd gennym â'n cydweithwyr yn yr undebau llafur. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith partneriaeth cymdeithasol sydd gennym yma yng Nghymru ac rydym yn gwrthwynebu'r Bil hwn.

15:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before I move to the vote, can I just say this: it is the responsibility of individual Members to judge whether an interest relates sufficiently to these particular proceedings to require declaration? It is not my responsibility to rule on these matters and I cannot, in my capacity as Presiding Officer, advise or give a conclusive view on whether a declaration is required or not. It is strictly a matter for the individual Members.

Cyn imi symud at y bleidlais, a gaf i ddweud hyn: cyfrifoldeb Aelodau unigol yw barnu a yw buddiant yn ymwneud yn ddigonol â'r trafodion penodol hyn i'w gwneud yn ofynnol eu datgan? Nid fy nghyfrifoldeb i yw rheoli'r materion hyn ac nid wyf yn gallu, yn rhinwedd fy swydd fel Llywydd, cynghori na rhoi barn derfynol ynghylch pa un a oes angen datganiad ai peidio. Mater i'r Aelodau unigol yn llwyr yw hyn.

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] Object. The motion will be deferred until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Caiff y cynnig ei ohirio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

15:49

## 10. Trefn Ystyried y Gwelliannau ar gyfer Cyfnod 3 o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

## 10. Order of Consideration of Amendments for Stage 3 of the Historic Environment (Wales) Bill

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 10, which is the order of consideration of amendments for Stage 3 of the Historic Environment (Wales) Bill. I call on the Deputy Minister, Ken Skates, to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 10, sef trefn ystyried gwelliannau i Gyfnod 3 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Galwaf ar y Dirprwy Weinidog, Ken Skates, i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5933 Jane Hutt

Motion NDM5933 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

Agrees to dispose of sections and schedules to the Historic Environment (Wales) Bill at Stage 3 in the following order:

| | |
|---|---|
| a) adran 3 | a) Section 3 |
| b) atodlen 1 | b) Schedule 1 |
| c) adrannau 4-22 | c) Sections 4-22 |
| d) adran 2 | d) Section 2 |
| e) adran 24 | e) Section 24 |
| f) atodlen 2 | f) Schedule 2 |
| g) adrannau 25-32 | g) Sections 25-32 |
| h) adran 23 | h) Section 23 |
| i) adrannau 33-42 | i) Sections 33-42 |
| j) adran 1 | j) Section 1 |
| k) Teitl Hir. | k) Long title. |

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:50

### Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

15:50

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I have no speakers. Do you wish to reply to that debate? No. Fine. Thank you very much.

Diolch. Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. A ydych chi am ymateb i'r ddadl honno? Na. Iawn. Diolch yn fawr iawn.

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:50

# 11. Cyfnod Pleidleisio

# 11. Voting Time

Y

Senedd.tv Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

We now move to voting time. Does anyone object to us moving to voting time? No. Fine. Thank you. Right; the first vote, then, is on the Developments of National Significance (Specified Criteria and Prescribed Secondary Consents) (Wales) Regulations 2016. It's a vote on the motion tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. Are we closing the vote? Are we all done? Close the vote. In favour 42, no abstentions, and 14 against. Therefore, the motion is carried.

Rydym nawr yn symud i'r cyfnod pleidleisio. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu inni symud i'r cyfnod pleidleisio? Na. Iawn. Diolch. Dyna ni; mae'r bleidlais gyntaf, felly, ar y Rheoliadau Datblygiadau o Bwys Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chaniatadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016. Mae'n bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. A ydym yn cau'r bleidlais? A ydym i gyd wedi pleidleisio? Caewch y bleidlais. O blaid 42, neb yn ymatal, a 14 yn erbyn. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 42, Yn erbyn 14, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 42, Against 14, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5927.

Result of the vote on motion NDM5927.

15:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the next vote, which is a vote on the Developments of National Significance (Fees) (Wales) Regulations 2016. I call for a vote on the motion, again in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. In favour 43, no abstentions, 13 against. Therefore, the motion is carried.

Symudwn yn awr at y bleidlais nesaf, sef pleidlais ar y Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016. Galwaf am bleidlais ar y cynnig, eto yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 43, neb yn ymatal, 13 yn erbyn. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 43, Yn erbyn 13, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 43, Against 13, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5928.

Result of the vote on motion NDM5928.

15:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now move to a vote on the legislative consent motion on the UK Trade Union Bill. I call for a vote on the motion, which is tabled in the name of Leighton Andrews. Open the vote. Are we all done? Close the vote. In favour 13, no abstentions, 43 against. Therefore, the UK Trade Union Bill is not agreed.

Symudaf yn awr i bleidlais ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar Fil Undebau Llafur y DU. Galwaf am bleidlais ar y cynnig, sy'n cael ei gyflwyno yn enw Leighton Andrews. Agorwch y bleidlais. A ydym ni i gyd wedi pleidleisio? Caewch y bleidlais. O blaid 13, neb yn ymatal, 43 yn erbyn. Felly, nid yw Bil Undebau Llafur y DU wedi ei dderbyn.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 13, Yn erbyn 43, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 13, Against 43, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5932.

Result of the vote on motion NDM5932.

15:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to a vote on the—[Interruption.] Oh, that went through on the nod. I beg your pardon. Fine. That brings no more votes.

Symudwn yn awr at bleidlais ar—[Torri ar draws.] O, aeth hynny drwodd heb bleidleisio. Mae'n ddrwg gen i. Iawn. Does dim mwy o bleidleisio felly.

Before we move to the next item of business, I propose a 15-minute break. There will just be one bell; so, please return as soon as you can after the bell. Thank you very much.

Cyn inni symud at yr eitem nesaf o fusnes, rwy'n cynnig egwyl o 15 munud. Dim ond un gloch fydd; felly, dychwelwch cyn gynted ag y gallwch ar ôl y gloch. Diolch yn fawr iawn.

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 15:52.*

*Plenary was suspended at 15:52.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 16:08, gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly reconvened at 16:08, with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

16:08

## 12. Dadl Cyfnod 3 ar Fil yr Amgylchedd (Cymru)

## 12. Stage 3 Debate on the Environment (Wales) Bill

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Order. Order. Our next item is the Stage 3 debate on the Environment (Wales) Bill.

Trefn. Trefn. Ein heitem nesaf yw'r ddadl Cyfnod 3 ar Fil yr Amgylchedd (Cymru).

**Grŵp 1: Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol ac Egwyddorion (Gwelliannau 68, 36, 51, 52, 49, 50, 5, 6, 53, 54, 55, 56, 7, 39)**

**Group 1: Sustainable Management of Natural Resources and Principles (Amendments 68, 36, 51, 52, 49, 50, 5, 6, 53, 54, 55, 56, 7, 39)**

16:08

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first group of amendments relates to sustainable management of natural resources and the principles. The lead amendment in this group is amendment 68. I call on Llyr Gruffydd to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymwneud â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r egwyddorion. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 68. Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 68 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 68 (Llyr Gruffydd) moved.*

16:08

### Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. I would like to start by referring to our only amendment in this group, amendment 68, but I honestly believe it's possibly one of the most significant amendments that we have here today in relation to this Bill. The Bill, as drafted, says that the objective of managing Wales's natural resources is to contribute to the achievement of all the wellbeing goals set out in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. The environment committee had asked in Stage 1, in our report, for the objective for sustainable management of natural resources to mirror the resilient Wales goal included in the future generations Act. This reflected, as well, the wishes of a number of stakeholders. And it is significant, because the general purpose of Natural Resources Wales relates back to this particular section.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddechrau drwy gyfeirio at ein hunig welliant yn y grŵp hwn, gwelliant 68, ond rwyf yn wir yn credu ei fod o bosibl yn un o'r gwelliannau pwysicaf sydd gennym yma heddiw ynglŷn â'r Bil hwn. Mae'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn dweud mai amcan rheoli adnoddau naturiol Cymru yw cyfrannu at gyflawni pob un o'r amcanion lles a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd pwyllgor yr amgylchedd wedi gofyn yng Nghyfnod 1, yn ein hadroddiad, i'r nod ar gyfer rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol adlewyrchu'r nod Cymru gydnerth a gynhwysir yn Neddf cenedlaethau'r dyfodol. Roedd hyn yn adlewyrchu, yn ogystal, dymuniadau nifer o randdeiliaid. Ac mae hyn yn arwyddocaol, oherwydd bod pwrpas cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfeirio'n ôl at yr adran arbennig hon.

As things stand, Natural Resources Wales's objective is to contribute to the achievement of all seven wellbeing goals equally: a prosperous Wales, a healthier Wales, a more equal Wales, cohesive communities, et cetera, et cetera, which, in one sense, is all well and good. It's right that Natural Resources Wales, as with all of the public bodies, contributes to their achievement. But its main focus, its overriding priority in my view, must be on the environment—securing healthy ecosystems must be its primary way of contributing to the suite of wellbeing goals. I was disappointed that the Government didn't accept the view of the committee at Stage 2, and instead inserted reference to all of the seven goals, which, in my view, is too broad a remit—too all-encompassing a responsibility for NRW. It should be more focused on being the environmental champion for Wales.

Fel y mae pethau'n sefyll, nod Cyfoeth Naturiol Cymru yw cyfrannu at gyflawni pob un o'r saith nod lles yn gyfartal: Cymru lewyrchus, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, cymunedau cydlynus, ac ati, ac ati, sydd, mewn un ystyr, yn burion. Mae'n iawn fod Cyfoeth Naturiol Cymru, fel gyda phob un o'r cyrff cyhoeddus, yn cyfrannu at eu cyflawni. Ond rhaid i'w brif bwyslais, ei brif flaenoriaeth yn fy marn i, fod ar yr amgylchedd—mae'n rhaid i sicrhau ecosystemau iach fod ei brif ffordd o gyfrannu at gyfres o nodau lles. Roeddwn yn siomedig na wnaeth y Llywodraeth dderbyn barn y pwyllgor yng Nghyfnod 2, ac yn lle hynny mewnosodwyd cyfeiriad at bob un o'r saith nod, sydd, yn fy marn i, yn gylch gwaith rhy eang—yn gyfrifoldeb sy'n cwmpasu gormod o bethau i Gyfoeth Naturiol Cymru. Dylai fod yn canolbwyntio mwy ar fod yn hyrwyddwr amgylcheddol i Gymru.

That's why this amendment inserts particular reference to the 'resilient Wales' goal as the objective, so that NRW's main objective, therefore, is to—and I quote the goal—maintain and enhance

Dyna pam mae'r gwelliant hwn yn mewnosod cyfeiriad penodol at y nod 'Cymru gydnerth' fel yr amcan, fel mai prif amcan Cyfoeth Naturiol Cymru, felly, yw—a dyfynnaf y nod—cynnal a gwella

'a biodiverse natural environment with healthy functioning ecosystems that support social, economic and ecological resilience and the capacity to adapt to change (for example climate change).'

amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

Now, the analogy that I've used previously, of course, is that of the NHS. We expect it, clearly, as a public body to contribute to all of the wellbeing goals, but its overriding focus, its main priority, will always be to maintain and enhance the health of the people of Wales. That's what comes first. In the same way that the NHS is the champion for health in Wales, Natural Resources Wales should clearly be a champion for the environment. If NRW doesn't fulfil that important role then we really have to ask the question, 'Who is there that will?'

Nawr, y gyfatebiaeth yr wyf wedi'i defnyddio o'r blaen, wrth gwrs, yw un y GIG. Rydym yn disgwyl iddo, yn amlwg, fel corff cyhoeddus i gyfrannu at bob un o'r nodau lles, ond ei bwyslais pennaf, ei brif flaenoriaeth, bob amser fydd cynnal a gwella iechyd pobl Cymru. Dyna sy'n dod gyntaf. Y GIG yw'r hyrwyddwr ar gyfer iechyd yng Nghymru, a dylai Cyfoeth Naturiol Cymru yn amlwg fod yr hyrwyddwr ar gyfer yr amgylchedd yn yr un modd. Os nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni'r swyddogaeth bwysig honno yna mae'n rhaid i ni ofyn y cwestiwn, 'Pwy fydd yn gwneud hynny?'

I'll be supporting amendments 53 to 56 for much the same reasons. In relation to other amendments as well, amendment 36 from William Powell inserts the precautionary principle, and I support it and its inclusion in the Bill. I won't be supporting amendments 51 and 52 from Janet Haworth, not because the references that are made to food production and tourism as important considerations and principles of sustainable management of natural resources aren't important—of course they are—but why single those out particularly? There are many, many other areas that we could list, and of course that's the danger, then—that it becomes a long list, and omissions of other areas could also then become problematic.

Byddaf yn cefnogi gwelliannau 53 i 56 am yr un rhesymau. O ran y gwelliannau eraill hefyd, mae gwelliant 36 gan William Powell yn mewnosod egwyddor ragofalus, ac rwy'n ei gefnogi a'i gynnwys yn y Bil. Ni fyddaf yn cefnogi gwelliannau 51 a 52 gan Janet Haworth, nid oherwydd nad yw'r cyfeiriadau a wneir at gynhyrchu bwyd a thwristiaeth yn ystyriaethau ac yn egwyddorion pwysig o reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol—wrth gwrs eu bod—ond pam dethol y rhai hynny'n arbennig? Mae llawer iawn o feysydd eraill y gallem eu rhestru, ac wrth gwrs dyna'r perygl, wedyn—bod y rhestr yn mynd yn faith, a gallai hepgor meysydd eraill hefyd ddod yn broblem wedyn.

In relation to amendment 49 from Russell George, I have to say I have grappled and struggled somewhat with the explicit inclusion of landscapes in the Bill, particularly whether the interests of landscapes are fully captured within the scope of the term 'ecosystem'. Now, we wrote to the Minister, of course, on this a while ago, and we still haven't, as far as I'm aware, received a reply. I have to say that I have been persuaded that taking account of the benefits and intrinsic value of landscapes should be included in the principles of sustainable management of natural resources, and I'll be supporting that particular amendment, amendment 49, although I won't be going as far as supporting amendment 50.

O ran gwelliant 49 gan Russell George, mae'n rhaid i mi ddweud fy mod wedi cael trafferth braidd gyda chynnwys tirweddau yn benodol yn y Bil, yn enwedig y cwestiwn o ba un a yw buddiannau tirweddau yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn cwmpas y term 'ecosystem'. Nawr, ysgrifenasom at y Gweinidog, wrth gwrs, ar hyn ychydig yn ôl, ac nid ydym, cyn belled ag y gwn i, wedi cael ateb. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod wedi cael fy mherswadio y dylid cynnwys ystyried manteision a gwerth cynhenid tirweddau fel bod yn egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a byddaf yn cefnogi'r gwelliant arbennig hwnnw, gwelliant 49, er na fyddaf yn mynd mor bell â chefnogi gwelliant 50.

I'll also be supporting Government amendments 5, 6 and 7 and amendment 39 from William Powell.

Byddaf hefyd yn cefnogi gwelliannau 5, 6 a 7 y Llywodraeth a gwelliant 39 gan William Powell.

16:12 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm speaking to amendments 51 and 52. These two amendments aim to strengthen the Bill by adding additional principles focusing on food production and tourism, and to ensure that these sectors are given adequate consideration by Welsh Government Ministers. I know, from previous debates in this Chamber, that Ministers often speak of these two areas of activities. Why they're here is because they wouldn't be here without the environment. Farming is intimately related to the environment and how we manage it, and so many of our millions of visitors come here because of our wonderful environment, and particularly those national parks and areas of special scientific interest that attract so many visitors. We've been very successful in establishing and managing those areas. They are the envy of the world.

Rwy'n siarad am welliannau 51 a 52. Mae'r ddau welliant â'r nod o gryfhau'r Bil drwy ychwanegu egwyddorion ychwanegol sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu bwyd a thwristiaeth, a sicrhau bod y sectorau hyn yn cael ystyriaeth ddigonol gan Weinidogion Llywodraeth Cymru. Rwy'n gwybod, o ddadleuon blaenorol yn y Siambr hon, bod Gweinidogion yn aml yn siarad am y ddau faes hyn o weithgareddau. Y rheswm eu bod nhw yma yw oherwydd na fyddent yma heb yr amgylchedd. Mae ffermio'n gysylltiedig yn agos â'r amgylchedd a sut yr ydym yn ei reoli, ac felly mae llawer o'n miliynau o ymwelwyr yn dod yma oherwydd ein hamgylchedd gwych, ac yn enwedig y parciau cenedlaethol a'r ardaloedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig hynny sy'n denu cymaint o ymwelwyr. Rydym ni wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth sefydlu a rheoli'r ardaloedd hynny. Maent yn destun eiddigedd y byd.

Now, food production is a key sector in Wales, and it needs the additional focus that this Bill will bring to it. In times of insecurity and uncertainty, and concerns over food miles and the carbon footprint, it is vital we do all we can to promote and protect Welsh food producers. Tourism is obviously also a key industry in Wales, attracting millions of tourists throughout the year. Figures show that tourism is an ever-growing sector in Wales, as the total volume of trips to our country increased by 1.8 per cent from 2014 to 2015. I'm proud to be able to say that the area where I live has done particularly well in the previous year. Tourism and agriculture are closely related, so that's why these two amendments should have a place in this Bill.

Nawr, mae cynhyrchu bwyd yn sector allweddol yng Nghymru, ac mae angen y pwyslais ychwanegol a ddaw iddo gyda'r Bil hwn. Mewn adegau o anniogelwch ac ansicrwydd, a phryderon ynghylch milltiroedd bwyd ac ôl troed carbon, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth yn ein gallu i hyrwyddo ac amddiffyn cynhyrchwyr bwyd Cymru. Mae twristiaeth yn amlwg hefyd yn ddiwydiant allweddol yng Nghymru, gan ddenu miliynau o dwristiaid drwy gydol y flwyddyn. Mae ffigurau'n dangos bod twristiaeth yn sector sy'n cynyddu yng Nghymru, gan fod cyfanswm y teithiau i'n gwlad wedi cynyddu gan 1.8 y cant o 2014 i 2015. Rwy'n falch o allu dweud bod yr ardal lle rwy'n byw wedi gwneud yn arbennig o dda yn y flwyddyn flaenorol. Mae twristiaeth ac amaethyddiaeth yn gysylltiedig yn agos, felly dyna pam y dylai'r ddau welliant hyn gael lle yn y Bil hwn.

16:15 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I speak to amendments 36 and 39 in this group. There was concern after a Stage 2 amendment inserted a new principle in section 4 of the Bill to, and I quote,

Siaradaf am welliannau 36 a 39 yn y grŵp hwn. Roedd pryder ar ôl i welliant Cyfnod 2 fewnosod egwyddor newydd yn adran 4 o'r Bil i, ac rwy'n dyfynnu,

'take action to prevent serious or irreversible damage to ecosystems',

gymryd camau i atal difrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r ecosystemau,

and it was felt that this needed further amendment as concerns over harm are not limited to serious or irreversible damage only; that bar seemed to have been set too high.

a theimlwyd bod angen gwelliant pellach ar hyn gan nad yw pryderon ynghylch niwed wedi eu cyfyngu i ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy yn unig; mae'n ymddangos bod y bar hwnnw wedi ei osod yn rhy uchel.

As such, we can support the Welsh Government's amendment 5, which brings the principle in this section better into line with the preventative approach. However, I still feel that the Bill is missing an important reference to the precautionary principle. As an internationally well-understood and established principle, the committee felt, when first considering this piece of legislation, that this should be on the face of the Bill, and amendment 39 seeks to achieve this.

Fel y cyfryw, gallwn gefnogi gwelliant 5 Llywodraeth Cymru, sy'n dod â'r egwyddor yn yr adran hon yn fwy unol â'r ymagwedd ataliol. Fodd bynnag, rwy'n dal yn teimlo bod cyfeiriad pwysig at yr egwyddor ragofalus ar goll yn y Bil. Fel egwyddor sy'n eglur ac wedi'i sefydlu'n dda yn rhyngwladol, teimlai'r pwyllgor, wrth ystyried y darn hwn o ddeddfwriaeth am y tro cyntaf, y dylai hyn fod ar wyneb y Bil, ac mae gwelliant 39 yn ceisio cyflawni hyn.

I know from the response at Stage 2, and discussions subsequently, that the Welsh Government's line on this is that the core elements of the precautionary principle are covered in the various sections relating to natural resources, but, for clarity, I think it should still be explicit in this Bill. If the Welsh Government continues to be opposed to this amendment, I would ask that the Minister commits to having a specific section in statutory guidance to acknowledge the role of both the preventative and precautionary principles and on the application of both these principles, clearly explaining the limits and scope of their application. I think this would go some way to allaying concerns around not having the precautionary principle explicitly referred to in the Bill.

Rwy'n gwybod o'r ymateb yn ystod Cyfnod 2, a thrafodaethau ar ôl hynny, mai safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn yw bod elfennau craidd yr egwyddor ragofalus wedi eu cynnwys yn y gwahanol adrannau sy'n ymwneud ag adnoddau naturiol, ond, er eglurder, rwy'n meddwl y dylai ddal i fod yn eglur yn y Bil hwn. Os bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wrthwynebu'r gwelliant hwn, rwyf yn gofyn i'r Gweinidog ymrwymo i gael adran benodol yn y canllawiau statudol i gydnabod swyddogaeth y ddwy egwyddor ataliol a rhagofalus ac ar gymhwyso'r ddwy egwyddor hyn, gan esbonio terfynau a chwmpas eu cymhwysiad yn glir. Rwy'n credu y byddai hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd at leddfu pryderon ynghylch peidio â chael yr egwyddor ragofalus y cyfeirir ati yn benodol yn y Bil.

Amendment 39 inserts a general power for Welsh Ministers to issue guidance of this kind for the purposes of Part 1, and provides that public authorities must have regard to this guidance. Noting the concerns raised soon after this Bill was published about the issue of consent, we have inserted an exemption for Ministers of the Crown and Government departments to whom those requirements do not apply.

Mae gwelliant 39 yn mewnosod pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau o'r math hwn at ddibenion Rhan 1, ac yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i'r canllawiau hyn. Gan nodi pryderon a godwyd yn fuan wedi i'r Bil hwn gael ei gyhoeddi am y mater o gydsyniad, rydym wedi mewnosod esemptiad ar gyfer Gweinidogion o adrannau'r Goron a'r Llywodraeth nad yw'r gofynion hynny'n berthnasol iddynt.

We will be supporting all other amendments in this group today, with the exception of amendments 51 and 52, tabled by Janet Haworth. As we said at Stage 2, the principles already refer to the benefits of natural resources and ecosystems, of which food production and tourism are two key examples, but I do not feel that it's necessary to highlight those over others at this time.

Byddwn yn cefnogi pob gwelliant arall yn y grŵp hwn heddiw, ac eithrio gwelliannau 51 a 52, a gyflwynwyd gan Janet Haworth. Fel y dywedasom yng Nghyfnod 2, mae'r egwyddorion eisoes yn cyfeirio at fanteision adnoddau ac ecosystemau naturiol, y mae cynhyrchu bwyd a thwristiaeth yn ddwy enghraifft allweddol ohonynt, ond nid wyf yn teimlo ei bod yn angenrheidiol i dynnu sylw at y rheini yn hytrach na rhai eraill ar hyn o bryd.

16:17

## Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I would like to specifically support amendments 49 and 50, tabled in my name. I'm sure all Members in this Chamber are supportive of the general ambition of the Bill to improve the environmental status of Wales and to actively guide the use of its natural resources. Indeed, one of the primary focuses of the Bill, reflected by the scope of its current provisions relating to the sustainable management of natural resources, is to use these resources in a way that safeguards biodiversity. This approach effectively aims to synchronise the management principles of the Convention on Biological Diversity.

Hoffwn gefnogi gwelliannau 49 a 50 yn benodol, a gyflwynwyd yn fy enw i. Rwy'n siŵr bod yr holl Aelodau yn y Siambr hon yn gefnogol i uchelgais cyffredinol y Bil i wella statws amgylcheddol Cymru ac i fynd ati i arwain yn ymarferol y defnydd o'i hadnoddau naturiol. Yn wir, un pwyslais sylfaenol y Bil, a adlewyrchir gan gwmpas ei ddarpariaethau presennol sy'n ymwneud â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yw defnyddio'r adnoddau hyn mewn modd sy'n diogelu bioamrywiaeth. Mae'r dull hwn mewn gwirionedd â'r nod o gysoni egwyddorion rheolaeth y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol.

Whilst I recognise the importance of this, and support it, the convention, by definition, focuses on the protection and improvement of biodiversity protection, and not the stewardship of the whole environment in which biodiversity exists. This wider and more diverse context is our landscapes. Landscapes have characteristics that are more all-encompassing than those of an ecosystem, and include the imprint of human activity over a long period of time. Places of a local historic, spiritual and cultural importance are all attributes that reflect the relationship between people and places over a period of time. Collectively, they forge the bond that people have with their surroundings and the places they value, and this relationship gives every part of Wales a different identity to another—a sense of place that I believe is not currently reflected in the Bill as it is currently drafted.

Er fy mod yn cydnabod pwysigrwydd hyn, ac yn ei gefnogi, mae'r confensiwn, o'i ddiffiniad, yn canolbwyntio ar warchod a gwella diogelu bioamrywiaeth, ac nid ar stiwardiaeth yr amgylchedd cyfan lle mae bioamrywiaeth yn bodoli. Y cyd-destun ehangach a mwy amrywiol hwn yw ein tirweddau. Mae gan dirweddau nodweddion sy'n fwy hollgynhwysfawr na rhai ecosystem, ac maent yn cynnwys ôl gweithgarwch dynol dros gyfnod hir o amser. Mae lleoedd o bwysigrwydd hanesyddol, ysbrydol a diwylliannol lleol i gyd yn briodoleddau sy'n adlewyrchu'r berthynas rhwng pobl a lleoedd dros gyfnod o amser. Gyda'i gilydd, maent yn creu'r cwlwm sydd gan bobl â'u hamgylchedd a'r mannau y maent yn eu gwerthfawrogi, ac mae'r berthynas hon yn rhoi hunaniaeth wahanol i bob rhan o Gymru o'i chymharu ag un arall—ymdeimlad o le yr wyf yn credu nad yw'n cael ei adlewyrchu ar hyn o bryd yn y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.

These traits are not ecosystem services, as is continually being suggested by the Minister in his interpretation of ecosystems, but, from Blaenavon to Blaenau Ffestiniog, we have landscapes of significant cultural importance, which reflect generations of human endeavour and skills. These are places that have unique qualities that are globally recognised as having outstanding universal value; these are not recognised, nor internationally described, as world-famous ecosystems. But, under the Bill as it stands, this is how they would be classed, rather than as world heritage cultural landscapes. Surely, that cannot be right.

Nid yw'r nodweddion hyn yn wasanaethau ecosystem, fel sy'n cael ei awgrymu yn barhaus gan y Gweinidog yn ei ddehongliad o ecosystemau, ond, o Flaenafon i Flaenau Ffestiniog, mae gennym dirweddau o bwysigrwydd diwylliannol sylweddol, sy'n adlewyrchu cenedlaethau o ymdrech a sgiliau dynol. Mae'r rhain yn lleoedd sydd â nodweddion unigryw sy'n cael eu cydnabod yn fyd-eang fel rhai â gwerth cyffredinol eithriadol; nid yw'r rhain yn cael eu cydnabod, na'u disgrifio yn rhyngwladol, fel ecosystemau byd-enwog. Ond, o dan y Bil fel ag y mae, dyma sut y byddent yn cael eu dosbarthu, yn hytrach nag fel tirweddau diwylliannol treftadaeth y byd. Ni all hynny fod yn iawn, 'does bosib.

Landscapes provide the framework for how and where change should happen, so that we retain and we value our past, our heritage. Therefore, the management of natural resources can only be achieved sustainably if both ecosystems and the added values that landscapes provide are both taken into consideration in the natural resources management process.

Mae tirweddau yn darparu'r fframwaith ar gyfer sut a lle y dylai newid ddigwydd, er mwyn i ni gadw, a gwerthfawrogi ein gorffennol, ein treftadaeth. Felly dim ond os yw ecosystemau a'r gwerthoedd ychwanegol y mae tirweddau yn eu darparu yn cael eu hystyried ill dau yn y broses o reoli adnoddau naturiol, y gellir cyflawni'r rheolaeth o adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

It has also been suggested that the inclusion of landscapes within the Bill's principles will distort the means by which natural resources management can be achieved, and have direct implications on various planning issues. This cannot be the case, as the impacts of any development on the intrinsic values of a landscape are, and always have been, a fundamental dimension of the way we evaluate the acceptability of development under our planning system, ensuring that the right developments are encouraged in the right places.

Mae hefyd wedi ei awgrymu y bydd cynnwys tirweddau o fewn egwyddorion y Bil yn ystumio'r modd y gellir cyflawni'r rheolaeth o adnoddau naturiol, a bydd yn golygu goblygiadau uniongyrchol i faterion cynllunio amrywiol. Ni all hyn fod yn wir, gan fod, ac maent bob amser wedi bod, effeithiau unrhyw ddatblygiad ar werthoedd cynhenid tirwedd yn ddimensiwn sylfaenol o'r ffordd yr ydym yn gwerthuso pa mor dderbyniol yw datblygiad dan ein system gynllunio, gan sicrhau bod y datblygiadau cywir yn cael eu hannog yn y mannau cywir.

Recognising and including landscapes as a legitimate element of section 4's natural resources management approach is therefore by no means an attempt to give them primacy over all other factors, but merely the means of ensuring that their importance and their characteristics are fairly considered and recognised as material considerations in the decision-making process.

Felly nid yw cydnabod a chynnwys tirluniau fel elfen ddilys o ddull rheoli adnoddau naturiol adran 4 yn ymgais mewn unrhyw ffordd i roi blaenoriaeth iddynt dros bob ffactor arall, ond yn ddull yn unig o sicrhau bod eu pwysigrwydd a'u nodweddion yn cael eu hystyried yn deg a'u cydnabod fel ystyriaethau hanfodol yn y broses o wneud penderfyniadau.

Finally, as mentioned in the recent joint letter to you, Minister, from me and other opposition spokespeople, we have highlighted to you that your recently published national marine plan for Wales—and I quote—promotes the 'stewardship and enjoyment' of marine 'heritage assets' and 'nationally protected landscapes'.

Yn olaf, fel y crybwyllwyd yn y llythyr ar y cyd diweddar i chi, Weinidog, gennyf i a llefarwyr y gwrthbleidiau eraill, rydym wedi tynnu eich sylw at sut y mae eich cynllun morol cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Cymru—a dyfynnaf—yn hyrwyddo 'stiwardiaeth a mwynhad' ar 'asedau treftadaeth' morol a 'thirweddau a warchodir yn genedlaethol'.

I can but conclude from this statement that the dimensions of heritage, landscapes and seascapes are all fully recognised and regarded as material considerations in the sustainable management of Wales's marine resources. If that is the case, and for consistency, surely the same should apply to the relationship between landscapes and the terrestrial areas of Wales.

Ni allaf ond casglu o'r datganiad hwn fod dimensiynau treftadaeth, tirweddau a morweddau i gyd yn cael eu cydnabod a'u hystyried yn llawn fel ystyriaethau perthnasol yn y rheolaeth gynaliadwy o adnoddau morol Cymru. Os yw hynny'n wir, ac er mwyn cysondeb, siawns y dylai'r un peth fod yn berthnasol i'r berthynas rhwng tirweddau ac ardaloedd daearol Cymru.

I hope you will accept that my reasons for proposing the addition of landscapes is to add value to the approach, which will ensure that these resources are used in a responsible manner. My amendments therefore seek to ensure that the natural resources management approach is complete and avoids the potential for misunderstanding as to the relationship between the two concepts of ecosystems and landscapes. I trust Members will appreciate this logic and support these two simple but I think very important amendments.

Gobeithiaf y byddwch yn derbyn mai fy rhesymau dros gynnig ychwanegu tirweddau yw er mwyn ychwanegu gwerth at yr ymagwedd, a fydd yn sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio mewn modd cyfrifol. Mae fy ngwelliannau, felly, yn ceisio sicrhau bod y dull o reoli adnoddau naturiol yn gyflawn ac yn osgoi'r posibilrwydd o gamddealltwriaeth ynghylch y berthynas rhwng y ddau gysyniad o ecosystemau a thirweddau. Hyderaf y bydd yr Aelodau'n gwerthfawrogi'r rhesymeg hon ac yn cefnogi'r ddau welliant syml ond pwysig iawn hyn yn fy marn i.

16:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call the Minister.

Galwaf ar y Gweinidog.

16:22

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Deputy Presiding Officer. This is my first contribution today, so, if I may open with a few general remarks in regard to this, I am grateful for the support and interest of stakeholders in the development of this Bill and, indeed, the committee and Assembly Members who have also helped with tabling the amendments to this Bill and at other stages. I think we now have a much more rounded Bill in terms of the environment, and I welcome and thank them for their comments as we move forward.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Dyma fy nghyfraniad cyntaf heddiw, felly, os caf ddechrau gydag ychydig o sylwadau cyffredinol ynglŷn â hyn, rwy’n ddiolchgar am gefnogaeth a diddordeb rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Bil hwn ac, yn wir, y pwyllgor a'r Aelodau Cynulliad sydd hefyd wedi helpu gyda chyflwyno'r gwelliannau i'r Bil hwn ac mewn cyfnodau eraill. Rwy'n credu erbyn hyn bod gennym Fil llawer mwy cyflawn o ran yr amgylchedd, ac rwy’n croesawu ac yn diolch iddynt am eu sylwadau wrth i ni symud ymlaen.

Can I address the amendments as tabled in this group today? Amendment 68 tabled by Llyr Gruffydd replaces the existing objective. This is a well-rehearsed argument between myself and the Member in regard to his position on the well-being goals. His amendment comes up with the wording taken from goal 2 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, and I’ve always said that the principle of this Bill should be embedded around all of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, and therefore we will not be able to support the amendment. The Member will not be surprised by that principle today.

A gaf i roi sylw i’r newidiadau a gyflwynwyd yn y grŵp hwn heddiw? Mae gwelliant 68 a gyflwynwyd gan Llyr Gruffydd yn disodli'r amcan presennol. Mae hon yn ddadl sydd wedi’i hymarfer yn dda rhyngof i a'r Aelod ynglŷn â'i safbwynt ar y nodau lles. Mae ei welliant yn cyflwyno'r geiriad a gymerwyd o nod 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac rwyf wedi dweud erioed y dylai egwyddor y Bil hwn gael ei hymgorffori o amgylch holl Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, ac felly ni fyddwn yn gallu cefnogi'r gwelliant. Ni fydd yr Aelod yn cael ei synnu gan yr egwyddor honno heddiw.

Can I move on to the amendments related to section 4? I start by asking for support for amendment 5, and I’m grateful to the Members who have indicated that that will take place. This amendment has been tabled in response to feedback from stakeholders relating to the principles of sustainable management and natural resources. One of the principles under section 4(h) as drafted is to

A gaf i symud ymlaen at y gwelliannau sy'n gysylltiedig ag adran 4? Dechreuaf drwy ofyn am gefnogaeth ar gyfer gwelliant 5, ac rwy'n ddiolchgar i'r Aelodau sydd wedi nodi y bydd hynny’n digwydd. Mae’r gwelliant hwn wedi ei gyflwyno mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid yn ymwneud ag egwyddorion rheolaeth gynaliadwy ac adnoddau naturiol. Un o'r egwyddorion o dan adran 4(h) fel y'i drafftiwyd yw

‘take action to prevent serious or irreversible damage to ecosystems’.

cymryd camau i atal difrod difrifol neu anwrthdroadwy i ecosystemau.

I listened to the concerns of stakeholders, and I have amended it to ‘take action to prevent significant damage to ecosystems’, and I’m grateful for that support.

Gwrandewais ar bryderon y rhanddeiliaid, ac rwyf wedi ei ddiwygio i 'gymryd camau i atal difrod sylweddol i ecosystemau', ac rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth honno.

Amendment 36, proposed by William Powell, seeks to include the precautionary principle into the principles of sustainable management and natural resources in section 4. Again, we've had this discussion. I can't support it as drafted. As I've stated previously, the principles in section 4 of the Bill enable a precautionary approach to be adopted and reflect how this approach could be applied in practice. The principles reflect, amongst other things, key elements identified in the EU's guidance on the application of the precautionary principle. These items include: collecting the fullest possible scientific evaluation, including as far as possible the degree of scientific uncertainty; an evaluation of the possible consequences of action, or inaction; and participation of all interested parties. All of these aspects are reflected in the principles in section 4, and therefore we will not be able to support William's amendment today.

Mae gwelliant 36, a gynigiwyd gan William Powell, yn ceisio cynnwys yr egwyddor ragofalus i egwyddorion rheolaeth gynaliadwy ac adnoddau naturiol yn adran 4. Unwaith eto, rydym wedi cael y drafodaeth hon. Ni allaf ei gefnogi fel y'i drafftiwyd. Fel yr wyf wedi datgan o'r blaen, mae'r egwyddorion yn adran 4 y Bil yn galluogi dull rhagofalus i gael ei fabwysiadu ac mae'n adlewyrchu sut y gallai'r dull hwn gael ei ddefnyddio yn ymarferol. Mae'r egwyddorion yn adlewyrchu, ymhlith pethau eraill, elfennau allweddol a nodwyd yng nghanllaw'r UE ar gymhwyso'r egwyddor ragofalus. Mae'r eitemau hyn yn cynnwys: casglu'r gwerthusiad gwyddonol llawnaf posibl, gan gynnwys cyn belled ag y bo modd y radd o ansicrwydd gwyddonol; gwerthusiad o ganlyniadau posibl gweithredu, neu ddiffyg gweithredu; a chyfranogiad yr holl bartïon sydd â diddordeb. Mae pob un o'r agweddau hyn wedi eu hadlewyrchu yn yr egwyddorion yn adran 4, ac felly ni fyddwn yn gallu cefnogi gwelliant William heddiw.

In relation to amendment 39, also tabled by William Powell, the drafting of this amendment unfortunately doesn't work for several reasons and therefore I don't support it. For example, the Bill does not need to confer a power on Welsh Ministers to issue guidance as they can already do this.

O ran gwelliant 39, a gyflwynwyd hefyd gan William Powell, yn anffodus nid yw drafftio'r gwelliant hwn yn gweithio am nifer o resymau, ac felly nid wyf yn ei gefnogi. Er enghraifft, nid oes angen i'r Bil roi pŵer i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau gan y gallant wneud hyn eisoes.

As I've mentioned in relation to amendment 36, the principles in section 4 enable the precautionary approach to be adopted. I intend to issue guidance, as the Member alluded to, in relation to the principles and therefore will consider if clarity is needed at this point.

Fel yr wyf wedi crybwyll o ran gwelliant 36, mae'r egwyddorion yn adran 4 yn galluogi mabwysiadu'r ymagwedd ragofalus. Rwy'n bwriadu cyhoeddi canllawiau, fel y cyfeiriodd yr Aelod ato, o ran yr egwyddorion, ac felly byddaf yn ystyried a oes angen eglurder yn y fan yma.

I've tabled amendment 6 in response to stakeholders who call for a stronger link to the ecosystem approach as adopted by the convention on biological diversity. Amendment 6 modifies section 4 in these principles. Amendment 7 is a consequence to amendment 6.

Rwyf wedi cyflwyno gwelliant 6 mewn ymateb i randdeiliaid sy'n galw am gyswllt cryfach i'r dull ecosystem fel y'i mabwysiadwyd gan y confensiwn ar amrywiaeth biolegol. Mae gwelliant 6 yn addasu adran 4 yn yr egwyddorion hyn. Mae gwelliant 7 yn ganlyniad i welliant 6.

I turn now to amendment 49, tabled by Russell George, in relation to landscapes. I was interested in the comments made by Llyr Gruffydd in that he now perceives that this is supported. Unfortunately, I saw the letter that was drafted to the three Members and inadvertently sent to us by the lobby organisation—it was rather unfortunate, because we now we understand exactly what the concerns are. We still stand by the principle that there is no need to include the issue of landscapes in the principle under section 4 as this is already referenced in regard to—there is nothing in the Bill that is prohibitive to the natural landscape. Again, Russell George pursued this argument during committee stages. I have the greatest respect for the Member, but I would be more keen to understand that the real reason he pursues this, I do believe, is as an alternative way of stopping planning permission for renewable energy in rural communities, on the basis that this covers man-made objects in terms of landscapes, and that's why we will not be seeking to support the Member in that principle.

Trof yn awr at welliant 49, a gyflwynwyd gan Russell George, ynglŷn â thirweddau. Yr oedd gennyf ddiddordeb yn y sylwadau a wnaed gan Llyr Gruffydd ei fod erbyn hyn yn ystyried bod hyn yn cael ei gefnogi. Yn anffodus, gwelais y llythyr a ddrafftiwyd i'r tri Aelod ac a anfonwyd yn anfwriadol atom gan y sefydliad lobi—roedd hynny braidd yn anffodus, oherwydd rydym yn deall yn union beth yw'r pryderon erbyn hyn. Rydym yn dal i lynu at yr egwyddor nad oes angen cynnwys y mater o dirweddau yn yr egwyddor dan adran 4 gan y cyfeirir at hyn eisoes o ran—nid oes unrhyw beth yn y Bil sy'n waharddol i'r dirwedd naturiol. Unwaith eto, aeth Russell George ar ôl y ddadl hon yn ystod cyfnodau pwyllgor. Mae gen i'r parch mwyaf at yr Aelod, ond byddwn yn fwy awyddus i ddeall mai'r rheswm gwirioneddol ei fod yn mynd ar ôl hyn, rwy'n credu, yw fel ffordd arall o atal caniatâd cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy mewn cymunedau gwledig, ar y sail bod hyn yn cwmpasu gwrthrychau a wnaed gan ddyn o ran tirweddau, a dyna pam na fyddwn yn ceisio cefnogi'r Aelod yn yr egwyddor honno.

I would ask Members to support the Government amendments as tabled. I'm very grateful, again, for the work by stakeholders and yourselves in terms of shaping those amendments, and I move formally the Government amendments.

Byddwn yn gofyn i Aelodau gefnogi gwelliannau'r Llywodraeth fel y'u cyflwynwyd. Rwy'n ddiolchgar iawn, unwaith eto, am y gwaith gan randdeiliaid a chi eich hunain o ran siapio'r gwelliannau hynny, ac rwy'n cynnig gwelliannau'r Llywodraeth yn ffurfiol.

16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Llyr Gruffydd to reply.

Llyr Gruffydd i ymateb.

16:27 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. You're right, Minister, I'm not surprised that you won't be supporting my amendment in this group, although I still am disappointed. I would reiterate my view—and indeed it was the view of the environment committee at Stage 1—that NRW's focus must primarily be on the environment, but there we are. That is disappointing, because my fear now is that we do not have an environmental champion here in Wales putting the environment first whilst contributing, of course, to the other wellbeing goals. I thought maybe that you would have reassured us that you were still of the view that NRW would be an environmental champion for Wales. You may wish to intervene to clarify that for the Record—I don't know whether that's in order.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rydych chi'n iawn, Weinidog, nid wyf yn synnu na fyddwch yn cefnogi fy ngwelliant yn y grŵp hwn, er fy mod yn dal i fod wedi fy siomi. Rwyf am ailadrodd fy marn—ac yn wir dyna oedd barn y pwyllgor amgylchedd yng Nghyfnod 1—fod yn rhaid i bwyslais Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn bennaf ar yr amgylchedd, ond dyna ni. Mae hynny'n siomedig, oherwydd fy ofn erbyn hyn yw nad oes gennym hyrwyddwr amgylcheddol yma yng Nghymru yn rhoi'r amgylchedd yn gyntaf gan gyfrannu ar yr un pryd, wrth gwrs, at y nodau lles eraill. Roeddwn i'n meddwl efallai y byddech wedi ein sicrhau eich bod yn dal i fod o'r farn y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyrwyddwr amgylcheddol i Gymru. Efallai y byddwch yn dymuno ymyrryd i egluro hynny ar gyfer y Cofnod—wn i ddim a yw hynny'n briodol.

16:28 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

If I may, Presiding Officer. The purpose of NRW is to champion the environment here in Wales, but I don't believe that we should isolate it on one part of a goal of the wellbeing of future generations Act, which was supported by the whole of the Chamber, although I think the goals are important equally to the provisions of that organisation.

Os caf i, Lywydd. Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw hyrwyddo'r amgylchedd yma yng Nghymru, ond nid wyf yn credu y dylem ei ynysu ar un rhan o nod Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol a gefnogwyd gan yr holl Siambr, er fy mod yn credu bod y nodau yr un mor bwysig i ddarpariaethau'r sefydliad hwnnw.

16:28 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, but this is where I'm struggling with this Bill, because the Bill says that NRW will champion the seven wellbeing goals, one of which is the environment, I agree. But then, of course, when there is conflict, where do we go? But, there we are. There's a difference of opinion there that we haven't been able to resolve in three stages of this Bill, which is unfortunate, I have to say.

Diolch i chi, ond dyma lle rwy'n cael trafferth gyda'r Bil hwn, oherwydd bod y Bil yn dweud y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyrwyddo'r saith nod lles, ac un ohonynt yw'r amgylchedd, rwy'n cytuno. Ond yna, wrth gwrs, pan geir gwrthdaro, i ble rydym ni'n mynd? Ond, dyna ni. Mae gwahaniaeth barn yn y fan yna nad ydym wedi gallu ei ddatrys yn nhri chyfnod y Bil hwn, sydd yn anffodus, mae'n rhaid i mi ddweud.

In terms of landscapes, we did write to you—. You know, I don't mind who drafts these letters as long as I'm happy with the content, and I think the central question in the correspondence, as far as I'm concerned, has still not been addressed, because nowhere have we had an explanation of how landscapes are captured in the scope of ecosystems. Until we have that, I feel that we're at a bit of a loose end in that respect and that's why I've grappled with this. So, I will be supporting because I think there's an important point that needs to be made and hopefully other Members will join us in making that point.

O ran tirweddau, fe wnaethom ysgrifennu atoch chi —. Wyddoch chi, nid oes gwahaniaeth gennyf pwy sy'n drafftio'r llythyrau hyn cyn belled â fy mod i'n hapus gyda'r cynnwys, ac rwy'n credu bod y cwestiwn canolog yn yr ohebiaeth, cyn belled ag yr wyf i yn y cwestiwn, yn dal heb gael sylw, gan nad ydym yn unman wedi cael esboniad o sut y mae tirweddau yn cael eu cynnwys yng nghwmpas ecosystemau. Hyd y byddwn wedi cael hynny, rwy'n teimlo nad oes llawer y gallwn ei wneud yn hynny o beth a dyna pam yr wyf wedi ymgodymu â hyn. Felly, byddaf yn cefnogi gan fy mod yn meddwl bod pwynt pwysig y mae angen ei wneud a gobeithio y bydd Aelodau eraill yn ymuno â ni i wneud y pwynt hwnnw.

16:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 68 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. In accordance with the relevant Standing Order, I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 68 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Yn unol â'r Rheol Sefydlog berthnasol, rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 68: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 68 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 68.

Result of the vote on amendment 68.

16:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

William Powell, amendment 36.

William Powell, gwelliant 36.

*Cynigiwyd gwelliant 36 (William Powell).*

*Amendment 36 (William Powell) moved.*

16:30

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 36 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. Once again, I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 36 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Unwaith eto, rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 36: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 36 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 36.

Result of the vote on amendment 36.

16:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Haworth, amendment 51.

Janet Haworth, gwelliant 51.

*Cynigiwyd gwelliant 51 (Janet Haworth).*

*Amendment 51 (Janet Haworth) moved.*

16:30

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 51 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13, there voted against 30, there were 9 abstentions. Therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 51 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid, pleidleisiodd 30 yn erbyn, fe wnaeth 9 ymatal. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 51: O blaid 13, Yn erbyn 30, Ymatal 9.*

*Amendment 51 not agreed: For 13, Against 30, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 51.

Result of the vote on amendment 51.

16:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Janet Haworth, amendment 52.

Janet Haworth, gwelliant 52.

*Cynigiwyd gwelliant 52 (Janet Haworth).*

*Amendment 52 (Janet Haworth) moved.*

16:31 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy’n cynnig.

16:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 52 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We’ll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13, there voted against 30, there were 9 abstentions. Therefore, amendment 52 falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 52 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid, pleidleisiodd 30 yn erbyn, fe wnaeth 9 ymatal. Felly, mae gwelliant 52 yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 52: O blaid 13, Yn erbyn 30, Ymatal 9.*

*Amendment 52 not agreed: For 13, Against 30, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 52.

Result of the vote on amendment 52.

16:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Russell George, amendment 49.

Russell George, gwelliant 49.

*Cynigiwyd gwelliant 49 (Russell George).*

*Amendment 49 (Russell George) moved.*

16:31 **Russell George** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 49 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We’ll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 49 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy’n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 49: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 49 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 49.

Result of the vote on amendment 49.

16:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Russell George, amendment 50.

Russell George, gwelliant 50.

*Cynigiwyd gwelliant 50 (Russell George).*

*Amendment 50 (Russell George) moved.*

16:32 **Russell George** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 50 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 17, there voted against 35. Therefore, amendment 50 falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 50 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 17 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 50 yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 50: O blaid 17, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment 50 not agreed: For 17, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 50.

Result of the vote on amendment 50.

16:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 5.

Weinidog, gwelliant 5.

*Cynigiwyd gwelliant 5 (Carl Sargeant).*

*Amendment 5 (Carl Sargeant) moved.*

16:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

16:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 5 be agreed. Does any Member object? Then amendment 5 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 5 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 5 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 5 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 6.

Weinidog, gwelliant 6.

*Cynigiwyd gwelliant 6 (Carl Sargeant).*

*Amendment 6 (Carl Sargeant) moved.*

16:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

16:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 6 be agreed. Does any Member object? Then amendment 6 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 6 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 6 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 6 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Haworth, amendment 53.

Janet Haworth, gwelliant 53.

16:33 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer—

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd—

16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. You just need to move formally.

Trefn. Mae angen i chi gynnig yn ffurfiol.

16:33 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I just say 'move'? Okay.

Rwyf ond yn dweud 'cynnig'? Iawn.

*Cynigiwyd gwelliant 53 (Janet Haworth).*

*Amendment 53 (Janet Haworth) moved.*

16:33 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 53 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 53 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 53: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 53 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 53.

Result of the vote on amendment 53.

16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Haworth, amendment 54.

Janet Haworth, gwelliant 54.

*Cynigiwyd gwelliant 54 (Janet Haworth).*

*Amendment 54 (Janet Haworth) moved.*

16:33 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 54 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 54 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 54: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 54 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 54.

Result of the vote on amendment 54.

16:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Haworth, amendment 55.

Janet Haworth, gwelliant 55.

*Cynigiwyd gwelliant 55 (Janet Haworth).*

*Amendment 55 (Janet Haworth) moved.*

16:34 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 55 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 55 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 55: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 55 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 55.

Result of the vote on amendment 55.

16:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Haworth, amendment 56.

Janet Haworth, gwelliant 56.

*Cynigiwyd gwelliant 56 (Janet Haworth).*

*Amendment 56 (Janet Haworth) moved.*

16:34 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 56 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 56 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 56: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 56 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 56.

Result of the vote on amendment 56.

16:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 7.

Weinidog, gwelliant 7.

*Cynigiwyd gwelliant 7 (Carl Sargeant).*

*Amendment 7 (Carl Sargeant) moved.*

16:35 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

16:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 7 be agreed. Does any Member object? Then, amendment 7 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 7 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 7 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 7 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 2: Dyletswydd Bioamrywiaeth (Gwelliannau 8, 37, 2, 1, 33)

### Group 2: Biodiversity Duty (Amendments 8, 37, 2, 1, 33)

16:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The second group of amendments relates to the biodiversity duty. The lead amendment in this group is amendment 8. I call on the Minister to move and to speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r ail grŵp o welliannau yn ymwneud â'r ddyletswydd bioamrywiaeth. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 8. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 8 (Carl Sargeant).*

*Amendment 8 (Carl Sargeant) moved.*

16:35 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. The two Government amendments in this group are technical amendments that are necessary to ensure the Bill is within legislative competence. I ask Members to support amendments 8 and 33.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae dau welliant y Llywodraeth yn y grŵp hwn yn welliannau technegol sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi gwelliannau 8 a 33.

The other three amendments in the name of William Powell seek to enhance the biodiversity duty in section 6 of this Bill and I am happy to support amendments 2, 1 and 37. I formally move.

Mae'r tri gwelliant arall yn enw William Powell yn ceisio gwella’r ddyletswydd bioamrywiaeth yn adran 6 y Bil hwn ac rwy’n hapus i gefnogi gwelliannau 2, 1 a 37. Cynigiaf yn ffurfiol.

16:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd.

Llyr Gruffydd.

16:35 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf i hefyd yn cefnogi’r holl welliannau. Rwy’n credu y dylai pob awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac, yn wir, pob man arall. Ond, heb fod Llywodraeth San Steffan, wrth gwrs, yn datganoli’r cyfrifoldeb, neu yn caniatáu inni osod y dyletswyddau hyn ar y cyrff hynny, yna mae rhywun yn gorfod derbyn, wrth gwrs, fod yn rhaid eithrio’r cyrff, yn anffodus.

Thank you, Presiding Officer. I also support all of the amendments. I think each public authority should try to maintain and improve biodiversity in carrying out their functions in relation to Wales and, indeed, everywhere else. But unless the Westminster Government devolves that responsibility, or allows us to place those duties on those organisations, then one has to accept that those organisations must be exempted, unfortunately.

Mae gwelliannau 1 a 2 yn cryfhau’r fframwaith cynllunio ac adrodd, gan obeithio y bydd yn sicrhau bod y ddyletswydd yn cael ei weithredu’n fwy effeithiol o ganlyniad. Felly, mi fyddwn ni’n cefnogi’r gwelliannau.

Amendments 1 and 2 strengthen the planning and reporting framework, in the hope that that will ensure that the duty is implemented more effectively as a result. So, we will be supporting the amendments.

16:36 **William Powell** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I rise to speak to amendments 37, 2 and 1 in this group.

Rwy’n codi i siarad o blaid gwelliannau 37, 2 ac 1 yn y grŵp hwn.

Strengthening the biodiversity duty and the role of the section 7 list of priority species has been of central importance to us from the outset, and we discussed at length in Stage 2 the need to link the list in section 7 with the delivery mechanisms being established by the Bill. Without these links, I would argue that section 7 seems to stand on its own, and the connection between the section 6 biodiversity duty and the rest of Part 1 is therefore unclear.

Mae cryfhau'r ddyletswydd bioamrywiaeth a swyddogaeth y rhestr adran 7 o rywogaethau blaenoriaeth wedi bod o bwysigrwydd canolog i ni o'r cychwyn cyntaf, ac fe drafodwyd yn helaeth yng Nghyfnod 2 yr angen i gysylltu'r rhestr yn adran 7 â'r mecanweithiau cyflwyno sy'n cael eu sefydlu gan y Bil. Heb y cysylltiadau hyn, byddwn yn dadlau bod adran 7 yn ymddangos i sefyll ar ei phen ei hun, a bod y cysylltiad rhwng dyletswydd bioamrywiaeth adran 6 a gweddill Rhan 1 yn aneglur o'r herwydd.

It was disappointing, therefore, that, during Stage 2 proceedings, every attempt to make these improvements was rejected. There was a glimmer of hope, however, as the Minister did indicate that he was willing to consider some of the amendments at Stage 3 'in the spirit that Members had tabled them' and I am therefore very grateful indeed to the Minister for being true to his word on this matter and working with us to develop some wording on which we can both agree, leading to today's outcome.

Roedd yn siomedig, felly, yn ystod trafodion Cyfnod 2, bod, pob ymdrech i wneud y gwelliannau hyn wedi'i gwrthod. Roedd llygedyn o obaith, fodd bynnag, gan fod y Gweinidog wedi nodi ei fod yn fodlon ystyried rhai o'r gwelliannau yng Nghyfnod 3 'yn yr ysbryd yr oedd Aelodau wedi'u cyflwyno nhw' ac felly rwy'n ddiolchgar iawn yn wir i'r Gweinidog am gadw ei air ar y mater hwn a gweithio gyda ni i ddatblygu geiriad y gall y ddau ohonom gytuno arno, gan arwain at ganlyniad heddiw.

The combination of amendments 1 and 2 in this group, together with amendment 3 in the next group, ultimately do serve to strengthen the Bill in a way that will deliver positive outcomes for biodiversity here in Wales. Halting the degradation of species and habitats in Wales must be a high priority for this and, I would hope, also, future Welsh Governments.

Mae'r cyfuniad o welliannau 1 a 2 yn y grŵp hwn, ynghyd â gwelliant 3 yn y grŵp nesaf, yn y pen draw yn fodd i gryfhau'r Bil mewn ffordd a fydd yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i fioamrywiaeth yma yng Nghymru. Mae'n rhaid i atal y dirywiad o rywogaethau a chynefinoedd yng Nghymru fod yn flaenoriaeth uchel ar gyfer y Llywodraeth hon a, byddwn yn gobeithio, hefyd, Llywodraethau Cymru yn y dyfodol.

Amendment 37 is a more technical amendment that, in a similar way to amendment 39 from the previous group, provides that, when complying with the biodiversity duty, public authorities other than Ministers of the Crown or Government departments must have regard to any guidance given to them by Welsh Ministers. I very much hope that these amendments will enjoy cross-party support in the Chamber this afternoon.

Mae gwelliant 37 yn welliant mwy technegol sydd, mewn ffordd debyg i welliant 39 o'r grŵp blaenorol, yn darparu, wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd bioamrywiaeth, bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus ar wahân i Weinidogion y Goron neu adrannau'r Llywodraeth roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir iddynt gan Weinidogion Cymru. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y gwelliannau hyn yn mwynhau cefnogaeth drawsbleidiol yn y Siambr y prynhawn yma.

16:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

16:38

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Members for their comments, in particular on amendment 37 by William Powell. This seeks to include a requirement on certain public bodies to have regard to guidance. Guidance is already provided on the current biodiversity duty, as provided by the natural environment and rural communities Act, and the intention would be to continue to provide guidance in relation to the section 6 duty. I'm therefore happy to support the amendments, as indicated earlier. I formally move.

Diolch i'r Aelodau am eu sylwadau, yn enwedig ar welliant 37 gan William Powell. Mae hyn yn ceisio cynnwys gofyniad ar rai cyrff cyhoeddus i roi sylw i ganllawiau. Mae canllawiau eisoes wedi'u darparu ar y ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol, fel y'u darperir gan y Ddeddf amgylchedd naturiol a chymunedau gwledig, a'r bwriad fyddai parhau i ddarparu canllawiau ynglŷn â dyletswydd adran 6. Felly, rwy'n hapus i gefnogi'r gwelliannau, fel y nodwyd yn gynharach. Cynigiaf yn ffurfiol.

16:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 8 be agreed. Does any Member object? Then, amendment 8 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 8 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 8 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 8 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 8 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

William Powell, amendment 37.

William Powell, gwelliant 37.

*Cynigiwyd gwelliant 37 (William Powell).*

*Amendment 37 (William Powell) moved.*

16:39 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 37 be agreed. Does any Member object? Then, amendment 37 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 37 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 37 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 37 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 37 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

William Powell, amendment 2.

William Powell, gwelliant 2.

*Cynigiwyd gwelliant 2 (William Powell).*

*Amendment 2 (William Powell) moved.*

16:39 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 2 be agreed. Does any Member object? Then, amendment 2 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 2 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu?  Felly, caiff gwelliant 2 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And, William Powell, amendment 1.

A, William Powell, gwelliant 1.

*Cynigiwyd gwelliant 1 (William Powell).*

*Amendment 1 (William Powell) moved.*

16:39 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 1 be agreed. Does any Member object? Then, amendment 1 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 3: Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (Gwelliannau 57, 3, 9, 61, 13)

## Group 3: State of Natural Resources Report (Amendments 57, 3, 9, 61, 13)

16:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The third group of amendments relates to the state of natural resources report, and the lead amendment in this group is amendment 57. I call on Janet Haworth to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r trydydd grŵp o welliannau yn ymwneud â'r adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol, a’r prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 57. Galwaf ar Janet Haworth i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 57 (Janet Haworth).*

*Amendment 57 (Janet Haworth) moved.*

16:39 **Janet Haworth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendments 57 and 61 within this group. I’ve tabled amendment 57 with the purpose of providing further strength for the role of Natural Resources Wales. NRW has a multitude of roles to undertake, and to do this effectively it must have the powers and teeth to do so. Adding the additional words

‘Subject to its capacity to do so’

should help to ensure that if NRW are not adequately resourced, with the consequence of putting their capacity to fulfil their role at risk, then they cannot be held responsible for failing to achieve.

Amendment 61 is designed to remove the powers that Welsh Ministers are granted to change the publication schedules for the state of natural resources report and the national natural resources policy. This adds robustness to the legislation by defining reporting timelines for the Welsh Government, and ensures that regular reporting is maintained and that negative reports do not get delayed due to political reasons. Further to the amendment tabled in my name, I support the other amendments tabled within this group.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliannau 57 a 61 yn y grŵp hwn. Rwyf wedi cyflwyno gwelliant 57 gyda'r bwriad o ddarparu cryfder pellach i swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru lu o swyddogaethau i ymgymryd â nhw, ac er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae'n rhaid iddo gael y pwerau a’r grym i wneud hynny. Dylai ychwanegu'r geiriau ychwanegol

Yn amodol ar ei allu i wneud hynny

helpu i sicrhau, os nad oes gan Gyfoeth Naturiol Cymru adnoddau digonol, gyda’r canlyniad o roi ei allu i gyflawni ei swyddogaeth mewn perygl, yna ni ellir ei ddal yn gyfrifol am fethu â chyflawni.

Mae gwelliant 61 wedi ei gynllunio i gael gwared ar y pwerau a ganiateir i Weinidogion Cymru i newid amserlenni cyhoeddi ar gyfer yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol. Mae hyn yn ychwanegu cadernid i'r ddeddfwriaeth drwy ddiffinio amserlenni adrodd ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac yn sicrhau bod adrodd yn rheolaidd yn cael ei gynnal ac nad yw adroddiadau negyddol yn cael eu gohirio oherwydd rhesymau gwleidyddol. Yn dilyn y gwelliant a gyflwynwyd yn fy enw i, rwy’n cefnogi'r gwelliannau eraill a gyflwynwyd o fewn y grŵp hwn.

16:41 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I fully concur with any concerns regarding Natural Resources Wales’s capacity, which is clearly obviously referred to in the lead amendment from Janet Haworth, but I think it would be wholly inappropriate, actually, to have it on the face of the Bill. We should only be legislating in this Assembly if it’s absolutely necessary to do so. If we legislate, then it needs to be for a specific purpose. We can’t leave the preparation and publication of a state of natural resources report to NRW’s organisational capacity. A state of natural resources report is important to the effective functioning of the Bill. It will provide evidence and assessment of progress on the sustainable management of natural resources for Welsh Government, for the future generations commissioner, for public bodies and Assembly Members such as ourselves, so I won’t be supporting amendment 57, because I don’t think it’s appropriate to have it on the face of the Bill. But I understand the sentiment behind it and I share some of the concerns that have been articulated.

Rwy’n cytuno'n llwyr ag unrhyw bryderon ynghylch gallu Cyfoeth Naturiol Cymru, y cyfeirir yn amlwg ato yn y prif welliant gan Janet Haworth, ond rwy’n credu y byddai'n gwbl amhriodol, mewn gwirionedd, iddo fod ar wyneb y Bil. Dylem fod yn deddfu yn y Cynulliad hwn dim ond os yw'n gwbl angenrheidiol i wneud hynny. Os byddwn yn deddfu, yna mae angen i hynny fod at ddiben penodol. Ni allwn adael paratoi a chyhoeddi adroddiad o gyflwr adnoddau naturiol i allu sefydliadol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol yn bwysig i weithrediad effeithiol y Bil. Bydd yn darparu tystiolaeth ac asesiad o gynnydd ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer Llywodraeth Cymru, ar gyfer comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol, ar gyfer cyrff cyhoeddus ac Aelodau'r Cynulliad, megis ni ein hunain, felly ni fyddaf yn cefnogi gwelliant 57, gan nad wyf yn credu ei bod yn briodol iddo fod ar wyneb y Bil. Ond rwy’n deall y teimlad y tu ôl i hyn ac rwy’n rhannu rhai o'r pryderon sydd wedi eu mynegi.

As for amendment 9, I'm pleased the Minister has responded to concerns by making it a requirement to publish the draft SoNaRR, rather than just send a draft to the Welsh Ministers. Whilst it doesn't address the need for early active involvement of the public and other stakeholders, which is something I hope to address in a later group of amendments, I think it is a step in the right direction.

O ran gwelliant 9, rwy'n falch fod y Gweinidog wedi ymateb i bryderon drwy ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi'r adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol drafft, yn hytrach na dim ond anfon drafft at Weinidogion Cymru. Er nad yw'n mynd i'r afael â'r angen am ymglymiad gweithredol cynnar y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn gobeithio mynd i'r afael ag ef mewn grŵp diweddarach o welliannau, rwy'n credu ei fod yn gam i'r cyfeiriad cywir.

16:42

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I speak to amendment 3 in this group. As I mentioned in my earlier contribution, this amendment is designed to work together with amendments 1 and 2 to strengthen the overall biodiversity duty within the Bill, reinforcing the need to consider priority species and habitats, thereby giving a much greater hope of ambitious practical delivery in the cause of biodiversity in the years to come. Specifically, this amendment will require NRW when producing its state of natural resources report to include an assessment of biodiversity, including the living organisms and types of habitat included in the section 7 list. This is really important; although it might appear to be a detail, it is really significant. Once again, I would like to thank the Minister for his co-operation on this point, and I'm hoping for his support for this amendment today.

Siaradaf am welliant 3 yn y grŵp hwn. Fel y soniais yn fy nghyfraniad cynharach, mae'r gwelliant hwn wedi ei gynllunio i weithio ynghyd â gwelliannau 1 a 2 i gryfhau'r ddyletswydd bioamrywiaeth gyffredinol o fewn y Bil, gan atgyfnerthu'r angen i ystyried rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth, gan roi llawer mwy o obaith felly o gyflawni ymarferol uchelgeisiol yn achos bioamrywiaeth yn y blynyddoedd i ddod. Yn benodol, bydd y gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru wrth gynhyrchu ei adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol i gynnwys asesiad o fioamrywiaeth, gan gynnwys yr organebau byw a'r mathau o gynefinoedd a gynhwysir yn y rhestr adran 7. Mae hyn yn bwysig iawn; er y gallai fod yn ymddangos i fod yn fanylyn, mae'n wirioneddol bwysig. Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei gydweithrediad ar y pwynt hwn, ac rwy'n gobeithio cael ei gefnogaeth i'r gwelliant hwn heddiw.

16:43

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Very helpfully, Llyr Gruffydd helped with amendment 57, with regard to Janet and her contribution on this amendment. We will not be seeking to support this for the very reasons we explored in committee. I don't support it. If SoNaRR was not produced, we wouldn't have the evidence base on the state of Wales's natural resources, and that is essential in delivering that component of the Bill, including the NNRP and area statements. While I'm sympathetic to the Member's approach, to the reasoning behind this, and to her probing of this Bill in the amendment, you have to take this holistically in terms of where this features in the WFG Act and in other pieces of legislation where they interlink. We've been very careful in the drafting of this so that we can ensure that there are synergies.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yn ddefnyddiol iawn, helpodd Llyr Gruffydd â gwelliant 57, mewn cysylltiad â Janet a'i chyfraniad ar y gwelliant hwn. Nid ydym yn bwriadu cefnogi hyn am yr union resymau y gwnaethom eu harchwilio yn y pwyllgor. Nid wyf yn ei gefnogi. Pe na byddai adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol yn cael ei lunio, ni fyddai gennym y sylfaen dystiolaeth ar gyflwr adnoddau naturiol Cymru, ac mae hynny'n hanfodol o ran darparu'r elfen honno ar y Bil, gan gynnwys y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a'r datganiadau ardal. Er fy mod i'n cydymdeimlo ag agwedd yr Aelod, ac â'r rhesymeg y tu ôl i hyn, ac â'r ffordd y mae hi wedi ymchwilio i'r Bil hwn yn y gwelliant, mae'n rhaid i chi gymryd hyn mewn ffordd gyfannol o ran ble mae hyn yn ymddangos yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth lle maent yn cydgysylltu. Rydym ni wedi bod yn ofalus iawn wrth ddrafftio hyn fel y gallwn sicrhau y ceir synergedd.

With regard to amendment 3, tabled by William Powell, we will be seeking to support this in regard to the minimum content that must be included in the content of SoNaRR.

O ran gwelliant 3, a gyflwynwyd gan William Powell, byddwn yn ceisio cefnogi hyn o ran y cynnwys gofynnol y mae'n rhaid ei gynnwys yn yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol.

Amendment 9 will require NRW to publish the draft SoNaRR 12 months in advance of the final report rather than submit a draft to the Welsh Ministers, and, again, that is supported by the evidence through committee, and we've made those amendments, as appropriate.

Bydd gwelliant 9 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi'r adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol drafft 12 mis cyn yr adroddiad terfynol yn hytrach na chyflwyno drafft i Weinidogion Cymru, ac, unwaith eto, mae hynny'n cael ei gefnogi gan y dystiolaeth drwy'r pwyllgor, ac rydym ni wedi gwneud y gwelliannau hynny, fel y bo'n briodol.

Amendment 13, in my name, is a consequential amendment to amendment 9, which would require NRWto publish a draft SoNaRR in that space. Therefore, we will be seeking your support in the Chamber today.

Mae gwelliant 13, yn fy enw i, yn welliant canlyniadol i welliant 9, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol drafft yn y gofod hwnnw. Felly, rydym yn gofyn am eich cefnogaeth yn y Siambr heddiw.

I formally move the Government amendment, and we will be supporting amendment 3.

Cynigiaf welliant y Llywodraeth yn ffurfiol, a byddwn yn cefnogi gwelliant 3.

16:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Janet Haworth to reply to the debate.

Janet Haworth i ymateb i'r ddadl.

16:45

## Janet Haworth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. These two amendments, tabled in my name, sought to ensure the robustness and independence of NRW, and align them with the robustness and independence enjoyed by their sister organisations in Scotland and England. It is important that timetables for the publication of reports are kept and that those reports are made public.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r ddau welliant, a gyflwynwyd yn fy enw i, yn ceisio sicrhau cadernid ac annibyniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn ei wneud yn gydnaws â'r cadernid a'r annibyniaeth sydd gan ei chwaer sefydliadau yn yr Alban a Lloegr. Mae'n bwysig cadw at amserlenni ar gyfer cyhoeddi adroddiadau a bod yr adroddiadau hynny'n cael eu rhoi ar gael yn gyhoeddus.

I would like now to refer to the Minister's reference to holistic working. I think the intent behind the reorganisation of NRW was to produce an organisation that could work holistically across the departments that were brought together. So, I think by having NRW on the face of the Bill, this will send a clear message regarding its important role. It is vital to the effectiveness of this Bill, and it deserves this level of legislation. Thank you.

Hoffwn yn awr gyfeirio at gyfeiriad y Gweinidog at weithio cyfannol. Rwy'n credu mai'r bwriad y tu ôl i ad-drefnu Cyfoeth Naturiol Cymru oedd creu sefydliad a allai weithio'n gyfannol ar draws yr adrannau a gafodd eu dwyn at ei gilydd. Felly, rwy'n credu drwy gael Cyfoeth Naturiol Cymru ar wyneb y Bil, y bydd hynny'n anfon neges glir ynghylch ei swyddogaeth bwysig. Mae hynny'n hanfodol i effeithiolrwydd y Bil hwn, ac y mae'n haeddu'r lefel hon o ddeddfwriaeth. Diolch.

16:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 57 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13. There voted against 39. Therefore, amendment 57 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 57 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid. Pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 57 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 57: O blaid 13, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 57 not agreed: For 13, Against 39, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 57.](#)

[Result of the vote on amendment 57.](#)

16:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

William Powell, amendment 3.

William Powell, gwelliant 3.

*Cynigiwyd gwelliant 3 (William Powell).*

*Amendment 3 (William Powell) moved.*

16:46

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Move.

Cynnig.

16:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 3 be agreed. Does any Member object? Amendment 3 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 3 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff gwelliant 3 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:47

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 9.

Weinidog, gwelliant 9.

*Cynigiwyd gwelliant 9 (Carl Sargeant).*

*Amendment 9 (Carl Sargeant) moved.*

16:47

### Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

16:47

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 9 be agreed. Does any Member object? Amendment 9 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 9 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff gwelliant 9 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 9 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 9 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 4: Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (Gwelliannau 69, 58, 10A, 10, 67)

## Group 4: National Natural Resources Policy (Amendments 69, 58, 10A, 10, 67)

16:47

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The fourth group of amendments relates to the national natural resources policy, and the lead amendment in this group is amendment 69. I call on Llyr Gruffydd to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r pedwerydd grŵp o welliannau yn ymwneud â'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol, a'r prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 69.Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 69 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 69 (Llyr Gruffydd) moved.*

16:47

### Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I was pleased that the Minister responded to concerns by adding to the principles of sustainable management of natural resources a further principle of making appropriate arrangements for public participation in decision making. However, I believe that there are key elements required in these appropriate arrangements to ensure that they meet Wales's international obligations and ensure active involvement as recommended by European Commission guidance. These include early engagement, of course, when all options are open, and the full provision of information and evidence early on in the process.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Roeddwn yn falch bod y Gweinidog wedi ymateb i bryderon drwy ychwanegu egwyddor arall o wneud trefniadau priodol ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau at egwyddorion rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Fodd bynnag, credaf fod elfennau allweddol sydd eu hangen yn y trefniadau priodol hyn i sicrhau eu bod yn cyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol Cymru a sicrhau cyfranogiad gweithredol fel yr argymhellir gan ganllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r rhain yn cynnwys ymgysylltiad cynnar, wrth gwrs, pan fydd yr holl ddewisiadau ar gael, a darpariaeth lawn o wybodaeth a thystiolaeth yn gynnar yn y broses.

Now, my lead amendment, amendment 69, ensures that Welsh Ministers provide access to all relevant background information when developing the national natural resources policy. However, I also recognise that both my amendment and the Government's amendment 10, which is further strengthened by amendment 10A from Bill Powell, which I support, address access at the end of the process and do not address the early active involvement, which we all recognise is crucial in the NNRP, the SoNaRR and area statements. Statutory guidance is therefore essential in this regard and I'd ask the Minister to make a commitment, as he responds to this particular group of amendments this afternoon, that this statutory guidance will provide similar clear and positive commitments as, for example, exist in European Commission guidance on the development of river basin management plans, particularly in regard to access to information on request, and that this will be published before the commencement of the legislation.

Nawr, mae fy mhrif welliant, gwelliant 69, yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn darparu mynediad at yr holl wybodaeth gefndir berthnasol wrth ddatblygu'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cydnabod bod fy ngwelliant a gwelliant 10 y Llywodraeth, sy'n cael ei gryfhau ymhellach gan welliant 10A gan Bill Powell, yr wyf yn ei gefnogi, yn rhoi sylw i fynediad ar ddiwedd y broses ond nid ydynt yn rhoi sylw i'r cyfranogiad gweithredol cynnar, yr ydym i gyd yn cydnabod sy'n hanfodol yn y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a'r datganiadau ardal. Mae canllawiau statudol felly yn hanfodol yn y cyswllt hwn ac rwyf yn gofyn i'r Gweinidog roi ymrwymiad, wrth iddo ymateb i'r grŵp penodol hwn o welliannau y prynhawn yma, y bydd y canllawiau statudol yn darparu ymrwymiadau clir a chadarnhaol tebyg, er enghraifft, i'r rhai sy'n bodoli yng nghanllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar ddatblygu cynlluniau rheoli basn afon, yn enwedig ynglŷn â mynediad at wybodaeth ar gais, ac y bydd hyn yn cael ei gyhoeddi cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.

I welcome amendment 58, which reflects a committee recommendation, as I do amendment 67, requiring the Welsh national marine plan to have regard to the NNRP. It is important that the relationship between the sustainable management of the natural resources framework, including the national natural resources policy and area statements, and the Wales national marine plan is made clear. In fact, it's disappointing—I have to say—that the Government hasn't conformed to its own amendment to create this link. If Government support isn't given to this particular amendment today, then I think it's important that the Minister makes a statement as to the relationship between the new sustainable management of natural resources framework and the Wales national marine plan. There needs to be a link, and I'd be interested in knowing how the Government sees that coming forward.

Rwy'n croesawu gwelliant 58, sy'n adlewyrchu argymhelliad y pwyllgor, fel yr wyf yn croesawu gwelliant 67, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynllun morol cenedlaethol Cymru roi sylw i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. Mae'n bwysig bod y berthynas rhwng y rheolaeth gynaliadwy o'r fframwaith adnoddau naturiol, gan gynnwys y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol a'r datganiadau ardal, a chynllun morol cenedlaethol Cymru yn cael ei wneud yn glir. Yn wir, mae'n siomedig—mae'n rhaid i mi ddweud—nad yw'r Llywodraeth wedi cydymffurfio â'i gwelliant ei hunan i greu'r cysylltiad hwn. Os na fydd y Llywodraeth yn cefnogi'r gwelliant arbennig hwn heddiw, yna rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod y Gweinidog yn gwneud datganiad ynghylch y berthynas rhwng y fframwaith rheolaeth gynaliadwy newydd o adnoddau naturiol a chynllun morol cenedlaethol Cymru. Mae angen cael cysylltiad, a byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod sut y mae'r Llywodraeth yn gweld hynny'n dod yn ei flaen.

16:49

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Amendment 58 relates to the recommendations made in the committee report at Stage 1 of this process. In 58, we are proposing that the Minister brings forward amendments to the Bill to provide more detailed criteria for the minimum contents of the national natural resources policy. These amendments seek to ensure that there is greater clarity on the plan's contents and to allay the fears that were expressed to the committee by farming unions and the RSPB on how this policy may influence Glastir and the rural development policy.

Mae gwelliant 58 yn ymwneud â'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y pwyllgor yng Nghyfnod 1 y broses hon. Yn 58, rydym yn cynnig bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn darparu meini prawf manylach ar gyfer cynnwys gofynnol y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol. Mae'r gwelliannau hyn yn ceisio sicrhau bod mwy o eglurder ar gynnwys y cynllun a thawelu ofnau a fynegwyd i'r pwyllgor gan undebau ffermio a'r RSPB ar sut y gallai'r polisi hwn ddylanwadu ar Glastir a'r polisi datblygu gwledig.

Amendment 67 would mean that the NNRP and the area statements are added to the matters to which a marine plan authority is to have regard in preparing a marine plan. The NNRP covers the whole of Wales, out to the territorial limit of 12 nautical miles. Area statements cover the terrestrial and coastal areas of Wales. The Wales national marine plan covers both inshore and offshore water, extending up to the level of mean high water spring tides, while land-use planning boundaries generally extend to mean low water. Therefore, these overlap physically with a number of plans in the land-use planning system, and to help facilitate integration between land and sea, the Marine and Coastal Access Act 2009 ensures that, in preparing a marine plan, the marine planning authority must take all reasonable steps to ensure compatibility with any relevant plans specifically relating to planning Act plans.

Byddai gwelliant 67 yn golygu bod y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a'r datganiadau ardal yn cael eu hychwanegu at y materion y mae awdurdod cynllun morol i roi sylw iddynt wrth baratoi cynllun morol. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn cwmpasu Cymru gyfan, allan at y terfyn tiriogaethol o 12 milltir forol. Mae datganiadau ardal yn cwmpasu ardaloedd daearol ac arfordirol Cymru. Mae cynllun morol cenedlaethol Cymru yn cwmpasu dŵr y glannau a'r môr, yn ymestyn i fyny at lefel penllanw cymedrig y gorllanw, tra bod ffiniau cynllunio defnydd tir yn gyffredinol yn ymestyn hyd at y marc distyll cymedrig. Felly, mae'r rhain yn gorgyffwrdd yn ffisegol gyda nifer o gynlluniau yn y system cynllunio defnydd tir, ac i helpu i hwyluso integreiddio rhwng y tir a'r môr, mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn sicrhau, wrth baratoi cynllun morol, bod yn rhaid i'r awdurdod cynllunio morol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau cysondeb gydag unrhyw gynlluniau perthnasol sy'n ymwneud yn benodol â chynllunio cynlluniau Deddf.

These amendments to the MCAA would ensure that Welsh Government is to have regard to the NNRP and any relevant area statement in preparing their marine plan in line with other planning regimes. This is an opportunity to ensure that the planning systems across land and sea interface—traditionally fragmented—becoming coherent and integrated, ensuring transparency throughout the environmental management of Wales.

Byddai'r gwelliannau i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ac unrhyw ddatganiad ardal perthnasol wrth baratoi ei chynllun morol yn unol â chyfundrefnau cynllunio eraill. Mae hwn yn gyfle i sicrhau bod y systemau cynllunio ar draws y rhyngwyneb tir a môr—sy'n dameidiog yn draddodiadol—yn dod yn gydlynol ac integredig, gan sicrhau tryloywder ym mhob rhan o reolaeth amgylcheddol Cymru.

16:51

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have just one amendment in this group, which is an amendment to amendment 10, as referred to previously by Llyr Gruffydd. While I very much welcome the Minister's amendment 10, which requires future Welsh Ministers to publish a report summarising any consultation carried out in relation to the preparation of the national natural resources policy, and any representations received as part of that consultation, it seemed important to us that this was strengthened further, so that a full set of all the representations made are to be published. The wording, as it currently stands, could mean that just a selection of representations would be published, but in the interests of complete transparency, it's important that all evidence is brought into the public domain.

Dim ond un gwelliant sydd gennyf yn y grŵp hwn, sydd yn welliant i welliant 10, fel y cyfeiriwyd ato yn flaenorol gan Llyr Gruffydd. Er fy mod i'n croesawu gwelliant 10 y Gweinidog yn fawr iawn, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru yn y dyfodol gyhoeddi adroddiad yn crynhoi unrhyw ymgynghori a wnaed ynglŷn â pharatoi polisi adnoddau naturiol cenedlaethol, ac unrhyw sylwadau a dderbyniwyd yn rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, roedd yn ymddangos yn bwysig i ni fod hyn yn cael ei gryfhau ymhellach, fel bod cyfres lawn o'r holl sylwadau a gyflwynwyd yn cael eu cyhoeddi. Gallai'r geiriad, fel ag y mae, olygu mai dim ond detholiad o sylwadau a fyddai'n cael eu cyhoeddi, ond er budd tryloywder llwyr, mae'n bwysig bod yr holl dystiolaeth yn cael ei rhoi ar gael yn gyhoeddus.

16:52

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I've tabled amendment 10, which requires Welsh Ministers to publish a report summarising any consultation that was carried out in relation to the preparation of the NNRP and any responses that we received as part of the consultation. I've listened carefully to Members' contributions and they have tried to add value, in their view, to that, but we do believe that, through committee stages, we were very clear on what we were seeking to do, and I have therefore laid this amendment in the spirit that we thought the Members were supportive of. In that case, we will not be able to support William Powell's amendment 10A, although I do believe that he continues to push that amendment—I understand completely the reasons behind that.

Rwyf wedi cyflwyno gwelliant 10, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad yn crynhoi unrhyw ymgynghori a gynhaliwyd ynglŷn â pharatoi'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ac unrhyw ymatebion a gawsom yn rhan o'r ymgynghoriad. Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar gyfraniadau Aelodau ac maent wedi ceisio ychwanegu gwerth, yn eu barn hwy, at hynny, ond rydym yn credu, trwy gyfnodau pwyllgor, ein bod yn glir iawn ynghylch yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud, ac felly rwyf wedi cyflwyno'r gwelliant hwn yn yr ysbryd yr oeddem yn credu yr oedd Aelodau yn gefnogol iddo. Gan hynny, ni fyddwn yn gallu cefnogi gwelliant 10A William Powell, er fy mod yn credu ei fod yn parhau i wthio'r gwelliant hwnnw—rwy'n deall yn llwyr y rhesymau y tu ôl i hynny.

In regard of amendment 69 tabled by Llyr Gruffydd, this would require Welsh Ministers to publish the results of any consultation or advice received in the preparation of the plan. Once more, I'd like to draw your attention to my amendment 10, and this reflects the intention of Llyr Gruffydd's previous amendment, which was 101 at Stage 2, I believe, which the Member tabled. In addition to this, public participation is a principle in section 4. In preparing the NNRP, the Welsh Ministers must apply the section 4 principles and therefore make appropriate arrangements for public participation. This is further supported by the Well-being of Future Generations Act, which introduced the framework for engagement and transparency.

O ran gwelliant 69 a gyflwynwyd gan Llyr Gruffydd, byddai hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canlyniadau unrhyw ymgynghoriad neu gyngor a dderbyniwyd yn y gwaith o baratoi'r cynllun. Unwaith eto, hoffwn dynnu eich sylw at fy ngwelliant 10 i, ac mae hyn yn adlewyrchu bwriad gwelliant blaenorol Llyr Gruffydd, sef 101 yng Nghyfnod 2, rwy'n credu, a gyflwynodd yr Aelod. Yn ogystal â hyn, mae cyfranogiad y cyhoedd yn egwyddor yn adran 4. Wrth baratoi'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso'r egwyddorion adran 4 ac felly gwneud trefniadau priodol ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd. Cefnogir hyn ymhellach gan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a gyflwynodd y fframwaith ar gyfer ymgysylltu a thryloywder.

With regard to amendment 58, tabled by Janet Haworth, this would insert a requirement that the NNRP must include a hierarchy of objectives, a mechanism for resolving conflict between objectives, and an action plan that sets out who is responsible for delivering those objectives in the plan. I don't support this amendment, because the NNRP is a strategic document that should not seek to balance competing objectives. The NNRP will identify strategic priorities for optimising the management and use of natural resources, to ensure that they provide maximum benefit now and in the future through the resilience of ecosystems.

O ran gwelliant 58, a gyflwynwyd gan Janet Haworth, byddai hyn yn mewnosod gofyniad bod yn rhaid i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol gynnwys hierarchaeth o amcanion, mecanwaith ar gyfer datrys gwrthdaro rhwng amcanion, a chynllun gweithredu sy'n nodi pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r amcanion hynny yn y cynllun. Nid wyf yn cefnogi'r gwelliant hwn, oherwydd bod y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn ddogfen strategol na ddylai geisio cydbwyso amcanion sy'n cystadlu. Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn nodi blaenoriaethau strategol ar gyfer gwneud y gorau o reoli a defnyddio adnoddau naturiol, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r budd mwyaf yn awr ac yn y dyfodol trwy gydnerthedd ecosystemau.

With regard to amendment 67, this was previously discussed at Stage 2, but was not agreed by the Environment and Sustainability Committee, and I stand by that decision. The amendment should refer to paragraph 9 and not 6 of Schedule 6, and therefore this would add an amendment into the wrong paragraph of the Schedule. Therefore, we will not be seeking to support that amendment. We are seeking support for amendment 10, in capturing the spirit of some of the amendments discussed at Stage 2, as informed by stakeholders and other Members, and we would ask you to support that amendment today.

O ran gwelliant 67, cafodd hyn ei drafod yn flaenorol yng Nghyfnod 2, ond ni chafodd ei gytuno gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ac rwy'n glynu wrth y penderfyniad hwnnw. Dylai'r gwelliant gyfeirio at baragraff 9 ac nid paragraff 6 Atodlen 6, ac felly byddai hyn yn ychwanegu gwelliant i baragraff anghywir yr Atodlen. Felly, nid ydym yn bwriadu cefnogi'r gwelliant hwnnw. Rydym yn gofyn am gefnogaeth ar gyfer gwelliant 10, i gynnwys ysbryd rhai o'r newidiadau a drafodwyd yng Nghyfnod 2, fel y llywiwyd gan randdeiliaid ac Aelodau eraill, ac rydym yn gofyn i chi gefnogi'r gwelliant hwnnw heddiw.

16:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd to reply.

Llyr Gruffydd i ymateb.

16:55

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank everyone for their contributions, and can I thank the Minister? I do recognise that amendment 10 was brought forward in response to discussions at Stage 2, and I had indicated that I would be supporting amendment 10, although I do feel that my amendment 69 is stronger, and therefore would be my preference.

A gaf i ddiolch i bawb am eu cyfraniadau, ac a gaf i ddiolch i'r Gweinidog? Rwy'n cydnabod bod gwelliant 10 wedi cael ei ddwyn ymlaen mewn ymateb i drafodaethau yng Nghyfnod 2, ac roeddwn wedi dweud y byddwn yn cefnogi gwelliant 10, er fy mod yn teimlo bod fy ngwelliant 69 i yn gryfach, ac felly dyna fyddai fy newis cyntaf.

You mentioned in relation to amendment 67, I think, that there was a drafting error, but still we need clarity around the relationship between the new sustainable management of natural resources framework and the Wales national marine plan, and I would urge you, Minister, to reflect upon the need for greater clarity on that, and to respond accordingly. As I said, we will be supporting all the amendments and I would urge Members to do likewise.

Soniasoch mewn cysylltiad â gwelliant 67, rwy'n credu, bod gwall yn y drafftio, ond rydym yn dal i fod angen eglurder ynghylch y berthynas rhwng y rheolaeth gynaliadwy newydd ar y fframwaith adnoddau naturiol a chynllun morol cenedlaethol Cymru, a byddwn yn eich annog, Weinidog, i fyfyrio ar yr angen am fwy o eglurder ar hynny, ac i ymateb yn unol â hynny. Fel y dywedais, byddwn yn cefnogi'r holl welliannau a byddwn yn annog yr Aelodau i wneud hynny hefyd.

16:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 69 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 69 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 69: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 69 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 69.

Result of the vote on amendment 69.

16:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Haworth, amendment 58.

Janet Haworth, gwelliant 58.

*Cynigiwyd gwelliant 58 (Janet Haworth).*

*Amendment 58 (Janet Haworth) moved.*

16:56 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Cynnig.

16:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 58 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 22, there voted against 30, therefore amendment 58 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 58 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 22 o blaid, pleidleisiodd 30 yn erbyn, ac felly ni chaiff gwelliant 58 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 58: O blaid 22, Yn erbyn 30, Ymatal 0.*

*Amendment 58 not agreed: For 22, Against 30, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 58.

Result of the vote on amendment 58.

16:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before we dispose of amendment 10, we will deal with the amendment to that amendment. William Powell, do you wish to move amendment 10A?

Cyn i ni gael gwared ar welliant 10, byddwn yn ymdrin â'r newid i'r gwelliant hwnnw. William Powell, a ydych chi'n dymuno cynnig gwelliant 10A?

*Cynigiwyd gwelliant 10A (William Powell).*

*Amendment 10A (William Powell) moved.*

16:57 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 10A be agreed. Does any Member object? [Objection.] Electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26, I cast my vote against amendment 10A, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 10A yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn, rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn gwelliant 10A, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 10A: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 10A not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 10A.

Result of the vote on amendment 10A.

16:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 10.

Weinidog, gwelliant 10.

*Cynigiwyd gwelliant 10 (Carl Sargeant).*

*Amendment 10 (Carl Sargeant) moved.*

16:57

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

16:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 10 be agreed. Does any Member object? No. Then amendment 10 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 10 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Na. Felly, caiff gwelliant 10 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 10 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 10 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 5: Datganiadau Ardal a Chynlluniau Arbrofol (Gwelliannau 59, 11, 60, 38)

### Group 5: Area Statements and Experimental Schemes (Amendments 59, 11, 60, 38)

16:58

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Group 5 relates to area statements and experimental schemes. The lead amendment in this group is amendment 59. I call on Janet Haworth to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae grŵp 5 yn ymwneud â datganiadau ardal a chynlluniau arbrofol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 59. Galwaf ar Janet Haworth i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 59 (Janet Haworth).*

*Amendment 59 (Janet Haworth) moved.*

16:58

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I formally move amendment 59, the lead amendment in this group. My amendment 59 calls for Natural Resources Wales to consult water or sewage undertakers before publishing an area statement. The original Bill did not mention water or sewage undertakers in the list of public bodies found under section 11, and this amendment seeks to rectify this. To seek to dissociate water and sewage undertakers from working closely with NRW is a retrograde step given the recent flooding events.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliant 59 yn ffurfiol, y prif welliant yn y grŵp hwn. Mae fy ngwelliant 59 i yn galw ar Gyfoeth Naturiol Cymru i ymgynghori ag ymgymerwyr dŵr neu garthion cyn cyhoeddi datganiad ardal. Nid oedd y Bil gwreiddiol yn sôn am ymgymerwyr dŵr neu garthion yn y rhestr o gyrff cyhoeddus dan adran 11, ac mae'r gwelliant hwn yn ceisio unioni hyn. Mae ceisio datgysylltu ymgymerwyr dŵr a charthion o weithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn gam yn ôl o ystyried y digwyddiadau llifogydd diweddar.

Amendment 60 reflects recommendation 26 in the Stage 1 committee report. Concern has been expressed over the types of experimental scheme that may be brought forward. Landowners are concerned over the suggestion that they could be used to introduce general binding rules without proper consultation, and environmental organisations are concerned they could be used to relax conservation duties. Ensuring transparency around this process would offer significant reassurance to stakeholders and the Assembly. This amendment addresses these concerns.

Mae gwelliant 60 yn adlewyrchu argymhelliad 26 yn adroddiad pwyllgor Cyfnod 1. Mynegwyd pryder am y mathau o gynlluniau arbrofol a allai gael eu dwyn ymlaen. Mae tirfeddianwyr yn pryderu am yr awgrym y gellid eu defnyddio i gyflwyno rheolau gorfodol cyffredinol heb ymgynghori priodol, ac mae sefydliadau amgylcheddol yn pryderu y gellid eu defnyddio i ymlacio dyletswyddau cadwraeth. Byddai sicrhau tryloywder o amgylch y broses hon yn cynnig sicrwydd sylweddol i randdeiliaid ac i'r Cynulliad. Mae'r gwelliant hwn yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

We support the other two amendments in this group.

Rydym yn cefnogi'r ddau welliant arall yn y grŵp hwn.

16:59 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome Government amendment 11. I think clarity that area statements will be produced to cover the whole of Wales is welcome, particularly given the slight confusion during Stage 1 when the Minister said he didn't expect statements for all of Wales, whilst NRW said they did. So, I'm glad that that's cleared up here.

Rwy'n croesawu gwelliant 11 y Llywodraeth. Rwy'n credu bod eglurder y bydd datganiadau ardal yn cael eu cynhyrchu ar gyfer Cymru gyfan i'w groesawu, yn enwedig o ystyried y mân ddryswch yn ystod Cyfnod 1 pan ddywedodd y Gweinidog nad oedd yn disgwyl datganiadau ar gyfer Cymru gyfan, er bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud ei fod yn disgwyl hynny. Felly, rwy'n falch bod hynny wedi'i egluro yn y fan yma.

Amendment 38 from William Powell is also welcome. I think suspending statutory requirements for experimental schemes can be acceptable under certain circumstances, particularly as long as any risks are controlled properly and are proportionate. This amendment strengthens that control element, and I'm happy to support it.

Mae gwelliant 38 gan William Powell i'w groesawu hefyd. Rwy'n credu y gall atal gofynion statudol ar gyfer cynlluniau arbrofol fod yn dderbyniol o dan amgylchiadau penodol, yn enwedig cyhyd a bod unrhyw risgiau yn cael eu rheoli'n gywir a'u bod yn gymesur. Mae'r gwelliant hwn yn cryfhau'r elfen reoli honno, ac rwy'n hapus i'w gefnogi.

Amendments 59 and 60 touch on areas I've previously addressed, namely consultation and transparency, and I'll be supporting these strengthened requirements here, too, in relation to area statements and experimental schemes.

Mae gwelliannau 59 a 60 yn cyffwrdd ar feysydd yr wyf i wedi mynd i'r afael â nhw yn flaenorol, sef ymgynghori a thryloywder, a byddaf yn cefnogi'r gofynion hyn sydd wedi'u cryfhau yma, hefyd, ynglŷn â datganiadau ardal a chynlluniau arbrofol.

17:00 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It was disappointing that in spite of opposition amendments at Stage 2 to the sections relating to experimental schemes, the Welsh Government amendments that did pass made no explicit provision for a risk assessment to be part of NRW's application to Ministers to suspend statutory requirements. Furthermore, in the absence of this important safeguard, an additional amendment from Stage 2 inserted a specific requirement not to increase the regulatory burden.

Roedd yn siomedig er gwaethaf gwelliannau'r gwrthbleidiau yng Nghyfnod 2 i'r adrannau sy'n ymwneud â chynlluniau arbrofol, nad oedd y gwelliannau Llywodraeth Cymru a gafodd eu pasio yn gwneud unrhyw ddarpariaeth benodol i asesiad risg fod yn rhan o gais Cyfoeth Naturiol Cymru i Weinidogion atal gofynion statudol. Yn ogystal, yn absenoldeb y mesur diogelwch pwysig hwn, roedd gwelliant ychwanegol o Gyfnod 2 yn mewnosod gofyniad penodol i beidio â chynyddu'r baich rheoleiddio.

As such, my amendment 38 makes it explicitly clear that Welsh Ministers would have to pay due consideration to the risks involved in an experimental scheme before signing up to make regulations under this section. I would hope that the Minister can also provide further assurance that NRW will undertake a risk assessment and provide this to Ministers as part of their submission to request regulations under this section. We will be supporting all other amendments within this group.

Fel y cyfryw, mae fy ngwelliant 38 yn ei gwneud yn hollol glir y byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth briodol i'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynllun arbrofol cyn cytuno i wneud rheoliadau dan yr adran hon. Byddwn yn gobeithio y gall y Gweinidog hefyd roi sicrwydd pellach y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal asesiad risg ac yn darparu hyn i Weinidogion yn rhan o'i gyflwyniad i ofyn am reoliadau dan yr adran hon. Byddwn yn cefnogi pob gwelliant arall yn y grŵp hwn.

17:01

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'll speak to the Government amendment in the group first. Amendment 11 in my name reflects the earlier amendment that was tabled at Stage 2 by William Powell. This ensures that every part of Wales will be covered by one or more area statements. This will include not only the terrestrial and the coastal but the marine, in line with the definition of Wales provided in the Government of Wales Act.

Siaradaf am welliant y Llywodraeth yn y grŵp yn gyntaf. Mae gwelliant 11 yn fy enw i yn adlewyrchu'r gwelliant cynharach a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2 gan William Powell. Mae hyn yn sicrhau y bydd pob rhan o Gymru yn cael ei chwmpasu gan un neu fwy o ddatganiadau ardal. Bydd hyn yn cynnwys nid yn unig y daearol a'r arfordirol, ond y morol, yn unol â'r diffiniad o Gymru a ddarperir yn Neddf Llywodraeth Cymru.

As NRW will be required to apply the principles of sustainable management of natural resources in the preparation of area statements, it will need to draw on all available evidence in the area, and this will include looking at the interface between land, coast and marine environments, which I think was the point that Janet was trying to relate to earlier on in an earlier section.

Gan y bydd yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth baratoi datganiadau ardal, bydd angen iddo dynnu ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael yn yr ardal, a bydd hyn yn cynnwys edrych ar y rhyngwyneb rhwng amgylchedd y tir, yr arfordir a'r môr, a dyna rwy'n credu oedd y pwynt yr oedd Janet yn ceisio ei wneud yn gynharach mewn adran gynharach.

In relation to amendment 59, tabled by Janet Haworth, this would require NRW to consult before publishing an area statement. Can I be clear that the wellbeing of future generations Act also has requirements for engagement and transparency and is already on statute?

O ran gwelliant 59, a gyflwynwyd gan Janet Haworth, byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru ymgynghori cyn cyhoeddi datganiad ardal. A gaf i fod yn glir bod gan Ddeddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol ofynion hefyd ar gyfer ymgysylltu a thryloywder ac mae eisoes ar y statud?

Amendment 60 would require NRW to publish all the documents relating to their application to suspend a statutory requirement for an experimental scheme under section 22. However, under the current provisions, this detail would already need to be presented to the Assembly. The information would be disclosed in the supporting documentation accompanying the relevant regulations made under section 22 via the affirmative process, for example, in the explanatory memorandum for those regulations. Therefore, this is unnecessary, and I would ask the Assembly not to support this amendment.

Byddai gwelliant 60 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi’r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'i gais i atal gofyniad statudol ar gyfer cynllun arbrofol o dan adran 22. Fodd bynnag, dan y darpariaethau cyfredol, byddai angen eisoes i’r manylyn hwn gael ei gyflwyno i'r Cynulliad. Byddai'r wybodaeth yn cael ei datgelu yn y dogfennau ategol sy'n mynd gyda'r rheoliadau perthnasol a wnaed dan adran 22 drwy'r broses gadarnhaol, er enghraifft, yn y memorandwm esboniadol ar gyfer y rheoliadau hynny. Felly, mae hyn yn ddiangen, a byddwn yn gofyn i'r Cynulliad beidio â chefnogi'r gwelliant hwn.

Amendment 38, tabled by William Powell, would require the Welsh Ministers to ensure that regulations to suspend a statutory requirement for experimental schemes under section 22 would not present an unacceptable level of risk. It’s not clear from the amendment what would constitute an unacceptable level of risk; it would and could mean different things to different people. I intend to issue guidance to NRW on how they make an application in order to use the powers to undertake experimental schemes, and this can include information on how they have assessed the risk.

Byddai gwelliant 38, a gyflwynwyd gan William Powell, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau na fyddai rheoliadau i atal gofyniad statudol ar gyfer cynlluniau arbrofol dan adran 22 yn cyflwyno lefel annerbyniol o risg. Nid yw'n glir o'r gwelliant beth fyddai'n cynrychioli lefel annerbyniol o risg; byddai a gallai olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Rwyf yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i Gyfoeth Naturiol Cymru ar sut i wneud cais er mwyn defnyddio'r pwerau i ymgymryd â chynlluniau arbrofol, a gall hyn gynnwys gwybodaeth am sut y mae wedi asesu'r risg.

Under section 22, NRW will be required to evaluate the scheme, but will also be required to apply an adaptive management approach through the application of the principles in section 4. I understand what William Powell is trying to achieve, but we think we’ve covered this in the section with regard to the guidance; therefore, we will not be supporting that element of the Bill today. I’d ask Members to support Government amendment 11.

Dan adran 22, bydd yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru werthuso'r cynllun, ond bydd hefyd yn ofynnol iddo ddefnyddio dull rheoli addasol drwy gymhwyso'r egwyddorion yn adran 4. Rwy’n deall yr hyn y mae William Powell yn ceisio ei gyflawni, ond rydym yn credu ein bod wedi cynnwys hyn yn yr adran o ran y canllawiau; felly, ni fyddwn yn cefnogi'r elfen honno o'r Bil heddiw. Rwyf yn gofyn i'r Aelodau gefnogi gwelliant 11 y Llywodraeth.

17:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Janet Haworth to reply.

Janet Haworth i ymateb.

17:04 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Amendment 59—today, I received an e-mail in this Chamber from a constituent alerting me again to flooding of sewage from their drains in Llanrwst, an area currently undergoing a review by NRW into the recent flood events. This incident is not unrelated to the recent flooding in the Conwy valley. We have also heard a list today of similar failures from my colleague William Powell. So, I think it's disingenuous to not pay attention to what amendment 59 is asking you to do, which is to have wording in this Bill that seeks to bring NRW and our sewage and water undertakers into a much closer working relationship—one that I think is really important in the light of recent events. So, I ask you to reconsider, Minister.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Gwelliant 59—heddiw, derbyniais e-bost yn y Siambr hon gan etholwr yn fy rhybuddio eto o lifogydd carthion o'u draeniau yn Llanrwst, ardal sydd ar hyn o bryd yn cael adolygiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru i'r llifogydd diweddar. Nid yw'r digwyddiad hwn yn amherthnasol i'r llifogydd diweddar yn nyffryn Conwy. Rydym hefyd wedi clywed rhestr heddiw o fethiannau tebyg gan fy nghyd-Aelod William Powell. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn ffuantus i beidio â thalu sylw i'r hyn y mae gwelliant 59 yn gofyn i chi ei wneud, sef cael geiriad yn y Bil hwn sy'n ceisio dod â Chyfoeth Naturiol Cymru a'n hymgymerwyr carthion a dŵr i berthynas weithio lawer agosach—un yr wyf yn meddwl sy'n bwysig iawn yng ngoleuni digwyddiadau diweddar. Felly, gofynnaf ichi ailystyried, Weinidog.

With regard to amendment 60, you will be aware from the discussions in committee, as are my fellow Members, that experimental schemes are extremely controversial from various stakeholders. We don't want those stakeholders to compete; we don't want to compete with them. In this Bill, we want to be able to engender co-operation, transparency and open thinking about how experimental schemes can move forward, and we can't do that by denying transparency or denying opportunities for open consultation. Thank you.

O ran gwelliant 60, byddwch yn ymwybodol o'r trafodaethau yn y pwyllgor, fel y mae fy nghyd-Aelodau, bod cynlluniau arbrofol yn hynod o ddadleuol gan wahanol randdeiliaid. Nid ydym eisiau i'r rhanddeiliaid hynny gystadlu; nid ydym eisiau cystadlu â nhw. Yn y Bil hwn, rydym eisiau bod yn gallu ennyn cydweithrediad, tryloywder a meddwl agored ynghylch sut y gall cynlluniau arbrofol symud ymlaen, ac ni allwn wneud hynny trwy wadu tryloywder na gwadu cyfleoedd ar gyfer ymgynghori agored. Diolch.

17:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 59 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 59 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 59: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 59 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 59.

Result of the vote on amendment 59.

17:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 11.

Weinidog, gwelliant 11.

*Cynigiwyd gwelliant 11 (Carl Sargeant).*

*Amendment 11 (Carl Sargeant) moved.*

17:06 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 11 be agreed. Does any Member object? Then amendment 11 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 11 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 11 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 11 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 11 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Grŵp 6: Technegol (Gwelliannau 12, 19, 20, 21, 22, 31, 32, 34, 35)**

**Group 6: Technical (Amendments 12, 19, 20, 21, 22, 31, 32, 34, 35)**

17:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Group 6 are technical amendments, and the lead amendment in this group is amendment 12. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae grŵp 6 yn welliannau technegol, a'r prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 12. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 12 (Carl Sargeant).*

*Amendment 12 (Carl Sargeant) moved.*

17:06

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. All the amendments in this group are technical Government amendments, and these relate to Parts 2, 3, 5 and Schedule 2 of the Bill. The amendments seek to provide clarifications, correct drafting errors and update references. I formally move.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae pob gwelliant yn y grŵp hwn yn welliannau technegol y Llywodraeth, ac mae'r rhain yn ymwneud â Rhannau 2, 3, 5 ac Atodlen 2 y Bil. Mae'r gwelliannau yn ceisio darparu eglurhad, cywiro gwallau drafftio a diweddaru cyfeiriadau. Cynigiaf yn ffurfiol.

17:07

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will be supporting all the amendments; as you say, they are technical. But, just in relation to amendment 31, I am aware that some stakeholders felt that additional amendments were required in this Part to ensure the wording fully reflected the Minister's responsibilities under the habitats directive, and that protection of European marine sites remained appropriately robust. The Government didn't agree, however, but then I do understand that the Government has agreed to address those concerns by providing clear guidance on this Part, which will explain the Government's responsibilities under the directive, in addition to other elements of detail, including on the possible content of site protection notices and on the appeals process. I and many others, I'm sure, would welcome a commitment from the Minister to this effect as he responds to this debate on this group of amendments.

Byddaf yn cefnogi'r holl welliannau; fel y dywedwch, rhai technegol ydynt. Ond, dim ond ynglŷn â gwelliant 31, rwy'n ymwybodol fod rhai rhanddeiliaid yn teimlo ei bod yn ofynnol cael gwelliannau ychwanegol yn y Rhan hon er mwyn sicrhau bod y geiriad yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r Gweinidog yn llawn o dan y gyfarwyddeb cynefinoedd, a bod diogelu safleoedd morol Ewropeaidd yn parhau i fod yn briodol gadarn. Nid oedd y Llywodraeth yn cytuno, fodd bynnag, ond yna rwy'n deall bod y Llywodraeth wedi cytuno i roi sylw i'r pryderon hynny drwy roi arweiniad clir ar y Rhan hon, a fydd yn esbonio cyfrifoldebau'r Llywodraeth dan y gyfarwyddeb, yn ychwanegol at elfennau eraill o fanylder, gan gynnwys ar gynnwys posibl hysbysiadau gwarchod y safle ac ar y broses apelio. Byddwn i a llawer o bobl eraill, rwy'n siŵr, yn croesawu ymrwymiad gan y Gweinidog i'r perwyl hwn wrth iddo ymateb i'r ddadl hon ar y grŵp hwn o welliannau.

17:07

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am content to confirm the principle of the guidance, as requested by the Member. I formally move.

Rwy'n fodlon cadarnhau egwyddor y canllawiau, fel y gofynnwyd i mi gan yr Aelod. Cynigiaf yn ffurfiol.

17:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 12 be agreed. Does any Member object? Then amendment 12 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 12 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 12 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 12 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 12 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Haworth, amendment 60. Janet Haworth.

Janet Haworth, gwelliant 60. Janet Haworth.

*Cynigiwyd gwelliant 60 (Janet Haworth).*

*Amendment 60 (Janet Haworth) moved.*

17:08

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move; sorry.

Cynnig; mae'n ddrwg gennyf.

17:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 60 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25, there voted against 26. Therefore, amendment 60 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 60 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 60 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 60: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 60 not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 60.

Result of the vote on amendment 60.

17:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

William Powell, amendment 38.

William Powell, gwelliant 38.

*Cynigiwyd gwelliant 38 (William Powell).*

*Amendment 38 (William Powell) moved.*

17:08

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:08

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 38 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 38 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 38: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 38 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 38.

Result of the vote on amendment 38.

17:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Haworth, amendment 61.

Janet Haworth, gwelliant 61.

*Cynigiwyd gwelliant 61 (Janet Haworth).*

*Amendment 61 (Janet Haworth) moved.*

17:09

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 61 is agreed, amendment 13 falls. The question is that amendment 61 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 12, there voted against 39. Therefore, amendment 61 is not agreed.

Os derbynnir gwelliant 61, mae gwelliant 13 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 61 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 12 o blaid, pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 61 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 61: O blaid 12, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 61 not agreed: For 12, Against 39, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 61. | Result of the vote on amendment 61.

17:10

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 13.

Weinidog, gwelliant 13.

*Cynigiwyd gwelliant 13 (Carl Sargeant).*

*Amendment 13 (Carl Sargeant) moved.*

17:10

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:10

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 13 be agreed. Does any Member object? Then amendment 13 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 13 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 13 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 13 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 13 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:10

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

William Powell, amendment 39.

William Powell, gwelliant 39.

*Cynigiwyd gwelliant 39 (William Powell).*

*Amendment 39 (William Powell) moved.*

17:10

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:10

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 39 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25, voted against 26. Therefore amendment 39 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 39 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 39 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 39: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 39 not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 39. | Result of the vote on amendment39.

### Grŵp 7: Diffiniadau (Gwelliannau 14, 15, 40, 41, 70, 71, 42)

### Group 7: Definitions (Amendments 14, 15, 40, 41, 70, 71, 42)

17:10

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Group 7 relates to definitions of 'biodiversity' and 'ecosystem'. The lead amendment in this group is amendment 14. I call on the Minister to move and to speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae grŵp 7 yn ymwneud â diffiniadau o 'bioamrywiaeth' ac 'ecosystem'.Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 14. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 14 (Carl Sargeant).*

*Amendment 14 (Carl Sargeant) moved.*

17:10 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I formally move Government amendments 14 and 15. I agreed to consider, following Stages 1 and 2, the definition of 'biodiversity' and 'ecosystems' in the Bill. Following work on this I have tabled amendments 14 and 15. These amendments respond to the Environment and Sustainability Committee's recommendation 5 in its Stage 1 report and also reflect the tabled amendments by Members at Stage 2.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliannau 14 a 15 y Llywodraeth yn ffurfiol. Cytunais i ystyried, yn dilyn Cyfnodau 1 a 2, y diffiniad o 'bioamrywiaeth' ac 'ecosystemau' yn y Bil. Yn dilyn gwaith ar hwn, rwyf wedi cyflwyno gwelliannau 14 a 15. Mae'r gwelliannau hyn yn ymateb i argymhelliad 5 Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei adroddiad Cyfnod 1 a hefyd yn adlewyrchu'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Aelodau yng Nghyfnod 2.

The effect of amendment 14 is to provide a specific definition of 'biodiversity' that meets the needs of Part 1 of the Bill. Amendment 15 provides a specific definition of 'ecosystem' on the face of the Bill, which also meets the needs of Part 1 of the Bill. The definition provides clarity that 'ecosystem' includes both the living and non-living, and the interaction between them. In light of the amendments I have tabled I will not be seeking to support the amendments tabled by William Powell today, 40 and 41.

Effaith gwelliant 14 yw darparu diffiniad penodol o 'bioamrywiaeth' sy'n diwallu anghenion Rhan 1 y Bil. Mae gwelliant 15 yn darparu diffiniad penodol o 'ecosystem' ar wyneb y Bil, sydd hefyd yn diwallu anghenion Rhan 1 y Bil. Mae'r diffiniad yn darparu eglurdeb fod 'ecosystem' yn cynnwys y byw a'r anfyw, a'r rhyngweithio rhyngddynt. Yng ngoleuni'r gwelliannau yr wyf wedi'u cyflwyno nid wyf yn bwriadu cefnogi gwelliannau 40 a 41a gyflwynwyd gan William Powell heddiw,.

Amendment 42, tabled by William Powell, seeks to ensure, in the event the definitions of 'ecosystem' or 'biodiversity' provided by the UN CBD are amended, the Welsh Ministers are able to amend the definitions in Part 1 of the Bill accordingly. Therefore, we do not see this amendment as needed. We will not be seeking to support those amendments.

Mae gwelliant 42, a gyflwynwyd gan William Powell, yn ceisio sicrhau, os bydd y diffiniadau o 'ecosystem' neu 'bioamrywiaeth' a ddarperir gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol y Cenhedloedd Unedig yn cael eu diwygio, bod Gweinidogion Cymru yn gallu diwygio'r diffiniadau yn Rhan 1 y Bil yn unol â hynny. Felly, nid ydym yn gweld bod angen y gwelliant hwn. Nid ydym yn bwriadu cefnogi'r gwelliannau hynny.

17:12 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This group of amendments I think offers three distinct options in terms of definitions of 'biodiversity' and 'ecosystems'. My amendments 70 and 71 say they have the same meaning as in the United Nations environmental programme Convention on Biological Diversity. William Powell's amendments 40 to 41 insert their wordings—the actual wordings that they provide—although that would, of course, require us to change the wording in this Act if those international definitions change. Then, the Welsh Government amendments 14 and 15 create bespoke definitions of 'biodiversity' and 'ecosystems' in Part 1 of the Bill. Just to be clear, our amendments will fall if others pass, so we will be voting against those on that basis.

I hear what the Minister has said with regard to the 2 degrees principle, but I maintain that keeping global warming within what is considered to be a safe limit is, after all, what climate change boils down to. All other clauses, provisions and targets in Part 2 of this Bill are aiming to achieve this aim, so I would argue that it makes sense to have this fundamental principle made explicit on the face of this Environment Bill, and that Wales has an opportunity to demonstrate real commitment to this principle. It would be regrettable if we missed that opportunity today.

Rwy'n clywed yr hyn a ddywedodd y Gweinidog ynglŷn â'r egwyddor 2 radd, ond rwy'n mynnu mai cadw cynhesu byd-eang o fewn yr hyn a ystyrir i fod yn derfyn diogel yw, wedi'r cyfan, hanfod newid yn yr hinsawdd. Mae pob cymal, darpariaeth a tharged arall yn Rhan 2 y Bil hwn yn amcanu at gyflawni'r nod hwn, felly byddwn yn dadlau ei bod yn gwneud synnwyr i gael yr egwyddor sylfaenol wedi'i gwneud yn eglur ar wyneb y Bil yr Amgylchedd hwn, a bod Cymru yn cael cyfle i dangos ymrwymiad gwirioneddol i'r egwyddor hon. Byddai'n anffodus pe byddem yn colli'r cyfle hwnnw heddiw.

I fear I sensed in some of Janet Haworth's contributions that there may have been some dalliances with some of the climate change deniers within her own party—people of the stature of Lord Lawson and Owen Paterson—and I would appeal to Janet to reject such a dalliance, because it would, in every sense of the word, be a reckless endeavour.

Rwy'n ofni fy mod wedi synhwyro yn rhai o gyfraniadau Janet Haworth ei bod yn bosib y bu rhywfaint o fflyrtian gyda rhai o'r gwadwyr newid yn yr hinsawdd o fewn ei phlaid ei hun—pobl o statws yr Arglwydd Lawson ac Owen Paterson—a byddwn yn apelio i Janet wrthod fflyrtian o'r fath, gan y byddai, ym mhob ystyr y gair, yn ymdrech ryfygus.

As I said earlier, we will be supporting all amendments in this group. I think the change of emphasis provided by Llyr's amendments 74 and 75 is a very important one, as it absolutely boils down to the 2050 targets being amended in light of any new evidence or scientific knowledge. The points raised regarding global responsibility are also important. The wording in amendment 76 is preferred, but amendment 36 is equally valid, and both relate to my earlier comments on differentiated responsibility and the need for Wales to consider itself as one part of a global community.

Fel y dywedais yn gynharach, byddwn yn cefnogi pob gwelliant yn y grŵp hwn. Rwy'n meddwl bod y newid pwyslais a ddarperir gan welliannau 74 a 75 Llyr yn un pwysig iawn, gan ei fod yn ei hanfod yn golygu gweld targedau 2050 yn cael eu newid yng ngoleuni unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth wyddonol newydd. Mae'r pwyntiau a godwyd ynghylch cyfrifoldeb byd-eang yn bwysig hefyd. Mae'r geiriad yng ngwelliant 76 yn cael ei ffafrio, ond mae gwelliant 36 yr un mor ddilys, ac mae'r ddau yn berthnasol i fy sylwadau cynharach ar gyfrifoldeb gwahaniaethol a'r angen i Gymru ystyried ei hun fel un rhan o gymuned fyd-eang.

Amendments 73 and 77 also have our support, and I would maintain that the existing Welsh Government target for 2020 emissions—to be at least 40 per cent lower than the baseline—should be maintained here. We also strongly support the Minister's amendment 16, which puts an additional interim date of 2020 on the face of the Bill. This should ensure the steep trajectory needed for making early progress towards the vital 2050 target.

Mae gwelliannau 73 a 77 hefyd yn cael ein cefnogaeth, a byddwn yn dadlau y dylai targed presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer allyriadau 2020—i fod o leiaf 40 y cant yn is na'r llinell sylfaen—gael ei cynnal yma. Rydym hefyd yn cefnogi'n gryf welliant 16 y Gweinidog, sy'n rhoi dyddiad interim ychwanegol o 2020 ar wyneb y Bil. Dylai hyn sicrhau'r llwybr serth sydd ei angen ar gyfer gwneud cynnydd cynnar tuag at darged hollbwysig 2050.

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 43 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13. There voted against 39. Therefore amendment 43 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 43 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid. Pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 43 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 43: O blaid 13, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 43 not agreed: For 13, Against 39, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 43.](#)

[Result of the vote on amendment 43.](#)

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

William Powell, amendment 44.

William Powell, gwelliant 44.

*Cynigiwyd gwelliant 44 (William Powell).*

*Amendment 44 (William Powell) moved.*

17:40

## William Powell

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 44 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13. There voted against 39. Therefore amendment 44 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 44 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid. Pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 44 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 44: O blaid 13, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 44 not agreed: For 13, Against 39, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 44.

Result of the vote on amendment 44.

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 72.

Llyr Gruffydd, gwelliant 72.

*Cynigiwyd gwelliant 72 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 72 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:40

## Llyr Gruffydd

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 72 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26. There voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 72 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid. Pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 72: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 72 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 72.

Result of the vote on amendment 72.

### Grŵp 9: Newid yn yr Hinsawdd: Adroddiadau, a Chyngor (Gwelliannau 62, 46, 18, 4, 78, 79, 47, 80, 48)

### Group 9: Climate Change: Reports and Advice (Amendments 62, 46, 18, 4, 78, 79, 47, 80, 48)

17:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Group 9 relates to climate change reports and advice. The lead amendment in this group is amendment 62. I call on Janet Haworth to move and speak to the lead amendment.

Mae grŵp 9 yn ymwneud ag adroddiadau a chyngor newid yn yr hinsawdd. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 62. Galwaf ar Janet Haworth i gynnig a siarad am y prif welliant.

*Cynigiwyd gwelliant 62 (Janet Haworth).*

*Amendment 62 (Janet Haworth) moved.*

17:41 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I've tabled amendment 62, which reflects the Stage 1 committee recommendation 35. It suggests that there should be annual reporting of progress in Wales towards the 2050 target. This amendment follows that rationale with some support from SEC Cymru and mirrors aspects of the UK Act whereby the Committee on Climate Change would be required to report to the Welsh Ministers, and the Ministers would then be required to respond. I believe that this will strengthen the Bill and make the Welsh Government more accountable on this issue.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wedi cyflwyno gwelliant 62, sy'n adlewyrchu argymhelliad 35 pwyllgor Cyfnod 1. Mae'n awgrymu y dylid cael adroddiadau blynyddol ar gynnydd yng Nghymru tuag at y targed ar gyfer 2050. Mae'r gwelliant hwn yn dilyn y rhesymeg gyda rhywfaint o gymorth gan SEC Cymru ac mae'n adlewyrchu agweddau ar Ddeddf y DU lle y byddai angen i'r Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd adrodd i Weinidogion Cymru, a byddai wedyn yn ofynnol i Weinidogion ymateb. Credaf y bydd hyn yn cryfhau'r Bil ac yn gwneud Llywodraeth Cymru yn fwy atebol ar y mater hwn.

We are opposing amendment 46 because we believe that the Bill already has a robust enough reporting process to ensure that timescales are not shortened, and amendment 48 because we support nuclear power and believe that it deserves to be classed as a major contribution to ensuring the security of supply at an affordable price for a country that's approaching about 70 million of population, who all want to keep the lights on.

Rydym yn gwrthwynebu gwelliant 46 oherwydd ein bod yn credu bod proses adrodd ddigon cadarn gan y Bil eisoes i sicrhau nad yw amserlenni yn cael eu byrhau, a gwelliant 48 oherwydd ein bod yn cefnogi ynni niwclear ac yn credu ei fod yn haeddu cael ei ystyried yn gyfraniad sylweddol i sicrhau sicrwydd cyflenwad am bris fforddiadwy i wlad sy'n agosáu at 70 miliwn o boblogaeth, sydd i gyd yn awyddus i gadw'r goleuadau ymlaen.

We are supporting all other amendments in this group and are particularly supportive of amendment 80, as it strengthens the Government's ability to adapt to climate change, it helps tackle flood prevention issues and it brings Wales in line with concurrent legislation across the UK.

Rydym yn cefnogi pob gwelliant arall yn y grŵp hwn, ac yn arbennig o gefnogol i welliant 80, gan ei fod yn cryfhau gallu'r Llywodraeth i addasu i newid yn yr hinsawdd, mae'n helpu i fynd i'r afael â materion atal llifogydd ac mae'n dod â Chymru yn unol â deddfwriaeth gydredol ar draws y DU.

17:43 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I speak first to our amendments 78 and 79 in this group. I believe there must be annual reporting of progress in Wales towards the targets and budgets that we set. To not provide this would be a regression from existing Welsh Government reporting on climate action. I don't believe that the provisions on the reporting of the programme for government through the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 actually are sufficient to give detailed consideration to climate change. I also want the same expert advice provided each year from the UK Committee on Climate Change to the Scottish Government and the UK Government on progress to be given to Wales. The accountability of Welsh Government responding to this advice is also important. To not have this in Wales would mean our Government is not as accountable as the rest of the UK in relation specifically to climate change. I'll be supporting lead amendment 62 in this group as it addresses the same issue of a requirement for an annual report.

Siaradaf yn gyntaf am ein gwelliannau 78 a 79 yn y grŵp hwn. Rwy'n credu bod yn rhaid cael adroddiadau blynyddol ar gynnydd yng Nghymru tuag at y targedau a chyllidebau a osodwyd gennym. Byddai peidio â darparu hyn yn atchweliad o adrodd presennol Llywodraeth Cymru ar weithredu ar yr hinsawdd. Nid wyf yn credu bod y darpariaethau ar adrodd ar y rhaglen lywodraethu drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn gwirionedd yn ddigon i roi ystyriaeth fanwl i newid yn yr hinsawdd. Rwyf hefyd am i'r un cyngor arbenigol a ddarperir bob blwyddyn gan Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU ar y cynnydd gael ei roi i Gymru. Mae atebolrwydd Llywodraeth Cymru o ran ymateb i'r cyngor hwn yn bwysig hefyd. Byddai peidio â chael hwn yng Nghymru yn golygu nad yw ein Llywodraeth mor atebol â gweddill y DU o ran newid yn yr hinsawdd yn benodol. Byddaf yn cefnogi prif welliant 62 yn y grŵp hwn gan ei fod yn mynd i'r afael â'r un mater o ofyniad am adroddiad blynyddol.

Our amendment 80 comes from a committee recommendation at Stage 1 for the Minister to provide a list of adaptation mechanisms alongside a description of the aspects of adaptation that they cover. Several stakeholders raised concerns about the absence of climate change adaptation measures from Part 2 of the Bill. The Climate Change Commission for Wales states that the lack of reference to adaptation in the Bill is in marked contrast to the UK Government and the Northern Ireland and Scottish equivalents.

Mae ein gwelliant 80 yn dod o argymhelliad pwyllgor yng Nghyfnod 1 ar i'r Gweinidog ddarparu rhestr o fecanweithiau addasu ochr yn ochr â disgrifiad o'r agweddau ar addasu a gwmpesir ganddynt. Cododd nifer o randdeiliaid bryderon am absenoldeb mesurau addasu newid yn yr hinsawdd o Ran 2 y Bil. Mae Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn nodi bod y diffyg cyfeiriad at addasu yn y Bil yn wahanol iawn i Lywodraeth y DU a'r hyn sy'n gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

Now, in his letter to the committee dated 3 September, the Minister said that there are no provisions on adaptation in the Bill as there are other mechanisms in the Bill and in other legislation to account for adaptations, such as the future generations Act and the UK Climate Change Act 2008. The committee believes, though, that this isn't clear, or at least that it isn't clear that all aspects are covered by existing mechanisms, for example the adaptation of the energy sector or nationally significant infrastructure such as key rail and water infrastructure. I therefore propose we add a specific section on this to address this as articulated by the committee.

Nawr, yn ei lythyr at y pwyllgor dyddiedig 3 Medi dywedodd y Gweinidog nad oes unrhyw ddarpariaethau ar addasu yn y Bil gan fod mecanweithiau eraill yn y Bil ac mewn deddfwriaeth arall i roi cyfrif am addasiadau, megis y Ddeddf cenedlaethau'r dyfodol a Deddf Newid yn yr Hinsawdd y DU 2008. Mae'r pwyllgor yn credu, fodd bynnag, nad yw hyn yn glir, neu o leiaf nad yw'n glir bod pob agwedd yn cael eu cwmpasu gan fecanweithiau presennol, er enghraifft addasu'r sector ynni neu'r seilwaith o bwys cenedlaethol, megis seilwaith rheilffyrdd a dŵr allweddol. Cynigiaf felly ein bod yn ychwanegu adran benodol ar hyn i fynd i'r afael â hyn fel y'i mynegwyd gan y pwyllgor.

I'll be supporting amendments 46, 47 and 48 from William Powell. It's right that we're explicit about the meaning of renewable sources on the face of the Bill. I welcome Welsh Government amendment 18 to be clear that the final statement for each carbon budgetary period includes an analysis according to the areas of responsibility of each of the Welsh Ministers. That, I think, will help ensure that all Ministers do all they can to play their part in meeting our carbon reduction targets.

Byddaf yn cefnogi gwelliannau 46, 47 a 48 gan William Powell. Mae'n iawn ein bod yn eglur am ystyr ffynonellau adnewyddadwy ar wyneb y Bil. Rwy'n croesawu gwelliant 18 Llywodraeth Cymru i fod yn glir bod y datganiad terfynol ar gyfer pob cyfnod cyllidebol carbon yn cynnwys dadansoddiad yn ôl meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru. Bydd hynny, rwy'n credu, yn helpu i sicrhau bod pob Gweinidog yn gwneud popeth o fewn ei allu i chwarae ei ran wrth fodloni ein targedau lleihau carbon.

17:45

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I speak to amendments 46, 4, 47 and 48 within this group. At Stage 2, we discussed the lack of detail included in section 39 of the Bill relating to the reporting by Welsh Ministers on compliance with carbon budgets. This is a vital part of the legislation, as it provides a framework to ensure that the Welsh Government is developing sufficiently within the policy framework to meet its targets and is reporting against those targets, and doing so in a transparent fashion.

Siaradaf am welliannau 46, 4, 47 a 48 yn y grŵp hwn. Yn ystod Cyfnod 2, buom yn trafod y diffyg manylion a gynhwysir yn adran 39 y Bil sy'n ymwneud ag adrodd gan Weinidogion Cymru ar gydymffurfio â chyllidebau carbon. Mae hon yn rhan hanfodol o'r ddeddfwriaeth, gan ei bod yn darparu fframwaith i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn datblygu yn ddigonol o fewn y fframwaith polisi er mwyn cyrraedd ei thargedau ac yn adrodd yn erbyn y targedau hynny, ac yn gwneud hynny mewn ffordd dryloyw.

We welcomed, at Stage 2, the fact that it must cover the areas of responsibility for each Welsh Minister, and this is certainly a positive development. But I maintain that more detail still is required here, and I am proposing in amendment 46, and in the associated amendment 48, that the report should cover energy efficiency, energy generation including renewable sources of energy, land use and transport. All of these areas will make a contribution, and a significant contribution, to the ability we have to meet carbon budgets, and it is only right that they are specified here in this way.

Roeddem yn croesawu, yng Nghyfnod 2, y ffaith bod yn rhaid iddo ymdrin â'r meysydd cyfrifoldeb ar gyfer pob un o Weinidogion Cymru, ac mae hyn yn sicr yn ddatblygiad cadarnhaol. Ond rwy'n dadlau bod yn dal i fod angen mwy o fanylder yn y fan yma, ac rwy'n cynnig yng ngwelliant 46, ac yn y gwelliant cysylltiedig 48, y dylai'r adroddiad gwmpasu effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu ynni gan gynnwys ffynonellau ynni adnewyddadwy, defnydd tir a thrafnidiaeth. Bydd pob un o'r meysydd hyn yn gwneud cyfraniad, a chyfraniad sylweddol, at y gallu sydd gennym i fodloni cyllidebau carbon, ac nid yw ond yn iawn eu bod yn cael eu nodi yma yn y modd hwn.

Amendment 4, on consumption emissions, was another area we were able to work on with the Minister following on from Stage 2, and I'm pleased that I've had indications that this will enjoy ministerial support today. We heard, as an environment committee, that emissions from goods and services that are consumed here in Wales should be counted and reported upon in addition to the terrestrial emissions that Wales makes. This more accurately reflects our own carbon footprint, rather than measuring only what emissions are produced here in Wales. For that reason, reaching agreement with the Welsh Government on this issue remained, for us, a high priority. I hope this amendment will enjoy opposition support, too.

Mae gwelliant 4, ar allyriadau treuliant, yn faes arall yr oeddem yn gallu gweithio arno gyda'r Gweinidog yn dilyn ymlaen o Gyfnod 2, ac rwy'n falch fy mod wedi cael arwyddion y bydd hwn yn mwynhau cefnogaeth weinidogol heddiw. Clywsom, fel pwyllgor yr amgylchedd, y dylai allyriadau o nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio yma yng Nghymru gael eu cyfrif ac y dylid adrodd arnynt yn ychwanegol at yr allyriadau daearol y mae Cymru'n eu gwneud. Mae hyn yn adlewyrchu ein hôl troed carbon ein hunain yn fwy cywir, yn hytrach na mesur dim ond yr allyriadau sy'n cael eu cynhyrchu yma yng Nghymru. Am y rheswm hwnnw, roedd dod i gytundeb â Llywodraeth Cymru ar y mater hwn yn parhau i fod, i ni, yn flaenoriaeth uchel. Rwy'n gobeithio y bydd y gwelliant hwn yn mwynhau cefnogaeth y gwrthbleidiau, hefyd.

Amendment 47 is one that I've re-tabled from Stage 2. It seeks to enshrine in the Bill a requirement for a carbon assessment of fiscal budgets, requiring Welsh Ministers to produce a report describing the direct and indirect impacts on greenhouse gas emissions of its expenditure plans. This is provided for in the Climate Change (Scotland) Act 2009, and this wording is mirrored here.

Mae gwelliant 47 yn un yr wyf i wedi'i ail-gyflwyno o Gyfnod 2. Mae'n ceisio ymgorffori gofyniad yn y Bil am asesiad carbon o gyllidebau ariannol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad yn disgrifio effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ei gynlluniau gwariant. Darperir ar gyfer hyn yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd (yr Alban) 2009, ac mae'r geiriad hwn yn cael ei adlewyrchu yma.

This is a useful mechanism to consider the emission impact of Government spending and policies, which helps to mainstream this consideration into everyday Government business. It is a similar tool to the current duty for an equality impact assessment of the fiscal budget, and I very much hope that it will enjoy support around this Chamber this afternoon.

Mae hwn yn ddull defnyddiol i ystyried effaith allyriadau gwariant a pholisïau Llywodraeth, sy'n helpu i brif ffrydio'r ystyriaeth hon i mewn i fusnes bob dydd y Llywodraeth. Mae'n arf tebyg i'r ddyletswydd bresennol ar gyfer asesiad effaith cydraddoldeb o'r gyllideb ariannol, ac rwy'n gobeithio'n fawr y bydd yn mwynhau cefnogaeth o amgylch y Siambr hon y prynhawn yma.

We will be supporting all other amendments in this group. Particularly important are amendments 62, 78 and 79 around the annual reporting mechanism. Existing reports by the Welsh Government with regard to action on climate change currently happen on an annual basis, and with a good level of momentum needed to ensure strong and early action towards meeting emissions targets, it is, I would argue, essential that detailed reports are issued on an annual basis.

Byddwn yn cefnogi pob gwelliant arall yn y grŵp hwn. Yn arbennig o bwysig y mae gwelliannau 62, 78 a 79 ynghylch y mecanwaith adrodd blynyddol. Mae adroddiadau presennol gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â gweithredu ar newid yn yr hinsawdd yn digwydd ar hyn o bryd yn flynyddol, a chan fod angen lefel dda o fomentwm i sicrhau bod camau cadarn a chynnar tuag at gyrraedd targedau allyriadau, mae, byddwn yn dadlau, yn hanfodol bod adroddiadau manwl yn cael eu rhoi ar sail flynyddol.

17:48

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I ask Members to support my amendment 18 and William Powell's non-Government amendment 4. Amendment 18 will enhance the Bill by requiring Welsh Ministers' assessment to cover the areas of responsibility of each of the Welsh Ministers. This will bring section 41 in line with section 39 and will, therefore, ensure that each Minister takes ownership of meeting their carbon budgets.

Gofynnaf i Aelodau gefnogi fy ngwelliant 18 a gwelliant 4 heb fod yn un y Llywodraeth William Powell. Bydd gwelliant 18 yn gwella'r Bil trwy fynnu asesiad Gweinidogion Cymru i ymdrin â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn dod ag adran 41 yn unol ag adran 39, a bydd, felly, yn sicrhau bod pob Gweinidog yn cymryd perchnogaeth o ddiwallu eu cyllidebau carbon.

Amendment 4 reflects the committee recommendation 31 in the Stage 1 report, and requires Welsh Ministers to include in these statements information on emissions from the consumption and use of goods and services. We support that, too.

Mae gwelliant 4 yn adlewyrchu argymhelliad pwyllgor 31 yn yr adroddiad Cyfnod 1, ac yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnwys gwybodaeth yn y datganiadau hyn am allyriadau o dreuliant a defnydd o nwyddau a gwasanaethau. Rydym yn cefnogi hwnnw, hefyd.

I think, again, this is another section that received much debate during the previous stages of the committee. We agreed to disagree at that point, too. A number of the non-Government amendments seek to introduce new reporting duties in Part 2. The effects of these amendments would be a diversion of resources from the primary focus of Part 2, which should be about making progress against the overarching targets, implementing them and achieving the carbon reduction budgets, rather than the overly bureaucratic legal requirement to only report.

Rwy'n credu, unwaith eto, bod hon yn adran arall y bu llawer o drafod arni yn ystod cyfnodau blaenorol y pwyllgor. Gwnaethom gytuno i anghytuno ar y pwynt hwnnw, hefyd. Mae nifer o'r gwelliannau nad ydynt yn rhai y Llywodraeth yn ceisio cyflwyno dyletswyddau adrodd newydd yn Rhan 2. Byddai effeithiau'r gwelliannau hyn yn golygu gwyro adnoddau oddi wrth brif bwyslais Rhan 2, a ddylai fod yn ymwneud â gwneud cynnydd yn erbyn y targedau cyffredinol, eu gweithredu a chyflawni'r cyllidebau lleihau carbon, yn hytrach na'r gofyniad cyfreithiol gor-fiwrocrataidd i adrodd yn unig.

I would ask Members to consider the amendments that they've tabled and to consider not moving them in this section, but, again, I am grateful for the information that we've received back from committee that has enabled us to table amendments in this section, and the non-Government amendments, which have been supported in many of the elements with regard to this.

Gofynnaf i'r Aelodau ystyried y gwelliannau y maent wedi'u cyflwyno ac ystyried peidio â'u cynnig yn yr adran hon, ond, unwaith eto, rwy'n ddiolchgar am y wybodaeth yr ydym wedi'i derbyn yn ôl o'r pwyllgor sydd wedi ein galluogi i gyflwyno gwelliannau yn yr adran hon, a'r gwelliannau nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth, sydd wedi cael eu cefnogi mewn nifer o'r elfennau o ran hyn.

I would also concur with the comments made by Llyr Gruffydd in regard to my letter, where I explained that we have many reporting processes, particularly around the FG Act and the UK Climate Change Act. These are already in place, and we are not seeking to remove them in this statute as we move forward. I ask Members to support the two amendments that I made reference to earlier on. I formally move.

Byddwn hefyd yn cytuno â'r sylwadau a wnaed gan Llyr Gruffydd ynglŷn â fy llythyr, lle yr esboniais fod gennym lawer o brosesau adrodd, yn enwedig o gwmpas Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Newid yn yr Hinsawdd y DU. Mae'r rhain eisoes ar waith, ac nid ydym yn ceisio eu dileu yn y statud hwn wrth inni symud ymlaen. Gofynnaf i Aelodau gefnogi'r ddau welliant y cyfeiriais atynt yn gynharach. Cynigiaf yn ffurfiol.

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Janet Haworth to reply.

Janet Haworth i ymateb.

17:51

## Janet Haworth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Let me first put on record that I have yet to enjoy the pleasure of a dalliance with Messrs Owen and Lawson, and I hope, Presiding Officer, that 'dalliance' is not one of these unparliamentary words. I suppose it depends on the context. As I haven't enjoyed a context, I think it's probably okay.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Gadewch i mi yn gyntaf ei roi ar y cofnod fy mod eto i fwynhau'r pleser o fflyrtian gyda'r Meistri Owen a Lawson, ac rwy'n gobeithio, Lywydd, nad yw 'fflyrtian' yn un o'r geiriau anseneddol hyn. Mae'n debyg ei fod yn dibynnu ar y cyd-destun. Gan nad wyf wedi mwynhau cyd-destun, rwy'n credu ei fod yn ôl pob tebyg yn iawn.

To return to the amendments—. [Interruption.] Concentrate; the fun is over. Amendment 62 seeks to ensure that there is a reality check in this Bill. It is very easy to publicise targets of 80 per cent, and there's nothing wrong with having a vision of 100 per cent, but, Members, that is what it is—merely a vision. Annual reporting is the best way to ensure that we are heading in the right direction, and calls for timely intervention if we are not.

I ddychwelyd at y gwelliannau—. [Torri ar draws.] Canolbwyntiwch; mae'r hwyl drosodd. Mae gwelliant 62 yn ceisio sicrhau bod gwiriad o realiti yn y Bil hwn. Mae'n hawdd iawn rhoi cyhoeddusrwydd i dargedau 80 y cant, a does dim byd o'i le mewn cael gweledigaeth o 100 y cant, ond, Aelodau, dyna beth ydyw—dim ond gweledigaeth. Adrodd yn flynyddol yw'r ffordd orau o sicrhau ein bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir, a galwadau am ymyriadau prydlon os nad ydym.

I need to correct also Llyr Gruffydd's suggestion that I am a climate change denier, having spent time with the two aforementioned gentlemen. We can't just do a slopey-shoulder job and say, 'The floods are the result of climate change.' We need now to investigate fully what has happened in those events, and we need to look at the different ways that we can bring people together to contribute to mitigating those floods.

Mae angen i mi hefyd gywiro awgrym Llyr Gruffydd fy mod yn gwadu newid yn yr hinsawdd, ar ôl treulio amser gyda'r ddau ŵr bonheddig uchod. Ni allwn godi'n hysgwyddau a dweud, 'Mae'r llifogydd yn ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.' Mae angen yn awr i ni ymchwilio'n llawn beth sydd wedi digwydd yn y digwyddiadau hynny, ac mae angen inni edrych ar y gwahanol ffyrdd y gallwn ddod â phobl at ei gilydd i gyfrannu at liniaru'r llifogydd hynny.

We depend on the environment, which is why this Bill is very important, and the environment depends on us. Time and time again, Members, today, the closeness of the vote show that the progress of this Bill has not been an easy one. It has moved forward relying on the constitutional casting of a casting vote being required to be cast in favour of this Labour Government's passing of this Bill. Now, Minister, that must tell you that some of the discussion today needs to be taken very seriously, because we shouldn't be in a position where we're getting to this Stage of the Bill and it has to rely on a constitutional casting of a vote to get it through. Thank you.

Rydym yn dibynnu ar yr amgylchedd, a dyna pam mae'r Bil hwn yn bwysig iawn, ac mae'r amgylchedd yn dibynnu arnom ni. Dro ar ôl tro, Aelodau, heddiw, mae agosrwydd y bleidlais yn dangos nad yw cynnydd y Bil hwn wedi bod yn un hawdd. Mae wedi symud ymlaen gan ddibynnu ar fwrw cyfansoddiadol ar bleidlais fwrw yn ofynnol i gael ei bwrw o blaid pasio'r Bil hwn gan y Llywodraeth Lafur hon. Nawr, Weinidog, y mae'n rhaid bod hynny'n dweud wrthych fod angen cymryd rhywfaint o'r drafodaeth heddiw o ddifrif, oherwydd ni ddylem fod mewn sefyllfa lle'r ydym yn cyrraedd y Cyfnod hwn o'r Bil ac mae'n rhaid iddo ddibynnu ar fwrw pleidlais gyfansoddiadol iddo gael ei basio. Diolch.

17:53

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 62 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. The voted in favour 26. There voted against 26. I cast my vote in accordance with Standing Orders against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 62 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid. Pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn unol â'r Rheolau Sefydlog yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 62: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 62 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 62.

Result of the vote on amendment 62.

17:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 16.

Weinidog, gwelliant 16.

*Cynigiwyd gwelliant 16 (Carl Sargeant).*

*Amendment 16 (Carl Sargeant) moved.*

17:54

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 16 be agreed. Does any Member object? Amendment 16 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 16 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff gwelliant 16 ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 16 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 16 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 73.

Llyr Gruffydd, gwelliant 73.

*Cynigiwyd gwelliant 73 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 73 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:54

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 73 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13. There voted against 39. Therefore, the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 73 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid. Pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 73: O blaid 13, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 73 not agreed: For 13, Against 39, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 73.

Result of the vote on amendment 73.

17:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

William Powell, amendment 45.

William Powell, gwelliant 45.

*Cynigiwyd gwelliant 45 (William Powell).*

*Amendment 45 (William Powell) moved.*

17:55

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 45 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13, there voted against 39. Therefore the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 45 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid, pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 45: O blaid 13, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 45 not agreed: For 13, Against 39, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 45.

Result of the vote on amendment 45.

17:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 74.

Llyr Gruffydd, gwelliant 74.

*Cynigiwyd gwelliant 74 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 74 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:55 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 74 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13, there voted against 39. Therefore the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 74 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid, pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 74: O blaid 13, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 74 not agreed: For 13, Against 39, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 74.

Result of the vote on amendment 74.

17:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 75.

Llyr Gruffydd, gwelliant 75.

*Cynigiwyd gwelliant 75 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 75 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:55 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 75 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 75 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 75: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 75 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 75.

Result of the vote on amendment 75.

17:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Janet Haworth, amendment 63.

Janet Haworth, gwelliant 63.

*Cynigiwyd gwelliant 63 (Janet Haworth).*

*Amendment 63 (Janet Haworth) moved.*

17:56 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

17:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 63 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 26. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 63 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 63: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 63 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 63.

Result of the vote on amendment 63.

17:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 17.

Weinidog, gwelliant 17.

*Cynigiwyd gwelliant 17 (Carl Sargeant).*

*Amendment 17 (Carl Sargeant) moved.*

17:56 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 17 be agreed. Does any Member object? Then amendment 17 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 17 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 17 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 17 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 17 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 76.

Llyr Gruffydd, gwelliant 76.

*Cynigiwyd gwelliant 76 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 76 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:56 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 76 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13, there voted against 26, there were 13 abstentions. Therefore, amendment 76 falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 76 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn, gwnaeth 13 ymatal. Felly, mae gwelliant 76 yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 76: O blaid 13, Yn erbyn 26, Ymatal 13.*

*Amendment 76 not agreed: For 13, Against 26, Abstain 13.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 76.

Result of the vote on amendment 76.

17:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llyr Gruffydd, amendment 77.

Llyr Gruffydd, gwelliant 77.

*Cynigiwyd gwelliant 77 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 77 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:57 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 77 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13, there voted against 39. Therefore the amendment falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 77 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid, pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 77: O blaid 13, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 77 not agreed: For 13, Against 39, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 77.

Result of the vote on amendment 77.

17:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

William Powell, amendment 46.

William Powell, gwelliant 46.

*Cynigiwyd gwelliant 46 (William Powell).*

*Amendment 46 (William Powell) moved.*

17:57 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 46 is not agreed, amendment 48 falls. The question is that amendment 46 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 13, there voted against 39. Therefore the amendment falls.

Os na chaiff gwelliant 46 ei dderbyn, bydd gwelliant 48 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 46 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid, pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 46: O blaid 13, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 46 not agreed: For 13, Against 39, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 46.

Result of the vote on amendment 46.

*Methodd gwelliant 48.*

*Amendment 48 fell.*

17:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, amendment 18.

Weinidog, gwelliant 18.

*Cynigiwyd gwelliant 18 (Carl Sargeant).*

*Amendment 18 (Carl Sargeant) moved.*

17:58 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Formally.

Yn ffurfiol.

17:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 18 be agreed. Does any Member object? Then amendment 18 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 18 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 18 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 18 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 18 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

William Powell, amendment 4.

William Powell, gwelliant 4.

*Cynigiwyd gwelliant 4 (William Powell).*

*Amendment 4 (William Powell) moved.*

17:58 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Move.

Cynnig.

17:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 4 be agreed. Does any Member object? Then amendment 4 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 4 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 4 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, amendment 19.

Weinidog, gwelliant 19.

*Cynigiwyd gwelliant 19 (Carl Sargeant).*

*Amendment 19 (Carl Sargeant) moved.*

17:58 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Formally.

Yn ffurfiol.

17:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 19 be agreed. Does any Member object? Then amendment 19 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 19 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 19 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 19 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 19 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Llyr Gruffydd, amendment 78.

Llyr Gruffydd, gwelliant 78.

*Cynigiwyd gwelliant 78 (Llyr Gruffydd).*

*Amendment 78 (Llyr Gruffydd) moved.*

17:58

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynnig.

Move.

17:58

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

